



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion**  
**The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 16 Gorffennaf 2008**  
**Wednesday, 16 July 2008**

**Cynnwys  
Contents**

- 4 Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro  
Election of Temporary Deputy Presiding Officer
- 4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus  
Questions to the Minister for Finance and Public Service Delivery
- 23 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau  
Questions to Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills
- 43 Datganiad am Ad-drefnu Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru  
Statement on the Reconfiguration of Health Services in Wales
- 61 Cymeradwyo Gorchymyn y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru (Diwygiadau Amrywiol) 2008  
Approval of the School Curriculum in Wales (Miscellaneous Amendments) Order 2008
- 62 Atal Rheolau Sefydlog  
Suspension of Standing Orders
- 63 Diwygio Rheolau Sefydlog  
Revision of Standing Orders
- 63 Cytuno ar Ganllawiau i'r Aelodau ynglŷn â Chynnal Trafodion y Cynulliad yn y Modd Priodol mewn Perthynas â Phwyllgorau Gweithdrefn Cynulliad Arbennig  
Agreement of Guidance for Members on the Proper Conduct of Proceedings in Relation to Special Assembly Procedure Committees
- 64 Ethol Aelodau i Bwyllgorau  
Election of Members to Committees
- 64 Atal Rheolau Sefydlog  
Suspension of Standing Orders
- 65 Sefydlu ac Ethol Pwyllgor Gweithdrefn Cynulliad Arbennig  
Establishment and Election of a Special Assembly Procedure Committee
- 66 Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar Ariannu Sefydladau'r Sector Gwirfoddol yng Nghymru  
The Communities and Culture Committee's Report on the Funding of Voluntary Organisations in Wales
- 81 Adroddiad y Pwyllgor Darlleu ar Ddyfodol Darlleu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru  
The Broadcasting Committee's Report on the Future of Public Service Broadcasting in Wales
- 103 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Ffermio yng Nghymru  
Welsh Conservatives Debate: Welsh Farming

- |     |   |
|-----|---|
| 126 | Cyfnod Pleidleisio<br>Voting Time   |
| 128 | Dadl Fer: Sialens Gwasanaethau Iechyd Trawsffiniol<br>Short Debate: The Challenge of Cross-border Health Services |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambra. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*  
*The Assembly met at 2 p.m. with the Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**The Deputy Presiding Officer:** I call the Assembly to order. **Y Dirprwy Lywydd:** Galwaf y Cynulliad i drefn.

### **Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro** **Election of Temporary Deputy Presiding Officer**

**The Deputy Presiding Officer:** In the absence of the Presiding Officer, I will assume his functions today and I ask the Assembly to elect a temporary Deputy Presiding Officer for the duration of today's Plenary. I invite nominations.

**Peter Black:** I nominate William Graham.

**The Deputy Presiding Officer:** Are there any other nominations? I see that there are not. Therefore, I declare that William Graham is elected as the temporary Deputy Presiding Officer for the duration of today's Plenary.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus** **Questions to the Minister for Finance and Public Service Delivery**

#### **Financial Management**

**Q1 Darren Millar:** Will the Minister make a statement on financial management across his portfolio? OAQ(3)0439(FPS)

**The Minister for Finance and Public Service Delivery (Andrew Davies):** The Assembly Government has a strong record in financial management. We continue to use our resources efficiently and effectively to improve public services across Wales, in line with our 'One Wales' agenda.

**Darren Millar:** I am certain that you would agree that, when there is a tight budget settlement, you have a responsibility to ensure that taxpayers' money is spent efficiently so that they get maximum benefit from the Assembly Government. Given the need for this, can you tell us whether you have improved the Assembly Government's

#### **Rheolaeth Ariannol**

**C1 Darren Millar:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reolaeth ariannol ar draws ei bortffolio? OAQ(3)0439(FPS)

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Mae gan Lywodraeth y Cynulliad hanes llwyddiannus ym maes rheolaeth ariannol. Yr ydym yn parhau i ddefnyddio ein hadnoddau yn effeithlon ac yn effeithiol er mwyn gwella ein gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru, yn unol â'n hagenda 'Cymru'n Un'.

**Darren Millar:** Yr wyf yn sicr y byddech yn cytuno, pan fydd setliad cyllideb tynn, eich bod yn gyfrifol am sicrhau bod arian trethdalwyr yn cael ei wario'n effeithlon fel eu bod yn elwa i'r eithaf ar Lywodraeth y Cynulliad. Ac ystyried yr angen i wneud hyn, a allwch ddweud wrthym a ydych wedi gwella system dreuliau Llywodraeth y

expenses system to address the lack of control and the failure to keep central records of travel expenses that have been incurred by members of staff using corporate and personal credit cards? You may recall that the leader of the opposition raised this matter in May last year. Surely you have had enough time to implement something by now.

**Andrew Davies:** If you feel that there are concerns that we are not addressing, I would be more than happy for you to write to me and I will follow those up and get back to you with a reply.

**Alun Ffred Jones:** O ran y gronfa fuddsoddi strategol sy'n cael ei chynllunio ar hyn o bryd, pryd fyddwch chi mewn sefyllfa i wneud datganiad ynglŷn â'r strategaeth neu i gyhoeddi cynlluniau ar gyfer y gronfa honno?

**Andrew Davies:** I am delighted that we have made significant progress in this area. The Cabinet committee that was established to consider the strategic capital investment fund, which I chair, has met on a few occasions, and we are actively considering projects across the Assembly Government. However, that does not mean that we cannot consider projects outside the Government. I hope to be in a position in September or early in the autumn to make an announcement on the first projects that have been approved under the strategic capital investment framework.

**Jenny Randerson:** Is it good financial management to allocate a 1.7 per cent increase across the board for further education? Some colleges are facing a reduction in their allocation, and many face a standstill budget. How are they supposed to deliver a good public service and maintain the Assembly Government's skills agenda with such a poor financial settlement?

**Andrew Davies:** Clearly, the financial settlement that we now have under the comprehensive spending review is more constrained than in previous years. Allocations within that is a matter for me and

Cynulliad er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg rheolaeth a'r methiant i gadw cofnodion canolog o gostau teithio wrth i aelodau o staff ddefnyddio cardiau credyd personol a chorfforaethol? Efallai y byddwch yn cofio i arweinydd yr wrthblaid godi'r mater hwn ym mis Mai y llynedd. Siawns eich bod wedi cael digon o amser i roi rhywbeth ar waith erbyn hyn.

**Andrew Davies:** Os ydych yn teimlo bod problemau nad ydym yn mynd i'r afael â hwy, byddwn yn fwy na pharod ichi ysgrifennu ataf a byddaf yn ymchwilio iddynt ac yn ysgrifennu'n ôl atoch.

**Alun Ffred Jones:** In terms of the strategic investment fund that is currently being planned, when will you be in a position to make a statement on the strategy or to announce plans for that fund?

**Andrew Davies:** Yr wyf wrth fy modd ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn. Mae pwylgor y Cabinet a sefydlwyd er mwyn ystyried y gronfa fuddsoddi cyfalaf strategol, yr wyf yn gadeirydd arno, wedi cyfarfod ychydig o weithiau, ac yr ydym wrthi'n ystyried prosiectau ar draws Llywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na allwn ystyried prosiectau y tu allan i'r Llywodraeth. Gobeithiaf y byddaf mewn sefyllfa ym mis Medi neu'n gynnar yn yr hydref i wneud cyhoeddiad ar y prosiectau cyntaf sydd wedi'u cymeradwyo o dan y fframwaith buddsoddi cyfalaf strategol.

**Jenny Randerson:** A yw'n arfer rheolaeth ariannol da i ddyrannu cynnydd o 1.7 y cant yn gyffredinol ar gyfer addysg bellach? Mae rhai colegau'n wynebu gostyngiad yn eu dyraniad, ac mae llawer ohonynt yn wynebu cyllideb ddigywnewid. Sut y mae disgwyl iddynt gyflwyno gwasanaeth cyhoeddus da yn ogystal â chynnal agenda sgiliau Llywodraeth y Cynulliad gyda setliad ariannol mor wael?

**Andrew Davies:** Yn amlwg, mae'r setliad ariannol sydd gennym yn awr o dan yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yn fwy cyfyngedig o'i gymharu â'r blynnyddoedd blaenorol. Mae'r dyraniadau o fewn hynny

the individual spending Minister in terms of what we see as priorities. In my discussions with the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills, we have considered the needs of further education. Clearly, there is a very substantial agenda with the Webb review and our response to it, in ‘Skills That Work for Wales’. We are confident that the total resources—not just the resources available through mainstream funding, but through other sources too, such as European funding—will allow us to deliver on our strategic priorities as a Government, including those in the FE sector.

**Jenny Randerson:** There are many parts of Wales that will not benefit from European funding, and which face an appalling financial settlement for FE next year. Surely, you recognise that FE colleges have an obligation to their staff for their pay and conditions, and to their students for the quality of the courses that they offer and the conditions in which those courses are offered. Do you recognise that Wales is falling badly behind England in capital investment for FE as well as in this year’s revenue settlement?

**Andrew Davies:** As I said, it is not just the core funding that is available to FE. There are other forms of funding available—I mentioned European funding, but there is also access to capital expenditure through the strategic capital investment board. My colleague, Jane Hutt, along with other Ministers, will be making bids for investment in further and higher education from that fund. One of the key issues for me as the Minister for finance is to ensure that we get value for money. We need to look at the existing infrastructure and resources and at whether provision is being delivered in the most efficient way. That is something that I have been, and will be, discussing with the Minister for education to make sure that we get value for money for the Welsh pound.

#### **Additional Funding for Higher Education**

**Q2 Kirsty Williams:** What representations

yn fater i mi a’r Gweinidog unigol sy’n gyfrifol am wariant o ran yr hyn yr ydym ni’n eu hystyried fel blaenoriaethau. Yn fy nhrafodaethau gyda’r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, yr ydym wedi ystyried anghenion addysg bellach. Yn amlwg, mae agenda gynhwysfawr iawn i gyd-fynd ag adolygiad Webb a’n hymateb iddo, yn ‘Sgiliau sy’n Gweithio i Gymru’. Yr ydym yn hyderus y bydd cyfanswm yr adnoddau—nid dim ond yr adnoddau sydd ar gael drwy ariannu prif ffrwd, ond drwy ffynonellau eraill hefyd, megis arian Ewropeaidd—yn ein galluogi i gyflawni ein blaenoriaethau strategol fel Llywodraeth, gan gynnwys y rheini yn y sector AB.

**Jenny Randerson:** Mae llawer o rannau o Gymru na fyddant yn cael budd o arian Ewropeaidd, ac sy’n wynebu setliad ariannol ofnadwy ar gyfer AB y flwyddyn nesaf. Siawns eich bod yn cydnabod bod colegau AB yn gyfrifol am gyflog ac amodau eu staff, safon y cyrsiau a gynigir i’r myfyrwyr, a’r amodau sydd ynghlwm â’r cyrsiau hynny. A ydych yn cydnabod bod Cymru ymhell ar ôl Lloegr o ran y buddsoddiad cyfalaf a gynigir mewn AB yn ogystal ag yn y setliad refeniw eleni?

**Andrew Davies:** Fel y dywedais, nid y cyllid craidd yn unig sydd ar gael i AB. Mae mathau eraill o arian ar gael—soniai am arian Ewropeaidd, ond gellir cael gafaol ar wariant cyfalaf hefyd drwy’r bwrdd buddsoddi cyfalaf strategol. Bydd fy nghyd-Weinidog, Jane Hutt, ynghyd â Gweinidogion eraill, yn gwneud ceisiadau am fuddsoddiad mewn addysg bellach ac addysg uwch o’r gronfa honno. Un o’r materion allweddol imi fel y Gweinidog dros gyllid yw sicrhau ein bod yn cael gwerth am arian. Mae angen inni edrych ar y seilwaith a’r adnoddau presennol ac ar p’un a yw’r ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno yn y modd mwyaf effeithlon. Mae hynny’n rhywbeth yr wyf wedi bod yn ei drafod, ac y byddaf yn ei drafod, gyda’r Gweinidog dros addysg er mwyn sicrhau ein bod yn cael gwerth am arian am y bunt yng Nghymru.

#### **Cyllid Ychwanegol ar gyfer Addysg Uwch**

**C2 Kirsty Williams:** Pa sylwadau mae’r

has the Minister received from the Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills regarding the provision of additional funding for higher education? OAQ(3)0403(FPS)

**Andrew Davies:** I have regular discussions with the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills to discuss budget and expenditure matters. I also meet with representatives of the Welsh higher education sector.

**Kirsty Williams:** I am sure that they will have told you during those discussions that there is a £61 million funding gap between higher education in Wales and higher education in England. In your previous role, you would have well understood the need for the Welsh economy to have higher-level skills. Has Jane Hutt asked you specifically to allocate funding to higher education to begin to address this funding gap?

**Andrew Davies:** As I said, we are considering key sectors, such as higher education. That is why Jane Hutt has established the advisory committee, under the chairmanship of the vice-chancellor of Bangor University, and chair of Higher Education Wales, Professor Merfyn Jones, to look at student finance issues and the longer term, strategic issues, which will obviously include funding. As I said in my answer to Jenny Randerson in relation to FE, we need to look at the totality of expenditure in the HE sector. Universities and higher education institutions can access additional sources of funding, over and above the grant that they receive through the Higher Education Funding Council for Wales. This includes European funding and funding from research councils.

**Janet Ryder:** There are two emerging initiatives in higher education that I hope that you will consider kindly. First, I hope that you will join me in congratulating the new Glyndŵr University, which has just received its status, and which will need support. This is a fantastic development for north-east Wales. The other initiative is the need to start a proper consultation on the form and structure of a federal college for Wales. This

Gweinidog wedi'u cael gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ynghylch darparu cyllid ychwanegol ar gyfer addysg uwch? OAQ(3)0403(FPS)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i drafod materion yn ymwneud â chyllideb a gwariant. Yr wyf hefyd yn cyfarfod â chynrychiolwyr o sector addysg uwch Cymru.

**Kirsty Williams:** Yr wyf yn siŵr y byddant wedi dweud wrthych yn ystod y trafodaethau hynny bod bwlch cyllido o £61 miliwn rhwng addysg uwch yng Nghymru ac addysg uwch yn Lloegr. Yn eich rôl flaenorol, byddech wedi deall yn iawn yr angen i economi Cymru fod â lefel sgiliau uwch. A yw Jane Hutt wedi gofyn ichi'n benodol ddyrrannu cyllid i addysg uwch er mwyn dechrau mynd i'r afael â'r bwlch cyllido hwn?

**Andrew Davies:** Fel y dywedais, yr ydym yn ystyried sectorau allweddol, megis addysg uwch. Dyna pam mae Jane Hutt wedi sefydlu'r pwylgor cynghori, o dan gadeiryddiaeth is-ganghellor Prifysgol Bangor, a chadeirydd Addysg Uwch Cymru, yr Athro Merfyn Jones, i edrych ar faterion cyllid myfyrwyr a'r materion strategol, tymor hwy, a fydd yn amlwg yn cynnwys cyllid. Fel y dywedais yn fy ateb i Jenny Randerson yng nghyswilt AB, mae angen inni ystyried cyfanswm y gwariant yn y sector addysg uwch. Gall prifysgolion a sefydliadau addysg uwch gael gafael ar ffynonellau ychwanegol o arian, yn ychwanegol i'r grant y maent yn ei gael drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae hyn yn cynnwys arian Ewropeaidd ac arian gan gynghorau ymchwil.

**Janet Ryder:** Mae dwy fenter sy'n deillio o addysg uwch yr wyf yn gobeithio y byddwch yn eu hystyried yn garedig. I ddechrau, gobeithiaf y byddwch yn ymuno â mi i longyfarch y sefydliad newydd, Prifysgol Glyndŵr, ar ennil ei statws diweddar, ac y bydd angen cefnogaeth arni. Mae hwn yn ddatblygiad gwych i ogledd-ddwyrain Cymru. Y fenter arall yw'r angen i ddechrau ar ymgynghoriad priodol ar ffurf ac ar

is much needed for those wishing to study through the medium of Welsh. I hope that, if establishing such a college required extra resources, you would look favourably on it.

strwythur coleg ffederal i Gymru. Mae wirioneddol angen hyn ar gyfer y rheini sy'n dymuno astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Gobeithiaf, pe byddai'n rhaid sicrhau adnoddau ychwanegol i sefydlu coleg o'r fath, y byddech yn ystyried hynny'n ffafriol.

**Andrew Davies:** I am delighted to be able to join you in congratulating Glyndŵr University and its leader, Professor Mike Scott, for the sterling work that he has undertaken. He has taken that institution to a new level. I know that he is in agreement with our strategy.

**Andrew Davies:** Yr wyf wrth fy modd y gallaf ymuno â chi i longyfarch Prifysgol Glyndŵr a'i harweinydd, yr Athro Mike Scott, ar y gwaith rhagorol y mae wedi'i gyflawni. Mae wedi mynd â'r sefydliad hwnnw i lefel newydd. Gwn ei fod yn cytuno â'n strategaeth.

12.40 p.m.

With regard to the federal college, I understand that the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills issued a written statement this morning. I am sure that Members will have read that and will be conversant with what it says.

O ran y coleg ffederal, caf ar ddeall i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau gyhoeddi datganiad ysgrifenedig y bore yma. Yr wyf yn siŵr y bydd yr Aelodau wedi darllen hwnnw ac yn gyfarwydd â'r hyn y mae'n ei ddweud.

**The Leader of the Opposition (Nick Bourne):** I also congratulate Mike Scott and the staff and students at Glyndŵr University; it is excellent news. When the Minister said that he agreed with his strategy, I happen to know that he agrees that there is a substantial funding gap, as I think that all vice-chancellors acknowledge—including Merfyn Jones, who is chairing the advisory party that he referred to. Does the Minister recognise that there is a substantial funding gap? This has been acknowledged by previous Assembly Governments, of which he was a part, over the last two years when we looked at the issues arising from the budget round. There could be a dispute about precisely how much this is—although the £61 million referred to is correct, and it will rise to £70 million. That gap is increasing. If we do nothing to plug this gap, we will see a haemorrhaging of students, staff and research funding. I want some satisfaction that this is being taken seriously by the Government and that it is not just being kicked into the long grass with an advisory committee because the money is not there. Coming back to the original question, has the Minister made representations for additional funding? If so, what was your response?

**Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne):** Yr wyf finnau hefyd yn llonyfarch Mike Scott a staff a myfyrwyr Prifysgol Glyndŵr; mae'n newyddion ardderchog. Pan ddywedodd y Gweinidog ei fod yn cytuno â'i strategaeth, yr wyf yn digwydd gwybod ei fod yn cytuno bod bwlch cyllido sylwedol, fel y credaf y mae pob is-ganghellor yn ei gydnabod—gan gynnwys Merfyn Jones, sy'n cadeirio'r tîm cynghorol y cyfeiriodd ato. A yw'r Gweinidog yn cydnabod bod bwlch cyllido sylwedol? Mae Llywodraethau'r Cynulliad yn y gorffennol, yr oedd ef yn rhan ohonynt, wedi cydnabod hyn dros y ddwy flynedd diwethaf pan edrychasom ar y materion a oedd yn codi o gylch y gyllideb. Gellid dadlau ynghylch faint yn union yw hyn—er bod y £61 miliwn y cyfeiriwyd ato yn gywir, a bydd yn codi i £70 miliwn. Mae'r bwlch hwnnw'n cynyddu. Oni fyddwn yn gwneud rhywbeth i gau'r bwlch hwn, byddwn yn wynebu gwaedlif o ran myfyrwyr, staff a chyllid ymchwil. Hoffwn fod yn fodlon bod y Llywodraeth yn ystyried hyn o ddifrif ac nad yw'n cael ei osod o'r neilltu gyda phwyllgor cynghorol gan nad oes arian ar gael. Gan ddychwelyd at y cwestiwn gwreiddiol, a yw'r Gweinidog wedi cyflwyno ceisiadau am gyllid ychwanegol? Os do, beth oedd eich ymateb?

**Andrew Davies:** The very fact that the Minister for education announced this review, chaired by someone of the stature of Professor Merfyn Jones, shows that, as a Government, we understand the challenges faced by the higher education sector. I am aware of that as the Minister for finance, and I am also acutely aware of that given my previous role as Minister for Enterprise, Innovation and Networks. As Kirsty Williams said, the sector is important in developing a knowledge economy in Wales.

It would be premature to prejudge any recommendations that Professor Merfyn Jones and his team bring forward, but the fact that it has been set up acknowledges that there are challenges that need to be addressed. If you look at the totality of funding going in, including student finance, there is a considerable resource that is probably equivalent to that going into higher education in England. However, it is not only a question of Government funding; there are big challenges for the sector itself in terms of access to research excellence, quality-related research money, research council money, and other sources of funding. I am sure that Professor Merfyn Jones will acknowledge that in his report.

**Nick Bourne:** Those resources are available to English universities as well. I accept that other resources are available, but they are available in England in the same way. I come back to the basic question of whether you acknowledge that there is a funding gap. You seemed to do so halfway through your answer, but then altered the ground to say that you do not. It has been acknowledged by successive Ministers for finance, including Sue Essex in the previous Government, that there is a substantial funding gap. Unless that is recognised by the Government, and unless that gap is bridged by the Government in this Assembly, we will suffer a serious position of Welsh higher education institutions haemorrhaging staff, students and research projects unless this is tackled by the Government.

**The Deputy Presiding Officer:** Order.

**Andrew Davies:** Mae'r ffaith bod y Gweinidog dros addysg wedi cyhoeddi'r adolygiad hwn, sydd wedi'i gadeirio gan rywun o statws yr Athro Merfyn Jones, yn dangos ein bod, fel Llywodraeth, yn deall yr heriau sy'n wynebu'r sector addysg uwch. Yr wyf yn ymwybodol o hynny fel y Gweinidog dros gyllid, ac yr wyf hefyd yn ymwybodol iawn o hynny ac ystyried fy'r rôl flaenorol fel y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau. Fel dywedodd Kirsty Williams, mae'r sector yn bwysig o ran datblygu economi wybodaeth yng Nghymru.

Mae'n rhy gynnar rhagfarnu unrhyw argymhellion y bydd yr Athro Merfyn Jones a'i dîm yn eu cyflwyno, ond mae'r ffaith ei fod wedi'i sefydlu yn cydnabod bod heriau y mae angen mynd i'r afael â hwy. Os edrychwr ar gyfanswm y cyllid sy'n cael ei ddyrannu, gan gynnwys cyllid myfyrwyr, mae adnodd sylweddol sydd fwy na thebyg yn cyfateb i'r cyllid sy'n cael ei ddyrannu i addysg uwch yn Lloegr. Fodd bynnag, nid arian gan y Llywodraeth yw'r unig beth y dylid ei ystyried; mae heriau mawr yn wynebu'r sector ei hun o ran mynediad i ragoriaeth ymchwil, arian ymchwil yn ymwneud ag ansawdd, arian y cyngor ymchwil, a ffynonellau ariannol eraill. Yr wyf yn siŵr y bydd yr Athro Merfyn Jones yn cydnabod hynny yn ei adroddiad.

**Nick Bourne:** Mae'r adnoddau hynny ar gael i brifysgolion yn Lloegr hefyd. Derbyniaf fod adnoddau eraill ar gael, ond maent ar gael yn Lloegr yn yr un modd. Dychwelaf at y cwestiwn sylfaenol o p'un a ydych yn cydnabod bod bwlc cyllido ai peidio. Yr oedd yn ymddangos eich bod yn gwneud hynny hanner ffordd drwy eich ateb, ond yna newidiadasoch eich cân gan ddweud nad ydych yn cydnabod hyn. Mae Gweinidogion dros gyllid olynol, gan gynnwys Sue Essex yn y Llywodraeth flaenorol, wedi cydnabod bod bwlc cyllido sylweddol. Oni chaiff hynny ei gydnabod gan y Llywodraeth, ac oni chaiff y bwlc hwnnw ei bontio gan y Llywodraeth yn y Cynulliad hwn, byddwn mewn sefyllfa ddifrifol lle bydd sefydliadau addysg uwch Cymru yn dioddef gwaedlif o ran staff, myfyrwyr a phrosiectau ymchwil oni fydd y Llywodraeth yn mynd i'r afael â hyn.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. A gawn

Could we have a question please?

**Nick Bourne:** It is an important issue.

**The Deputy Presiding Officer:** It is; it is also question time.

**Nick Bourne:** Will you, therefore, acknowledge that there is a funding gap and will you answer the specific question that I put to you: has the funding gap been raised with you by the Minister with a request for more money?

**Andrew Davies:** I thought that it was very much implicit in what I said. There are big challenges, which include the level of funding, or the balance of funding, which is what Merfyn Jones and his team are going to be looking at; namely, whether the totality of the resource going in is equivalent to that which institutions have access to in England. Whether the balance is right is one of the two areas that Merfyn Jones will look at. However, as I said in the second part of my response, the sector needs to be able to raise its game. If you look at equivalent institutions in England, in terms of the quality of research or the employability of graduates, our sector is underperforming in many areas. That is a challenge that we all have to address. We obviously accept that there are issues around the balance of funding. That is being looked at. Collectively, the sector has to work with us in order for us to raise our game.

### End Year Flexibility

**Q3 Alun Cairns:** Will the Minister make a statement on his use of end year flexibility? OAQ(3)0421(FPS)

I welcome the Minister back following his period of ill health.

**Andrew Davies:** End year flexibility is used to support our strategic priorities. However, our aim is to bring expenditure as close to budget as possible and, as a result, generate minimal levels of end year flexibility in any one year.

gwestiwn os gwelwch yn dda?

**Nick Bourne:** Mae'n fater pwysig.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yn wir, ond mae hefyd yn amser gofyn cwestiynau.

**Nick Bourne:** A wnewch, felly, gydnabod y ceir bwlc'h cyllido ac a wnewch ateb y cwestiwn penodol a ofynnais ichi: a yw'r Gweinidog wedi codi mater y bwlc'h cyllido gyda chi gan ofyn am fwy o arian?

**Andrew Davies:** Credwn fod hynny'n amlwg o'r hyn a ddywedais. Ceir heriau mawr, sy'n cynnwys lefel y cyllid, neu gydbwysedd y cyllid, sef yr hyn y bydd Merfyn Jones a'i dîm yn ei ystyried; sef, a yw cyfanswm yr adnoddau a ddyrennir yn cyfateb i'r hyn y gall sefydliadau yn Lloegr gael gafael arno. Mae p'un a yw'r cydbwysedd yn gywir ai peidio yn un o'r ddau faes y bydd Merfyn Jones yn ei ystyried. Fodd bynnag, fel y dywedais yn ail ran fy ateb, mae angen i'r sector berfformio'n well. Os edrychwch ar y sefydliadau cyfatebol yn Lloegr, o ran safon yr ymchwil neu gyflogadwyedd graddedigion, mae ein sector yn tangyflawni mewn llawer o feisydd. Mae honno'n her y mae'n rhaid i bawb ohonom fynd i'r afael â hi. Yr ydym yn amlwg yn derbyn bod materion yn ymwneud â chydbwysedd cyllid. Mae hynny'n cael ei ystyried. Gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r sector weithio gyda ni er mwyn inni allu perfformio'n well.

### Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn

**C3 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei ddefnydd o hyblygrwydd diwedd blwyddyn? OAQ(3)0421(FPS)

Croesawaf y Gweinidog yn ôl ar ôl iddo fod yn sâl.

**Andrew Davies:** Defnyddir hyblygrwydd diwedd blwyddyn i gefnogi ein blaenoriaethau strategol. Fodd bynnag, ein nod yw dod â'r gwariant mor agos at y gyllideb â phosibl ac, o ganlyniad, cynhyrchu hyblygrwydd diwedd blwyddyn mor isel â phosibl mewn unrhyw flwyddyn.

**Alun Cairns:** I am grateful to the Minister for his response. He may be aware that one of his officials told a recent Finance Committee meeting that end-year flexibility carry-forward is used as an ‘additional reserve or additional resource’. She then said, about the year in hand, that,

‘We have not had to draw down EYF stock in this financial year, because the calls on the resource have meant that we have managed the resources more carefully’.

That could be paraphrased by saying that end-year flexibility is being used as a slush fund, in effect. It amounts to some £600 million in cash, non-cash and capital, and yet there is a crisis in the funding for the foundation phase in education. We have just heard a discussion about the crisis in higher education funding, and I am sure that each of us could point to a school in our constituency or region that is falling down, as well as problems in the health service. If such resources are held at the Treasury and are not being used by us, is that prudent financial management in such a tight budget round, or is it an abdication of your responsibility to use all of the money available for the benefit of the people of Wales?

**Andrew Davies:** I may have been away for seven weeks, but some things have not changed. Much as I appreciate his good wishes, listening to Alun is a bit like watching *Groundhog Day*. Let us be realistic. We are extremely effective in our use of expenditure. It is likely that, this year, we will spend 99 per cent of our total departmental expenditure limit. That is probably better than any other devolved administration or Whitehall Government department. You bandy about this figure of £600 million, and you blithely say that it is made up of cash, non-cash and near-cash, but a lot of that is not accessible for investment, whether it is capital or revenue, because it is

**Alun Cairns:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei ateb. Efallai ei fod yn gwybod i un o'i swyddogion ddweud wrth gyfarfod Pwyllgor Cyllid diweddar y defnyddir hyblygrwydd diwedd blwyddyn a ddygir ymlaen fel ‘arian wrth gefn ychwanegol neu adnodd ychwanegol’. Yna, dywedodd, am y flwyddyn sydd ar ddod,

Nid ydym wedi gorffod defnyddio stoc hyblygrwydd diwedd blwyddyn yn y flwyddyn ariannol hon, oherwydd mae'r galw am adnoddau wedi golygu ein bod wedi rheoli'r adnoddau'n fwy gofalus.

Gellid aralleirio hynny drwy ddweud bod hyblygrwydd diwedd blwyddyn yn cael ei ddefnyddio fel cronda cil-dwrn, mewn gwirionedd. Gyda'i gilydd, mae'n cynnwys oddeutu £600 miliwn mewn arian parod, arian cyfalaf ac adnoddau heb fod yn arian parod, ac eto, ceir argyfwng o ran cael cyllid ar gyfer y cyfnod sylfaen ym myd addysg. Yr ydym newydd glywed trafodaeth am yr argyfwng yng nghyswilt cyllid addysg uwch, ac yr wyf yn siŵr y gallai pob un ohonom gyfeirio at ysgol yn ein hetholaeth neu yn ein rhanbarth sy'n disgyn yn ddarnau, yn ogystal â'r problemau yn y gwasanaeth iechyd. Os cedwir adnoddau o'r fath yn y Trysorlys ac na fyddwn yn eu defnyddio, ai enghraifft o reoli arian yn ddoeth yw hynny mewn cylch cyllideb mor dynn, ynteu ai enghraifft o ymwrthod â'ch cyfrifoldeb i ddefnyddio'r holl arian sydd ar gael er budd pobl Cymru?

**Andrew Davies:** Efallai nad wyf wedi bod yma ers saith wythnos, ond mae rhai pethau'n dal yr un fath. Er fy mod yn gwerthfawrogi ei ddymuniadau da, mae gwrando ar Alun yn bur debyg i wyllo *Groundhog Day*. Gadewch inni fod yn realistig. Yr ydym yn defnyddio gwariant mewn ffodd effeithiol iawn. Mae'n debygol y byddwn, eleni, yn gwario 99 y cant o gyfanswm ein terfyn gwariant adrannol. Mae hynny, fwy na thebyg, yn well nag unrhyw un o adrannau Llywodraeth Whitehall ac unrhyw weinyddiaeth ddatganoledig arall. Soniwrch am y ffigur hwn o £600 miliwn, a dywedwch yn ddifeddwel ei fod yn cynnwys arian parod, adnoddau heb fod yn arian parod ac

made up of capital charges and depreciation. You will know that, with your banking background, but you are trying to spin this and suggest that the resource available is greater than it is.

We are extremely prudent in our management of resources, and, where there is a business case for additional resources, as we have seen in discussions with the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills, we will have access to that EYF. In previous years, we have used EYF for the waiting times initiative, which was a prudent and successful investment. Working with the Minister for education, we will be looking at bids to the strategic capital investment board for other investment, whether it is in further or higher education, or in school refurbishment.

**Mohammad Asghar:** I am pleased to hear of the Assembly Government's good housekeeping if 99 per cent of its expenditure is covered sensibly. I hope that that will continue for 2007-08, but if there is any leeway, I ask the Minister whether part of the money could be spent on improving the skills of our workforce.

**Andrew Davies:** Sorry, Mohammad—the skills of the what?

**Mohammad Asghar:** The workforce.

**Andrew Davies:** Developing the skills of the existing and future workforce is crucial, and the Minister for education and the Deputy Minister for Skills, John Griffiths, have at the top of their agendas. A substantial investment is being made to ensure that people have the right skills to work effectively in a competitive global market. I am confident that the resources are there. As I said in my reply to Jenny Randerson, I am confident that the resources are available to deliver on that agenda.

adnoddau sydd bron a bod yn arian parod, ond nid oes modd defnyddio llawer o hynny ar gyfer buddsoddi, p'un ai cyfalaf ynteu refeniw ydyw, oherwydd ei fod yn cynnwys taliadau cyfalaf a dbrisiant. Ac ystyried eich profiad gyda banciau, byddwch yn gwybod hynny, ond yr ydych yn ceisio troi hyn ac awgrymu bod yr adnodd sydd ar gael yn fwy nag ydyw mewn gwirionedd.

Yr ydym yn hynod ddoeth wrth reoli adnoddau, ac, lle ceir achos busnes lle mae angen adnoddau ychwanegol, fel yr ydym wedi'i weld mewn trafodaethau gyda'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, bydd gennym ffordd o gael gafael ar yr hyblygrwydd diwedd blwyddyn hwnnw. Yn y blynnyddoedd diwethaf, yr ydym wedi defnyddio hyblygrwydd diwedd blwyddyn ar gyfer y cynllun amserau aros, a oedd yn fuddsoddiad doeth a llwyddiannus. Gan weithio gyda'r Gweinidog dros addysg, byddwn yn edrych ar geisiadau i'r bwrdd buddsoddi cyfalaf am fuddsoddiadau eraill, boed hynny mewn addysg bellach neu addysg uwch, neu yng nghyswilt adnewyddu ysgolion.

**Mohammad Asghar:** Yr wyf yn falch o glywed am ddarbodaeth Llywodraeth y Cynulliad yn cadw trefn ar ei thŷ os defnyddir 99 y cant o'i gwariant yn synhwyrol. Gobeithiaf y bydd hynny'n parhau ar gyfer 2007-08, ond os gellir cymryd rhaff, gofynnaf i'r Gweinidog a ellid gwario rhywfaint o'r arian ar wella sgiliau ein gweithlu.

**Andrew Davies:** Mae'n ddrwg gennyf, Mohammad—sgiliau beth?

**Mohammad Asghar:** Y gweithlu

**Andrew Davies:** Mae datblygu sgiliau ein gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol yn hanfodol, ac mae hyn ar frig agendâu'r Gweinidog dros addysg a'r Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, John Griffiths. Mae buddsoddiad sylweddol yn cael ei roi er mwyn sicrhau bod gan bobl y sgiliau iawn i weithio'n effeithiol mewn marchnad fydeang gystadleuol. Yr wyf yn hyderus bod yr adnoddau ar gael. Fel y dywedais yn fy ateb i Jenny Randerson, yr wyf yn ffyddio bod yr adnoddau ar gael i gyflawni'r agenda honno.

## Strategic Capital Investment

**Q4 Joyce Watson:** Will the Minister provide a progress report on the strategic capital investment framework? OAQ(3)0427(FPS)

**Q5 Ann Jones:** Will the Minister make a statement on the role of the strategic capital investment board? OAQ(3)0437(FPS)

**Andrew Davies:** The strategic capital investment committee is making excellent progress. It will be taking funding decisions based on robust business cases, and, as I said to Alun Ffred, I anticipate announcing its first decisions in early autumn. Our work will be supported by a panel that will provide external, independent advice and expertise on project management, funding and procurement. I hope to be able to announce the panel's membership shortly.

**Joyce Watson:** The Assembly Government has provided significant support for the new world-class Institute of Biological, Environmental and Rural Sciences at Aberystwyth University. Can you make a statement on the ministerial board's commitment to higher education, and to IBERS specifically?

12.50 p.m.

**Andrew Davies:** It would not be appropriate for me to comment specifically on IBERS, as it is a matter for the Minister for education, but I am sure that that announcement will be made shortly, as significant progress has been made. As I said in answer to questions from Kirsty Williams and others, higher education is one of our priorities, and the Minister, through the strategic capital investment framework process, will have the opportunity to make specific bids for capital investment in that sector.

**Ann Jones:** I have questioned you several times on the strategic capital investment board. Are you in a position, now that the committee is set up, to offer any advice on

## Buddsoddi Cyfalaf Strategol

**C4 Joyce Watson:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu adroddiad cynnydd am y fframwaith buddsoddi cyfalaf strategol? OAQ(3)0427(FPS)

**C5 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddogaeth y bwrdd buddsoddi cyfalaf strategol? OAQ(3)0437(FPS)

**Andrew Davies:** Mae'r pwylgor buddsoddi cyfalaf strategol yn gwneud cynnydd ardderchog. Bydd yn gwneud penderfyniadau am gyllido ar sail achosion busnes cadarn, ac, fel y dywedais wrth Alun Ffred, rhagwelaf y byddaf yn cyhoeddi ei benderfyniadau cyntaf ddechrau tymor yr hydref. Caiff ein gwaith ei gefnogi gan banel a fydd yn darparu cyngor allanol ac annibynnol ac arbenigedd ym maes rheoli prosiectau, cyllido a chaffael. Gobeithiaf allu cyhoeddi pwy fydd ar y panel cyn bo hir.

**Joyce Watson:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu cymorth sylweddol ar gyfer Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig ym Mhrifysgol Aberystwyth, sefydliad newydd sydd gyda'r gorau yn y byd. A allwch wneud datganiad am ymrwymiad y bwrdd gweinidogol i addysg uwch, ac i'r sefydliad yn benodol?

**Andrew Davies:** Ni fyddai'n briodol imi roi sylw ar Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig yn benodol, gan mai mater i'r Gweinidog dros addysg ydyw, ond yr wyf yn siŵr y gwneir y cyhoeddiad cyn bo hir, gan fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud. Fel y dywedais yn fy ateb i gwestiynau Kirsty Williams ac eraill, mae addysg uwch yn un o'n blaenoriaethau, a chaiff y Gweinidog, drwy broses y fframwaith buddsoddi cyfalaf strategol, gyfle i wneud ceisiadau penodol am fuddsoddiad cyfalaf yn y sector hwnnw.

**Ann Jones:** Yr wyf wedi eich holi droeon am y bwrdd buddsoddi cyfalaf strategol. A ydych mewn sefyllfa, gan fod y pwylgor wedi'i sefydlu, i gynnig unrhyw gyngor ynghylch

how community-funded projects will get under way? It is important that the smaller capital projects in communities do not miss out on funding from the strategic capital investment board. Is there any hope that we can continue to fund community projects?

**Andrew Davies:** Yes, I can give assurance on that point. We want to ensure access to the investment framework not only to the big capital investment projects but also, as you point out, to the smallest projects. Therefore, a separate funding pool within the investment framework has been established, and there will be an opportunity for community-based projects and so on to access funds.

**Nick Ramsay:** The ‘strategic capital investment framework’ is one of those names that no doubt means very little to the average man or woman in the street. However, that £400 million that you have promised over three years is no insignificant sum of money. You mentioned the panel that you are setting up in your answer to Joyce Watson, which will have a big responsibility for leveraging the investment that you spoke about previously in your statement. Are you confident that that panel will be transparent and open, and will ultimately deliver the results that we hope to see?

**Andrew Davies:** Yes, I have always said that decisions that are accountable and transparent are, by their very nature, better decisions. Having the resource of an externally appointed—following the Nolan process—panel of people with genuine expertise in capital investment, project management and procurement will ensure that we get more value for money for the Welsh pound. Looking at the quality of the applications that we have received from people with business and private sector experience globally—not just in Wales, or the UK—I am confident that that process will add a huge amount of value. I know that the name—the strategic capital investment framework—does not trip off the tongue, and I wish that we had a snappier title, but we are where we are. However, the process itself will add a huge amount of value, even if the name is rather obscure.

sut y bydd prosiectau a ariennir gan y gymuned yn cael eu rhoi ar ben ffordd? Mae'n bwysig nad yw'r prosiectau cyfalaf llai mewn cymunedau yn colli'r cyfle i gael cyllid gan y bwrdd buddsoddi cyfalaf strategol. A oes unrhyw obraith y gallwn barhau i ariannu prosiectau cymunedol?

**Andrew Davies:** Oes, gallaf eich sicrhau yngylch y pwynt hwnnw. Yr ydym yn dymuno sicrhau bod y prosiectau lleiaf, yn ogystal â'r prosiectau buddsoddi cyfalaf mawr, yn gallu manteisio ar y fframwaith buddsoddi. Felly, mae pwll cyllido ar wahân wedi cael ei sefydlu oddi mewn i'r fframwaith buddsoddi, a bydd cyfle i brosiectau cymunedol ac yn y blaen gael gafael ar arian.

**Nick Ramsay:** Mae'r 'fframwaith buddsoddi cyfalaf strategol' yn un o'r enwau hynny sy'n golygu prin ddim i'r dyn neu'r fenyw gyffredin, bid siŵr. Fodd bynnag, nid yw'r £400 miliwn hwnnw a addawyd gennych dros dair blynedd yn swim tila o gwbl. Yn eich ateb i Joyce Watson, crybwylasoch y panel yr ydych yn ei sefydlu, a fydd â chyfrifoldeb enfawr dros ysgogi'r buddsoddiad y soniasoch amdano'n flaenorol yn eich datganiad. A ydych yn hyderus y bydd y panel yn dryloyw ac yn agored, ac y bydd, yn y pen draw, yn darparu'r canlyniadau y gobeithiwn eu gweld?

**Andrew Davies:** Ydw, yr wyf bob amser wedi dweud bod penderfyniadau sy'n atebol ac yn dryloyw o ran eu natur yn well penderfyniadau. Bydd cael adnodd o banel o bobl a benodwyd yn allanol—yn dilyn proses Nolan—a'r rheini'n meddu ar arbenigedd gwirioneddol ym maes buddsoddi cyfalaf, caffaol a rheoli prosiectau, yn sicrhau ein bod yn cael gwell gwerth am y bunt Gymreig. Ac edrych ar safon y ceisiadau sydd wedi dod i law gan bobl sydd â phrofiad ym myd busnes ac yn y sector preifat yn fydd-eang—nid yng Nghymru'n unig, nac yn y DU—yr wyf yn ffyddio y bydd y broses honno'n ychwanegu gwerth aruthrol. Gwn nad yw'r enw—y fframwaith buddsoddi cyfalaf strategol—yn hawdd ei ynganu, a hoffwn petai gennym deitl mwy bachog, ond fel hyn y mae. Fodd bynnag, bydd y broses ei hun yn ychwanegu llawer o werth ychwanegol, hyd yn oed os yw'r enw braidd yn aneglur.

**Gareth Jones:** Mae'r adroddiad cam cyntaf a gyhoeddwyd heddiw am y gwasanaethau niwroleg yng ngogledd Cymru yn argymhell gwelliannau a newidiadau allweddol i ysbytai'r gogledd, gan gynnwys creu canolfan arbenigol niwro-adferol yn Ysbyty Llandudno. Mae'n amlwg y bydd datblygiadau o'r fath, sydd i'w croesawu yn enfawr, yn golygu buddsoddiad cyfalaf o sylwedd. Pa ystyriaeth y bydd y bwrdd buddsoddi cyfalaf strategol yn ei rhoi i argymhellion yr adroddiad hwn?

**Andrew Davies:** Without commenting on individual projects or investment decisions, I can say that the process will be that individual spending Ministers—those on the Cabinet committee, and those who are not members—can bid for the funds. They will have to ensure that any bids are in line with the Assembly Government's strategic priority, that they have a robust business case, that, wherever possible, they involve collaborative ventures so that we do not have departmental silos—with evidence, where necessary or appropriate, of cross-departmental working—and that they fit in with our other priorities, such as the Wales spatial plan. If the Minister for Health and Social Services wants to make an application for it, she will have access to that.

I have said this on many occasions, but I wish to re-emphasise that the £400 million available to the investment fund over three years is a relatively small amount of the funds available. Excluding the strategic capital investment board, the Assembly Government spends approximately £1.6 billion annually on capital investment, so, while the investment fund is important, we must bear in mind that it is only part of the overall picture.

**David Melding:** Minister, before I attempt to savage your Government's policy in this area, I wish to say that I am delighted to see you back, looking so well, and attempting to defend the Government's record with such alacrity, if little long-term success, I suspect.

**Gareth Jones:** The first-stage report on neurology services in north Wales, which has been published today, recommend crucial improvements and changes to hospital in the north, including creating a specialist neurorehabilitation centre in Llandudno Hospital. It is clear that such developments, which are to be very warmly welcomed, will require substantial capital investment. What consideration will the strategic capital investment board give to that report's recommendations?

**Andrew Davies:** Heb grybwyl prosiectau na phenderfyniadau unigol ynghylch buddsoddi, gallaf ddweud y bydd y broses yn golygu y bydd Gweinidogion unigol sy'n gwario—y rheini ar bwylgor y Cabinet, a'r rheini nad ydynt yn aelodau—yn cael gwneud cais am yr arian. Bydd yn rhaid iddynt sicrhau bod unrhyw geisiadau yn cyd-fynd â blaenoriaeth strategol Llywodraeth y Cynulliad, bod ganddynt achos busnes cadarn, eu bod, pan fydd hynny'n bosibl, yn ymwneud â mentrau ar y cyd fel na fyddwn yn cael seilos adrannol—gyda thystiolaeth o weithio ar draws adrannau pan fydd angen, neu pan fydd hynny'n briodol—a'u bod yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau eraill, megis cynllun gofodol Cymru. Os dymuna'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud cais amdano, bydd ganddi fynediad at hynny.

Yr wyf wedi dweud hyn droeon, ond hoffwn ategu eto nad yw'r £400 miliwn ar gyfer y gronfa fuddsoddi dros dair blynedd ond cyfran fach o'r arian a fydd ar gael. Ac eithrio'r bwrdd buddsoddi cyfalaf strategol, mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwario oddeutu £1.6 biliwn bob blwyddyn ar fuddsoddi cyfalaf, felly, er bod y gronfa fuddsoddi yn bwysig, rhaid inni gofio mai dim ond rhan o'r darlun cyflawn ydyw.

**David Melding:** Weinidog, cyn imi geisio llarpio polisi eich Llywodraeth yn y maes hwn, hoffwn ddweud fy mod yn falch o'ch gweld yn ôl, yn edrych gystal, ac mor barod i fynd ati i amddiffyn record y Llywodraeth, er mai prin fydd y llwyddiant hirdymor yr wyf yn amau.

**The Deputy Presiding Officer:** David Melding, I hope that you intend to savage it with a question.

**David Melding:** Yes, and dessert is to follow. Minister, is it not the case that your policy over the past five or six years has mirrored the failure that we have seen from the Labour Government at Westminster? By not building sufficient capital reserves and not being open to the use of the private finance initiative, we have an infrastructure deficit, and, now that we are in a credit crunch, we cannot do that little bit that we could have done if we had had a more effective long-term capital programme, and which could have been used to stimulate certain areas of the economy now, particularly construction?

**Andrew Davies:** I am the first to admit that we have not done everything right in our use of capital, which is why we have set up the strategic capital investment framework. It is an acknowledgement that, although we have made significant progress on delivering our priorities, we know that we could do better, as ever. I do not know why there should be such a stunned and shock-horror response from the Tory side at that; perhaps they have the idea that no organisation or Government is willing or able to learn from experience. However, particularly at this time of slower growth in public expenditure, we need to ensure that we get value for money.

There are other lessons to learn, such as the need to work more collaboratively. It makes no sense for individual departments to make a single capital investment in infrastructure when services may be more efficient and delivered better from the point of view of the citizen if, rather than having four or five capital projects, we had one that covered a multitude of services. I would be the first to say that we have not got everything right, but we have learned lessons and we are moving forward.

‘One Wales’

**Q6 Peter Black:** What consideration did the

**Y Dirprwy Lywydd:** David Melding, gobeithiaf eich bod yn bwriadu ei larpio â chwestiwn.

**David Melding:** Ydw, ac mae pwdin i ddilyn. Weinidog, onid yw'ch polisi, dros y pump neu chwe blynedd diwethaf, wedi adlewyrchu'r methiant yr ydym wedi'i weld gan Lywodraeth Lafur San Steffan? Drwy beidio ag adeiladu cronfeydd cyfalaf digonol a pheidio â bod yn agored i ddefnyddio'r fenter cyllid preifat, mae gennym ddiffyg mewn seilwaith, ac, a ninnau'n awr mewn gwasgfa gredyd, ni allwn wneud yr ychydig y gallasem ei wneud petai gennym raglen gyfalaf hirdymor fwy effeithiol, ac a fyddai wedi gallu cael ei defnyddio i ysgogi rhannau penodol o'r economi yn awr, yn enwedig ym maes adeiladu?

**Andrew Davies:** Fi yw'r cyntaf i gyfaddef nad ydym wedi gwneud popeth yn iawn wrth ddefnyddio ein cyfalaf, felly dyma pam yr ydym wedi sefydlu'r fframwaith buddsoddi cyfalaf strategol. Mae'n gydnabyddiaeth ein bod yn gwybod, er inni wneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni ein blaenoriaethau, y gallem wneud yn well, fel bob amser. Nid wn pam y dylai ochr y Torïaid ymateb mewn ffordd mor syfrdan, fel petaent wedi cael andros o sioc; efallai fod ganddynt syniad nad oes dim na sefydliad na Llywodraeth yn fodlon nac yn gallu dysgu drwy brofiad. Fodd bynnag, yn arbennig yn y cyfnod hwn lle ceir twf arafach mewn gwariant cyhoeddus, mae angen inni sicrhau ein bod yn cael gwerth am arian.

Mae gwersi eraill i'w dysgu, megis yr angen i gydweithio mwy. Nid yw'n gwneud dim synnwyd i adrannau unigol wneud un buddsoddiad cyfalaf mewn seilwaith lle byddai gwasanaethau, o bosibl, yn fwy effeithlon ac yn cael eu darparu'n well o safbwyt y dinesydd petai gennym, yn hytrach na chael pedwar neu bump o brosiectau cyfalaf, un prosiect a fyddai'n gofalu am liaws o wasanaethau. Byddwn y cyntaf i ddweud nad ydym wedi cael popeth yn iawn, ond yr ydym wedi dysgu gwersi ac yr ydym yn symud ymlaen.

‘Cymru’n Un’

**C6 Peter Black:** Pa ystyriaeth a roddodd y

Minister give to the ‘One Wales’ pledges to the people of Wales in developing the budget? OAQ(3)0429(FPS)

**Andrew Davies:** The ‘One Wales’ programme sets out the Government’s progressive public service agenda over the next three years. Necessary funding has been put in place to develop it and to make our public services among the best in Europe.

**Peter Black:** Thank you for that non-answer, Minister. ‘One Wales’ states that,

‘We will continue a major capital investment programme to upgrade school buildings, exceeding the sums provided over the previous four years’.

When will you know exactly how much money will be allocated to the school buildings programme from your capital investment fund over and above the money already in the budget? In the meantime, could you explain how the Assembly Government allowing school buildings to fall down gives good value for money for the Welsh pound?

**Andrew Davies:** I will not comment on the specific bids of individual Ministers, as I said to Gareth Jones. Any announcements, if any, on the further education sector, higher education sector or school buildings will be made in the future.

To add to my previous replies on the capital investment fund, we hope that the process of assessing the robustness of business cases for procurement and the whole approach adopted by the strategic capital investment framework will be applied across Government to our capital investment, as well as by other public sector bodies such as local government. I know that there is a huge amount of interest on the part of local authorities, particularly local education authorities, in having access to the expertise of the capital investment framework process.

Gweinidog i addewidion ‘Cymru’n Un’ i bobl Cymru wrth ddatblygu’r gyllideb? OAQ(3)0429(FPS)

**Andrew Davies:** Mae rhaglen ‘Cymru’n Un’ yn gosod allan agenda flaengar y Llywodraeth ym maes gwasanaethau cyhoeddus dros y tair blynedd nesaf. Sicrhawyd bod yr arian angenrheidiol ar gael i’w datblygu ac i wneud yn siŵr bod ein gwasanaethau cyhoeddus ymhlið y gorau yn Ewrop.

**Peter Black:** Diolch ichi am beidio ag ateb y cwestiwn, Weinidog. Dywedir yn ‘Cymru’n Un’,

‘Byddwn yn parhau â rhaglen buddsoddi cyfalaf bwysig i wella adeiladau ysgol, gan ddarparu mwy o arian nag a wnaed yn ystod y pedair blynedd diwethaf’.

Pryd y byddwch yn gwybod faint o arian yn union fydd yn cael ei ddyrannu i’r rhaglen adeiladau ysgolion o’ch cronfa buddsoddi cyfalaf, yn ychwanegol at yr arian sydd yn y gyllideb yn barod? Yn y cyfamser, a allech egluro sut mae caniatáu i adeiladau ysgolion ddymchwel, fel y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud, yn sicrhau gwerth da am arian i’r bunt Gymreig?

**Andrew Davies:** Fel y dywedais wrth Gareth Jones, ni roddaf sylwadau am geisiadau penodol Gweinidogion unigol. Gwneir unrhyw gyhoeddiadau, os gwneir rhai o gwbl, ar y sector addysg bellach, y sector addysg uwch neu adeiladau ysgolion yn y dyfodol.

I ychwanegu at fy atebion blaenorol ynghylch y gronfa buddsoddi cyfalaf, gobeithiwn y bydd proses asesu cadernid achosion busnes ar gyfer caffael a’r ymagwedd gyfan a fabwysiadir gan y fframwaith buddsoddi cyfalaf strategol yn cael eu rhoi ar waith ar draws y Llywodraeth i’n buddsoddiad cyfalaf, yn ogystal â chan gyrrff sector cyhoeddus eraill megis llywodraeth leol. Gwn fod awdurdodau lleol yn dangos cryn dipyn o ddiddordeb, yn enwedig awdurdodau addysg lleol, o ran gallu manteisio ar arbenigedd proses y fframwaith buddsoddi cyfalaf.

We hope that this approach, which is perhaps more business-like and robust, will help to provide value for money, both for the Welsh pound and council tax payers.

### Management of Assets

**Q7 Andrew R.T. Davies:** Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's management of its assets? OAQ(3)0391(FPS)

**Andrew Davies:** The Assembly Government recognises that asset management is critical in ensuring that capital investment is effective. More widely, asset management underpins good service delivery and risk management. Asset management is an important consideration in the development of our capital programmes, including the strategic capital investment framework.

**Andrew R.T. Davies:** The Welsh Assembly Government has taken responsibility for many former sponsored bodies, and specifically the Forestry Commission. There is a particular asset in the Vale of Glamorgan, namely Tair Onen forestry depot, which has remained idle for a considerable time. Can you tell me how the Welsh Assembly Government audits its assets to determine whether the public interest is best served by retaining those assets, and if that is not the case, how it ensures that full value is achieved for the Welsh taxpayer by disposing of them?

**Andrew Davies:** As Minister for Finance and Public Service Delivery, I have asked across the board for us to develop a capital investment or asset management register. In the past, it has been fragmented and held by different departments, so we want a unified approach. We need to ensure—and this also partly answers David Melding's question—that we are able to maximise the value of those assets, where appropriate, and that we take a strategic view on doing that. That may be through the use of our own resources or in conjunction with the third sector, other public sector bodies or the private sector. Following Sue Essex's report on affordable homes, this is a strategic consideration for us.

Gobeithiwn y bydd yr ymagwedd hon—sydd efallai'n fwy proffesiynol a chadarn—yn gymorth i ddarparu gwerth am arian i'r bunt Gymreig ac i'r rheini sy'n talu'r dreth gyngor.

### Rheolaeth Asedau

**C7 Andrew R.T. Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reolaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o'i hasedau? OAQ(3)0391(FPS)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod rheoli asedau yn allweddol er mwyn sicrhau bod buddsoddiad cyfalaf yn effeithiol. Yn fwy na hynny, mae rheoli asedau yn sail i reoli risg a chyflenwi gwasanaethau'n dda. Mae rheoli asedau yn ystyriaeth bwysig yng nghyswllt datblygu ein rhagleni cyfalaf, gan gynnwys y fframwaith buddsoddi cyfalaf strategol.

**Andrew R.T. Davies:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ysgwyddo cyfrifoldeb dros amryw o gyrrf yr arferai eu noddi, a'r Comisiwn Coedwigaeth yn benodol. Ceir ased penodol ym Mro Morgannwg, sef depo coedwig Tair Onen, sy'n segur ers cryn amser. A allwch ddweud wrthyf sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n archwilio ei hasedau i benderfynu a fyddai'n well dal gafael ar yr asedau hynny er budd y cyhoedd, ac os na fyddai'n well gwneud hynny, sut y mae'n sicrhau y caiff trethdalwyr Cymru'r gwerth llawn drwy gael gwared arnynt?

**Andrew Davies:** Yn rhinwedd fy swydd fel y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus, yr wyf wedi gofyn yn gyffredinol inni ddatblygu cofrestr rheoli asedau neu fuddsoddiad cyfalaf. Yn y gorffennol, mae'r gofrestr honno wedi bod yn dameidiog ac wedi'i chadw gan wahanol adrannau, felly mae arnom eisiau ymagwedd unedig. Mae angen inni sicrhau—ac mae hyn yn ateb cwestiwn David Melding yn rhannol hefyd—y gallwn sicrhau'r gwerth mwyaf posibl am yr asedau hynny, pan fydd hynny'n briodol, a'n bod yn arddel agwedd strategol ar wneud hynny. Efallai y gwneid hynny drwy ddefnyddio ein hadnoddau ein hunain neu ar y cyd â'r trydydd sector, cyriff eraill yn

y sector cyhoeddus neu'r sector preifat. Yn dilyn adroddiad Sue Essex am dai fforddiadwy, mae'r ystyriaeth strategol hon yn berthnasol i bob un ohonom.

On your specific question about the forestry asset in the Vale of Glamorgan, I will follow that up to give you a fuller reply.

**Chris Franks:** You will be aware, Minister, that the Welsh Assembly Government has substantial land holdings in Barry. Will you indicate the value of these assets and tell us when the land will be sold, and whether the Government will actively consider further investment in the town? Can you also advise me what representations you have received from the local authority regarding investment in Barry?

**Andrew Davies:** I will write to you in detail on those specific questions. However, I would not want to miss the opportunity to reiterate our commitment as a Government to Barry and its communities. Substantial investment has been made in the town and the surrounding area—and we cannot divorce from that developments such as defence technical academy that will be developed at the former RAF base at St Athan. However, on your specific questions, I will come back to you in writing.

**Eleanor Burnham:** Despite having been recuperating over the last few months, I am sure that you are aware that pressure is still being brought to bear on the proposed Government site in Llandudno Junction. Can you give us an update and a timescale? Certain things have been delayed, and people are getting quite concerned.

**Andrew Davies:** I will write to you on that, and will make my reply available to all Members.

### Budget Priorities

**Q8 Paul Davies:** Will the Minister make a statement on his budget priorities for the next 12 months? OAQ(3)0434(FPS)

**Andrew Davies:** The Welsh Assembly Government's budget priorities for the period

Parthed eich cwestiwn penodol am yr ased coedwigaeth ym Mro Morgannwg, af ar drywydd hynny er mwyn rhoi ateb llawnach ichi.

**Chris Franks:** Mae'n siŵr y gwyddoch, Weinidog, fod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru grym dipyn o ddaliadau tir yn y Barri. A ddynodwch werth yr asedau hynny a dweud wrthym pryd caiff y tir ei werthu, ac a fydd y Llywodraeth yn ystyried o ddifrif buddsoddi mwy yn y dref? A allwch ddweud wrthyf hefyd pa sylwadau sydd wedi dod i law gan yr awdurdod lleol ynghylch buddsoddi yn y Barri?

**Andrew Davies:** Ysgrifennaf atoch yn fanwl ynghylch y cwestiynau penodol hynny. Fodd bynnag, ni fyddwn am golli'r cyfle i ailadrodd ein hymrwymiad fel Llywodraeth i'r Barri a'i chymunedau. Buddsoddwyd yn helaeth yn y dref a'r cyffiniau—ac ni allwn hepgor datblygiadau megis yr academi amddiffyn technegol a gaiff ei datblygu yn hen ganolfan y Lluoedd Arfog Brenhinol yn Sain Tathan. Fodd bynnag, o ran eich cwestiynau penodol, fe'ch atebaf yn ysgrifenedig.

**Eleanor Burnham:** Er i chi fod yn gwella dros yr ychydig fisioedd diwethaf, yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol y ceir pwysau o hyd ar safle arfaethedig y Llywodraeth yng Nghyffordd Llandudno. A allwch roi'r manylion diweddaraf ac amserlen inni? Mae rhai pethau wedi cael eu gohirio, ac mae pobl yn dechrau pryderu'n arw.

**Andrew Davies:** Ysgrifennaf atoch ynghylch hynny a sicrhaf y caiff yr holl Aelodau weld fy ateb.

### Blaenoriaethau Cyllideb

**C8 Paul Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau cyllideb ar gyfer y 12 mis nesaf? OAQ(3)0434(FPS)

**Andrew Davies:** Cafodd blaenoriaethau cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru ar

2008-09 to 2010-11 were laid out in the final budget, which the Assembly approved on 22 January.

**Paul Davies:** One of the early priorities of the UK Labour Government was education, education, education. I am sure that the Minister will argue that education is the priority of this Assembly Government too.

I raised the issue of funding further education colleges, and in particular Pembrokeshire College in my constituency, with the Deputy Minister for Skills some weeks ago. Due to harmonisation, Pembrokeshire College's budget is less this year than it was in the last financial year, and, because of that lack of funding, the college will probably be forced to cut some of its courses. In the circumstances, will the Minister confirm whether he has any plans to right this wrong in the next 12 months?

**Andrew Davies:** As I said in my reply to Jenny Randerson earlier, there is a substantial investment into further education and the skills agenda, and I am in regular discussions with the Minister and Deputy Minister with responsibility for education and skills regarding the resource going into particular sectors. I will follow up the specific point about Pembrokeshire College—I am unsighted on that—and either I or my colleagues will write to you on it.

**Nerys Evans:** When the First Minister answered questions on your portfolio a few weeks ago, I questioned him on the development of regional pay in the civil service, with workers in Wales at the bottom end of the scale. That will start with the Ministry of Justice. He said that it was an unhelpful development, that the Welsh Assembly Government has no control over it, and that it has been a Treasury obsession for some years. As the Minister for public service delivery in the Welsh Government, representing the people of Wales and being answerable to them, what will you do to get rid of regional pay in the civil service and make that a priority over the next 12 months?

gyfer y cyfnod rhwng 2008-09 a 2010-11, eu gosod allan yn y gyllideb derfynol, a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 22 Ionawr.

**Paul Davies:** Addysg, addysg, addysg oedd un o flaenoriaethau cynnar Llywodraeth Lafur y DU. Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn dadlau mai addysg yw blaenoriaeth Llywodraeth y Cynulliad hefyd.

Codais bwnc ariannu colegau addysg bellach—a Choleg Sir Benfro yn fy etholaeth, yn benodol—gyda'r Dirprwy Weinidog dros Sgiliau rai wythnosau'n ôl. Yn sgil trefniadau cydgordio, mae cyllideb Coleg Sir Benfro yn llai eleni nag yr oedd yn y flwyddyn ariannol diwethaf, ac o ganlyniad i'r prinder cyllid hwnnw, mae'n debygol y caiff y coleg ei orfodi i ddiddymu rhai o'i gyrsiau. Dan yr amgylchiadau, a wnaiff y Gweinidog gadarnhau a oes ganddo unrhyw gynlluniau i unioni'r camwedd hwn yn ystod y 12 mis nesaf?

**Andrew Davies:** Fel y dywedais yn fy ateb i Jenny Randerson yn gynharach, buddsoddir yn helaeth mewn addysg bellach ac yn yr agenda sgiliau, ac yr wyf yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog sy'n gyfrifol am addysg a sgiliau, ynghylch yr arian a fuddsoddir mewn sectorau penodol. Af ar drywydd y pwynt penodol ynghylch Coleg Sir Benfro—nid wyf yn ymwybodol o'r manylion diweddaraf yn hynny o beth—a bydd naill ai fy nghydweithwyr neu fi yn ysgrifennu atoch yn ei gylch.

**Nerys Evans:** Pan atebodd y Prif Weinidog gwestiynau am eich portffolio rai wythnosau'n ôl, fe'i holais ynghylch datblygu tâl rhanbarthol yn y gwasanaeth sifil, gyda gweithwyr Cymru ar waelod y raddfa. Rhoddir hynny ar waith yn y Weinyddiaeth Gyflawnwr i ddechrau. Dywedodd y Prif Weinidog ei fod yn ddatblygiad di-les, nad oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ddim rheolaeth drosto, a'i fod yn obsesiwn gan y Trysorlys ers blynnyddoedd lawer. A chithau'n Weinidog dros gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn Llywodraeth Cymru, yn cynrychioli pobl Cymru ac yn atebol iddynt, beth a wnewch i gael gwared ar dâl rhanbarthol yn y

gwasanaeth sifil, ac i wneud hynny'n flaenoriaeth dros y 12 mis nesaf?

**Andrew Davies:** All the Ministers have made our view known, namely that we are not in favour of regional pay in the civil service. We have made that view known to the UK Government. We do not take a similar approach in terms of our negotiations on pay with civil service unions in Wales. Our position is clear and has remained the same for some years.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German):** Will it be one of your priorities for the coming year to inject more money into the badly needed programme for affordable homes in Wales? Given that you are now facing a credit crunch that will make it difficult to use the old section 106 agreements, which would have delivered some of your 6,500 target, do you believe that, in addition to that already announced, it is necessary to inject further resource into your three-year programme, into the social housing grant and into this sector so that we can ensure that the people who are coming into the market for the first time can find a home at an affordable price in their local area?

**Andrew Davies:** Access to affordable housing is one of our key priorities as a Government, and we have a 'One Wales' commitment to develop 6,500 affordable homes. Our commitment is also demonstrated by the fact that the Minister for Sustainability and Housing initiated a review on this and appointed Sue Essex to look at the whole issue. Her report gives us a good foundation on which to take this forward. The credit crunch is likely to have an effect, however it may not be a deleterious effect; it could well be that, in Government, we are in a more advantageous position and it may be more of a buyers' market in terms of development. I am discussing this with Jocelyn Davies, the Deputy Minister for Housing, in particular, and officials, and we are working together on how we can reach our strategic policy aspirations and the people who have real need in terms of access to affordable homes.

**Andrew Davies:** Mae'r holl Weinidogion wedi datgan ein barn ar goedd, sef nad ydym o blaid tâl rhanbarthol yn y gwasanaeth sifil. Yr ydym wedi datgan y farn honno wrth Lywodraeth y DU. Nid ydym yn arddel agwedd gyffelyb o ran ein trafodaethau ynghylch tâl gydag undebau'r gwasanaeth sifil yng Nghymru. Mae ein safbwyt yn glir, a dyna fu'n safbwyt ers blynnyddoedd lawer.

**Arweinydd Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol (Michael German):** A fydd buddsoddi rhagor o arian yn y rhaglen tai fforddiadwy yng Nghymru—rhaglen y mae dirfawr angen arian arni—yn un o'ch blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod? A chofio eich bod yn awr yn wynebu gwasgfa gredyd a fydd yn ei gwneud yn anodd defnyddio'r hen gytundebau adran 106, a fyddai wedi cyflawni eich targed 6,500 yn rhannol, a ydych yn credu bod angen rhoi mwy o arian, yn ychwanegol at yr hyn a gyhoeddwyd eisoes, i'ch rhaglen dair blynedd, i'r grant tai cymdeithasol ac i'r sector hwn, er mwyn inni allu sicrhau y gall pobl sy'n ymuno â'r farchnad am y tro cyntaf ddod o hyd i gartref am bris fforddiadwy yn eu hardal leol?

**Andrew Davies:** Mae mynediad at dai fforddiadwy yn un o'n prif flaenoriaethau fel Llywodraeth, ac mae'n un o'n hymrwymiadau fel rhan o 'Cymru'n Un' i ddatblygu 6,500 o dai fforddiadwy. Ceir enghraift arall o'n hymrwymiad wrth i'r Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Thai ddechrau adolygiad ar hyn a phenodi Sue Essex i edrych ar y mater yn ei gyfanrwydd. Rhydd ei hadroddiad sail gadarn inni fwrw ymlaen â hyn. Mae'r wasgfa gredyd yn debygol o gael effaith, ond, efallai na fydd yn effaith niweidiol; mae'n ddigon posibl ein bod, yn y Llywodraeth, mewn sefyllfa fwy buddiol ac o ran datblygu, mae'n bosibl y bydd yn fwy o farchnad i brynwyr. Yr wyf yn trafod hyn gyda Jocelyn Davies, y Dirprwy Weinidog dros Dai, yn arbennig, a chyda swyddogion, ac yr ydym yn cydweithio er mwyn gweld sut y gallwn gyflawni dyheadau ein polisi strategol, a chyrraedd y bobl y mae gwirioneddol angen mynediad at dai fforddiadwy arnynt.

## Performance of Public Services

**Q9 William Graham:** Will the Minister outline his priorities for the next six months for the co-ordination of programmes of measures to improve the performance of public services in South Wales East? OAQ(3)0395(FPS)

**Andrew Davies:** In South Wales East and every other part of Wales, we will continue to support the establishment of local service boards; strengthen performance frameworks; promote citizen-centred governance principles; and improve citizens' access to services. We are also looking to improve overall public service performance information and improve the co-ordination of regulation and inspection services.

**William Graham:** Thank you for your answer, Minister. You will know better than almost everyone that local authorities have had tight financial settlements this year. In view of the strike action that is now being taken across the six local authorities in South Wales East and the disruption that that is causing, what steps will you take to ameliorate this action that has been forced upon trade unions by the settlement that you gave local authorities?

1.10 p.m.

**Andrew Davies:** As I said earlier, the overall settlement that we have had is less than we had in the first eight years of the Assembly's existence. The whole of the public sector must accommodate a slow-down in the growth of public expenditure. This is no surprise; it has been flagged up by the UK Government and by us. Nevertheless, the resource that we are putting into local government is substantial. At the risk of repeating myself, if we were to fund local authorities in Wales to the same level as the UK Government supports English local authorities, there would £0.5 billion less going into local government and the services that it delivers. Council tax levels are 25 per cent lower than they are in England. Therefore there is a substantial resource

## Performiad Gwasanaethau Cyhoeddus

**C9 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y chwemis nesaf ar gyfer cydlyn u rhagleni o fesurau i wella perfformiad gwasanaethau cyhoeddus yn Nwyrain De Cymru? OAQ(3)0395(FPS)

**Andrew Davies:** Yn Nwyrain De Cymru, ac ym mhob rhan arall o Gymru, byddwn yn parhau i gefnogi sefydlu byrddau gwasanaethau lleol; cryfhau fframweithiau perfformio; hyrwyddo egwyddorion llywodraethu sy'n canolbwytio ar ddinasyddion; a gwella mynediad dinasyddion at wasanaethau. Yr ydym hefyd yn bwriadu gwella gwybodaeth a pherfformiad gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol a gwella'r modd y cyd-drefnir gwasanaethau archwilio a rheoliadau.

**William Graham:** Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Gwyddoch chi'n well na neb bron bod awdurdodau lleol wedi cael setliadau ariannol tynn eleni. Yng ngoleuni'r streic a weithredir yn awr ar draws y chwe awdurdod lleol yn Nwyrain De Cymru, a'r aflonyddwch y mae hynny'n ei achosi, pa gamau a gymerwch i leddfu'r gweithredu hwn a orfodwyd ar undebau llafur yn sgil y setliad a roddasoch i awdurdodau lleol?

**Andrew Davies:** Fel y dywedais yn gynharach, mae'r setliad cyffredinol yr ydym wedi'i gael yn llai nag a gawsom ar gyfer wyth mlynedd cyntaf y Cynulliad. Rhaid i'r sector cyhoeddus addasu i'r ffaith bod y twf yng ngwariant y cyhoedd yn arafu. Nid yw hyn yn syndod; mae Llywodraeth y DU a ninnau wedi tynnau sylw at hyn. Er hynny, yr ydym yn buddsoddi arian sylweddol mewn llywodraeth leol. A minnau mewn perygl o ailadrodd fy hun, petaem yn ariannu awdurdodau lleol yng Nghymru ar yr un lefel ag y mae Llywodraeth y DU yn cefnogi awdurdodau lleol Lloegr, byddai £0.5 biliwn yn llai o arian yn mynd at lywodraeth leol a'r gwasanaethau a ddarperir ganddi. Mae lefelau treth gyngor 25 y cant yn is nag y maent yn Lloegr. Felly, caiff arian sylweddol

going into local government, and it is a matter for local authorities to make sure that they deliver value for money. Negotiating with the unions collectively at an England and Wales level is also a matter for local authorities. However, we feel that a substantial resource goes into local government, but local government has to make decisions over pay levels.

**Mohammad Asghar:** I draw the Minister's attention to the good work being done by the cancer help clinic of the Hospice of the Valleys. This service is unique in Wales, and the clinic is held twice monthly at Tredegar General Hospital. Will the Minister join me in commending the people who provide this most important service for their help, care and understanding?

**Andrew Davies:** I am delighted to join you in that commendation. When we talk about levels of funding and some of the challenges faced by services, we often neglect to mention that the services that people receive in Wales are extremely good. The Living in Wales survey, which we published earlier this year, showed that the quality of services that people receive, whether it is in health services and cancer care or local government services, are very good. However, that does not mean that we cannot do better. The reason why those services are so good is due to the commitment of those in the statutory and third and voluntary sector in delivering high-quality services for the people whom we represent.

ei fuddsoddi mewn llywodraeth leol, a mater i awdurdodau lleol yw sicrhau eu bod yn darparu gwerth am arian. Mater i awdurdodau lleol yw trafod gydag undebau Cymru a Lloegr ar y cyd hefyd. Fodd bynnag, teimlwn y caiff cryn dipyn o arian ei fuddsoddi mewn llywodraeth leol, ond mae'n rhaid i lywodraeth leol benderfynu yngylch lefelau tâl.

**Mohammad Asghar:** Tynnaf sylw'r Gweinidog at y gwaith da a wneir gan y clinig cymorth canser yn Hosbis y Cymoedd. Hwn yw'r unig wasanaeth o'i fath yng Nghymru, a chynhelir y clinig ddwywaith y mis yn Ysbyty Cyffredinol Tredegar. A wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i ganmol y bobl sy'n darparu'r gwasanaeth hollbwysig hwn am eu cymorth, eu gofal a'u dealltwriaeth?

**Andrew Davies:** Mae'n bleser gennyd ymuno â chi yn y ganmoliaeth honno. Pan fyddwn yn sôn am lefelau cyllid a rhai o'r heriau y mae gwasanaethau'n eu hwynebu, byddwn yn aml yn anghofio crybwyl bod y gwasanaethau a gaiff pobl Cymru yn arbennig o dda. Dangosodd yr arolwg, Byw yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, fod ansawdd y gwasanaeth a gaiff pobl yn dda iawn, boed hynny mewn gwasanaethau iechyd, gofal canser neu wasanaethau llywodraeth leol. Fodd bynnag, nid da lle gellir gwell. Mae'r gwasanaethau hynny yn gwneud cystal oherwydd ymrwymiad y rheini yn y sector statudol, y trydydd sector a'r sector gwirfoddol, i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i'r bobl yr ydym yn eu cynrychioli.

### Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Questions to Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

**The Deputy Presiding Officer:** As we move to the next item on the agenda, it would be appreciated if Members, when asking their questions, could confine their remarks to questions so that we can get through more Members' questions this afternoon.

**David Melding:** Quite right.

**The Deputy Presiding Officer:** That includes David Melding. [ASSEMBLY

**Y Dirprwy Lywydd:** Wrth inni symud ymlaen at yr eitem nesaf ar yr agenda, gwerthfawrogid pe gallai'r Aelodau roi'r gorau i gynnig sylwadau a chadw at eu cwestiynau er mwyn inni allu ymdrin â mwy o gwestiynau'r Aelodau'r prynhawn yma.

**David Melding:** Clywch clywch.

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae hynny'n cynnwys David Melding. [AELODAU'R CYNULLIAD:

MEMBERS: 'Oh.]

'O.]

### Pupil Disengagement

**Q1 Michael German:** What is the Welsh Assembly Government doing to tackle pupil disengagement? OAQ(3)0553(CEL)

**The Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills (Jane Hutt):** There is a great deal of good practice in Wales to avoid disengagement. I want to ensure greater consistency of practice across Wales. The school effectiveness framework and the action plan in response to the national behaviour and attendance review will be key in that regard.

**Michael German:** Statistics published yesterday, I think, demonstrated that the earlier that you can tackle this problem and the better that you can deal with difficulties at home that relate to housing and upbringing, the quicker you can do away with, and move on from, the problem of pupil disengagement. What measures do you have in place to help in developing parenting skills, particularly for those who have younger children?

**Jane Hutt:** As you say, Mike, this involves all Ministers in terms of early prevention. In terms of parenting skills, the Flying Start initiative, which we are rolling out now and is targeting the most disadvantaged families and children in Wales, includes not only free childcare but also parenting support. There is also the important involvement of extra health visiting and Playwork support for those families.

**Jeff Cuthbert:** I am sure that we would agree that initiatives that provide a mix of academic and vocational qualifications, such as the 14-19 learning pathways, will help to improve pupil engagement across the board for that age group. However, in the meantime, do you agree that such organisations as the Senghenydd Youth Drop-In Centre, known as SYDIC, in the Aber valley in my constituency are doing important work with local comprehensive

### Ymddieithriad Disgyblion

**C1 Michael German:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i fynd i'r afael ag ymddieithriad disgyblion? OAQ(3)0553(CEL)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Ceir llawer o arferion da yng Nghymru i osgoi ymddieithriad. Yr wyf am sicrhau gwell cysondeb yng nghyswllt arferion ledled Cymru. Bydd y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion a'r cynllun gweithredu a oedd yn ymateb i'r adolygiad cenedlaethol o ymddygiad a phresenoldeb yn allweddol yn hynny o beth.

**Michael German:** Dangosodd ystadegau a gyhoeddwyd ddoe, fe gredaf, mai'r cynharaf yr ewch i'r afael â'r broblem hon, a'r gorau y gallwch ymdopi ag anawsterau gartref sy'n ymwneud â thai a magwraeth, cyntaf i gyd y gallwch ddileu problem ymddieithriad disgyblion a symud ymlaen o hynny. Pa fesurau sydd wedi'u sefydlu gennych i gynorthwyo i feithrin sgiliau magu plant, yn enwedig i gynorthwyo'r rheini sydd â phlant iau?

**Jane Hutt:** Fel y dywedwch, Mike, mae hyn yn cynnwys pob Gweinidog o ran atal yn gynnar. Yng nghyd-destun sgiliau magu plant, mae'r cynllun Dechrau'n Deg yr ydym yn ei gyflwyno'n awr ac sy'n targedu'r teuluoedd a'r plant sydd dan fwyaf o anfantais yng Nghymru, yn cynnwys gofal plant rhad ac am ddim yn ogystal â chymorth i rieni. Ceir hefyd gyfraniad pwysig ymweliadau iechyd pwysig a chefnogaeth Gwaith Chwarae i'r teuluoedd hynny.

**Jeff Cuthbert:** Yr wyf yn siŵr y byddem yn cytuno y bydd cynlluniau sy'n darparu cymysgedd o gymwysterau academaidd a galwedigaethol, megis y llwybrau dysgu 14-19, yn gymorth i wella ymddieithriad disgyblion yn gyffredinol ar gyfer y grŵp oedran hwnnw. Fodd bynnag, yn y cyfamser, a ydych yn cytuno bod mudiadau megis Canolfan Galw Heibio Ieuencnid Senghenydd—a elwir yn SYDIC—ynghwm Aber yn fy etholaeth, yn gwneud

schools to provide an alternative curriculum for those who are being excluded for one reason or another?

**Jane Hutt:** Yes. I would like to visit that facility in Senghenydd with you shortly. It is a matter of youth access and partnership between the Youth Service and our comprehensive schools. That targets those young people who will be motivated by the 14-19 learning pathways and, indeed, already are being motivated.

I am sure that you will contribute to the consultation on our strategy for young people not in education, employment or training to ensure that we can reach those young people and address their specific needs.

**Nick Bourne:** The Minister referred, quite rightly, to the importance of early action on pupil disengagement to ensure that it does not happen. Given that, and given the importance of the foundation phase, the Minister will recall that she told the Finance Committee that she had given local authorities until the end of June to come up with the statistics that she needed. Now that we are halfway through July, will she confirm that she has had that information and will she tell us when she expects to make a consequent announcement on extra money in the light of that information?

**Jane Hutt:** Unfortunately, we have still had only 11 responses, out of 22, to my request for information by 30 June. This has been an ongoing problem, as you know, but I had a very constructive meeting with the Welsh Local Government Association two weeks ago and I have a meeting of the implementation group next week, at which I shall be raising this issue. We need that data to inform the financial modelling to take us forward beyond 2008-09 to 2009-10.

**Janet Ryder:** The North East Wales Institute of Higher Education has a very good record of reaching out to those who would not traditionally go on to university. It can now, of course, offer them a university education

gwaith pwysig gydag ysgolion cyfun lleol i ddarparu cwricwlwm amgen ar gyfer y rheini sy'n cael eu heithrio am ba bynnag reswm?

**Jane Hutt:** Ydw. Hoffwn ymweld â'r cyfleuster hwnnw yn Senghenydd gyda chi'n fuan. Mater o fynediad i ieuenciad a phartneriaeth rhwng y Gwasanaeth Ieuenciad a'n hysgolion cyfun ydyw. Mae hynny'n targed u'r bobl ifanc hynny a gaiff eu hysgogi gan y llwybrau dysgu 14-19 ac, yn wir, sydd eisoes yn cael eu hysgogi.

Yr wyf yn siŵr y byddwch yn cyfrannu at yr ymgynghoriad ar ein strategaeth ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i sicrhau ein bod yn gallu cyrraedd y bobl ifanc hynny a rhoi sylw i'w hanghenion penodol.

**Nick Bourne:** Cyfeiriodd y Gweinidog, yn ddigon teg, at bwysigrwydd gweithredu'n gynnar yng nghyswllt ymddieithriad disgylion i sicrhau nad yw'n digwydd. Os ystyriwn hynny, ac os ystyriwn bwysigrwydd y cyfnod sylfaen, bydd y Gweinidog yn cofio iddi ddweud wrth y Pwyllgor Cyllid ei bod wedi rhoi tan ddiwedd mis Mehefin i awdurdodau lleol gyflwyno'r ystadegau yr oedd eu hangen arni. A ninnau'n awr hanner ffordd drwy fis Gorffennaf, a wnaiff gadarnhau ei bod wedi cael y wybodaeth honno ac a wnaiff ddweud wrthym pryd y mae'n disgwyl gwneud cyhoeddiad canlynol am arian ychwanegol yng ngoleuni'r wybodaeth honno?

**Jane Hutt:** Yn anffodus, dim ond 11 ymateb o 22 yr ydym wedi'u cael o hyd i'm cais am wybodaeth erbyn 30 Mehefin. Mae hon wedi bod yn broblem barhaus, fel y gwyddoch, ond cefais gyfarfod adeiladol iawn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bythefnos yn ôl ac mae gennyf gyfarfod gyda'r grŵp gweithredu'r wythnos nesaf, a byddaf yn codi'r mater hwn yn y cyfarfod hwnnw. Mae angen y data arnom er mwyn cyfrannu at y modelu ariannol i fynd â ni ymlaen o 2008-09 i 2009-10.

**Janet Ryder:** Mae gan Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru enw arbennig o dda am gyrraedd y rheini na fyddent yn draddodiadol yn mynd ymlaen i brifysgol. Gall yn awr, wrth gwrs, gynnig

as the new Glyndŵr University. Will you take this opportunity to congratulate Mike Scott and NEWI on gaining university status? It will give a boost to the area. Would you also like to elaborate on the written statement that you issued today on the Coleg Ffederal, which will enable students who have previously been disadvantaged to study through the medium of Welsh? How are you going to go about the consultation on that, and will you take on board all views to make sure that the structure that comes forward is one that will deliver Welsh-medium higher education to students in Wales?

**Jane Hutt:** I join the Members who spoke earlier in congratulating Professor Mike Scott. I am glad that the Welsh Assembly Government has been able to play a key part in securing that status for NEWI as Glyndŵr University. The First Minister is looking forward to going there on Friday. It is important that he should be there, as First Minister, to welcome that announcement. I will be meeting the vice-chancellor this afternoon. That institution is pioneering in terms of its courses and I would also draw attention to the work that it is doing on early years education. I have visited Glyndŵr University, as it will now be known, to look at that provision.

The statement that I made earlier today was entitled ‘Welsh Language Developments in Higher Education’, because that is what we want to achieve. I also want to make sure that I pay tribute to the Welsh-medium higher education network, which, of course, has received substantial funding from the Welsh Assembly Government; it has had over £6 million in terms of Reaching Higher funds, the development of subject networks and the network panel for Welsh departments. I have now appointed Professor Robin Williams to chair the next stage of the ‘One Wales’ commitment to the Coleg Ffederal. I will be discussing the way forward with him over the summer months.

#### Power of School Governors

**Q2 Leanne Wood:** What discussions has the Minister had regarding the power of school

addysg brifysgol iddynt fel y Prifysgol Glyndŵr newydd. A wnewch fanteisio ar y cyfle hwn i longyfarch Mike Scott a NEWI ar ennill statws prifysgol? Bydd yn rhoi hwb i'r ardal. A hoffech hefyd ymhelaethu ar y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddasoch heddiw ar y Coleg Ffederal a fydd yn galluogi myfyrwyr a fu dan anfantais yn y gorffennol i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg? Sut yr ydych am gynnal yr ymgynghoriad ar hwnnw, ac a wnewch ystyried yr holl sylwadau a wneir i sierhau y bydd y strwythur a gyflwynir yn un a fydd yn darparu addysg uwch cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr yng Nghymru?

**Jane Hutt:** Yr wyf yn ymuno â'r Aelodau a siaradodd yn gynharach i longyfarch yr Athro Mike Scott. Yr wyf yn falch bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gallu chwarae rhan allweddol i sierhau'r statws hwnnw ar gyfer NEWI fel Prifysgol Glyndŵr. Mae'r Prif Weinidog yn edrych ymlaen at fynd yno ddydd Gwener. Mae'n bwysig y dylai fod yno, fel Prif Weinidog, i groesawu'r cyhoeddiad hwnnw. Byddaf yn cwrdd â'r is-ganghellor brynhawn yma. Mae'r sefydliad hwnnw'n arloesol o ran ei gyrsiau a hoffwn hefyd dynnu sylw at y gwaith y mae'n ei wneud ar addysg blynnyddoedd cynnar. Yr wyf wedi ymweld â Phrifysgol Glyndŵr, fel y caiff ei alw yn awr, i edrych ar y ddarpariaeth honno.

‘Datblygiadau Iaith Gymraeg mewn Addysg Uwch’ oedd teitl y datganiad a wneuthum yn gynharach heddiw, oherwydd dyna’r hyn y mae arnom eisiau ei gyflawni. Mae arnaf hefyd eisiau sierhau fy mod yn rhoi teyrnged i'r rhwydwaith addysg uwch cyfrwng Cymraeg, sydd, wrth gwrs, wedi cael llawer o gyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru; mae wedi cael dros £6 miliwn o ran cronfeydd Ymgeisio yn Uwch, datblygu rhwydweithiau pwnc a'r panel rhwydwaith ar gyfer adrannau Cymraeg. Yr wyf yn awr wedi penodi'r Athro Robin Williams i gadeirio cam nesaf ymrwymiad ‘Cymru’n Un’ i'r Coleg Ffederal. Byddaf yn trafod y ffordd ymlaen gydag ef dros fisoeedd yr haf.

#### Pŵer Llywodraethwyr Ysgol

**C2 Leanne Wood:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch pŵer

governors? OAQ(3)0537(CEL)

**Jane Hutt:** I have not had any discussions regarding the power of school governors.

**Leanne Wood:** Minister, a shortcoming highlighted by the fiasco of the renaming of Rhydfelen school was the school governing body's inability to act after the local authority had made a decision that went against the popular feeling of parents, staff and pupils. What discussions regarding the right of appeal of school governors will you have in the light of recent events at Rhydfelen?

**Jane Hutt:** I am aware of those difficulties and recent events. The powers of governing bodies and their responsibilities are laid down in legislation and I have no plans to change that legislation. However, considering the examples that you have given to me today, Leanne, there may be an opportunity for me to think about that in terms of an appeal. On Saturday, I addressed the national conference of Governors Wales, which represents 23,000 governors in Wales, and I was very impressed by the hard work and the great value that governors provide in the management and the leadership of their schools.

1.20 p.m.

**Darren Millar:** I am sure that you will agree that effective governance is a key factor in the success of a school and its delivery of quality education, but recruiting school governors is a problem in some parts of Wales. What action is the Assembly Government taking to ensure that people are aware of the opportunities that exist within their communities to serve as school governors?

**Jane Hutt:** Having served as a school governor myself—in fact, I chaired Kitchener Primary School's governing body for a good 10 years—I know the value, the contribution and the importance of the governor role. What is important about that, and I think that we have got it right in Wales, is that we have that representation, not only from the local

llywodraethwyr ysgol? OAQ(3)0537(CEL)

**Jane Hutt:** Nid wyf wedi cael dim trafodaethau ynghylch pŵer llywodraethwyr ysgol.

**Leanne Wood:** Weinidog, un diffyg a amlygyddyd gan lanastr ailienwi ysgol Rhydfelen oedd anallu corff llywodraethu'r ysgol i weithredu ar ôl i'r awdurdod lleol wneud penderfyniad a oedd yn mynd yn groes i deimlad poblogaidd y rhieni, y staff a'r disgyblion. Pa drafodaethau ynghylch hawl llywodraethwyr ysgol i apelio a gewch yng ngoleuni'r digwyddiadau diweddar yn Rhydfelen?

**Jane Hutt:** Yr wyf yn ymwybodol o'r anawsterau a'r digwyddiadau diweddar hynny. Caiff pwerau cyrff llywodraethu a'u cyfrifoldebau eu gosod mewn deddfwriaeth ac nid oes gennyl ddim cynlluniau i newid y ddeddfwriaeth honno. Fodd bynnag, ac ystyried yr enghreifftiau yr ydych wedi'u rhoi imi heddiw, Leanne, efallai y bydd cyfle imi feddwl am hynny o ran apêl. Ddydd Sadwrn, yr oeddwyn yn annerch cynhadledd genedlaethol Llywodraethwyr Cymru, sy'n cynrychioli 23,000 o lywodraethwyr yng Nghymru, ac yr oeddwyn yn falch iawn o'r gwaith caled a'r gwerth gwych y mae llywodraethwyr yn eu darparu wrth reoli ac arwain eu hysgolion.

**Darren Millar:** Yr wyf yn siŵr y byddwch yn cytuno bod llywodraethu effeithiol yn ffactor allweddol mewn llwyddiant ysgol a'i darpariaeth o addysg o ansawdd, ond mae reciwtio llywodraethwyr ysgol yn broblem mewn rhai rhannau o Gymru. Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu cymryd i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r cyfleoedd a geir yn eu cymunedau i wasanaethu fel llywodraethwyr ysgol?

**Jane Hutt:** Ar ôl imi wasanaethu fel llywodraethwr ysgol—a dweud y gwir, yr oeddwyn yn gadeirydd ar gorff llywodraethu Ysgol Gynradd Kitchener am 10 mlynedd dda—gwn werth, cyfraniad a phwysigrwydd swyddogaeth llywodraethwyr. Yr hyn sy'n bwysig am hynny, a chredaf ein bod wedi taro'r hoelen ar ei phen yng Nghymru, yw

education authority, but also from parents, teachers, the local community and business.

We fund Governors Wales—and I have just mentioned the conference that I spoke at on Saturday—and also the All Wales Centre for Governor Training and Research in Swansea, which has a key role in raising the profile of the governing-body role. Local education authorities must also remember their responsibilities. They are duty-bound, under section 22 of the Education Act 2002, for example, to enable governors to receive free training. Induction is crucial; otherwise some people may be deterred from taking up that valuable role and feel unable to do it. I certainly value the role of governors and I hope that we can recruit further from the community.

### School Funding Arrangements

**Q3 Peter Black:** Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's progress in implementing the recommendations of the Committee on School Funding report on school funding arrangements in Wales? OAQ(3)0514(CEL)

**Jane Hutt:** Work is ongoing to implement the recommendations of the Committee on School Funding that were accepted by the Assembly Government, as well as the recommendations of the report of the Enterprise and Learning Committee, debated on 2 July.

**Peter Black:** One recommendation of the report was to streamline and make more sustainable the various funding streams that are available to schools. Given that the average local education authority must deal with about 50 such grants—many of which are for small amounts of money, but which require a huge amount of bureaucracy to administer—there seems to be a need to introduce such a reform. What progress is being made on that recommendation?

bod y gynrychiolaeth honno gennym, nid yn unig o'r awdurdod addysg lleol, ond hefyd o blith rhieni, athrawon, y gymuned leol a busnesau.

Yr ydym yn cyllido Llywodraethwyr Cymru—ac yr wyf newydd sôn am y gynhadledd y bûm yn ei hannerch ddydd Sadwrn—a Chanolfan Cymru Gyfan ar gyfer Ymchwil a Hyfforddiant Llywodraethwyr yn Abertawe, sydd â swyddogaeth allweddol o ran codi proffil swyddogaeth y corff llywodraethu. Rhaid i awdurdodau addysg lleol hefyd gofio eu cyfrifoldebau. Mae'n ddyletswydd arnynt, dan adran 22 Deddf Addysg 2002, er enghraift, alluogi llywodraethwyr i gael hyfforddiant am ddim. Mae cynefin yn hollbwysig; fel arall efallai y caiff rhai pobl eu rhwystro rhag cyflawni'r swyddogaeth werthfawr honno a themlo na allant wneud hynny. Yr wyf yn sicr yn gwerthfawrogi swyddogaeth llywodraethwyr ac yr wyf yn gobeithio y gallwn reciwtio ymhellach o'r gymuned.

### Trefniadau Ariannu Ysgolion

**C3 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran gweithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion am drefniadau ariannu ysgolion yng Nghymru? OAQ(3)0514(CEL)

**Jane Hutt:** Mae gwaith yn mynd rhagddo i weithredu argymhellion y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion a dderbyniwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, yn ogystal ag argymhellion adroddiad y Pwyllgor Dysgu a Menter, a drafodwyd ar 2 Gorffennaf.

**Peter Black:** Un o argymhellion yr adroddiad oedd symleiddio'r amrywiol ffrydai cyllido sydd ar gael i ysgolion a'u gwneud yn fwy cynaliadwy. Ac ystyried ei bod yn rhaid i'r awdurdod addysg lleol arferol ddelio ag oddeutu 50 o grantiau o'r fath—nifer ohonynt sydd am symiau bach o arian, ond sy'n gofyn am lawer iawn o fiwrocratiaeth i'w gweinyddu—ymddengys fod angen cyflwyno diwygiad o'r fath. Pa gynnydd sy'n cael ei wneud ar yr argymhelliad hwnnw?

**Jane Hutt:** We need to put this into context. We only use grant funding where we consider it to be the most effective way of developing particular policy initiatives or priorities. Only some 9 per cent of gross schools expenditure comes through grant funding. As you know, I accepted the recommendation to work further with the Welsh Local Government Association and with my colleague, the Minister for Social Justice and Local Government, on this issue.

**Alun Ffred Jones:** Ar yr un trywydd, yr wyf innau hefyd wedi derbyn sylwadau gan brifathrawon sy'n teimlo eu bod yn treulio llawer iawn o amser yn gwneud ceisiadau am arian grant—yn aml am symiau bach, fel y dywedwyd. Mae'n cymryd llawer o amser a ddylai gael ei ddefnyddio at bwrrpas rheoli'r ysgol. Clywais eich ateb, ond a oes gennych chi fwriad mewn gwirionedd i leihau nifer y grantiau hyn yn y dyfodol?

**Jane Hutt:** We have a grant protocol with the WLGA; we consult it on the distribution of grants and we also have a protocol on hypothecated grants. We do not want to have a bidding culture. Hypothecated education grants do not normally involve bidding; we recognise the additional burden placed on authorities and schools, and the sums available are distributed on either a formula basis or as an equal amount per authority. Going back to my response to Peter Black, this is where we think there is a particular policy initiative that we would want to support. Across the board, whether it is the minority ethnic achievement grants, school uniform grants or for Flying Start, this has played an important role in the Welsh Assembly Government's initiatives being implemented at local authority level.

**William Graham:** Having had the privilege of chairing the Committee on School Funding, I remind you that the 27 recommendations were reached on a cross-party basis and that the main thrust of evidence, particularly from practitioners, was that the funding process must be transparent. Will you make that a priority?

**Jane Hutt:** Mae arnom angen rhoi hyn mewn cyd-destun. Dim ond pan fyddwn o'r farn mai cyllid grant yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddatblygu mentrau polisi neu flaenoriaethau penodol y byddwn yn defnyddio cyllid grant. Dim ond 9 y cant o wariant gros ysgolion a ddaw drwy gyllid grant. Fel y gwyddoch, yr wyf yn derbyn yr argymhelliaid i weithio ymhellach gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a gyda fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog dros Gyflawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, ar y mater hwn.

**Alun Ffred Jones:** Along the same lines, I have also received comments from headteachers who feel that they spend a lot of time applying for grant funding—often, as was said, for small sums. It takes up a lot of time that should be spent in managing the school. I heard your response, but do you have a real intention to reduce the number of these grants in the future?

**Jane Hutt:** Mae gennym brotocol grant gyda CLILC; yr ydym yn ymgynghori â hi ynghylch dosbarthu grantiau ac mae gennym hefyd brotocol ar grantiau wedi'u neilltuo. Nid oes arnom eisiau cael diwylliant o geisiadau. Fel rheol ni fydd grantiau addysg wedi'u neilltuo'n golygu gwneud cais; yr ydym yn cydnabod y byrdwn ychwanegol a roddir ar awdurdodau ac ar ysgolion, a chaiff y symiau sydd ar gael eu dosbarthu naill ai ar sail fformiwlau neu fel swm cyfartal fesul awdurdod. A dychwelyd at fy ateb i Peter Black, dyma lle yr ydym yn meddwl bod menter polisi benodol y byddai arnom eisiau ei chefnogi. Yn gyffredinol, boed hwy'n grantiau cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig, yn grantiau gwisg ysgol neu ar gyfer Dechrau'n Deg, maent wedi chwarae rhan bwysig o ran gweithredu mentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar lefel awdurdod lleol.

**William Graham:** A minnau wedi cael y faint o gadeirio'r Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion, yr wyf yn eich atgoffa y cyrhaeddwyd y 27 o argymhellion ar sail drawsbleidiol ac mai prif ergyd y dystiolaeth, yn enwedig gan ymarferwyr, oedd ei bod yn rhaid i'r broses cyllido fod yn dryloyw. A wnewch chi hynny'n flaenoriaeth?

**Jane Hutt:** I will. I recognise and acknowledge the work of the Committee on School Funding. We had a robust debate on 2 July on the follow-through in relation to the Enterprise and Lifelong Learning Committee's report. Transparency is key and, as I said on 2 July, we continue to look at section 52 returns and revenue account forms. Furthermore, we now have a school funding website and it would be helpful to have some feedback on that, because that is also about ensuring transparency and providing information on funding mechanisms.

### Foundation Phase

**Q4 Chris Franks:** What representations has the Minister received regarding the foundation phase in South Wales Central? OAQ(3)0536(CEL)

**Jane Hutt:** I have sought and taken account of views expressed by parents, local government, teacher unions, headteachers, teachers and the non-maintained sector throughout Wales to secure the successful implementation of the foundation phase.

**Chris Franks:** I have received representation from the Vale of Glamorgan Council highlighting the fact that its capital allocation of £148,000 for the financial year 2008-09 is insufficient to address the spatial arrangements needed to ensure that the foundation phase reaches its full potential in the authority. I have received similar comments from Rhondda Cynon Taf County Borough Council. Do you share my concern on this and will you take this opportunity to revisit the amount allocated to schools in capital investment?

**Jane Hutt:** I am glad that you have raised the issue of capital. That came up in the Finance Committee meeting at which I gave evidence. We have allocated over £27 million since 2003-04 in capital funding for the foundation phase, through the early years capital allocation. The allocation for 2008-09 is £3.35 million. If you look at the Vale of Glamorgan Council's total grant allocation for this financial year, you will see that it is over £1 million and that does not include the pilot projects, in which we are continuing to

**Jane Hutt:** Gwnaf. Yr wyf yn cydnabod gwaith y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion. Cawsom ddadl dda ar 2 Gorffennaf am yr hyn a fydd yn dilyn yng nghyswllt adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu Gydol Oes. Mae tryloywder yn allweddol ac, fel y dywedais ar 2 Gorffennaf, yr ydym yn parhau i edrych ar ffurflenni adran 52 a ffurflenni cyfrif refeniw. Ar ben hynny, mae gennym yn awr wefan ariannu ysgolion a byddai'n ddefnyddiol cael rhywfaint o adborth ar hwnnw, oherwydd mae hwnnw hefyd yn ymwneud â sicrhau tryloywder a darparu gwybodaeth am fecanweithiau cylido.

### Cyfnod Sylfaen

**C4 Chris Franks:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch y cyfnod sylfaen yng Nghanol De Cymru? OAQ(3)0536(CEL)

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi ceisio ac wedi ystyried sylwadau a fynegwyd gan rieni, llywodraeth leol, undebau athrawon, penaethiaid, athrawon a'r sector nas cynhelir ledled Cymru i sicrhau y caiff y cyfnod sylfaen ei roi ar waith yn llwyddiannus.

**Chris Franks:** Yr wyf wedi cael sylwadau gan Gyngor Bro Morgannwg yn tynnu sylw at y ffaith nad yw ei ddyraniad cyfalaf o £148,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2008-09 yn ddigonol i fynd i'r afael â'r trefniadau gofodol y mae eu hangen i sicrhau bod y cyfnod sylfaen yn cyrraedd ei botensial llawn yn yr awdurdod. Yr wyf wedi cael sylwadau tebyg gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. A ydych yn rhannu fy mhryder ynghylch hyn ac a wnewch ddefnyddio'r cyfle hwn i ailedrych ar y swm a ddyrannwyd i ysgolion mewn buddsoddiad cyfalaf?

**Jane Hutt:** Yr wyf yn falch eich bod wedi codi mater cyfalaf. Codwyd hynny yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid y rhoddais dystiolaeth iddo. Yr ydym wedi dyrannu dros £27 miliwn er 2003-04 mewn cyllid cyfalaf ar gyfer y cyfnod sylfaen, drwy ddyraniad cyfalaf y blynnyddoedd cynnar. Dyrannwyd £3.35 miliwn ar gyfer 2008-09. Os edrychwr ar gyfanswm dyraniad grant Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, gwelwr ei fod dros £1 miliwn ac nid yw hynny'n cynnwys y prosiectau

invest. So, I believe that we have provided the Vale of Glamorgan Council with a good settlement in both capital and revenue.

**Andrew R.T. Davies:** In your consultations with various participating partners in the foundation phase, in particular in South Wales Central, many flagged up as early as last year, when you took over the education portfolio, that there were problems with the funding system for the foundation phase. The National Union of Teachers Cymru, the National Association of Head Teachers, councils and AMs have informed me of that. Is it not a black mark against your first 12 months that you have failed to address those concerns and failed to deliver the foundation phase in the way that was intended for many of our pupils this September?

**Jane Hutt:** Andrew R.T. Davies's attempts to undermine me are failing miserably. Had he come out with me last night for a walk in the woods in Hensol Forest, he would have joined not only the director of education in the Vale of Glamorgan—as we happen to be focusing on that county at the moment—but also the early years teachers, who are now rolling out the foundation phase, from four primary schools in the Vale of Glamorgan: St Brides Major Church in Wales Primary School, St Andrew's Major Church in Wales Primary School, St Joseph's RC Primary School and Eagleswell Primary School. All of those primary schools have been engaged in an exciting project with the Forestry Commission, funded by the Arts Council of Wales, whereby children are taking their learning into Hensol Forest. I am sure you are pleased to hear about that, Andrew.

I am proud, as I hope are all of you, particularly opposition Members, of what our early years teachers and headteachers are doing with the foundation phase. I am also grateful for the support that they have given me—they are supporting me, Andrew, so do not undermine me.

1.30 p.m.

peilot, yr ydym yn dal yn buddsoddi ynddynt. Felly, yr wyf yn credu ein bod wedi darparu setliad da i Gyngor Bro Morgannwg, mewn cyfalaf a refeniw.

**Andrew R.T. Davies:** Yn eich ymgynghoriadau ag amryfal bartneriaid sy'n cymryd rhan yn y cyfnod sylfaen, yn enwedig yng Nghanol De Cymru, yr oedd nifer wedi sôn mor gynnar â llynedd, pan ddaethoch yn gyfrifol am y portffolio addysg, bod problemau gyda'r system cyllido ar gyfer y cyfnod sylfaen. Mae Undeb Cenedlaethol yr Athrawon Cymru, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, cynghorau ac ACau wedi rhoi gwybod imi am hynny. Onid yw'n farc du yn erbyn eich 12 mis cyntaf eich bod wedi methu rhoi sylw i'r pryderon hynny a'ch bod wedi methu darparu'r cyfnod sylfaen yn y ffordd a fwriadwyd i nifer o'n disgylion fis Medi yma?

**Jane Hutt:** Mae ymdrechion Andrew R.T. Davies i'm tanseilio'n methu'n drychinebus. Petai wedi dod allan gyda mi neithiwr i fynd am dro yng Nghoed Hensol, nid yn unig y byddai wedi ymuno â'r cyfarwyddwr addysg ym Mro Morgannwg—gan ein bod yn digwydd bod yn canolbwytio ar y sir honno ar hyn o bryd—ond byddai hefyd wedi ymuno â'r athrawon blynnyddoedd cynnar, sydd yn awr yn cyflwyno'r cyfnod sylfaen, o bedair ysgol gynradd ym Mro Morgannwg: Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint Andras, Ysgol Gynradd Gatholig St Joseph ac Ysgol Gynradd Eagleswell. Mae'r holl ysgolion cynradd hynny wedi bod yn ymwneud â phrosiect cyffrous gyda'r Comisiwn Coedwigaeth, sydd wedi'i gyllido gan Gyngor Celfyddydau Cymru, lle mae'r plant yn mynd â'u dysgu i Goed Hensol. Yr wyf yn siŵr eich bod yn falch o glywed am hynny, Andrew.

Yr wyf fi'n falch, fel yr wyf fi'n gobeithio yr ydych chi i gyd, yn enwedig Aelodau'r wrthblaid, o'r hyn y mae ein hathrawon blynnyddoedd cynnar a'n penaethiaid yn ei wneud gyda'r cyfnod sylfaen. Yr wyf hefyd yn ddiolchgar am y gefnogaeth y maent wedi'i rhoi imi—maent yn fy nghefnogi, Andrew, felly peidiwch â fy nhanseilio.

Your region, South Wales Central, has £5.5 million of extra, new money going into the foundation phase from September. Are you going to undermine that? A sum of £5.5 million and 390 extra staff—that is what is going into the foundation phase from September. Be proud of that—I certainly am.

Mae gan eich rhanbarth chi, Canol De Cymru, £5.5 miliwn o arian ychwanegol, newydd yn mynd i mewn i'r cyfnod sylfaen o fis Medi ymlaen. A ydych yn mynd i danseilio hynny? Swm o £5.5 miliwn a 390 o staff ychwanegol—dyna beth sydd yn mynd i mewn i'r cyfnod sylfaen o fis Medi. Ymfalchïwch yn hynny—yr wyf fi'n gwneud, yn bendant.

**Andrew R.T. Davies:** The good thing about being a party spokesperson is that I get to ask another supplementary question. You did not answer the question that I asked. The headteacher in Peterston-super-Ely laments his allocation, as does the headteacher in Pendoylan. The National Union of Teachers Cymru, headteachers and governors are all saying that you have failed to address the concerns even though the lights were flashing. During the summer recess, perhaps you should lock yourself in a dark room, place a towel over your head and come out of denial in order to address the issues.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Can we have a question, please?

**Andrew R.T. Davies:** Even if you are unable to address your flaws, do you agree that local education authorities are retaining too high a proportion of the money that is allocated to the foundation phase for training? There is a disparity between LEAs, in that some are retaining 7 per cent while others are retaining 22 per cent. What is your understanding of that level of retention, given the desperate need of schools for as much of that money as possible to be delivered to their front doors?

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Minister, can you just answer one of those five questions, please?

**Jane Hutt:** I will certainly not answer the pathetic rubbish that I heard before a genuine question was asked. [Laughter.] I agree with the opposition's education spokesperson; I am concerned about the variation in terms of the spend on training. I wrote to the local authorities and to every headteacher following my last written statement on this issue and told them that they were free to use

**Andrew R.T. Davies:** Y peth da ynghylch bod yn llefarydd plaid yw fy mod yn cael gofyn cwestiwn atodol arall. Ni wnaethoch ateb y cwestiwn a ofynnais. Mae'r prifathro yn Llanbedr-y-fro yn gresynu am ei ddyraniad, fel y gwna'r prifathro ym Mhendeulwyn. Mae NUT Cymru, prifathrawon a llywodraethwyr i gyd yn dweud eich bod wedi methu ateb y pryderon er bod y goleuadau'n fflachio. Yn ystod gwyliau'r haf, efallai y dylech eich cloi eich hun mewn ystafell dywyll, gosod tywel dros eich pen a rhoi'r gorau i'ch gwadu er mwyn wynebu'r materion hyn.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. A gawn ni gwestiwn, os gwelwch yn dda?

**Andrew R.T. Davies:** Hyd yn oed os na allwch gywiro eich brychau, a ydych yn cytuno bod awdurdodau addysg lleol yn cadw cyfran rhy fawr o'r arian sydd wedi'i ddyrannu i'r cyfnod sylfaen ar gyfer hyfforddiant? Mae gwahaniaeth rhwng AALL'au, gyda rhai'n cadw 7 y cant tra mae eraill yn cadw 22 y cant. Beth yw eich dealltwriaeth o'r lefel honno o gadw, ac ystyried angen dirfawr ysgolion am i gymaint o'r arian hwnnw ag sy'n bosibl gael ei ddanfon at eu drws ffrynt?

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Weinidog, a allwch ateb dim ond un o'r pum cwestiwn hynny, os gwelwch yn dda?

**Jane Hutt:** Yn sicr nid atebaf y dwli truenus a glywais cyn y gofynnwyd cwestiwn go iawn. [Chwerthin.] Yr wyf yn cytuno â llefarydd yr wrtblaid dros addysg; yr wyf yn bryderus ynglŷn â'r amrywiaeth yn nhermau faint a werir ar hyfforddiant. Ysgrifennais at yr awdurdodau lleol ac at bob prifathro yn dilyn fy natganiad ysgrifenedig diwethaf ar y pwnc hwn a dywedais wrthynt eu bod yn

some of the allocation for training for next year for their learning support assistants, because we want to get as many on board as possible. Some of the authorities have now responded and said that they have adjusted their levels of funding in order to put less into training, because they have already had considerable financial allocations for training for the next financial year. I am satisfied that the message has got through and that changes are being made.

### **Further Education**

**Q5 Lorraine Barrett:** What is the Welsh Assembly Government doing to encourage pupils to enter into further education? OAQ(3)0559(CEL)

**The Deputy Minister for Skills (John Griffiths):** The Welsh Assembly Government seeks to maximise the participation of learners in further education in Wales. The proposed Learning and Skills (Wales) Measure will ensure that all young people have a wider choice of course provision in order to develop their learning pathways, which will encourage their progression into further and higher education.

**Lorraine Barrett:** Do you agree that it is vital that further education is recognised as being just as valid as higher education in equipping students with the necessary tools to get them into their chosen field, whether it is practical or academic? Will you give me your assurance today that FE providers will operate in line with the agenda outlined in ‘Skills That Work for Wales’?

**John Griffiths:** I am very happy to agree with those points and to provide that assurance. There is a growing recognition of the role of further education colleges in Wales. The Webb report was quite clear in describing those colleges as the skills drivers for the local economy. We all know how important it is to upskill our people so that we can compete properly within today’s global economy and become stronger in the future. Therefore, there is a key role there in terms of the economy and driving full

rhydd i ddefnyddio rhywfaint o'r dyraniad ar gyfer hyfforddiant y flwyddyn nesaf i'w cynorthwywyr cymorth dysgu, oherwydd mae arnom eisaiu sicrhau cynifer ohonynt ag sy'n bosibl. Mae rhai o'r awdurdodau bellach wedi ymateb ac wedi dweud eu bod wedi addasu eu lefelau ariannu er mwyn rhoi llai i mewn i hyfforddiant, am eu bod eisoes wedi cael dyraniadau ariannol sylweddol ar gyfer hyfforddiant am y flwyddyn ariannol nesaf. Yr wyf yn fodlon fod y neges wedi mynd trwodd a bod newidiadau'n digwydd.

### **Addysg Bellach**

**C5 Lorraine Barrett:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i annog disgylion i gymryd rhan mewn addysg bellach? OAQ(3)0559(CEL)

**Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau (John Griffiths):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ceisio sicrhau y ceir cynifer o ddysgwyr ag sy'n bosibl i ymgymryd ag addysg bellach yng Nghymru. Bydd y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) arfaethedig yn sicrhau y caiff pobl ifanc i gyd ddewis ehangach o ddarpariaeth cyrsiau er mwyn datblygu eu llwybrau dysgu, a fydd yn eu hannog i symud ymlaen i addysg bellach ac uwch.

**Lorraine Barrett:** A gytunwch ei bod yn hanfodol cydnabod bod addysg bellach yr un mor ddilys ag addysg uwch o ran arfogi myfyrwyr â'r cyneddfau angenheidol i'w cael i mewn i'w maes dewisol, boed hwnnw'n ymarferol neu'n academaidd? A roddwch eich sicrwydd imi heddiw y bydd darparwyr AB yn gweithredu'n unol â'r agenda a amlinellir yn 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru'?

**John Griffiths:** Yr wyf yn hapus i gytuno â'r pwyntiau hynny a rhoi'r sicrwydd hwnnw. Mae cydnabyddiaeth gynyddol i'r rôl colegau addysg bellach yng Nghymru. Yr oedd adroddiad Webb yn hollol glir wrth ddisgrifio'r colegau hynny fel gyrwyr sgiliau'r economi leol. Gwyddom i gyd mor bwysig yw cynyddu sgiliau ein pobl fel y gallwn gystadlu'n iawn o fewn economi fydeang ein hoes a thyfu'n gryfach yn y dyfodol. Felly, mae'r rôl allweddol yno yn nhermau'r economi a gyrru cyflogaeth lawn. Mae

employment. FE colleges are very important in terms of second-chance education, which is crucial to many of our communities across Wales. 'Skills That Work for Wales', which was published yesterday, as our key agenda for skills and employment, recognises all of that. We very much expect the further education colleges to continue to work with the Welsh Assembly Government to drive that agenda forward.

I am also pleased to say that, as part of the First Minister's statement yesterday on the forthcoming legislative programme, it was announced that we will take forward foundation-degree-awarding powers for further education colleges in Wales, which will open up new, important opportunities for them.

**Alun Cairns:** If further education colleges are to be used to extend choice to students and pupils, how can it be an equitable choice when some colleges, such as Gorseinon College, impose a registration fee of £40? If pupils stay at school, they not only receive free school transport, they also do not have to pay a registration fee. In comparison, some colleges do not have fees or may have fees ranging from £10 to £15, which are combined with a much reduced cost of school transport. Will you be looking at such issues in your new Measure on further education, to make it an equitable, genuine choice for students?

**John Griffiths:** We will look at this issue, Alun, along with many others, in working with Fforwm as the representative body for further education colleges in Wales. We must understand that these colleges are autonomous bodies that have powers and abilities of their own. We seek to work with them around 'Skills That Work for Wales'. As we roll that out, we will address this issue and, as I said, many others in continuing to work in close partnership.

**Mohammad Asghar:** I would like to know what the Assembly Government is doing to increase the provision of further education through the medium of Welsh. Statistics show that teenagers in schools are 10 times

colegau AB yn bwysig iawn yn nhermau addysg ail gyfle, sydd yn hollbwysig i lawer o'n cymunedau ar draws Cymru. Mae 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru', ein hagenda allweddol ar gyfer sgiliau a chyflogaeth a gyhoeddwyd ddoe, yn cydnabod hynny i gyd. Disgwyllyn yn fawr i'r colegau addysg bellach barhau i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i yrru'r agenda hwnnw ymlaen.

Mae'n dda gennyd ddweud hefyd y cyhoeddwyd fel rhan o ddatganiad y Prif Weinidog ddoe ar y rhaglen ddeddfwriaethol sydd o'n blaenau, y byddwn yn symud ymlaen â phwerau dyfarnu graddau sylfaen i golegau addysg bellach yng Nghymru, a fydd yn agor cyfleoedd newydd pwysig iddynt.

**Alun Cairns:** Os bwriedir defnyddio colegau addysg bellach i roi mwy o ddewis i fyfyrwyr a disgyblion, sut y gall fod yn ddewis teg pan fydd rhai colegau, fel Coleg Gorseinon, yn codi tâl cofrestru o £40? Os bydd disgyblion yn aros yn yr ysgol, nid yn unig y cânt eu cludo i'r ysgol am ddim, ond hefyd nid oes raid iddynt dalu tâl cofrestru. O ran cymhariaeth, nid yw rhai colegau'n codi tâl neu efallai eu bod yn codi tâl rhwng £10 a £15, a gyfunir â thâl llawer is am gludiant i'r ysgol. A fyddwch yn edrych ar faterion o'r fath yn eich Mesur newydd ar addysg bellach, i'w wneud yn ddewis teg, gwirioneddol i fyfyrwyr?

**John Griffiths:** Byddwn yn edrych ar y mater hwn, Alun, ynghyd ag amryw o faterion eraill, wrth gydweithio â Fforwm, y corff sy'n cynrychioli colegau addysg bellach yng Nghymru. Rhaid inni ddeall mai cyrff annibynnol yw'r colegau hyn a chanddynt eu pwerau a'u galluoedd eu hunain. Ceisiwn gydweithio â hwy ynghylch 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru'. Wrth inni gyflwyno hynny'n raddol, rhoddown sylw i'r mater hwn ac, fel y dywedais, i amryw o faterion eraill wrth barhau i gydweithio mewn partneriaeth agos.

**Mohammad Asghar:** Hoffwn wybod beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i gynyddu darpariaeth addysg bellach drwy gyfrwng y Gymraeg. Dengys ystadegau fod pobl ifanc mewn ysgolion 10 gwaith yn fwy

more likely to be taught through the medium of Welsh or bilingually than those in FE. Will the Deputy Minister agree that this is not acceptable and that steps should be taken to increase the number of FE courses for Welsh speakers?

**John Griffiths:** The background to this issue is ‘Iaith Pawb’. I have said on many occasions—it is very true—that, until Wales becomes a fully bilingual country, there will always be difficult issues in providing public services through the medium of Welsh to the extent that we would like. That is the background and the key difficulty.

However, within that, I am pleased to say that we are making progress in further education in terms of tuition and learning provision through the medium of Welsh. We do that in various ways: we have a Welsh language unit in DCELLS to drive policy forward; we have allocated £1.2 million on an annual basis for vocational educational provision in FE through the medium of Welsh; there is money for training staff and lecturers; there is also money for information technology, video conferencing, and the like, so that distance learning can be a part of this provision. Therefore, there are various things going on, which are having an effect. The statistics show that progress is being made, but it is fair to say that that progress is building upon a fairly low base. We understand that there is a lot of work to be done, and it is one of the key challenges that we face.

**Jenny Randerson:** You said that there is a growing recognition of the importance of further education, but FE and its students are tired of hearing that. What FE needs is decent funding to allow it to provide the kind of services and courses that our students need if we are to see delivery of the skills agenda that your Government wants. It always seems to be jam tomorrow from the point of view of FE in Wales, rather than jam today.

In my area of Cardiff, the college—as you well know, because I know that it has met you, and I have talked to you about the

tebygol o gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu’n ddwyieithog na rhai mewn AB. A wnaiff y Dirprwy Weinidog gytuno nad yw hyn yn dderbynio ac y dylid cymryd camau i gynyddu nifer y cyrsiau AB i fyfyrwyr sy’n siarad Cymraeg?

**John Griffiths:** Y cefndir i’r mater hwn yw ‘Iaith Pawb’. Yr wyf wedi dweud lawer gwaith—mae’n wir iawn—y bydd, nes daw Cymru’n wlad gwbl ddwyieithog, bob amser broblemau astrus ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg i’r graddau a ddymunem. Dyna’r cefndir a’r anhawster allweddol.

Fodd bynnag, o fewn hynny, mae’n dda gennyl ddweud ein bod yn symud ymlaen o fewn addysg bellach yn nhermau addysgu a darpariaeth ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwnawn hynny mewn amryfal ffyrrd: mae gennym uned Gymraeg yn yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i yrru polisi ymlaen; yr ydym wedi dyrannu £1.2 miliwn yn flynyddol ar gyfer darpariaeth addysg alwedigaethol mewn AB drwy gyfrwng y Gymraeg; mae arian ar gael i hyfforddi staff a darlithwyr; mae arian hefyd ar gyfer technoleg gwybodaeth, fideo-gynadledda, ac ati, fel y gall dysgu o bell fod yn rhan o’r ddarpariaeth hon. Felly, y mae gwahanol bethau’n digwydd, sydd yn cael effaith. Dengys yr ystadegau ein bod yn symud ymlaen, ond mae’n deg dweud ein bod yn adeiladu ar sylfaen eithaf isel. Deallwn fod llawer o waith i’w wneud, ac mae’n un o’r heriau allweddol sy’n ein hwynebu.

**Jenny Randerson:** Dywedasoch fod pwysigrwydd addysg bellach yn cael ei gydnabod fwyfwy, ond mae AB a’i myfyrwyr wedi blino ar glywed hynny. Yr hyn y mae ei angen ar AB yw arian da i’w chaniatáu i ddarparu’r math o wasanaethau a chyrsiau y mae ar ein myfyrwyr eu hangen os ydym am weld gwireddu’r agenda sgiliau yn unol â dymuniad eich Llywodraeth. Mae bob amser yn ymddangos mai jam yfory yw hi o safbwyt AB yng Nghymru, yn hytrach na jam heddiw.

Yn fy rhan i o Gaerdydd, mae’r coleg—fel y gwyddoch yn iawn, oherwydd gwn ei fod wedi cyfarfod â chi, ac yr wyf finnau wedi

issue—is facing a standstill budget. Will you look again at the appalling funding situation that it is facing, which is leading to the possibility of 30 redundancies and the closure of its sports academy? Will you, at the very least, look again very hard at the funding for next year, so that FE in Wales is not faced with the impossible decisions that it has had to face this year?

siarad am y mater gyda chi—yn wynebu cyllideb sefyll-yn-yr-unfan. A wnewch chi edrych eto ar y sefyllfa ariannol enbyd sy'n ei wynebu, sy'n arwain at y posibilrwydd o ddileu 30 o swyddi a chau ei academi chwaraeon? A wnewch, o leiaf, edrych eto yn galed iawn ar y cyllid ar gyfer y flwyddyn nesaf, fel na fydd yn rhaid i AB yng Nghymru wynebu'r penderfyniadau amhosibl y bu'n rhaid iddi eu hwynebu eleni?

**John Griffiths:** In my experience, the FE sector appreciates the commitment of the Welsh Assembly Government to work in close partnership with it through Fforwm and with individual colleges. We both share the aim of driving up recognition of the role of FE. That is very important, because, sometimes, higher education and schools get the lion's share of the attention. Getting recognition of the role that FE plays is sometimes quite a challenge in terms of the media, and so on. Therefore, it is necessary to state that importance, and that is something that the further education sector wants to hear.

1.40 p.m.

I do not accept that this is a case of jam tomorrow. Over recent years, we have provided reasonable increases in funding for further education in Wales. We made a major commitment on FE pay parity, which is well-appreciated in the sector, and was intended to help recruitment and retention of good-quality staff. Obviously, that feeds into provision for learners. We have £32.5 million available this year to change spending patterns around learning pathways, and there are various other moneys available to FE. For example, aside from the public purse, institutions are able to lever in money through good links with local employers.

As far as Coleg Glan Hafren is concerned, as you say—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Can you wind up, please? This is interesting, but very long.

**John Griffiths:** I am trying to provide a full answer.

**John Griffiths:** Yn fy mhrofiad i, mae'r sector AB yn gwerthfawrogi ymroddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithio mewn partneriaeth agos ag ef drwy Fforwm a chyda colegau unigol. Yr ydym ein dau'n rhannu'r nod o gynyddu cydnabyddiaeth o rôl AB. Mae hynny'n bwysig iawn, oherwydd, weithiau, caiff addysg uwch ac ysgolion y rhan fwyaf o'r sylw. Mae cael cydnabyddiaeth i'r rôl y mae AB yn ei chwarae'n gryn her weithiau yn nhermau'r cyfryngau ac ati. Felly, mae angen datgan y pwysigrwydd hwnnw, ac mae hynny'n rhywbeth y mae ar y sector addysg bellach eisiau ei glywed.

Nid wyf yn derbyn mai achos o jam yfory yw hwn. Dros y blynnyddoedd diweddar, yr ydym wedi darparu codiadau rhesymol yng nghyllid addysg bellach yng Nghymru. Gwnaethom ymrwymiad mawr ar gydraddoldeb cyflogau AB, a werthfawrogir yn fawr yn y sector, ac a fwriadwyd i helpu reciriwtio a chadw staff o ansawdd da. Yn amlwg, mae hynny'n bwydo i mewn i ddarpariaeth i ddysgwyr. Mae gennym £32.5 miliwn eleni i newid patrymau gwario o amgylch llwybrau dysgu, ac mae amryfal botiau arian eraill ar gael i AB. Er enghraifft, ar wahân i'r pwrs cyhoeddus, gall sefydliadau gael arian i mewn drwy gysylltiadau da gyda chyflogwyr lleol.

Cyn belled ag y mae Coleg Glan Hafren yn y cwestiwn, fel y dywedwch—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. A allwch ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda? Mae hyn yn ddiddorol, ond yn faith iawn.

**John Griffiths:** Yr wyf yn ceisio rhoi ateb llawn.

**The Deputy Presiding Officer:** I accept that, but you could write to her.

**John Griffiths:** As for Coleg Glan Hafren, as you say, Jenny, I have met with its representatives recently, and indeed with Assembly Members, and we have made some headway in addressing the financial difficulties that the college faces. Nevertheless, I understand that some issues remain. Next year, we hope to improve the situation, but obviously, it is subject to the usual negotiations with the Minister for finance.

**The Deputy Presiding Officer:** Question 6, OAQ(3)0529(CEL) is withdrawn.

### Childcare Facilities

**Q7 Joyce Watson:** Will the Minister outline the Welsh Assembly Government's priorities for childcare facilities in Wales? OAQ(3)0564(CEL)

**Jane Hutt:** Our childcare strategy, 'Childcare is for Children', sets out how we are addressing childcare priorities. An additional £15 million over three years is allocated for Flying Start and out-of-school childcare and to support local authorities in their new duty to secure sufficient childcare.

**Joyce Watson:** Access to affordable childcare is key to helping people into employment, so the Assembly Government's ongoing commitment to childcare is welcome news. The Genesis scheme has helped many of my constituents to overcome barriers to returning to work, with projects such as Genesis Sir Gâr offering financial assistance and childcare support. Are there plans to extend the Genesis service?

**Jane Hutt:** The Genesis Wales project was very successful, and assisted nearly 13,000 beneficiaries, providing over 10,000 childcare places. An application has now gone to the Welsh European Funding Office to fund a successor project under the new structural funds. I am confident that a

**Y Dirprwy Lywydd:** Derbyniaf hynny, ond gallech ysgrifennu ati.

**John Griffiths:** O ran Coleg Glan Hafren, fel y dywedwch, Jenny, yr wyf wedi cwrdd â'i gynrychiolwyr yn ddiweddar, ac yn wir gydag Aelodau Cynulliad, ac yr ydym wedi symud ymlaen rywfaint i ddelio â'r anawsterau ariannol y mae'r coleg yn eu hwynebu. Serch hynny, deallaf fod rhai materion yn aros. Y flwyddyn nesaf, gobeithiwn wella'r sefyllfa, ond yn amlwg, mae'n amodol ar y negodi arferol gyda'r Gweinidog cyllid.

**Y Dirprwy Lywydd:** Tynnwyd cwestiwn 6, OAQ(3)0529(CEL) yn ôl.

### Cyfleusterau Gofal Plant

**C7 Joyce Watson:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cyfleusterau gofal plant yng Nghymru? OAQ(3)0564(CEL)

**Jane Hutt:** Mae ein strategaeth gofal plant, 'Ar gyfer Plant y mae Gofal Plant', yn amlinellu sut yr ydym yn rhoi sylw i flaenoriaethau gofal plant. Mae £15 miliwn yn ychwanegol dros dair blynedd wedi'i ddyrannu i Dechrau'n Deg a gofal plant y tu allan i'r ysgol ac i gefnogi awdurdodau lleol yn eu dyletswydd newydd i sicrhau gofal plant digonol.

**Joyce Watson:** Mae gallu cael gofal plant fforddiadwy yn allweddol i helpu pobl i mewn i waith, felly mae ymrwymiad parhaus Llywodraeth y Cynulliad i ofal plant yn newyddion i'w croesawu. Mae'r cynllun Genesis wedi helpu llawer o fetholwyr i oresgyn rhwystrau i ddychwelyd i waith, gyda phrosiectau fel Genesis Sir Gâr yn cynnig cymorth ariannol a chymorth gofal plant. A oes cynlluniau i ymestyn gwasanaeth Genesis?

**Jane Hutt:** Yr oedd prosiect Genesis Cymru'n llwyddiannus iawn, gan gynorthwyo bron 13,000 o bobl a darparu dros 10,000 o leoedd gofal plant. Mae cais wedi mynd yn awr i Swyddfa Cyllid Ewropeidd Cymru i ganfod prosiect i'w ddilyn dan y cronfeydd strwythurol newydd.

decision will be reached within weeks.

**Jonathan Morgan:** Minister, you said earlier that your job was to ensure that local authorities provide adequate numbers of childcare places. However, you will know that the Assembly Government has decided to withdraw funding for the Lilliput nursery in my constituency—a nursery that provides places for the children of officials from the Assembly Government and other public sector bodies. You have given reasons for doing that, but do you agree that it sends a rather mixed message?

**Jane Hutt:** I am concerned about any loss of childcare places. I am not responsible for that particular decision, but I would certainly want to look at it. I am pleased that Flying Start is providing part-time quality childcare for two and three-year-olds in our most disadvantaged communities, and I would particularly draw attention to the integrated childcare centre in Ely, at Michaelston College, which I believe is a start-of-the-art childcare facility, and provides very good support to parents.

**Helen Mary Jones:** I am sure that you will agree that one of the key drivers in promoting the Assembly Government's policy on creating a bilingual Wales is for children to get early access to Welsh-medium and bilingual childcare provision. I have anecdotal evidence suggesting that provision that is branded as bilingual is often little more than English-language provision with the occasional song sung in Welsh. This creates real problems for families who want their children to access bilingual provision, but do not feel ready for full immersion, as they would have with Mudiad Ysgolion Meithrin, for example. What steps can the Assembly Government take, through the inspection regimes, to ensure that, when provision—particularly private sector provision—is branded as bilingual, that that truly is bilingual, and not just English-medium with a bit of Welsh bolted on?

Yr wyf yn hyderus y ceir penderfyniad o fewn wythnosau.

**Jonathan Morgan:** Weinidog, dywedasoch yn gynharach mai eich gwaith oedd sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu niferoedd digonol o leoedd gofal plant. Fodd bynnag, gwyddoch fod Llywodraeth y Cynulliad wedi penderfynu tynnau'n ôl o ariannu meithrinfa Lilliput yn fy etholaeth—meithrinfa sy'n darparu lleoedd i blant swyddogion o Lywodraeth y Cynulliad ac o gyrrff eraill yn y sector cyhoeddus. Yr ydych wedi rhoi rhesymau dros wneud hynny, ond a gytunwch fod hyn yn anfon neges gymysg braidd?

**Jane Hutt:** Yr wyf yn bryderus ynghylch colli unrhyw leoedd gofal plant. Nid fi sydd yn gyfrifol am y penderfyniad arbennig hwnnw, ond yn sicr hoffwn edrych arno. Yr wyf yn falch bod Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant rhan-amser o ansawdd da i blant dwyflwydd a theirblwydd oed yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, a hoffwn dynnu sylw'n arbennig at y ganolfan gofal plant integredig yn Elái, yng Ngholeg Llanfihangel, sydd, mi gredaf, yn gyfleuster o'r radd flaenaf, ac yn darparu cefnogaeth dda iawn i rieni.

**Helen Mary Jones:** Yr wyf yn siŵr y cytunwch mai un o'r gyrrwyr allweddol o ran hyrwyddo polisi Llywodraeth y Cynulliad ar greu Cymru ddwyieithog yw i blant gael mynediad cynnar i ddarpariaeth gofal plant Cymraeg a dwyieithog. Mae gennyd dystiolaeth anecdotaidd sy'n awgrymu nad yw darpariaeth a gaiff ei brandio'n ddwyieithog yn aml yn fawr mwy na darpariaeth Saesneg gydag ambell gân wedi'i chanu yn Gymraeg. Mae hyn yn creu problemau gwirioneddol i deuluoedd sydd eisiau i'w plant gael darpariaeth ddwyieithog, ond nad ydynt yn teimlo'n barod i'w trochi'n llawn, fel y caent gyda'r Mudiad Ysgolion Meithrin, er enghraifft. Pa gamau y gall Llywodraeth y Cynulliad eu cymryd, drwy'r drefn arolygu, i sicrhau pan gaiff darpariaeth—yn enwedig darpariaeth y sector preifat—ei hysbysebu fel darpariaeth ddwyieithog, ei bod yn wirioneddol ddwyieithog, ac nid dim ond yn Saesneg gyda thamaid o Gymraeg fel atodiad?

**Jane Hutt:** I certainly want to hear about any examples of that from the independent sector. ‘Iaith Pawb’ is our clear policy steer towards developing bilingual educational opportunities at the earliest stage, and Flying Start also plays a part in that. I met representatives of Mudiad Ysgolion Meithrin last week to discuss issues with the demand and expansion of early years opportunities.

**Jane Hutt:** Yr wyf yn sicr am glywed am unrhyw enghreifftiau o hynny yn y sector annibynnol. ‘Iaith Pawb’ yw'r llyw polisi clir ar gyfer datblygu cyfleoedd addysgol dwyieithog mor gynnar ag y bo modd, ac mae i Dechrau'n Deg ran yn hynny hefyd. Cyfarfum â chynrychiolwyr Mudiad Ysgolion Meithrin yr wythnos diwethaf i drafod materion sy'n ymwneud â'r galw ac ag ehangu cyfleoedd yn y blynnyddoedd cynnar.

**Eleanor Burnham:** I understand that the Kids' Clubs projects are coming to an end. Should it not be your aspiration to have decent childcare in every community, which is not the case at present as the Kids' Clubs project is only in Objective 1 areas and not all areas of Wales? Do you agree that there should be decent childcare in every community, particularly poorer ones, and that it should also be bilingual?

**Jane Hutt:** Kids' Clubs Cymru has not come to an end; it is just that particular European-funded project that you mentioned that has, which was valuable, and we received the evaluation in the Senedd. There is a real opportunity now, with the £4.2 million over three years for community-focused schools, to promote out-of-school childcare. Kids' Clubs Cymru is engaged in that and is seeking new European funding under the new convergence arrangements. I hope that that will be delivered.

**Eleanor Burnham:** Deallaf fod prosiectau'r Clybiau Plant yn dod i ben. Oni ddylai cael gofal plant da ym mhob cymuned fod yn ddyhead gennych? Nid yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd gan mai dim ond yn ardaloedd Amcan 1 y mae'r prosiect Clybiau Plant ar gael ac nid ym mhob ardal yng Nghymru. A gytunwch y dylai fod gofal plant da ar gael ym mhob cymuned, yn enwedig yn y rhai tlotaf, ac y dylai hefyd fod yn ddwyieithog?

**Jane Hutt:** Nid yw Clybiau Plant Cymru wedi dod i ben; yr unig beth sydd wedi dod i ben yw'r prosiect penodol hwnnw y cyfeiriasoch ato a ariannwyd gan Ewrop. Yr oedd yn brosiect gwerthfawr a chawsom y gwerthusiad yn y Senedd. Mae cyfle gwirioneddol yn awr, gyda'r £4.2 miliwn dros dair blynedd ar gyfer ysgolion sy'n canolbwytio ar y gymuned, i hyrwyddo gofal plant y tu allan i'r ysgol. Mae Clybiau Plant Cymru'n ymwneud â hynny ac yn ceisio arian newydd gan Ewrop dan y trefniadau cydgyfeirio newydd. Gobeithiaf y gwreddir hynny.

### Implementing the Foundation Phase

**Q8 Paul Davies:** Will the Minister make a statement on the progress of implementing the foundation phase in Wales? OAQ(3)0566(CEL)

**Jane Hutt:** In my written statement of 9 June, I set out the latest position. That reaffirmed that an additional £5 million is available this year, that I remain committed to the 1:8 and 1:15 ratios of adults to pupils, and that the roll-out will be over four years, starting with three to four-year-olds from September.

### Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen

**C8 Paul Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd gweithredu'r cyfnod sylfaen yng Nghymru? OAQ(3)0566(CEL)

**Jane Hutt:** Yn fy natganiad ysgrifenedig ar 9 Mehefin, esboniai y sefyllfa ddiweddaraf. Yr oedd hwnnw'n ategu bod £5 miliwn yn ychwanegol ar gael eleni, bod fy ymrwymiad i'r gymhareb 1:8 ac 1:15 rhwng oedolion a disgyblion yn parhau ac y bydd y lledaenu'n digwydd dros bedair blynedd, gan ddechrau gyda phlant tair i bedair oed o fis Medi ymlaen.

**Paul Davies:** I have been told by the only special needs school in my constituency that a lack of funding for the foundation phase could hit it harder than it will hit the mainstream schools. That money is essential to support and develop children and young people with special needs. Under the circumstances, can the Minister confirm whether special needs schools will be given priority, to ensure that these children and young people are given the support that they need and deserve?

**Jane Hutt:** Pembrokeshire County Council has been allocated more than £1 million of the £25 million, and that does not include the funding that is also going to the pilot scheme. A sum of £723,600 is allocated to schools to enable them to employ an additional 95 classroom assistants. There has been an uplift in the allocation to special educational needs this year, which, with the additional funding for the foundation phase, should ensure that those pupils benefit.

**Gareth Jones:** Un o brif argymhellion asesiad Estyn o'r cynlluniau peilot ar gyfer y cyfnod sylfaen ym mis Awst y llynedd oedd i'r awdurdodau lleol ddarparu 22 o swyddogion cynnal a hyfforddiant. Fel y deallaf, yr oedd cael y grant yn amodol ar hyn. A ydych yn pryderu, fel yr wyf fi, fod y symiau a glustnodir gan awdurdodau lleol i'r perwyl hwn yn amrywio'n sylweddol o awdurdod i awdurdod—er enghraifft, £46,000 sydd yn sir Benfro, o'i gymharu â'r £57,000 sydd yng Nghaerfyrddin? A gytunwch na ddylid tanseilio'r agwedd hon ar fewnoli'r polisi mewn unrhyw ffordd, o ystyried mai prif rôl y swyddogion hyn fydd cynorthwyo a chyfarwyddo addysgwyr proffesiynol i ddarparu cwricwlwm newydd a blaengar?

**Jane Hutt:** I have raised my concerns about the disparity in the figures. They are emerging as a result of the transparency that we now have in how grant allocations are implemented by local education authorities. I am raising this issue with colleagues in the Welsh Local Government Association and with the Association of Directors of Education in Wales.

**Paul Davies:** Mae'r unig ysgol anghenion arbennig yn fy etholaeth wedi dweud wrthyf y gallai diffyg arian ar gyfer y cyfnod sylfaen ei tharo'n galetach nag y bydd yn taro ysgolion y brif ffrwd. Mae'r arian hwnnw'n hanfodol er mwyn cefnogi a datblygu plant a phobl ifanc sydd ag anghenion arbennig. Dan yr amgylchiadau, a all y Gweinidog gadarnhau a roddir blaenorriaeth i ysgolion anghenion arbennig, er mwyn sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc hyn yn cael y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt a'r gefnogaeth y maent yn ei haeddu?

**Jane Hutt:** Mae dros £1 miliwn o'r £25 miliwn wedi'i ddyrannu i Gyngor Sir Penfro, ac nid yw hynny'n cynnwys yr arian sydd hefyd yn mynd i'r cynllun peilot. Dyrennir swm o £723,600 i'r ysgolion i'w galluogi i gyflogi 95 cynorthwy-ydd dosbarth ychwanegol. Mae'r dyraniad ar gyfer anghenion addysgol arbennig wedi cynyddu eleni, ac, ynghyd â'r arian ychwanegol ar gyfer y cyfnod sylfaen, dylai hynny sicrhau y bydd y disgylion hynny ar eu hennill.

**Gareth Jones:** One of the main recommendations arising from Estyn's assessment of the pilot schemes for the foundation phase in August last year was for local authorities to provide 22 support and training officers. As I understand it, receiving the grant was conditional on that. Are you concerned, as I am, that the sums earmarked by local authorities to that end vary significantly from authority to authority—for instance, there is £46,000 in Pembrokeshire, compared with £57,000 in Carmarthen? Do you agree that this aspect of internalising the policy should not be undermined in any way, given that the principal role of these officers will be to assist and direct professional educators in delivering a new and progressive curriculum?

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi mynegi fy mhryderon ynglŷn â'r amrywiad yn y ffigurau. Maent yn dod i'r golwg yn sgil y tryloywder sydd gennym erbyn hyn o ran y ffordd y mae awdurdodau addysg lleol yn defnyddio'r grantiau a ddyrennir iddynt. Yr wyf yn codi'r mater hwn gyda chydweithwyr yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac yng Nghymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru.

**Kirsty Williams:** You have gone on and on about the money that you have put into this scheme, but you have, rightly, come under attack for your performance on the foundation phase. When all is said and done, the teaching profession is extremely disillusioned, that you have had to roll out your flagship education scheme over an extended year. Are you truly telling the Assembly that you are proud of what you have achieved this year?

1.50 p.m.

**Jane Hutt:** I certainly do not find that disillusion, Kirsty. I know that you are joining Andrew R.T. Davies in being an undermining and negative education spokesperson for your party, but that is wholly unhelpful to the teachers at the sharp end who are implementing and delivering the foundation phase for our children. They recognise that £30 million of new money is going into the most pioneering education transformation scheme for our early years pupils. You should visit schools in Powys and Andrew R.T. Davies should visit schools across South Wales Central and then you would see for yourselves what the foundation phase is achieving. We have 1,890 new learning support assistants starting work in September. Do you not think that that is a sign of success? We are delivering and rolling out the foundation phase to ensure that our children—including your children—get the best possible start to their education in Wales. It is not happening anywhere else; it is happening in Wales, because of our commitment.

**Kirsty Williams:** I do not know whether to laugh or cry at that. I have been to my schools in Powys, and the only reason that the clamour has died down is because you have had to back down and say that that the schools will not have to roll out this programme in three years but over four. You need to send an urgent SOS to the Minister for finance over the summer holidays, during the budget-setting process. Unless you secure additional money from Andrew Davies, you will be singing the same song again next year

**Kirsty Williams:** Yr ydych wedi rhynnu ymlaen ac ymlaen am yr arian yr ydych wedi'i roi i'r cynllun hwn, ond yr ydych, a hynny'n deg, wedi'ch cystwyo am eich perfformiad o ran y cyfnod sylfaen. Swm a sylwedd pethau yw bod y proffesiwn addysgu wedi'i ddadtrithio'n llwyr, oherwydd ichi orfod ymestyn lledaenu'ch cynllun addysg blaenllaw dros flwyddyn arall. A ydych yn wir am ddweud wrth y Cynulliad eich bod yn falch o'r hyn yr ydych wedi'i gyflawni eleni?

**Jane Hutt:** Yn sicr, nid wyf yn gweld y dadtrith hwnnw, Kirsty. Gwn eich bod yn ymuno ag Andrew R. T. Davies i fod yn llefarydd addysg tanseisiol a negyddol ar ran eich plaid, ond nid yw hynny o fudd o gwbl i'r athrawon ar flaen y gad sy'n gweithredu ac yn gwired du'r cyfnod sylfaen ar gyfer ein plant. Maent yn sylweddoli bod £30 miliwn o arian newydd yn mynd i'r cynllun mwyaf arloesol i weddnewid addysg ar gyfer disgyblion y blynnyddoedd cynnar. Dylech ymweld ag ysgolion ym Mhowys a dylai Andrew R. T. Davies ymweld ag ysgolion ledled Canol De Cymru. Yna, gwelech drosoch eich hunain yr hyn y mae'r cyfnod sylfaen yn ei gyflawni. Mae gennym 1,890 o gynorthwywyr cymorth dysgu newydd yn dechrau ar eu gwaith ym mis Medi. Oni chredwch fod hynny'n arwydd o lwyddiant? Yr ydym yn gwired du ac yn lledaenu'r cyfnod sylfaen er mwyn sicrhau bod ein plant—eich plant chi yn eu plith—yn cael y cychwyn gorau posibl i'w haddysg yng Nghymru. Nid yw'n digwydd yn unman arall; mae'n digwydd yng Nghymru, oherwydd ein hymrwymiad.

**Kirsty Williams:** Ni wn ai chwerthin ynteu wylo y dylwn o glywed hynny. Yr wyf wedi ymweld â'm hysgolion ym Mhowys, a'r unig reswm y mae'r helynt wedi tawelu yw oherwydd ichi orfod ildio a dweud na fydd yn rhaid i'r ysgolion ledaenu'r rhaglen hon mewn tair blynedd ond y caint wneud hynny dros bedair. Mae angen ichi anfon SOS ar frys i'r Gweinidog dros gyllid dros wyliau'r haf, yn ystod proses pennu'r gyllideb. Oni lwyddwch i gael arian ychwanegol gan Andrew Davies, yr un dôn gron a gawn

that it is not your fault and that you will be rolling it out over another year.

**Jane Hutt:** I am sure that all will be revealed on how we move forward for the benefit of children and their education because of the commitment and the decisions that I have made, which have given our schools the stability and confidence that they can deliver the 1:8 ratio for the statutory curriculum for three to four-year-olds. I am seeking further funding, but the roll-out of the 1:8 and the 1:15 ratios is under way. It is wholly unhelpful to have this constant negative griping about this major investment in the education of our young people and children in Wales.

### The International Baccalaureate

**Q9 William Graham:** What assessment has the Minister made of the value of the international baccalaureate qualification in promoting global citizenship? OAQ(3)0530(CEL)

**Jane Hutt:** The international baccalaureate diploma is an international qualification, and the curriculum that supports the qualification has an international ethos.

I will need to look at the resource issues for the community health councils. I am minded that they will be quite small, as I indicated earlier. The point that you make about social services and the link into social care is interesting, and I will discuss that with Gwenda Thomas, because, sometimes, when people ask in community health councils about things that have happened in hospital, it links into them not being able to get care at home and issues related to social services. There is a link, so I am more than happy to look at that issue.

In terms of the national board, there is an issue about democratic accountability and transparency. What we have seen from the Health Commission Wales report is that there is sometimes a lack of transparency when

yn y GIG. O ran iechyd meddwl, dywedodd rhywun wrthyf yr wythnos diwethaf ei bod yn rhaid ichi fod yn gryf iawn yn y mandad a roddwch i unrhyw sefydliadau iechyd newydd a'r modd y byddwch yn plismona'u blaenoriaethau wedi hynny. Efallai y bydd yn rhaid ichi gyfyngu eu blaenoriaethau a dweud wrthynt hefyd ymhle, yn eich barn chi, y dylai eu blaenoriaethau fod o ran cyllid. Os symudwn yn y pen draw i gyfeiriad wyth corff, y blaenoriaethau i mi fydd gofal sylfaenol, gofal yn y gymuned a gofal iechyd meddwl. Os bydd gofal iechyd meddwl yn aros o fewn y strwythur hwnnw, mae yna gwestiwn wedyn sut y byddwch yn gweinyddu hynny i sicrhau eich bod yn cael y canlyniadau a ddymunwch.

Mae angen cael llawer iawn o drafodaethau manwl ynglŷn â hynny, ac mae papur Michael Williams wedi esgor ar lawer o drafodaethau ar iechyd meddwl nad ydym wedi'u cael erioed o'r blaen. Yn sydyn iawn, mae pobl yn dechrau sôn am y cyswllt rhwng gofal yn y gymuned a gofal eilaidd ac ynglŷn â beth yn rhagor y mae angen ei wneud, yn enwedig o ran cynnwys meddygon teulu. Felly, yr ydym yn cael trafodaeth fanwl a allai ein cynorthwyo i roi'r strwythurau cywir ar waith i ymdrin â rhai o'r materion sy'n codi o ran iechyd meddwl, o gofio'i fod yn wasanaeth sinderela.

Bydd angen imi edrych ar y materion adnoddau ar gyfer y cynghorau iechyd cymuned. Yr wyf yn sylweddoli y byddant yn eithaf bach, fel y dywedais yn gynharach. Mae eich pwyt ynglŷn â gwasanaethau cymdeithasol a'r cyswllt â gofal cymdeithasol yn un diddorol, a byddaf yn ei drafod gyda Gwenda Thomas, oherwydd, weithiau, pan fydd pobl yn holi mewn cynghorau iechyd cymuned ynglŷn â phethau sydd wedi digwydd yn yr ysbyty, mae'n gysylltiedig â'r ffaith nad ydynt yn gallu cael gofal gartref a materion yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol. Mae yna gysylltiad, felly, yr wyf yn fwy na bodlon edrych ar y mater hwnnw.

O ran y bwrdd cenedlaethol, mae atebolrwydd democraidd ac eglurder yn ystyriaeth. Yr hyn a welsom o adroddiad Comisiwn Iechyd Cymru yw bod diffyg eglurder weithiau pan wneir penderfyniadau.

decisions are made. There have to be more mechanisms of accountability for people and accountability in relation to who we put on that board. How do people get on the board? Are they appointed, do they go through the public appointments system, and would it be right for local government, the third sector or social partners to nominate people and then for them to go through a public appointments system? We need to think carefully about how this will operate to ensure maximum participation by people, whether or not they are in the health service. Patients' organisations must also be taken into account. It is quite a complicated area, but it will have to be transparent.

You are right that there are concerns that if LHBs go, some good practice will be lost. Rhondda Cynon Taff Local Health Board, in particular, has been excellent in how it has dealt with issues. The good practice there needs to be enshrined in any new structures that emerge, and that will be the key in delivering the governance of any new health bodies. I will be looking carefully at good LHBs and what has happened in them.

The local government link is essential and I will consider at each level how local government will be involved, and how its voice will be heard, because it is a strategic partner, and Gwenda Thomas and I will continue to discuss that over the summer months. We must not lose the best of what we have, but we need to get a more streamlined structure.

Looking to the consultation in the autumn, with the integrated organisations, it makes sense that we move in that direction. It is a simpler structure, which means that you will be able to plan the delivery of services and what patients require, and there will not be artificial boundaries, which patients find confusing.

**Jenny Randerson:** Thank you for your statement. I am relieved that you have decided to make your statement before the recess and indicate the further work that needs to be done.

Mae'n rhaid cael rhagor o fecanweithiau atebolrwydd i bobl ac atebolrwydd o ran pwy y byddwn yn eu gwneud yn aelodau o'r bwrdd hwnnw. Sut mae pobl yn dod yn aelodau o'r bwrdd? A ydynt yn cael eu penodi, a ydynt yn mynd drwy'r system penodiadau cyhoeddus, ac a fyddai'n iawn i lywodraeth leol, y trydydd sector neu bartneriaid cymdeithasol enwebu pobl ac yna iddynt fynd drwy system penodiadau cyhoeddus? Mae angen inni feddwl yn ofalus ynglŷn â'r ffordd y bydd hyn yn gweithio er mwyn sicrhau y gall pobl chwarae rhan mor fawr â phosibl, boed yn y gwasanaeth iechyd ai peiddio. Rhaid ystyried cymdeithasau cleifion hefyd. Mae'n faes eithaf cymhleth, ond bydd yn rhaid iddo fod yn eglur.

Yr ydych yn iawn fod yna bryderon, os caiff y byrddau iechyd lleol eu dileu, y bydd rhywfaint o arferion da yn cael eu colli. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf, yn enwedig, wedi bod yn wych yn y modd y mae wedi ymdrin â materion. Mae angen ymgorffori'r arferion da yno mewn unrhyw strwythurau newydd a fydd yn ymddangos, a bydd hynny'n allweddol wrth lywodraethu unrhyw gyrrff iechyd newydd. Byddaf yn edrych yn ofalus ar fyrrdau iechyd lleol da a'r hyn sydd wedi digwydd ynddynt.

Mae'r cysylltiad â llywodraeth leol yn hollbwysig, a byddaf yn ystyried ar bob lefel sut y caiff llywodraeth leol ei chynnwys, a sut y caiff ei llais ei glywed, oherwydd mae'n bartner strategol, a bydd Gwenda Thomas a minnau'n parhau i drafod hynny dros fisoeedd yr haf. Rhaid inni beidio â cholli elfennau gorau'r hyn sydd gennym, ond mae angen inni gael strwythur symlach.

Wrth ystyried yr ymgynghori yn yr hydref, gyda'r sefydliadau integredig, mae'n synhwyrol inni symud i'r cyfeiriad hwnnw. Mae'n strwythur symlach, sy'n golygu y byddwch yn gallu cynllunio sut i ddarparu gwasanaethau a'r hyn y mae ei angen ar gleifion, ac ni fydd ffiniau artiffisial, sy'n peri dryswch i gleifion.

**Jenny Randerson:** Diolch am eich datganiad. Mae'n rhyddhad eich bod wedi penderfynu gwneud eich datganiad cyn y toriad a thynnu sylw at y gwaith ychwanegol y mae angen ei wneud.

Jonathan Morgan said that this takes us back to square one, but we need to remember why we moved from square one in the first place, which was because people felt that the health organisations at that time were unresponsive to local opinions, views and needs. If you are moving towards larger organisations, that is the key issue for you to keep at the forefront of your mind. I would urge the need for a counterbalance in a strong community and patient voice and also in the obligations on the new organisations that you are aiming for in relation to consultation, joint working, local working and so on. That has to be spelled out, as does the issue of transparency.

2.20 p.m.

I welcome the fact that you have decided to go for the seamless approach, integrating the trusts and the LHBs. I thought about that long and hard after your consultation paper and I decided that that was how you create a joined-up service that can provide a coherent patient pathway; it offers opportunities. However, I am concerned about the number of trusts, boards or whatever you will call them, that you have chosen. I think that to have seven is to narrow the number down considerably. I have some concerns in particular about having one organisation for the whole of north Wales because I have heard from many working in north Wales that, in the old days when we had that sort of structure, people in north-west Wales felt that they were being sucked into a north-east Wales model. So, I urge you to look at the structure carefully in terms of the number of trusts and to look at having more than seven.

Turning to the national board, you say that, within the responses, there are varying views on how the board should be established and governed. I was copied into a large number of responses by most of the major organisations and only one opted for anything other than option 1, so in the interests of transparency and a clear consultation process, will you agree to publish all 800 consultation responses so that we can look at them and ensure that the concerns of those who

Dyweddodd Jonathan Morgan fod hyn yn mynd â ni'n ôl i'r cychwyn cyntaf, ond mae angen inni gofio pam y symudwyd o'r fan honno yn y lle cyntaf, sef oherwydd bod pobl yn teimlo nad oedd y sefydliadau iechyd bryd hynny yn ymateb i safbwytiau, barn ac anghenion lleol. Os ydych yn symud tuag at sefydliadau mwy, dyna'r mater allweddol y mae'n rhaid ichi ei gadw'n amlwg yn eich meddwl. Byddwn yn pwysleisio'r angen am wrthbwysedd mewn cymuned gref a llais i gleifion a hefyd yn y rhwymedigaethau ar y sefydliadau newydd yr ydych yn anelu atynt o ran ymgynghori, gweithio ar y cyd, gweithio'n lleol, ac ati. Mae'n rhaid manylu ar hynny, a hefyd ar fater eglurder.

Croesawaf y ffaith eich bod wedi penderfynu dewis y dull di-dor, gan integreiddio'r ymddiriedolaethau a'r byrddau iechyd lleol. Meddyliais yn hir ac yn ddwys am hynny yn sgil eich papur ymgynghori, a phenderfynais mai dyna'r ffordd i greu gwasanaeth cydgysylltiedig sy'n gallu cynnig llwybr cydlynol i gleifion; mae'n cynnig cyfleoedd. Fodd bynnag, yr wyf yn pryderu ynglŷn â nifer yr ymddiriedolaethau, y byrddau neu beth bynnag y byddwch yn eu galw, yr ydych wedi'i ddewis. Credaf fod cael saith yn cyfyngu'r nifer yn sylweddol. Yr wyf yn pryderu'n benodol am gael un sefydliad ar gyfer y gogledd i gyd, oherwydd yr wyf wedi clywed gan lawer o bobl sy'n gweithio yn y gogledd bod pobl yn y gogledd-orllewin, yn yr hen ddyddiau pan oedd gennym strwythur tebyg, yn teimlo'u bod yn cael eu traflynco gan fodel y gogledd-ddwyrain. Felly, anogaf chi i edrych ar y strwythur yn ofalus o ran nifer yr ymddiriedolaethau ac ystyried cael mwy na saith.

I droi at y bwrdd cenedlaethol, yr ydych yn dweud, o fewn yr ymatebion, fod gwahanol safbwytiau ynglŷn â sut y dylid sefydlu a llywodraethu'r bwrdd. Cefais gopi o nifer fawr o ymatebion gan y rhan fwyaf o'r prif sefydliadau wrth iddynt gael eu hanfon, ac un yn unig a ddewisodd unrhyw beth heblaw dewis 1. Felly er mwyn eglurder a phroses ymgynghori glir, a wnewch chi gytuno i gyhoeddi pob un o'r 800 ymateb i'r ymgynghoriad er mwyn inni allu edrych

responded are being reflected? The key issue for me is whether the national board will be at arm's length, able to get on with its work and be in a position of transparency, where it is accountable for its decisions, and able to operate in such a way that we as politicians can do our job and you as Minister can do your job and the running of the national board can be left to those who are best qualified to do so—within, of course, a clear strategic framework from yourself.

Finally, on the community health councils, unlike Jonathan Morgan, I strongly welcome your reiteration that we should maintain 22 CHCs. I hope that the idea that you have mooted here, to have 22 CHCs, is borne out by further consultation. I understand why that consultation is needed, because the role of the CHCs was not included in this consultation and it is only fair and reasonable that it should be consulted upon. I would like you to consider increasing the powers of CHCs. I see that as a vital counterbalance to the new, much more powerful, health organisations that you will be establishing, to enable patients' voices to be heard. It is important that we have 22 of them, because that retains the coterminosity with social services departments that was so attractive about the LHBs. After some difficult years of establishment, as is the case with any NHS reorganisation, the LHBs have, in most areas, begun to develop good, close working relationships with social services and it is essential that that work is maintained, both through the seamless all-in-one model that you are planning to have throughout Wales and through the voice of the CHCs.

**Edwina Hart:** I agree that when I look at the CHCs, I will be looking to have 22 of them. I will be looking at the issue of powers, because I am conscious that when you have large organisations, there has to be a balance—you have to ensure equity. The CHCs will have to have the resources, and

arnynt a sicrhau adlewyrchu pryderon y bobl a ymatebodd? Y mater allweddol i mi yw a fydd y bwrdd cenedlaethol yn gorff hyd braich a all barhau â'i waith a bod mewn sefyllfa eglur, lle mae'n atebol am ei benderfyniadau, a gallu gweithredu yn y fath fod fel y gallwn ni fel gwleidyddion wneud ein gwaith ni a chithau fel Gweinidog yn gallu gwneud eich gwaith chi gan adael y gwaith o redeg y bwrdd cenedlaethol i'r bobl fwyaf cymwys i wneud hynny—o fewn fframwaith strategol clir gennych chi, wrth gwrs.

Yn olaf, o ran y cyngorau iechyd cymuned, yn wahanol i Jonathan Morgan yr wyf fi'n croesawu'n gryf y ffaith ichi ailadrodd y dylem gadw 22 cyngor iechyd cymuned. Gobeithio y caiff y syniad yr ydych wedi'i grybwyl yma, sef cael 22 cyngor iechyd cymuned, ei gadarnhau gan ymgynghori pellach. Deallaf pam y mae angen yr ymgynghori hwnnw, oherwydd nid oedd rôl y cyngorau iechyd cymuned wedi'i chynnwys yn yr ymgynghoriaid hwn ac mae'n gwbl deg a rhesymol y dylid ymgynghori ar hynny. Hoffwn ichi ystyried cynyddu pwerau'r cyngorau iechyd cymuned. Ystyriaf fod hynny'n wrthbwysedd hollbwysig i'r sefydliadau iechyd newydd, llawer mwy pwerus y byddwch yn eu sefydlu, er mwyn galluogi clywed lleisiau cleifion. Mae'n bwysig fod gennym 22 ohonynt, oherwydd mae hynny'n sicrhau eu bod yn parhau i gyd-ffinio ag adrannau gwasanaethau cymdeithasol, a oedd yn agwedd mor ddeniadol ar y byrddau iechyd lleol. Wedi rhai blynnyddoedd anodd yn ymsefydlu, fel gydag unrhyw ad-drefnu yn y GIG, mae'r byrddau iechyd lleol, yn y rhan fwyaf o ardaloedd, wedi dechrau magu perthynas weithio dda ac agos gyda'r gwasanaethau cymdeithasol, ac mae'n hollbwysig i'r gwaith barhau, drwy gyfrwng y model cynhwysfawr, di-dor y bwriadwch ei gael ledled Cymru a thrwy gyfrwng llais y cyngorau iechyd cymuned.

**Edwina Hart:** Yr wyf yn cytuno, pan fyddaf yn edrych ar y cyngorau iechyd cymuned, y byddaf yn anelu at gael 22 ohonynt. Byddaf yn ystyried mater pwerau, oherwydd yr wyf yn ymwybodol ei bod yn rhaid cael cydbwysedd pan fydd gennych sefydliadau mawr—rhaid ichi sicrhau tegwch. Bydd yn

probably the powers, to counterbalance anything that may emerge as a result of the larger organisations. People are always fearful of large organisations. So, I am quite happy to look at those points.

The majority of those who have commented on the arrangements for the centre have considered the establishment of a strategic or special health authority. I had envisaged that, as the responses came in, they would automatically go onto the website, but apparently that is not how it is done; they come in to us, and then we have to ask permission if we want to publish them. However, I will certainly look at what I can do. However, the majority of those who commented have referred to having a strategic or special health authority. I will consider the detail underneath that and come back to Plenary on those points.

The point about people's participation, a counterbalance and an obligation in that regard is very important. It is important for people to understand that their voices will be heard on health issues. The community health councils will have to consider that and their relationship with local authorities and how they integrate their discussions with them. They will perhaps even have to go to a lower level of community discussion to find out the health needs of an area, and not just look at county boundaries. That is quite essential. These issues of their responsibilities to communities and how they need to deal with those will have to be clearly spelled out to these new health organisations.

I do not agree with your comments about north Wales, because the North West Wales NHS Trust was already starting discussions with the new merged trust about the possibility of a merger with it. There are already exciting developments in relation to a health campus at Bangor University, with links to any new health organisations in north Wales. I think that it is manageable. It is important to recognise that we can deal with issues from the centre. If we think that there is too much eastward drift on issues in north

rhaid i'r cynghorau iechyd cymuned gael yr adnoddau, a'r pwerau mae'n debyg, i wrthbwys o unrhyw beth a all ymddangos yn sgil y sefydliadau mwy. Mae pobl bob amser yn ofni sefydliadau mawr. Felly, yr wyf yn gwbl fodlon ystyried y pwyntiau hynny.

Mae mwyafrif y rheini sydd wedi cyflwyno sylwadau ar y trefniadau ar gyfer y canol wedi ystyried sefydlu awdurdod iechyd strategol neu arbennig. Yr oeddwn wedi rhagweld, wrth i'r ymatebion gyrraedd, y byddent yn cael eu rhoi ar y wefan yn uniongyrchol. Ond ymddengys nad felly y gwneir pethau; maent yn ein cyrraedd ni, ac yna rhaid inni ofyn caniatâd os ydym am eu cyhoeddi. Fodd bynnag, byddaf yn sicr o edrych i weld beth y gallaf ei wneud. Fodd bynnag, mae mwyafrif y rheini a gyflwynodd sylwadau wedi cyfeirio at gael awdurdod iechyd strategol neu arbennig. Byddaf yn ystyried y manylion sy'n sail i hynny ac yn dychwelyd i drafod y pwyntiau hynny yn y Cyfarfod Llawn.

Mae'r pwynt ynglŷn â phobl yn cymryd rhan, gwrthbwysedd ac ymrwymiad yn hynny o beth yn un pwysig iawn. Mae'n bwysig i bobl ddeall y bydd eu lleisiau'n cael eu clywed ar faterion iechyd. Bydd yn rhaid i'r cynghorau iechyd cymuned ystyried hynny a'u perthynas ag awdurdodau lleol a sut y byddant yn integreiddio'u trafodaethau gyda hwy. Efallai y bydd yn rhaid iddynt fynd i lefel is o drafodaeth yn y gymuned, hyd yn oed, i weld beth yw anghenion iechyd ardal benodol, a pheidio ag edrych ar ffiniau'r sir yn unig. Mae hynny'n gwbl hanfodol. Bydd yn rhaid manylu wrth y sefydliadau iechyd newydd hyn am y materion hyn ynglŷn â'u cyfrifoldebau i gymunedau a sut y mae angen iddynt ymdrin â'r rheini.

Nid wyf yn cytuno â'ch sylwadau am y gogledd, oherwydd yr oedd Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru eisoes yn cychwyn trafodaethau gyda'r ymddiriedolaeth gyfun newydd ynglŷn â phosiblirwydd uno â hi. Mae datblygiadau cyffrous eisoes o ran campws iechyd ym Mhrifysgol Bangor, gyda chysylltiadau ag unrhyw sefydliadau iechyd newydd yn y gogledd. Credaf fod hynny'n bosibl. Mae'n bwysig cydnabod y gallwn ymdrin â materion o'r canol. Os credwn fod gormod o symud

Wales, we will intervene; we will tell the new health organisation what it has to do. It will have to get the balance right. James Steers' report looks at how the three big centres and others will work on neuroscience issues. Therefore, you can get the necessary balance.

The questions for me, if we have the eight organisations, will be: how will they work, what will their mandates be, how will they operate and under what control and guidance will they operate? Those are the key issues that will have to be explored in the future consultation document. As you said, we will have to explore the powers of community health councils and how they can operate effectively in the changing world of health.

**Nick Bourne:** I thank the Minister for the statement. However, there is still a gulf between us in ideology. I am a greater believer in having choice within the health service than I suspect that the Minister is, but the new structures are to be welcomed. I think that it is a much more acceptable level of health service organisations. I welcome that. It is a reversal of previous Labour policy—there is no doubt about that. I have specific questions on CHCs. I do not see why they have to be coterminous with local authorities—I agree with Jonathan Morgan about that and I disagree with Jenny Randerson. There are two very effective CHCs in Powys—Montgomery, and Brecknock and Radnor—and I hope that they are retained because it is important that we take care of local interests and patients in the way that those CHCs have done. I do not see why coterminosity is so important, as it has not been necessary in Powys, where the CHCs have worked very well without it.

**Edwina Hart:** I will certainly consider the particular point that you made regarding Powys, because it is an exceptionally large land mass. You spoke about two CHCs, but there are really three there, when you

tua'r dwyrain ar faterion yn y gogledd, byddwn yn ymyrryd; byddwn yn dweud wrth y sefydliad iechyd newydd beth y mae'n rhaid iddo'i wneud. Bydd yn rhaid iddo sicrhau'r cydbwysedd cywir. Mae adroddiad James Steers yn edrych ar y ffordd y bydd y tair canolfan fawr ac eraill yn gweithio ar faterion niwrowyddoniaeth. Felly, gallwch sicrhau'r cydbwysedd angenrheidiol.

Y cwestiynau i mi, os cawn yr wyth sefydliad, fydd: sut y byddant yn gweithio, beth fydd eu mandad, sut y byddant yn gweithredu ac o dan ba reolaeth ac arweiniad y byddant yn gweithredu? Dyna'r materion allweddol y bydd yn rhaid eu harchwilio yn y ddogfen ymgynghori arfaethedig. Fel y dywedasoch, bydd yn rhaid inni archwilio pwerau cynghorau iechyd cymuned a sut y gallant weithredu'n effeithiol mewn byd iechyd sy'n newid.

**Nick Bourne:** Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am y datganiad. Fodd bynnag, y mae gagendor rhyngom o hyd o ran ideoleg. Yr wyf yn amau fy mod i'n credu'n gryfach na'r Gweinidog mewn cael dewis yn y gwasanaeth iechyd, ond dylid croesawu'r strwythurau newydd. Credaf ei bod yn lefel mwy derbyniol o lawer o sefydliadau gwasanaeth iechyd. Yr wyf yn croesawu hynny. Mae'n gwrthdroi polisi blaenorol Llafur—nid oes amheuaeth am hynny. Mae gennyl gwestiynau penodol ynglŷn â chynghorau iechyd cymuned. Nid wyf yn deall pam y mae'n rhaid iddynt gydfffinio ag awdurdodau lleol—cbynaf â Jonathan Morgan ar hynny ac anghytunaf â Jenny Randerson. Mae dau gyngor iechyd cymuned effeithiol iawn ym Mhowys—Maldwyn, a Brycheiniog a Maesyfed—a gobeithio y cānt eu cadw oherwydd mae'n bwysig inni ofalu am ddiddordebau a chleifion lleol fel y mae'r cynghorau iechyd cymuned hynny wedi ei wneud. Nid wyf yn deall pam y mae cydfffinio mor bwysig, gan nad yw wedi bod yn angenrheidiol ym Mhowys, lle mae'r cynghorau iechyd cymuned wedi gweithio'n dda iawn hebddo.

**Edwina Hart:** Byddaf yn sicr yn ystyried y pwynt penodol a wnaethoch ynglŷn â Phowys, oherwydd mae'n ardal hynod o fawr. Soniech am ddau gyngor iechyd cymuned, ond mewn gwirionedd mae ynao

consider it. I am more than happy for this to be part of the consultation exercise. I want to expand the role of CHCs and for them to be more local. I am happy to take that point on board.

**David Melding:** I find the reversal of policy utterly astonishing. I helped your colleague, Jane Hutt, to appoint the various chairs of the local health boards barely five years ago. Now, these organisations are being abolished. The public will surely conclude that Labour changes NHS structures more frequently than most people change their car. It strikes me as an astonishing approach to what is our premier public service.

You have said of the national board that you do not want to establish another quango, but it slipped out in your answer to Jenny Randerson that the majority of those who responded to the consultation want a strategic health authority. Those things are flatly contradictory. If you go down the health authority line, you will have a quango. Will the new organisations, whatever we call them, commission their own services? If that happens, we will abolish the commissioner/provider split, which was established in 1989.

2.30 p.m.

You may want to do that, but it is an astonishing reversal and is certainly out of line with experience in England. Is that what you intend to do, or do you see commissioning going to whatever you will call the national board?

**Edwina Hart:** I can answer 'yes' to that question. Obviously, the organisations might want to look at cross-boundary issues with regard to the services that they provide to each other, or externally. It will then be a matter for the national board to consider which services have to be provided outside Wales. That is the direction of travel.

dri, os ystyriwch y peth. Yr wyf yn gwbl fodlon i hyn fod yn rhan o'r broses ymgynghori. Mae arnaf eisaiu ehangu rôl cynghorau iechyd cymuned ac iddynt fod yn fwy lleol. Yr wyf yn fodlon ystyried y pwyt hwnnw.

**David Melding:** I mi mae'r newid polisi hwn yn gwbl syfrdanol. Prin bum mlynedd sydd ers imi gynorthwyo eich cyd-Aelod, Jane Hutt, i benodi amrywiol gadeiryddion y byrddau iechyd lleol. Yn awr, mae'r sefydliadau hyn yn cael eu diddymu. Bydd y cyhoedd yn siŵr o ddod i'r casgliad fod Llafur yn newid strwythurau'r GIG yn amlach nag y mae'r rhan fwyaf o bobl yn newid eu car. Ymddengys imi fod hon yn agwedd ryfedol at ein prif wasanaeth cyhoeddus.

Yr ydych wedi dweud am y bwrdd cenedlaethol nad oes arnoch eisaiu sefydlu cwango arall, ond daeth i'r amlwg yn ystod eich ateb i Jenny Randerson fod mwyafrif y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad am gael awdurdod iechyd strategol. Mae'r pethau hynny'n amlwg yn gwrth-ddweud ei gilydd. Os penderfynwch gael awdurdod iechyd, bydd gennych gwango. A fydd y sefydliadau newydd, beth bynnag y byddwn yn eu galw, yn comisiynu eu gwasanaethau eu hunain? Os digwydd hynny, byddwn yn dileu'r rhaniad rhwng comisiynydd/darparwr, a sefydlwyd yn 1989.

Efallai eich bod am wneud hynny, ond mae'n wrthdroad rhyfeddol, ac mae'n sicr yn anghyson â'r profiad yn Lloegr. Ai hynny y bwriadwch ei wneud, neu a ydych yn rhagweld y bydd comisiynu'n cael ei drosglwyddo i'r bwrdd cenedlaethol, beth bynnag y byddwch yn ei alw?

**Edwina Hart:** Gallaf ddweud 'ydwyf' yn ateb i'r cwestiwn hwnnw. Wrth gwrs, mae'n bosibl y bydd y cyrff am edrych ar faterion trawsffiniol yng nghyswllt y gwasanaethau y maent yn eu darparu i'w gilydd, neu'n allanol. Mater i'r bwrdd cenedlaethol wedyn fydd ystyried pa wasanaethau y mae'n rhaid eu darparu y tu allan i Gymru. I'r cyfeiriad hwnnw y mae'n mynd.

I did not let anything slip out. It was clear from the responses regarding a strategic health authority that people understood that language. People do not necessarily understand the executive agency model that well. Therefore, I was going to give it further consideration over the summer months. This is the development of policy and learning lessons; we shall see what is happening. I feel that the time is right, in terms of the new partnership Government and the model that we are developing, for us to look strategically at the structures. I was open and honest when I sent out this consultation document, and gave the preferred option of the administration at that time. That did not find favour, so I will now have to conduct further consultation. That is Government listening to consultation responses; it has been a widespread consultation with many views expressed. I will follow that direction of travel.

Ni ddywedais ddim yn ddifeddwl. Yr oedd yn glir o'r ymatebion am awdurdod iechyd strategol fod pobl yn deall y termau hynny. Nid yw pobl yn deall model yr asiantaeth weithredol gystal ym mhob achos. Felly, yr oeddwn am ei ystyried ymhellach dros fisioedd yr haf. Fel hyn y mae datblygu polisi a dysgu gwrsi; cawn weld beth sy'n digwydd. Teimlaf mai dyna'r adeg briodol, yng nghyd-destun y Llywodraeth bartneriaeth newydd a'r model yr ydym yn ei ddatblygu, inni edrych yn strategol ar y strwythurau. Yr oeddwn yn agored ac yn onest pan ddosbarthais y ddogfen ymgynghori hon, a nodais y dewis a oedd orau gan y weinyddiaeth bryd hynny. Nid oedd hynny'n dderbyniol, felly, bydd yn rhaid imi ymgynghori ymhellach yn awr. Felly y mae Llywodraeth yn gwrando ar ymatebion i ymgynghori; bu'n ymgynghoriad eang a mynegwyd nifer o safbwytiau. Byddaf yn mynd i'r cyfeiriad hwnnw.

**Cymeradwyo Gorchymyn y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru (Diwygiadau Amrywiol) 2008  
Approval of the School Curriculum in Wales (Miscellaneous Amendments) Order 2008**

**The Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills (Jane Hutt):** I propose that

*the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order No. 24.4:*

*1. considers the report of the Subordinate Legislation Committee laid in the Table Office on 17 June 2008 in relation to the draft the School Curriculum in Wales (Miscellaneous Amendments) Order 2008; and*

*2. approves that the draft the School Curriculum in Wales (Miscellaneous Amendments) Order 2008 is made in accordance with:*

*a) the draft laid in the Table Office on 4 June 2008; and*

*b) the explanatory memorandum laid in the Table Office on 4 June 2008. (NDM3991)*

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 24.4:*

*1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mehefin 2008 mewn perthynas â'r Gorchymyn draft, Gorchymyn y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru (Diwygiadau Amrywiol) 2008; a*

*2. yn cymeradwyo bod y Gorchymyn draft, Gorchymyn y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru (Diwygiadau Amrywiol) 2008, yn cael ei wneud yn unol ag:*

*a) y draft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mehefin 2008; a*

*b) y memorandwm esboniadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mehefin 2008. (NDM3991)*

I am pleased to open the debate on the School Curriculum in Wales (Miscellaneous Amendments) Order 2008. The legislation amends the requirements to provide work-related education by extending the age range so that it also applies to pupils in key stage 3—that is, 11 to 14-year-olds. The national curriculum foundation technology and arts subjects will be omitted and replaced with information and communication technology, design and technology, and art and design. These amendments were consulted upon as part of a large-scale consultation on the revised school curriculum, which took place between 8 January and 30 March 2007. Proposals were positively received. I announced the details of the revised curriculum in Plenary on 9 October 2007.

Yr wyf yn falch agor y ddadl ar Orchymyn y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru (Diwygiadau Amrywiol) 2008. Mae'r ddeddfwriaeth yn diwygio'r gofynion i ddarparu addysg yn gysylltiedig â gwaith drwy ymestyn yr ystod oed i fod yn gymwys hefyd i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3—hynny yw, plant rhwng 11 a 14 oed. Hepgorir pynciau sylfaen technoleg a'r celfyddydau o'r cwricwlwm cenedlaethol ac yn eu lle rhoir technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, dylunio a thechnoleg, a chelf a dylunio. Ymgynghorwyd ar y diwygiadau hyn fel rhan o ymgynghoriad eang ar y cwricwlwm ysgol diwygiedig a gynhalwyd rhwng 8 Ionawr a 30 Mawrth 2007. Cafwyd derbyniad cadarnhaol i'r cynigion. Cyhoeddais fanylion y cwricwlwm diwygiedig yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Hydref 2007.

**The Deputy Presiding Officer:** Thank you. There are no speakers for this item, so I do not suppose that there is any point in your replying to the debate, Minister. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see not. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

### Atal Rheolau Sefydlog Suspension of Standing Orders

**The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones):** I propose that

*the National Assembly for Wales in accordance with Standing Orders Nos. 35.6 and 35.8:*

*suspends Standing Order No. 7.18(i) and that part of Standing Order No. 6.10 that requires the weekly announcement under Standing Order No. 6.3 to constitute the timetable for business in Plenary for the following week, to allow the motions under items 5, 6 and 7 to be considered in Plenary on Wednesday 16 July 2008. (NNDM3996)*

**The Deputy Presiding Officer:** The

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones):** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog Rhifau 35.6 a 35.8:*

*yn atal Rheol Sefydlog 7.18(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog Rhif 6.10 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.3 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r cynigion o dan eitem 5, 6 a 7 gael eu hystyried yn y cyfarfod llawn ddydd Mercher 16 Gorffennaf 2008. (NNDM3996)*

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw atal

proposal is to suspend Standing Orders. Does any Member object? I see not. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

### **Diwygio Rheolau Sefydlog Revision of Standing Orders**

**The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones):** I propose that

*the National Assembly, in accordance with Standing Order No. 35.2:*

- 1. considers the report of the Business Committee e-mailed to Members and laid in the Table Office on 16 July; and*
- 2. approves the amendments to Standing Orders set out in the report of the Business Committee. (NDM3997)*

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see not. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

### **Cytuno ar Ganllawiau i'r Aelodau ynglŷn â Chynnal Trafodion y Cynulliad yn y Modd Priodol mewn Perthynas â Phwyllgorau Gweithdrefn Cynulliad Arbennig Agreement of Guidance for Members on the Proper Conduct of Proceedings in Relation to Special Assembly Procedure Committees**

**The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones):** I propose that

*the Assembly agrees the guidance for Members on the proper conduct of proceedings in relation to special Assembly procedure committees, issued under Standing Order No. 2.17 and laid in the Table Office on 16 July 2008. (NDM3998)*

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any

Rheolau Sefydlog. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu hynny? Gwelaf nad oes. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones):** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 35.2:*

- 1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a anfonwyd drwy e-bost at Aelodau ac a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Gorffennaf; a*
- 2. yn cymeradwyo'r diwygiadau i Reolau Sefydlog a nodir yn adroddiad y Pwyllgor Busnes. (NDM3997)*

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu hynny? Gwelaf nad oes. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones):** Cynigiaf fod

*y Cynulliad yn cytuno'r canllawiau i Aelodau'r Cynulliad ar y modd priodol i gynnal trafodion pwylgorau gweithdrefn Cynulliad arbennig, ac a roddir o dan Reol Sefydlog 2.17 ac a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Gorffennaf. (NDM3998)*

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn

Member object? I see not. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

gwrthwynebu hynny? Gwelaf nad oes. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

### **Ethol Aelodau i Bwyllgorau Election of Members to Committees**

**The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones):** I propose that

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 10.3 elects Huw Lewis (Labour) as a member of the Finance Committee in place of Lynne Neagle (Labour). (NNDM4000)*

I propose that

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 10.3, elects Joyce Watson (Labour) as a member of the Committee on Equality of Opportunity in place of Huw Lewis (Labour). (NNDM3999)*

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motions. Does any Member object? I see not. The motions are therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd y cynigion.  
Motions carried.*

### **Atal Rheolau Sefydlog Suspension of Standing Orders**

**The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones):** I propose that

*the National Assembly for Wales in accordance with Standing Orders Nos. 35.6 and 35.8:*

*suspends Standing Order No. 7.18(i) and that part of Standing Order No. 6.10 that requires the weekly announcement under Standing Order No. 6.3 to constitute the timetable for business in Plenary for the following week, to allow the motions under item 8 to be considered in Plenary on Wednesday 16 July 2008. (NNDM4001)*

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones):** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 10.3 yn ethol Huw Lewis (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid yn lle Lynne Neagle (Llafur). (NNDM4000)*

Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 10.3, yn ethol Joyce Watson (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn lle Huw Lewis (Llafur). (NNDM3999)*

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn y cynigion. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu hynny? Gwelaf nad oes. Felly, caiff y cynigion eu derbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones):** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog Rhifau 35.6 a 35.8:*

*yn atal Rheol Sefydlog Rhif 7.18(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog Rhif 6.10 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.3 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r cynigion o dan eitem 8 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd*

*Mercher 16 Gorffennaf 2008. (NNDM4001)*

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to suspend Standing Orders to bring forward the business under item 8. Does any Member object? I see not. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion carried.*

### **Sefydlu ac Ethol Pwyllgor Gweithdrefn Cynulliad Arbennig** **Establishment and Election of a Special Assembly Procedure Committee**

**The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones):** I propose that

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Orders Nos. 21 and 25.19, establishes a committee to consider petitions relating to a draft special Assembly procedure Order, 'the London to Fishguard Trunk Road (A40) (Penblewin to Slebech Park Improvement) Order 200-'.*

*The remit of the committee shall be to consider petitions in relation to the draft Order and to report to the Assembly in accordance with Standing Order No. 25.21.*

*The committee shall cease to exist when it has reported. (NNDM4002)*

I propose that

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 10.3, elects Christine Chapman, Irene James, Mohammad Asghar, Nick Ramsay and Michael German as members of the committee to consider petitions relating to a draft special Assembly procedure Order, 'the London to Fishguard Trunk Road (A40) (Penblewin to Slebech Park Improvement) Order 200-'.* (NNDM4003)

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motions. Does any Member object? I see not. The motions are therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd y cynigion.*

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw atal Rheolau Sefydlog er mwyn dod â'r busnes dan eitem 8 gerbron. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu hynny? Gwelaf nad oes. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones):** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog Rhifau 21 a 25.19, yn sefydlu pwyllgor i ystyried deisebau ynghylch Gorchymyn Gweithdrefn Cynulliad Arbennig drafft, 'Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (A40) (Gwelliant Penblewin i Barc Slebets) 200-'.*

*Cylch gwaith y pwyllgor fydd ystyried deisebau ynghylch y Gorchymyn drafft a chyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 25.21.*

*Daw'r Pwyllgor i ben ar ôl i'r adroddiad gael ei gyflwyno. (NNDM4002)*

Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 10.3, yn ethol Christine Chapman, Irene James, Mohammad Asghar, Nick Ramsay a Mike German fel Aelodau o'r pwyllgor i ystyried deisebau ynghylch Gorchymyn Gweithdrefn Cynulliad Arbennig drafft, 'Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (A40) (Gwelliant Penblewin i Barc Slebets) 200-'.* (NNDM4003)

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn y cynigion. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu hynny? Gwelaf nad oes. Felly, caiff y cynigion eu derbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

*Motions carried.*

**Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar Ariannu Sefydliadau'r Sector  
Gwirfoddol yng Nghymru**  
**The Communities and Culture Committee's Report on the Funding of Voluntary  
Organisations in Wales**

**Janice Gregory:** I propose that

*the National Assembly for Wales:*

*notes the report of the Communities and Culture Committee into the Funding of Voluntary Sector Organisations in Wales which was laid in the Table Office on 4 June 2008. (NDM3992)*

I am pleased to open this debate on the Communities and Culture Committee's first inquiry—into funding for the voluntary sector, or the third sector, as many prefer it to be known. We chose to undertake this inquiry because the voluntary sector affects nearly everyone in Wales. Over 30,000 voluntary organisations operate in Wales; their total income last year was £1.2 billion.

These organisations play a vital role in our society, providing not only a wide range of services, but also opportunities for people to give their time, experience and expertise to benefit others in their community. There are 1.5 million volunteers in Wales, and the hours that they give equate to 90,000 full-time workers. This is a tremendous contribution to quality of life.

The public sector provides 43 per cent of the voluntary sector's income. Donations and the lottery account for another 30 per cent, and the remainder comes from trading, investments and the private sector. We do not call for additional funding. We acknowledge that the Assembly Government has injected a significant increase in funding for the third sector over recent years: from £79 million in 2002-03, to £174 million in 2006-07.

We have, however, made significant recommendations in relation to funding arrangements, and how they can better

**Janice Gregory:** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar Ariannu Cyrff y Sector Gwirfoddol yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mehefin 2008. (NDM3992)*

Yr wyf yn falch agor y ddadl hon ar ymchwiliad cyntaf y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant—i ariannu ar gyfer y sector gwirfoddol, neu'r trydydd sector, fel y mae'n well gan lawer ei alw. Gwnaethom ddewis ymgymryd â'r ymchwiliad hwn gan fod y sector gwirfoddol yn effeithio ar bron bawb yng Nghymru. Mae dros 30,000 o gyrff gwirfoddol yn gweithredu yng Nghymru; yr oedd cyfanswm eu hincwm y llynedd yn £1.2 biliwn.

Mae i'r cyrff hyn ran hollbwysig yn ein cymdeithas, gan ddarparu nid yn unig amrywiaeth fawr o wasanaethau, ond cyfleoedd hefyd i bobl roi o'u hamser, eu profiad a'u harbenigedd er lles pobl eraill yn eu cymuned. Mae 1.5 miliwn o wirfoddolwyr yng Nghymru, ac mae'r oriau a roddant yn cyfateb i 90,000 o weithwyr amser llawn. Mae hyn yn gyfraniad aruthrol i ansawdd bywyd.

Y sector cyhoeddus sy'n darparu 43 y cant o incwm y sector gwirfoddol. Mae rhoddion a'r loteri'n darparu 30 y cant arall, a daw'r gweddiol o fasnachu, buddsoddiadau a'r sector preifat. Nid ydym yn galw am gyllid ychwanegol. Yr ydym yn cydnabod bod Llywodraeth y Cynulliad wedi cynyddu'r cyllid ar gyfer y trydydd sector yn sylweddol dros y blynnyddoedd diwethaf: o £79 miliwn yn 2002-03, i £174 miliwn yn 2006-07.

Serch hynny, yr ydym wedi gwneud argymhellion pwysig yng nghyswllt trefniadau ariannu, a'r modd y gallant roi

support the third sector to plan strategically. The committee welcomes the Government's constructive response to its recommendations, and the fact that work is already under way in some areas. I will, therefore, just point to some of the more significant issues arising from our inquiry.

Our report makes it clear that the Assembly Government, local authorities and other public bodies should treat the third sector as a strategic partner, not merely a consultee, when planning, commissioning and delivering public services. The Minister's response points to the involvement of voluntary organisations as equal partners in local service boards, in developing community strategies, and implementing the Wales spatial plan. The work being done to build awareness among Assembly Government officials about working with the third sector is also important. The committee welcomes the commitment in this area, and hopes that the Welsh Assembly Government will continue to lead the way in promoting the principle of equal partnership.

The main thrust of our report is that more should be done by the Assembly Government, local government and other relevant funding bodies to help third sector organisations to help themselves. We recommend that the Assembly Government establishes and maintains a web-based portal as the prime source of information on funding in a comprehensive, up-to-date and easily accessible form. We therefore welcome discussions with the Wales Council for Voluntary Action on developing a fully inclusive portal.

Application processes should be more user-friendly, with easy-to-understand forms that clearly explain how applications will be processed. We are pleased that the WCVA has been asked to review this area.

The report recommends better support in accessing European funding. Moves to make the Welsh European Funding Office website more accessible are welcome, as is the project proposal by the WCVA to establish

mwy o gymorth i'r trydydd sector i gynllunio'n strategol. Mae'r pwylgor yn croesawu ymateb adeiladol y Llywodraeth i'w argymhellion, a'r ffaith fod gwaith yn mynd rhagddo eisoes mewn rhai meysydd. Felly, ni wnaf ond tynnau sylw at rai o'r materion pwysicaf sy'n codi o'n hymchwiliad.

Mae ein hadroddiad yn gwneud yn glir y dylai Llywodraeth y Cynulliad, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill drin y trydydd sector fel partner strategol, nid fel i ymgynghori ag ef yn unig, wrth gynllunio, comisiunu a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Gweinidog yn cyfeirio yn ei ymateb at ran cyrff gwirfoddol fel partneriaid cyfartal mewn byrddau gwasanaethau lleol, wrth ddatblygu strategaethau cymunedol, ac wrth roi cynllun gofodol Cymru ar waith. Mae'r gwaith a wneir i hybu ymwybyddiaeth ymysg swyddogion Llywodraeth y Cynulliad o gydweithio â'r trydydd sector yn bwysig hefyd. Mae'r pwylgor yn croesawu'r ymrwymiad yn y maes hwn ac yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i arwain wrth hyrwyddo egwyddor partneriaeth gyfartal.

Prif fyrdwn ein hadroddiad yw y dylai Llywodraeth y Cynulliad, Llywodraeth leol a chyrff ariannu perthnasol eraill wneud mwy i helpu cyrff y trydydd sector i'w helpu eu hunain. Yr ydym yn argymhell y dylai Llywodraeth y Cynulliad sefydlu a chynnal porth ar y we fel y brif ffynhonnell wybodaeth am ariannu ar ffurf gynhwysfawr, gyfoes a hygrych. Gan hynny, croesawn drafodaethau â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar ddatblygu porth cwbl gynhwysol.

Dylai prosesau ymgeisio fod yn fwy hwylus, gyda ffurflenni hawdd eu deall sy'n egluro sut y caiff ceisiadau eu prosesu. Yr ydym yn falch bod CGGC wedi cael cais i adolygu'r maes hwn.

Mae'r adroddiad yn argymhell rhoi mwy o gymorth i allu cael cyllid Ewropeaidd. Mae camau i wneud gwefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn fwy hwylus i'w croesawu, fel y mae'r cynnig am brosiect gan

specialist support for the third sector in accessing convergence funding, and delivering projects with that funding. It is hoped that the WCVA project proposal will be formally accepted.

The committee felt that more practical support should be provided by county voluntary councils; for example, by helping smaller organisations to complete grant application forms, and to assist with general administration. We note the arrangements in place to monitor the performance of CVCs, and hope that the committee's recommendations will encourage further efforts by CVCs and their partners to publicise their services.

The Committee recommended pilot projects to give training and practical support to smaller organisations in becoming self-sufficient. We hope that the Government's evaluation of current work in this area will show that it is meeting the needs of the sector.

*Daeth y Dirprwy Lywydd Dros Dro (William Graham) i'r Gadair am 2.40 p.m.  
The Temporary Deputy Presiding Officer (William Graham) took the Chair at 2.40 p.m.*

Core funding is a key issue for the third sector. Many organisations are frustrated when well-established and well-managed projects are forced to close due to a lack of core funding. I am sure that we are all aware of the problem of funding insecurity within the sector. The code of practice for funding the voluntary sector states that three-year funding should be the norm. We found that the sector broadly welcomes this policy, but it has not yet been fully rolled out, and many groups are still subject to annual funding.

Our inquiry also found that, while maintaining a diversity of funding streams is important, having to apply for too many individual pots of money can result in wasteful duplication of effort. The timely award of grants is also crucial to the recruitment, retention and motivation of the 46,000 people employed in the sector. We have urged the Assembly Government to review its funding criteria, to give more weight to core funding for established

CGGC i greu cymorth arbenigol i'r trydydd sector ar gyfer gallu cael cyllid cydgyfeirio, a rhedeg prosiectau gan ddefnyddio'r cyllid hwnnw. Gobeithio y caiff y cynnig hwn am brosiect gan CGGC ei dderbyn yn ffurfiol.

Teimlai'r pwylgor y dylai cynhorau gwirfoddol sirol ddarparu cymorth mwy ymarferol; er enghraifft, drwy helpu cyrff llai i lenwi ffurflenni cais am grantiau, a helpu gydan gwaith gweinyddu cyffredinol. Sylwn ar y trefniadau sydd ar waith i fonitro perfformiad cynhorau gwirfoddol sirol, gan obeithio y bydd argymhellion y pwylgor yn cymell mwy o ymdrechion gan gynhorau gwirfoddol sirol a'u partneriaid i hysbysebu eu gwasanaethau.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cael prosiectau peilot i roi hyfforddiant a chymorth ymarferol i gyrff llai i ddod yn hunan-gynhaliol. Yr ydym yn gobeithio y bydd gwerthusiad y Llywodraeth o waith cyfredol yn y maes hwn yn dangos ei fod yn diwallu anghenion y sector.

Mae cyllid craidd yn fater allweddol i'r trydydd sector. Bydd nifer o sefydliadau'n teimlo'n rhwystredig pan fydd prosiectau sefydledig sy'n cael eu rheoli'n dda yn cael eu gorfodi i gau oherwydd diffyg cyllid craidd. Yr wyf yn siŵr ein bod bob un yn ymwybodol o'r broblem ansicrwydd ariannu yn y sector. Mae'r cod ymarfer ar gyfer ariannu'r sector gwirfoddol yn datgan y dylai cyllid tair blynedd fod yn norm. Cawsom fod y sector yn croesawu'r polisi hwn yn gyffredinol, ond nad yw wedi'i roi ar waith yn llawn eto, ac chaiff nifer o grwpiau eu ariannu'n flynyddol o hyd.

Gwelwyd yn ein hymchwiliad hefyd fod gorfol ymgeisio am arian o ormod o ffynonellau'n gallu achosi dyblygu gwaith yn wastraffus, er ei bod yn bwysig cadw amrywiaeth o ffrydiau ariannu. Mae hefyd yn hollbwysig rhoi grantiau'n amserol er mwyn reciriwtio, cadw a symbylu'r 46,000 o bobl sy'n cael eu cyflogi yn y sector. Yr ydym wedi annog Llywodraeth y Cynulliad i adolygu ei meinu prawf cyllido, i roi mwy o bwys ar gyllid craidd ar gyfer prosiectau

projects, while recognising the need to encourage innovation by funding new initiatives.

We have also recommended a review of all the various funding streams, to identify the scope for consolidation, and assess whether the balance between revenue and capital funding achieves the most efficient use of that resource. I accept the Minister's assurances that voluntary sector unit officials are taking this forward in the Assembly's strategic planning process, and we hope to see improvements in this area feeding through to the third sector.

The Minister's response has outlined several positive developments on funding, including the Assembly-wide scoping study into grant funding, asking the WCVA to review funding of organisations providing an all-Wales service in order to remove the need for multiple grant applications, and the consideration of funding codes of practice by the third sector partnership council in the autumn. I hope that these will lead to action as a matter of priority.

The scheme proposed by the UK Government's Dormant Bank and Building Society Accounts Bill is an important development for the sector, and we are clear that Wales must receive its fair share of proceeds from such a scheme. We therefore welcome the Minister for Heritage's endorsement of the legislative proposals, and the Welsh Assembly Government's plans to consult on Welsh aspects of the scheme later this year.

We note the Government's response on support for organisations that prefer to operate through the medium of Welsh. The intention to address this through training and departmental action plans falls short of a full statistical review of grant applications processed through the medium of Welsh. The committee would wish the Minister to be vigilant in ensuring that sufficient resources are allocated to meet the demand for services in Welsh. The committee would be grateful if the Minister for Social Justice and Local

sefydledig, gan gydnabod yr angen i hybu arloesedd drwy ariannu mentrau newydd.

Yr ydym hefyd wedi argymhell adolygiad o'r holl amrywiol ffrydiau ariannu, i weld pa gyfle sydd i gyfuno, ac asesu a yw'r cydbwysedd rhwng cyllid refeniw a chyllid cyfalaf yn sicrhau bod yr adnodd hwnnw'n cael ei ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithlon. Yr wyf yn derbyn y sicrwydd a roddodd y Gweinidog fod swyddogion uned yn y sector gwirfoddol yn hyrwyddo hyn drwy broses gynllunio strategol y Cynulliad, a gobeithiwn weld gwelliannau yn y maes hwn yn dwyn ffrwyth yn y trydydd sector.

Yn ei ymateb, mae'r Gweinidog wedi disgrifio nifer o ddatblygiadau cadarnhaol o ran ariannu, gan gynnwys astudiaeth gwmpasu'r Cynulliad cyfan o gyllid grant, gofyn i CGGC adolygu ariannu ar gyfer cyrff sy'n darparu gwasanaeth i Gymru gyfan er mwyn dileu'r angen am geisiadau niferus am grantiau, ac ystyried codau ymarfer ar ariannu gan gyngor partneriaeth y trydydd sector yn yr hydref. Gobeithio y bydd y rhain yn arwain at weithredu fel mater o flaenoriaeth.

Mae'r cynllun a gynigiwyd ym Mesur Cyfrifon Segur mewn Banciau a Chymdeithasau Adeiladu gan Lywodraeth y DU yn ddatblygiad pwysig i'r sector, ac yr ydym yn glir ei bod yn rhaid i Gymru gael ei chyfran deg o'r elw o gynllun o'r fath. Gan hynny, croesawn yffaith fod y Gweinidog dros Dreftadaeth yn cymeradwyo'r cynigion deddfwriaethol, a bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymgynghori'n ddiweddarach eleni ar yr agweddau ar y cynllun sy'n ymwneud â Chymru.

Yr ydym yn nodi ymateb y Llywodraeth am gefnogaeth i sefydliadau y mae'n well ganddynt weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw'r bwriad i ddelio â hyn drwy hyfforddiant a chynlluniau gweithredu adrannol yn cyfateb i adolygiad ystadegol llawn o geisiadau am grant a gaiff eu prosesu yn Gymraeg. Byddai'r Pwyllgor yn dymuno i'r Gweinidog fod yn wyliadwrus wrth sicrhau bod adnoddau digonol wedi'u dyrannu i ateb y galw am wasanaethau yn y Gymraeg. Byddai'r pwyllgor yn ddiochgar

Government would agree to provide us with a regular progress report, perhaps once a term, starting in the new year, on how the committee's recommendations are being implemented.

In conclusion, I thank my fellow committee members for the way in which they engaged enthusiastically with this inquiry. I also thank our clerking team—Chris Reading, Sarah Bartlett, Lara Date and Annette Millett—for their work in putting together this report; the committee wishes Chris Reading every success in his new role. However, most importantly, we are grateful to all in the third sector who gave their precious time to submit evidence to our inquiry. I commend this report of the committee's first inquiry to the Assembly.

**The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons):** I am grateful for the opportunity to respond to the committee's report. I am pleased that the committee decided to look at funding the voluntary or third sector, which plays a vital role in our quality of life in Wales. This is a useful barometer of our sense of civic wellbeing in Wales, which is reflected through the good work that the third sector and voluntary organisations do, and the extent to which volunteering contributes to the wellbeing of our society.

The direct funding that we as an Assembly Government have provided to the third sector indicates the importance that we attach to it; the funding was of the order of £79 million in 2003, and has increased to £174 million in 2006-07.

I was pleased to note that the direction and general underpinning philosophy of the recommendations of the report produced by the Culture and Communities Committee strengthen the strategic plan that we developed on the back of our attempts to update our relationship with the third sector. The committee's recommendations highlight the key critical areas that the strategic action plan needs to address, and give us a strong steer on the priorities that we need to address.

pe bae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn cytuno i roi adroddiad cynnydd i ni, unwaith bob tymor, efallai, ar y modd y mae argymhellion y pwylgor yn cael eu rhoi ar waith.

I gloi, yr wyf yn diolch i'm cyd-aelodau ar y pwylgor am eu brwd frydedd wrth ymgymryd â'r ymchwiliad hwn. Diolch hefyd i'n tîm clericio—Chris Reading, Sarah Bartlett, Lara Date ac Annette Millett—am eu gwaith wrth roi'r adroddiad hwn at ei gilydd; mae'r pwylgor yn dymuno pob llwyddiant i Chris Reading yn ei rôl newydd. Fodd bynnag, yn bwysicaf oll yr ydym yn ddiolchgar i bawb yn y trydydd sector a roddodd o'u hamser gwerthfawr i gyflwyno tystiolaeth i'n hymchwiliad. Cymeradwyaf i'r Cynullaid yr adroddiad hwn ar ymchwiliad cyntaf y pwylgor.

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfre i ymateb i adroddiad y pwylgor. Yr wyf yn falch fod y pwylgor wedi penderfynu edrych ar ariannu'r sector gwirfoddol neu'r trydydd sector, sy'n hollbwysig yn ansawdd ein bywyd yng Nghymru. Mae hyn yn fodd hwylus i fesur ein hymdeimlad o les dinesig yng Nghymru, a adlewyrchir yng ngwaith da y trydydd sector a chyrff gwirfoddol, a'r graddau y mae gwirfoddoli'n cyfrannu at les ein cymdeithas.

Mae'r cyllid uniongyrchol yr ydym ni fel Cynulliad wedi'i ddarparu i'r trydydd sector yn dangos y pwysigrwydd a welwn ynddo; yr oedd y cyllid oddeutu £79 miliwn yn 2003, ac mae wedi codi i £174 miliwn yn 2006-07.

Yr oeddwn yn falch sylwi bod cyfeiriad ac athroniaeth sylfaenol gyffredinol yr argymhellion yn yr adroddiad a gynhyrchwyd gan y Pwyllgor Diwylliant a Chymunedau yn atgyfnerthu'r cynllun strategol a luniwyd gennym yn sgil ein hymdrechion i ddiweddu ein perthynas â'r trydydd sector. Mae argymhellion y pwylgor yn tynnu sylw at y meysydd hanfodol allweddol y mae angen i'r cynllun gweithredu strategol roi sylw iddynt, ac yn rhoi inni wybodaeth gadarn am y blaenoriaethau y mae angen inni roi sylw iddynt.

We recognise that the third sector is a key strategic partner, and we are anxious to ensure that that role continues, whether through the third sector partnership council, through the involvement of the third sector in the development of local authorities' community strategies, or through routine participation by the third sector in local service boards. Our commitment to ensuring that the third and voluntary sector is involved in these critical areas of policy development is an indication of our awareness of the key strategic role that it plays.

Janice made some important points about supporting the infrastructure of third and voluntary sector organisations in Wales. The five-year agreement between the Assembly Government and the Wales Council for Voluntary Action, signed in October 2005, was a landmark development for that relationship, and the further extension of that role to cover county voluntary councils and volunteer centres showed a further maturing of it. The report's recommendation on the arrangements governing our relationship with the WCVA and its role in delivering and monitoring the performance of county voluntary councils is well made, and is very much a part of enhancing the performance framework for the third sector in Wales.

I am pleased that the third sector is looking to see where it can share activities, and that many organisations no longer want to be completely self-sufficient in certain basic back-office services but are looking to work together more effectively on developing a shared infrastructure.

As an indication of the maturing relationship between the Welsh Assembly Government and the WCVA, on 26 June, just a few weeks ago, Win Griffiths, the chair of the WCVA, and I signed an updated five-year partnership agreement to run until March 2013. That shows recognition by both sides of the strength of the new working relationship that we are developing.

Several of the committee's recommendations

Cydnabyddwn fod y trydydd sector yn bartner strategol allweddol, ac yr ydym yn awyddus i sicrhau bod y rôl honno'n parhau, boed drwy gyngor partneriaeth y trydydd sector, drwy ran y trydydd sector wrth ddatblygu strategaethau cymunedol awdurdodau lleol, neu drwy gyfranogiad rheolaidd gan y trydydd sector yn y byrddau gwasanaethau lleol. Mae ein hymrwymiad i sicrhau bod y trydydd sector a'r sector gwirfoddol yn rhan o'r meysydd datblygu polisiau hanfodol hyn yn arwydd o'n hymwybyddiaeth o'i rôl strategol allweddol.

Gwnaeth Janice bwyntiau pwysig ynglŷn â chefnogi seilwaith sefydliadau'r trydydd sector a'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Yr oedd y cytundeb pum mlynedd rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a lofnodwyd ym mis Hydref 2005, yn ddatblygiad pwysig i'r berthynas honno, ac mae ehangu'r rôl honno ymhellach i gynnwys cyngorau gwirfoddol sirol a chanolfannau gwirfoddolwyr yn dangos iddi aeddfedu ymhellach. Mae argymhelliaid yr adroddiad am y cytundebau sy'n llywodraethu ein perthynas â CGGC a'i rôl yn cyflawni ac yn monitro perfformiad cyngorau gwirfoddol sirol yn argymhelliaid addas, ac mae'n rhan hanfodol o wella'r fframwaith perfformiad ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru.

Yr wyf yn falch bod y trydydd sector yn edrych ble y gall rannu gweithgareddau, a bod llawer o sefydliadau nad ydynt am fod yn gwbl hunan-gynhaliol mwyach o safbwyt gwasanaethau swyddfa gefn sylfaenol penodol, ond yn hytrach yn gobeithio gweithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol i lunio seilwaith a rennir.

Fel arwydd o'r berthynas sy'n aeddfedu rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a CGGC, ar 26 Mehefin, ychydig wythnosau'n ôl yn unig, lllofnododd Win Griffiths, cadeirydd CGGC, a minnau gytundeb partneriaeth pum mlynedd wedi ei ddiweddar a hyd at fis Mawrth 2013. Dengys hynny gydnabyddiaeth gan y naill ochr a'r llall o gryfder y berthynas weithio newydd yr ydym yn ei datblygu.

Mae sawl un o argymhellion y pwylgor yn

relate to the interface between the WCVA, county voluntary councils and the volunteer services, and, as Janice said, we will be looking at the possibility of developing new relationships to improve their robustness.

The funding of the third sector was a main theme of the review, and that is underpinned by the code of practice on the funding of the third sector. The report stresses the importance of trying to strengthen our relationship. We have a funding and compliance sub-committee of the third sector partnership council that monitors the funding relationship on an ongoing basis. At the moment, the group is looking at the code of practice, notably to include modifications such as full cost recovery for the services that third sector organisations provide. It is also looking at other public sector codes of practice and funding, and not just at the Assembly Government's. It will also look at how the Assembly Government is complying with that code. Therefore, the finance and compliance sub-committee is taking forward that recommendation.

It is important that we look at new and creative ways of providing financial support to the third and voluntary sector, and new ideas such as endowment funds seem to be worth exploring. However, managing to establish an endowment fund in the first place will represent a challenge and we need to look creatively across the sector at other developments, such as dormant accounts, to see whether opportunities present themselves.

2.50 p.m.

Another key theme is that of simplifying the way in which organisations access funding, and Janice made particular reference to that in her contribution. As she pointed out, we have asked the Wales Council for Voluntary Action to review the way in which we are doing this.

We expect all departments of the Welsh Assembly Government to continually monitor the range of grants that they make available to the third sector. It is complex for the third sector to work out which grant is the most appropriate to a particular area of work

ymwneud â'r rhyngwyneb rhwng y WCVA, y cyngorau gwirfoddol sirol a'r gwasanaethau i wyrffodolwyr, ac, fel y dywedodd Janice, byddwn yn edrych ar y posibilrwydd o feithrin perthnasau newydd er mwyn gwella'u cadernid.

Yr oedd ariannu'r trydydd sector yn un o brif themâu'r adolygiad, ac ategir hynny gan y cod ymarfer ar ariannu'r trydydd sector. Mae'r adroddiad yn pwysleisio pwysigrwydd ceisio cryfhau ein perthynas. Mae gennym is-bwylgor ariannu a chydymffurfio cyngor partneriaeth y trydydd sector sy'n monitro'r berthynas ariannu'n barhaus. Ar hyn o bryd, mae'r grŵp yn edrych ar y cod ymarfer, yn benodol i gynnwys addasiadau megis adennill costau'n llawn ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau'r trydydd sector. Mae hefyd yn edrych ar ariannu a chodau ymarfer eraill yn y sector cyhoeddus, ac nid ar rai Llywodraeth y Cynulliad yn unig. Bydd hefyd yn edrych ar y modd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydymffurfio â'r cod hwnnw. Felly, mae'r is-bwylgor cyllid a chydymffurfio yn rhoi'r argymhelliaid hwnnw ar waith.

Mae'n bwysig inni edrych ar ffyrdd newydd a chreadigol i ddarparu cymorth ariannol i'r trydydd sector a'r sector gwirfoddol, ac mae'n ymddangos ei bod yn werth archwilio syniadau newydd megis cronfeydd gwaddol. Er hynny, bydd llwyddo i sefydlu cronfa waddol yn y lle cyntaf yn her, ac mae angen inni edrych yn greadigol ar draws y sector ar ddatblygiadau eraill, megis cyfrifon segur, i weld a oes cyfleoedd yn codi.

Thema allweddol arall yw symleiddio'r modd y mae sefydliadau'n gallu cael arian, a chyfeiriodd Janice yn benodol at hynny yn ei chyfraniad. Fel yr esboniodd, yr ydym wedi gofyn i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru adolygu'r modd yr ydym yn gwneud hyn.

Disgwylawn i holl adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru fonitro'n barhaus yr ystod grantiau a ddarparant ar gyfer y trydydd sector. Mae'n gymhleth i'r trydydd sector benderfynu pa grant sydd fwyaf priodol i faes gwaith a buddiant penodol. Mae'n

and interest. It is incumbent upon us as an Assembly Government to simplify the grant system, and to take some of the complexity out of it, quite apart from simplifying the application process itself. If the application process is simple but the grant system is complex, we would be only halfway there.

In conclusion, the committee's report is to be welcomed. It is an independent review of the relationship that we have been building with the third sector and is an important health check for the new action plan that we developed in conjunction with the partnership.

The report clearly demonstrates the importance of the third sector to the Welsh Assembly Government's wider agenda. I agree with Janice's suggestion that we should report to the Assembly regularly on the progress made in implementing the recommendations. Whether we need to do that on a termly basis is a matter for discussion. However, if Members are keen to do so, regular updates at appropriate intervals—perhaps two or three times a year—would be a good idea. I would be pleased to take that way and give it further thought.

**Paul Davies:** I am grateful for being permitted to take part in this afternoon's debate, and I also take this opportunity to thank the Chair, fellow committee members, and the clerk and his staff for all their hard work.

All too often as an Assembly Member, I am approached by third sector groups that are finding it difficult to obtain funding, and that are being unable to continue accessing existing funding streams. Sometimes, we can all forget the huge contribution that third sector organisations make to our everyday lives. Half of all people volunteer, informally or formally, at least once a month. Without them, some of the services that we take for granted may not be delivered.

The third sector provides essential services to our communities, and, in many areas of public service delivery, the sector can help to develop different and better models of service

ddyletswydd arnom fel Llywodraeth y Cynulliad i symleiddio'r system grantiau, a dileu rhyw gymaint o'r cymhlethdod, yn gwbl ar wahân i symleiddio'r broses ymgeisio ei hun. Os yw'r broses ymgeisio'n syml ond y system grantiau'n gymhleth, hanner ffordd yno'n unig y byddem.

I gloi, mae adroddiad y pwylgor i'w groesawu. Mae'n adolygiad annibynnol o'r berthynas y buom yn ei meithrin gyda'r trydydd sector, ac y mae'n archwiliad pwysig o gyflwr y cynllun gweithredu newydd a luniwyd gennym mewn cydweithrediad â'r bartneriaeth.

Dengys yr adroddiad yn glir bwysigrwydd y trydydd sector i agenda ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cytunaf ag awgrym Janice y dylem gyflwyno adroddiad rheolaidd i'r Cynulliad am y cynnydd wrth weithredu'r argymhellion. Mae'r cwestiwn a oes angen inni wneud hynny bob tymor yn fater i'w drafod. Er hynny, os yw'r Aelodau'n awyddus i wneud hynny, byddai diweddarriadau rheolaidd ar adegau priodol—dwywaith neu dair y flwyddyn, efallai—yn syniad da. Byddwn yn falch o fynd â hynny ymaith a'i ystyried ymhellach.

**Paul Davies:** Yr wyf yn ddiolchgar am gael cyfranogi yn y ddadl y prynhawn yma, ac achubaf ar y cyfle hwn hefyd i ddiolch i'r Cadeirydd, i'm cyd-aelodau ar y pwylgor, ac i'r clerc a'i staff am eu holl waith caled.

Lawer yn rhy aml fel Aelod o'r Cynulliad bydd grwpiau'r trydydd sector sy'n ei chael yn anodd cael arian, ac sy'n methu â pharhau i ddefnyddio'r llifau arian cyfredol, yn cysylltu â mi. Weithiau, gallwn i gyd anghofio cyfraniad aruthrol sefydliadau trydydd sector i'n bywydau bob dydd. Mae hanner y boblogaeth gyfan yn gwirfoddoli, yn anffurfiol neu'n ffurfiol, o leiaf unwaith y mis. Hebddynt, efallai na fyddai rhai o'r gwasanaethau a gymerwn yn ganiataol yn cael eu darparu.

Mae'r trydydd sector yn darparu gwasanaethau hanfodol i'n cymunedau, ac mewn llawer maes darparu gwasanaeth cyhoeddus gall y sector helpu datblygu

to meet challenging needs.

As a committee, we heard evidence from a number of groups and visitors who felt that they were not valued or suitably recognised. That is why it is essential that the Assembly Government on all levels accepts our first recommendation, which is to treat the third sector as a strategic partner in the planning, commissioning and delivery of public services. Bearing in mind how much the third sector contributes to public service delivery, it is crucial that it be consulted by all levels of government when policies are introduced or reviewed.

Third sector organisations, especially the smaller ones, find it more and more difficult to access funding, and it can be daunting at times for the volunteers responsible for a particular group to find the relevant grant information. Some of these groups feel under attack when funding is not forthcoming. Therefore, it is imperative that the available funding be promoted in a more open and transparent way. Even when sources of grants and funding are known to smaller groups, they find it impossible to access those moneys, as they are often distributed through third parties such as local authorities, which have closer working relationship with larger or better-known groups.

For all groups, it is essential to develop and maintain a central information database on funding, including a searchable database of funding streams. This must include advice and support on applying for grants and on becoming more self-sufficient by identifying opportunities to diversify funding. A one-stop-shop database of information is crucial.

Those third sector organisations that are fortunate enough to access funding streams find it difficult to plan ahead because of the lack of continuous funding from one year to the next. Not only is that disruptive to the service that a particular group delivers to the community, but it creates uncertainty for the staff whom it employs. Under those circumstances, it can be even more difficult

modelau gwasanaeth gwahanol a gwell er mwyn ateb anghenion heriol.

Fel pwylgor, clywsom dystiolaeth gan nifer o grwpiau ac ymwelwyr a deimlai nad oeddent yn cael eu gwerthfawrogi na'u cydnabod yn briodol. Dyna pam y mae'n hanfodol i Lywodraeth y Cynulliad ar bob lefel dderbyn ein hargymhelliaid cyntaf, sef trin y trydydd sector fel partner strategol wrth gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Gan gadw mewn cof faint y mae'r trydydd sector yn ei gyfrannu at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, mae'n hanfodol i lywodraeth ar bob lefel ymgynghori ag ef pan gaiff polisiau eu cyflwyno neu'u hadolygu.

Mae sefydliadau'r trydydd sector, yn enwedig y rhai llai, yn ei chael yn fwy ac yn fwy anodd cael gafael ar arian, a gall fod yn anodd dros ben ar adegau i'r gwirfoddolwyr sy'n gyfrifol am grŵp penodol ddod o hyd i'r wybodaeth berthnasol am grantiau. Mae rhai o'r grwpiau hyn yn teimlo bod ymosodiad arnynt pan nad oes arian i ddod. Felly, mae'n hollbwysig i'r arian sydd ar gael gael ei hyrwyddo mewn modd mwy agored ac eglur. Hyd yn oed pan fydd ffynonellau grantiau ac arian yn hysbys i grwpiau llai, mae'n amhosibl iddynt allu cael yr arian hwnnw oherwydd ei fod yn aml yn cael eu dosbarthu drwy drydydd parti megis awdurdodau lleol, sydd â pherthynas weithio agosach â grwpiau mwy neu fwy cyfarwydd.

I'r holl grwpiau, mae'n hanfodol sefydlu a chynnal cronfa ddata ganolog o wybodaeth am ariannu, gan gynnwys cronfa ddata llifau arian y gellir chwilio drwyddi. Rhaid i hon gynnwys cefnogaeth a chyngor ar ymgeisio am grantiau, ac ar fod yn fwy hunangynhaliol drwy nodi cyfleoedd i arallgyfeirio arian. Mae cronfa ddata wybodaeth dan-un-to yn hanfodol.

Mae'r sefydliadau trydydd sector hynny sy'n ddigon ffodus i allu cael llifau arian yn ei chael yn anodd cynllunio ymlaen llaw oherwydd diffyg arian parhaol o flwyddyn i flwyddyn. Nid yn unig y mae hynny'n tarfu ar y gwasanaeth y mae grŵp penodol yn ei ddarparu i'r gymuned, ond mae'n creu ansicrwydd i'r staff y mae'n eu cyflogi. Dan yr amgylchiadau hynny, gall fod yn anos fyth

to attract high-quality people to the organisation, because of a lack of job security. It is therefore essential that core funding be established to support projects at least on a three-year basis. As has been said, the Assembly Government's code of practice for funding the voluntary sector endorses that recommendation, but it is clear from the groups that gave evidence to our committee that that is not the case. I hope that the Welsh Assembly Government accepts the recommendation to monitor the extent to which three-year funding is becoming the norm, and to identify the types of projects for which longer-term funding might be more appropriate.

It is also vital to maintain a diversity of funding streams to cover capital and revenue expenditure. It is crucial that the Assembly Government assesses whether the balance between revenue and capital funding achieves the most efficient use of resources. A number of groups that I know complain that some of the grant application forms that they must submit are complicated, cumbersome, and often use jargon or abbreviations that are difficult to understand. It is therefore essential that forms be user-friendly, easy to understand, and certainly not time-consuming. These third sector groups want to use their time to do what they do best, namely delivering vital services to their communities, not filling in reams of paper. It is also crucial that the size of the grant reflects the application procedure; small grants should require minimal paperwork. Unsuccessful grant applicants should also be able to obtain feedback, so that they can up their game, if necessary, when it comes to further applications. Groups are continuously calling for transparency.

When all is said and done, I welcome the 25 key recommendations of this report. They are sensible and they adopt a clear and concise approach to ensuring that the third sector receives the support that it deserves. I hope that the Assembly Government not only notes this report, but acts on it and adopts its recommendations.

**David Lloyd:** Yr wyf hefyd yn falch fy mod yn gallu cyfrannu at y ddadl y prynhawn yma

denu pobl o safon uchel i'r sefydliad, oherwydd diffyg sicrwydd swydd. Mae'n hanfodol felly i arian craidd gael ei sefydlu i gefnogi prosiectau o leiaf bob tair blynedd. Fel y dywedwyd, mae cod ymarfer Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer ariannu'r sector gwirfoddol yn cymeradwyo'r argymhelliaid hwnnw, ond mae'n amlwg o'r grwpiau a roddodd dystiolaeth gerbron ein pwylgor nad dyna'r sefyllfa. Gobeithio y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliaid i fonitro'r graddau y mae arian tair blynedd yn dod yn drefn arferol, ac i enwi'r mathau o brosiectau y gallai arian tymor hir fod yn fwy priodol iddynt.

Mae hefyd yn hanfodol cynnal amrywiaeth o lifau arian i dalu costau refeniw a chyfalaf. Mae'n hollbwysig i Lywodraeth y Cynulliad asesu a yw'r cydbwysedd rhwng arian refeniw ac arian cyfalaf yn sicrhau defnyddio adnoddau yn y modd mwyaf effeithlon. Mae nifer o grwpiau y gwn amdanynt yn cwyno bod rhai o'r ffurflenni cais am grant y mae'n rhaid iddynt eu cyflwyno yn gymhleth, yn feichus, ac yn aml yn defnyddio jargon neu fyrfoddau sy'n anodd eu deall. Mae'n hanfodol, felly, i ffurflenni fod yn hawdd eu defnyddio, yn hawdd eu deall, ac yn sicr nid yn llafurus. Mae ar y grwpiau trydydd sector hyn eisiau defnyddio'u hamser yn gwneud yr hyn a wnânt orau, sef darparu gwasanaethau hollbwysig i'w cymunedau, nid yn llenwi pentwr o bapurau. Mae hefyd yn hanfodol i faint y grant adlewyrchu'r drefn ymgeisio; dylai grantiau bach fod â chyn lleied â phosibl o waith papur. Dylai ymgeiswyr aflwyddiannus am grant hefyd allu cael adborth, fel y gallant wella'u safon, os oes angen, ar gyfer gwneud ceisiadau pellach. Mae grwpiau'n galw'n barhaus am eglurder.

Wedi ystyried popeth, croesawaf y 25 argymhelliaid allweddol yn yr adroddiad hwn. Maent yn synhwyrol ac yn mabwysiadu dull clir a chryno o sicrhau bod y trydydd sector yn cael y gefnogaeth y mae'n ei haeddu. Gobeithio y bydd Llywodraeth y Cynulliad nid yn unig yn nodi'r adroddiad hwn, ond hefyd yn gweithredu arno ac yn mabwysiadu'i argymhellion.

**David Lloyd:** I too am pleased to have the opportunity to contribute to this afternoon's

i nodi'r adroddiad cynhwysfawr hwn o ran ariannu cyrff y sector gwirfoddol yng Nghymru. Diolchaf i'r Cadeirydd, Janice Gregory, am ei gwaith, a hefyd i'r cleric, y dirprwy glerc a'r holl aelodau o staff a fu wrthi yn gweithio'n ddygn dros holl fisoeedd yr arolwg hwn i gynhyrchu adroddiad mor glodwiw a chynhwysfawr.

Yr oeddwyn yn falch o glywed sylwadau'r Gweinidog, oherwydd yr oeddwyn yn bwriadu canolbwytio, fel pob pregeth dda, ar dri phwynt sylfaenol, sef tri o'r argymhellion, a'r argymhelliad cyntaf yw'r cyntaf o'r rheiny:

'Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru...drin y trydydd sector fel partner strategol'.

Dyma oedd y gri o'r galon a glywsom yn wastadol drwy'r wythnosau o gymryd tystiolaeth, sef bod y sector gwirfoddol eisiau cael ei gyfrif yn bartner go iawn. Gofynnodd am berthynas newydd sy'n seiliedig ar gydraddoldeb â Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth leol. Yn sylfaenol, mae'r sector yn rhannu'r un weledigaeth â'r Llywodraeth yma. Mae eisiau cael gwared ar unrhyw agwedd nawddoglyd sydd wedi ei hanelu ato a chael ei gyfrif yn bartner strategol go iawn. Golyga hynny newid agwedd mewn sawl man, gan fod y sector eisiau cael ei gynnwys yn nhrefniadau'r Llywodraeth, nid cael ei orfodi i geisio am arian drwy'r amser pan fo'n cytuno â'r nod a phan ddylai fod yn rhan o'r strategaeth beth bynnag.

Bum yn gweithio gyda'r Gymdeithas Alzheimer ac yn is-gadeirydd i Croesffydd—Gofalu am Ofalwyr ers sawl blwyddyn, ac yr wyf yn ymwybodol o'r gwaith clodwiw sy'n mynd rhagddo yn y sector gwirfoddol. Ni fyddai modd gwneud y gwaith hwnnw hebddo. Mae'r sector yn teilyngu bod yn rhan o'r un weledigaeth â llywodraeth leol a'r Llywodraeth hon, ac ni ddylem bwys o hyd a'i orfodi i fod yn palu am arian pan fo'n rhannu'r un weledigaeth â ni.

3.00 p.m.

Gofynnaf i'r Gweinidog gymryd argymhelliad 1 o ddifrif, fel cri o'r galon, o'r sector wirfoddol ac o'r pwylgor a gynhyrchodd yr adroddiad hwn.

debate noting this comprehensive report on the financing of voluntary sector bodies in Wales. I thank the Chair, Janice Gregory, for her work, as well as the clerk, the deputy clerk and all those members of staff who have worked tirelessly during the months of this review to produce such a comprehensive and laudable report.

I was pleased to hear the Minister's comments, since I intended to focus, like all good sermons, on three fundamental points, namely three of the recommendations, starting with the first:

'The Welsh Assembly Government...should treat the third sector as a strategic partner'.

That was the *cri de cœur* we heard constantly during our weeks of giving evidence, namely that the voluntary sector wants to be considered as a genuine partner. It asked for a new relationship based on equality with the Assembly Government and local government. In essence, the sector shares the same vision as the Government here. It wants to get rid of any patronising attitude that is directed towards it and be counted as a genuine strategic partner. That will require a change in attitude in many place, given that the sector wants to be included in the Government's arrangements, not forced to bid for funding all the time when it agrees with the aim and when it should be a part of the strategy anyway.

I have worked with the Alzheimer's Society and have been vice-chair of Crossroads—Caring for Carers for a number of years, and I know of all the laudable work carried out by the voluntary sector. It would not be possible to do that work without it. The sector deserves to be part of the same vision as local government and this Government, and we should not keep pressing it and forcing it to be scraping around for money when it shares the same vision as us.

I ask the Minister to take recommendation 1 seriously, as a *cri de cœur* from the voluntary sector and from the committee which produced this report.

Fel y clywsom eisoes, argymhelliaid arall yw y dylid datblygu porth canolog er mwyn i bobl gael gafael ar wybodaeth am gyllid. Mae hynny'n hanfodol bwysig. Dywedodd sawl mudiad ei bod yn amhosibl o anodd i ddarganfod sut y mae cael gafael ar yr arian. Mae cael gafael ar wybodaeth weddol sylfaenol yn amhosibl y mwyafrif o'r amser, ac mae'r system yn llawer rhy gymhleth. Dylid cael un porth canolog o wybodaeth am gyllid, a ddylai fod yn hawdd i'w gyrraedd. Dylai fod yn hawdd i bobl fynd ar ôl y wybodaeth honno. Nid pawb sy'n feistr ar y cyfrifiadur.

O ran argymhelliaid 8, yr ydym wedi clywed dros y blynnyddoedd am y pwysigrwydd o ariannu sicr a chyllid sy'n para tair blynedd. Byddai hynny'n dod â sicrwydd a sefydlogrwydd i bob mudiad, gan na fyddai rhaid iddynt dreulio'u holl amser yn llenwi ffurflen ac yn ceisio am arian drosodd a throsodd. Dylai'r arian fod ar gael wrth gefn gan gymdeithas er mwyn ei chynnal ac er mwyn iddi allu bwrw ymlaen â'i gwaith hanfodol bwysig. Ni ddylai cymdeithasau gael eu llesteirio o hyd drwy orfod llenwi ffurflen dirifedi er mwyn cadw'r mudiad i fynd. Yr ydym wedi bod yn clywed ers blynnyddoedd bod angen cyflwyno system sy'n gwarantu cyllid dros dair blynedd i'r bobl sy'n gwneud gwaith mor hanfodol bwysig.

Wedi dweud hynny, byddwn yn cymell fy nghyd-Aelodau i ddarllen yr adroddiad bendigedig hwn, sy'n llawn ffigurau ac argymhellion gwych sy'n teilyngu gweithredu arnynt gan y Llywodraeth.

**Peter Black:** Like Dai Lloyd, I welcome this report, and I wish to thank my fellow committee members and all of those who came to give evidence. Their contributions were invaluable and helped us to put together the set of recommendations that we have before us.

I will concentrate on just two or three of the recommendations, but it is worth noting that had we had a similar debate some four or five years ago, we may well have been looking at the same recommendations. That is not just because this report is overdue, but because

As we have already heard, another recommendation is that a central portal be developed so that people can access information on funding. That is vital. Several of the organisations said that it is impossibly difficult to find out how to get the money. Accessing quite fundamental information is impossible most of the time, and the system is far too complicated. There should be one central portal of information about funding, which should be easily accessible. It should be easy for people to get that information. Not everyone is a computer whiz kid.

On recommendation 8, we have heard over the years of the importance of secure funding and funding over three years. That would bring security and stability to every organisation, because it would not have to spend all its time filling in forms and applying for funding over and over again. An organisation should have a reserve fund to sustain it and for it to be able to get on with its vital work. Organisations should not be hindered by having to fill in form after form just to keep the organisation going. We have been hearing for many years that a system needs to be introduced which guarantees funding over three years for the people who do such vital work.

I encourage my fellow Members to read this fantastic report, which is full of figures and excellent recommendations that deserve to be implemented by the Government.

**Peter Black:** Fel Dai Lloyd, croesawaf yr adroddiad hwn, a hoffwn ddiolch i'm cyd aelodau ar y pwylgor ac i bawb a ddaeth atom i roi tystiolaeth. Yr oedd eu cyfraniadau'n werthfawr dros ben ac yn gymorth inni lunio'r gyfres o argymhellion sydd gerbron.

Yr wyf am ganolbwytio ar ddau neu dri yn unig o'r argymhellion, ond mae'n werth nodi, petaem wedi cael dadl debyg ryw bedair neu bum mlynedd yn ôl, mae'n ddigon posibl y byddem yn edrych ar yr un argymhellion. Ac nid yw hynny oherwydd ei bod yn hen bryd

these issues have been raised many times before; in fact, they have been raised throughout the life of the Assembly, and we still need to make further progress on them. Some progress has been made, but we need to move more quickly on that.

I refer in particular to the issues of sustainable funding, drawing together the grants that are available and making them far more accessible, and transparency of funding for many voluntary sector organisations. Many bodies in the third sector struggle to know exactly what grants are available, how to apply for them, and how to go about maximising their income from a huge range of funding sources that are available. That is why I think that recommendation 5 is particularly important. The recommendation suggests that the Welsh Assembly Government should commission the Wales Council for Voluntary Action to develop and maintain a central portal providing information on funding: one portal to rule them all, if you like—an innovation which, I think, is well overdue and worth advancing on.

**Brian Gibbons:** We are currently working on the Sustainable Funding Cymru website. Several people have commented that there is no such portal, but there is, and it seeks to facilitate this. I would be grateful if people would look at it, and I would be pleased to take any comments on how it could be improved.

**Peter Black:** Thank you, Brian. There is detail in the report is important, and it is useful to take it on board. One of our suggestions is to have a searchable database for funding streams, including advice on applying for grants and how to become more self-sufficient. I think that it is equally important that the portal is web based and well publicised and that it also has links to local authorities, county voluntary councils and private sector organisations, so that it is not just about Government funding, but the whole gamut of funding. I am sure that you will send the link around to all Members after this debate so that we can all pass comment on it and send those comments back to you. I would be happy to do so, and I am sure that

cael yr adroddiad hwn, ond oherwydd bod y materion hyn wedi'u codi droeon o'r blaen; yn wir, maent wedi'u codi drwy gydol oes y Cynulliad, ac mae angen o hyd inni wneud mwy o gynnydd arnynt. Mae ychydig gynnydd wedi'i wneud, ond mae angen inni weithredu'n gyflymach ar hynny.

Cyfeiriaf yn arbennig at faterion cyllid cynaliadwy, gan ddwyn ynghyd y grantiau sydd ar gael a'u gwneud yn fwy hygrych, ac eglurder cyllido ar gyfer llawer o fudiadau yn y sector gwirfoddol. Mae llawer o gyrff yn y trydydd sector yn ei chael yn anodd gwybod pa grantiau'n union sydd ar gael, sut y mae gwneud cais amdanyst, a sut y mae mynd ati i wneud y gorau o'u hincwm o'r amrywiaeth enfawr o ffynonellau cyllid sydd ar gael. Dyna pam yr wyf yn credu bod argymhelliaid 5 yn arbennig o bwysig. Mae'r argymhelliaid yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i ddatblygu a chynnal porth canolog i ddarparu gwybodaeth bwysig am gyllid: un porth i reoli drostynt i gyd, os mynnwch—datblygiad, yn fy marn i, y mae ei angen ers amser ac y dylid ystyried ei ddatblygu.

**Brian Gibbons:** Yr ydym wrthi'n gweithio ar wefan Cyllid Cynaliadwy Cymru ar hyn o bryd. Mae nifer o bobl wedi tynnu sylw at y ffaith nad oes porth o'r fath ar gael, ond mae un yn bod, ac mae'n ceisio hwyluso hyn. Byddwn yn ddiolchgar petai pobl yn edrych arno, a byddwn yn falch clywed unrhyw sylwadau sut y gellid ei wella.

**Peter Black:** Diolch, Brian. Mae manylion pwysig yn yr adroddiad, a byddai'n ddefnyddiol eu derbyn. Un o'n hawgrymiadau yw sefydlu cronfa ddata o ffynonellau cyllid y gellir chwilio drwyddi, gan gynnwys cyngor sut i wneud cais am grantiau a sut i fod yn fwy hunan-gynhaliol. Credaf ei bod lawn mor bwysig i'r porth fod ar gael ar y we a'i fod yn cael digon o gyhoeddusrwydd, a bod ganddo hefyd gysylltiadau ag awdurdodau lleol, cynghorau gwirfoddol sirol a sefydliadau yn y sector preifat, fel na chaiff ei gyfyngu i arian oddi wrth y Llywodraeth yn unig, ond oddi wrth yr holl ffynonellau cyllid. Yr wyf yn siŵr yr anfonwch y ddolen at bob Aelod ar ôl y ddadl hon er mwyn inni bob un allu rhoi sylwadau

others will be too.

That funding issue is fundamental to the report, and it is one of the reasons why the committee decided that it wanted to look at this issue. In going around our communities and talking to organisations, many of us get the same comments that we have always had, namely that there is no core funding available, that the funding is not there for three years when they get it and that they do not know how to access funding. I just hope that, as a result of this report, and as a result of the work that the Welsh Assembly Government is doing, which Brian has just referred to, that will start to change. If it does not start to change, I fear that we could be standing up in another few years' time having this debate all over again.

The other recommendations that I wanted to refer to relate to the three-year funding. I know that we have a lot of evidence on this issue, and I think that most organisations, by and large, are working towards that aim—the Welsh Assembly Government certainly is. I think that most local authorities are too, certainly in terms of the funding that they give as corporate bodies to voluntary organisations. The difficulty—and I have raised this issue on Swansea council, of which I am still a member—lies in the fact that the council gives grants corporately to many organisations, but there is also a whole series of other interactions between the voluntary sector and other council departments in terms of contracts for the delivery of particular services. For example, social services might give a grant here and housing or education might give a grant there—and those interactions do not come into that corporate whole. As a result, those small grants and small contracts get missed out in terms of the authority's policy on delivering three-year grant funding and all the other things that we want to put in place for that. It is important that a dialogue is established with local councils to try to deal with that. Those are the essential points that I wanted to make, and I would be happy to have further debates on this issue, if we could.

arni ac anfon y sylwadau hynny'n ôl atoch.  
Byddwn i'n hapus gwneud hynny, ac yr wyf  
yn siŵr y bydd eraill hefyd yn hapus.

Mae'r mater cyllido hwnnw'n elfen sylfaenol yn yr adroddiad, ac mae'n un o'r rhesymau pam mae'r pwylgor wedi penderfynu ei fod am edrych ar y mater. Wrth fynd o gwmpas ein cymunedau a siarad â mudiadau, bydd llawer ohonom yn clywed yr un sylwadau dro ar ôl tro, sef nad oes arian craidd ar gael, ac nad yw'r arian ar gael am dair blynedd pan fyddant yn ei gael ac nad ydynt yn gwybod sut i allu cael arian. O ganlyniad i'r adroddiad hwn, ac o ganlyniad i'r gwaith y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud y mae Brian newydd gyfeirio ato, gobeithio y bydd hynny'n dechrau newid. Os na fydd yn dechrau newid, ofnaf y gallwn fod ar ein traed eto ymhen ychydig flynyddoedd yn cael y ddadl hon unwaith eto.

Mae'r argymhellion eraill yr oeddwn am gyfeirio atyt yn ymwneud â'r cyllid tair blynedd. Gwn ein bod wedi cael llawer o dystiolaeth ar y mater hwn, a chredaf fod y rhan fwyaf o fudiadau, at ei gilydd, yn gweithio tuag at y nod hwnnw—mae hynny'n sier yn wir yn achos Llywodraeth Cynulliad Cymru. Credaf fod hynny'n wir hefyd yn achos y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, yn sier o ran yr arian a roddant fel cyrff corfforaethol i fudiadau gwirfoddol. Yr anhawster—ac yr wyf wedi codi'r mater hwn ar gyngor Abertawe, ac yr wyf yn dal yn aelod ohono—yw'r ffaith fod y cyngor yn rhoi grantiau'n gorfforaethol i lawer o fudiadau, ond mae hefyd cyfres gyfan o gysylltiadau eraill rhwng y sector gwirfoddol ac adrannau eraill o'r cyngor o ran contractau i ddarparu gwasanaethau penodol. Er enghraifft, gall y gwasanaethau cymdeithasol roi grant yma a gallai'r adran tai neu addysg roi grant rywle arall—ac nid yw'r gysylltiadau hynny'n dod o fewn y corff corfforaethol hwnnw yn ei gyfarwydd. O ganlyniad i hyn, caiff grantiau bach a chontractau bach eu colli o ran polisi'r awdurdod ar ddarparu arian grant tair blynedd a'r holl bethau eraill yr ydym am eu darparu ar gyfer hynny. Mae'n bwysig cael deialog gyda chynghorau lleol i geisio delio â hynny. Dyna'r pwyntiau sylfaenol yr oeddwn am eu gwneud, a byddwn yn hapus cael dadleuon pellach ar y mater, pe gallem.

**Janice Gregory:** I thank everyone for their contributions to the debate this afternoon and for the way in which they have received the report. In their contributions, Peter and Paul mentioned that when we decided to do this, our decision was coloured by the fact that so many people who run voluntary organisations contact us, as Assembly Members, with serious concerns about how they can access funding. We are all aware that if you cannot access funding, you cannot continue with that particular group or organisation. We know that there is funding out there. We know that there has been an increase in funding from the Welsh Assembly Government over the last few years, so we know that the money is going into the voluntary sector, but what they share with us are concerns about how they draw down that funding. They can see in the communities that we all represent, that much more work could be undertaken by these groups and organisations, but for the fact that they are bound to a desk and a computer, having to work through a mountain of paperwork to draw down that funding. That struck a chord with us as a committee and that is why we are quite robust in our recommendations regarding that.

For me, the most important part of this report is its emphasis on accountability. Irene has just referred to the recommendation to set up a standing committee, and all members of the committee felt strongly that the work that we carried out over those 10 meetings, in scrutinising broadcasters, testing their

newyddion rhagorol i sianel sydd wedi'i tharo oherwydd y trosglwyddo i ddigidol, gan golli'r refeniw hysbysebu a gâi o raglenni Saesneg a dderbynnyd, am ddim, gan Sianel 4.

Yr wyf yn croesawu'r adroddiad, ac edrychaf ymlaen at weld gweithredu'r argymhellion.

**Peter Black:** Yn gyntaf, yr wyf yn cytuno â'r casgliad cyffredinol fod hwn yn adroddiad o sylwedd ac wedi ei lunio ar sail tystiolaeth a thrafodaeth o safon uchel, ymhlih aelodau'r pwylgor a chan dystion. Rhaid imi ddweud bod cryn graffu cadarn wedi bod ar y dystiolaeth honno, gan gynhyrchu nifer o argymhellion rhagorol, y bydd y Gweinidog, gobeithio, yn gallu eu mabwysiadu, i raddau helaeth, pan ddaw i ymateb i'r adroddiad hwn yn yr hydref.

Mae yna nifer o faterion yr oeddwn am wneud sylwadau arnynt. Cytunaf â Paul Davies fod angen cael lloosogrwydd o ran rhaglenni newyddion, rhaglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion, rhaglenni materion cyfoes, a dramâu. Mae'n bwysig inni beidio â dibynnu ar un darparwr sydd â monopolisef y BBC. Rhaid inni gael sianeli eraill i gynhyrchu'r rhaglenni hynny hefyd, ac os yw'n golygu defnyddio'r difidend band eang gwerth £130 miliwn i ariannu hynny, yna dylem fod yn barod i wneud hynny.

Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion ynglych yr arian hwnnw, nid yn unig i sicrhau bod cyfran ohono'n cael ei ddefnyddio i gynnal amrywiaeth yng Nghymru, ond hefyd i ystyried trwydded sianel 3 ar wahân ar gyfer Cymru, neu ddefnyddio rhywfaint o'r arian i sefydlu gwasanaeth newyddion radio annibynnol ar gyfer Cymru. Os yw'r arian hwnnw ar gael at y dibenion hynny, dylid yn sicr ei ddefnyddio i warantu lloosogrwydd am gryn amser i ddod.

I mi, rhan bwysicaf yr adroddiad hwn yw ei bwyslais ar atebolrwydd. Mae Irene newydd gyfeirio at yr argymhelliaid i sefydlu pwylgor sefydlog, ac yr oedd pob aelod o'r pwylgor yn teimlo'n gryf nad yw'r gwaith a wnaethom yn ystod y 10 cyfarfod hwnnw, wrth graffu ar waith darlleddyrr, profi eu

assumptions and putting the case for Wales to them has not been done for some time in the National Assembly. We feel quite strongly that, given the way in which the committee structure has worked as a result of the Government of Wales Act 2006, the only way that we can maintain that level of scrutiny and accountability is to have a similar standing committee in place on a permanent basis. In that way, we can continue to hold those broadcasters to account, put the case for more equitable treatment of Wales, argue the case for Wales to be better portrayed on the networks and raise issues as they emerge, such as the King report. We can also scrutinise the annual reports of those broadcasters. For example, S4C produces an annual report and it has a meeting with the Department for Culture, Media and Sport, but that is about the only scrutiny that happens in relation to that report. That needs to change. The National Assembly for Wales needs to take some ownership over broadcasting in Wales.

Addressing another part of taking ownership is the recommendation that the Welsh Assembly Government should appoint the chair of the S4C Authority and the BBC trustee for Wales, and that we should have an Ofcom board member for Wales. That reflects the way in which things have changed since the Broadcasting Act 1996, in terms of devolution, the acquisition of powers and the way in which we exercise responsibility. I hope that that recommendation can be taken forward, because it would add to the level of accountability and transparency on broadcasting policy.

I have referred to the King report, which made an important contribution to the work of the committee, albeit coincidentally; it was quite handy to be able to scrutinise the chair of the BBC the week after the report's publication. The report made the point about how network news systematically ignores Wales and the devolution context. Although there was a noticeable improvement in network news immediately after the report's publication, there are still instances of where there has been no change. For example, the entire 30-minute *Panorama* programme

rhagdybiaethau a chyflwyno achos Cymru iddynt, wedi'i wneud ers tro byd yn y Cynulliad Cenedlaethol. Teimlyn yn eithaf cryf, o gofio'r ffordd y mae'r strwythur pwylgorau wedi gweithio o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mai'r unig ffordd y gallwn gynnal y lefel honno o atebolrwydd a chrâu yw cael pwylgor sefydlog tebyg ar waith yn barhaol. Fel hynny gallwn barhau i ddal y darlledwyr hynny yn atebol, cyflwyno'r achos dros drin Cymru'n decach, dadlau'r achos dros ddarlungo Cymru'n well ar y rhwydweithiau, a chodi materion wrth iddynt ddod i'r amlwg, megis adroddiad King. Gallwn hefyd graffu ar adroddiadau blynnyddol y darlledwyr hynny. Er enghraifft, bydd S4C yn cynhyrchu adroddiad blynnyddol ac yn cael cyfarfod â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ond dyna'r unig graffu, fwy neu lai, sy'n digwydd yng nghyswilt yr adroddiad hwnnw. Mae angen i hynny newid. Mae angen i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymryd rhywfaint o berchenogaeth dros ddarlledu yng Nghymru.

Mae'r argymhelliad y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru benodi cadeirydd Awdurdod S4C ac ymddiriedolwr y BBC dros Gymru, ac y dylem gael aelod o Gymru ar fwrdd Ofcom, yn delio â rhan arall o berchenogi. Mae hynny'n adlewyrchu'r ffordd y mae pethau wedi newid ers Deddf Ddarlledu 1996, o ran datganoli, caffaol pwerau a'r ffordd yr ydym yn ymarfer cyfrifoldeb. Gobeithio y gellir symud yr argymhelliad hwnnw ymlaen, oherwydd byddai'n ychwanegu at lefel yr atebolrwydd a'r eglurder ar bolisi darlledu.

Yr wyf wedi cyfeirio at adroddiad King, a wnaeth gyfraniad pwysig i waith y pwylgor, er mai drwy gyd-ddigwyddiad y bu hynny; digon hwylus oedd gallu craffu ar gadeirydd y BBC yr wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad. Gwnaeth yr adroddiad y pwynt ynghylch y modd y mae Cymru a chyddes tun datganoli'n cael eu hanwybyddu'n gyson gan y newyddion rhwydwaith. Er bod gwelliant amlwg yn y newyddion rhwydwaith yn syth ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, mae enghreifftiau o hyd o ddiffyg newid. Er enghraifft, neilltuwyd y cyfan o'r

broadcast on 7 July was dedicated to the English national health service, without properly setting out the Welsh context. There is still a long way to go for the BBC and other broadcasters in meeting the recommendations of the King report.

The committee's report also refers to the need to improve network production from Wales; that applies to the BBC, Channel 4 and ITV. We need to make more use of Welsh independent producers and we need programmes that reflect the life of Wales. For example, in the last few years, ITV has produced only one programme that counts as a Welsh production, namely *The History of Mr Polly*; I do not think that that really counts as a Welsh piece of literature.

The content of this report is timely and apt, and I hope that the Minister can take on board its content so that we can start to improve the accountability and transparency of broadcasting in Wales and across the network.

**Nerys Evans:** A minnau'n aelod o'r Pwyllgor Darlledu, yr wyf yn croesawu'r cyfle i drafod yr adroddiad hwn. Hoffwn ategu'r diolch i'r Cadeirydd, i'r staff a wasanaethodd y pwyllgor ac i bawb a roddodd o'u hamser i roi dystiolaeth.

Fel y gwyddom, mae darlledu yn cyffwrdd â bywydau pawb yng Nghymru ac yn enny llawer o deimladau cryf. Yr ydym wedi gweld llawer o anghydfod ac anfodlonrwydd yn ddiweddar oherwydd diffyg yn y ffordd y mae Cymru yn cael ei hadlewyrchu a'i phortreadu ar y rhagleni y mae pobl Cymru yn eu gwylion'n ddyddiol. Yr oedd bygythiad Adam Price AS rai misoedd yn ôl i beidio â thalu am drwydded teledu, fel protest yn erbyn diffygion gwasanaethu Cymru gan y BBC, yn un cryf a dderbyniodd lawer o gydymdeimlad. Mae'r teimladau cryf hynny yn parhau, ac mae'r materion hyn yn gefnlen i gyflwyno'r adroddiad hwn.

Yr wyf am ganolbwntio yn awr ar dair elfen o waith y pwyllgor, sef portreadu a chomisiynu o Gymru, atebolrwydd a chyllid.

rhaglen *Panorama* hanner awr a ddarllewyd ar 7 Gorffennaf i wasanaeth iechyd gwladol Lloegr, heb osod allan gyd-destun Cymru'n briodol. Mae gan y BBC a darlledwyr eraill ffordd bell i fynd o hyd i fodloni argymhellion adroddiad King.

Mae adroddiad y pwyllgor yn cyfeirio hefyd at yr angen i wella cynnrych y rhwydwaith o Gymru; mae hynny'n berthnasol i'r BBC, Sianel 4 ac ITV. Mae angen inni ddefnyddio mwy ar gynhyrchwyr annibynnol Cymru, ac mae arnom angen rhagleni sy'n adlewyrchu bywyd Cymru. Er enghraifft, yn ystod y blynnyddoedd diwethaf un rhaglen yn unig sy'n cyfrif fel cynhyrchiad Cymreig a gynhyrchwyd gan ITV, sef *The History of Mr Polly*; ni chredaf fod hwnnw'n cyfrif mewn gwirionedd fel darn o lenyddiaeth Gymreig.

Mae cynnwys yr adroddiad hwn yn amserol ac yn briodol, a gobeithio y gall y Gweinidog roi sylw dyladwy i'w gynnwys, fel y gallwn ddechrau gwella atebolrwydd ac eglurder darlledu yng Nghymru ac ar draws y rhwydwaith.

**Nerys Evans:** As a member of the Broadcasting Committee, I welcome the opportunity to discuss this report. I wish to echo the thanks given to the Chair, to the staff who served the committee and to everyone who gave of their time to give evidence.

As we know, broadcasting touches the lives of everyone in Wales and is the cause of many strong feelings. We have seen quite a bit of disagreement and dissatisfaction recently because of the weaknesses in the way in which Wales is reflected and portrayed in the programmes that people in Wales watch daily. A few months ago, Adam Price MP threatened to withhold payment for his licence fee, as protest against the BBC's weaknesses when it comes to serving Wales. That was a strong threat and it received a good deal of sympathy. Those strong feelings remain, and those issues are the backdrop to the introduction of this report.

I wish to concentrate on three elements of the committee's work: the portrayal of and commissioning from Wales, accountability and funding.

On the portrayal of, and commissioning from, Wales, we know that BBC Wales television spend for 2006-07 was £24.6 million, but this figure needs to be increased dramatically. We are pleased that the BBC has agreed on measurable targets for network production from Wales between now and 2016, amounting to a minimum of 5 per cent of qualifying production, with a value of at least £50 million. The pledge is admirable, but we need to ensure sufficient scrutiny and monitoring from the regulator, Ofcom, and from the Welsh Assembly Government. It is also unacceptable that ITV has failed to spend any of its out-of-London quota on Wales in 2006-07.

3.40 p.m.

Secondly, we heard evidence from a wide range of people and organisations advocating greater accountability to the Assembly and Assembly Government. The fact that senior figures, such as the director general of the BBC, Mark Thompson, the chair of the BBC Trust, Sir Michael Lyons, the chief executive of Channel 4, and the executive chairman of ITV, all came to give evidence in person to the committee is testament to their willingness to develop a strong relationship with the Assembly and with the Welsh Assembly Government.

We have, as you would imagine, a number of recommendations for the Welsh Assembly Government. In addition to developing closer links with broadcasters and regulators, we seek to secure direct representation on the UK Government's convergence group, which is currently reviewing broadcasting regulation in the UK, and want to see the commissioning and publication of an annual assessment of the portrayal of Wales on network providers. We strongly believe that the Welsh Assembly Government should develop a communications strategy to encompass the policy areas of broadcasting, creative industries, language, culture and broadband, brought together as a formal cross-cutting policy unit. It became apparent from the evidence that we received that the current communications policy is disjointed. We know from the work of the cross-party group on broadband that there is currently a

Ynghylch portreadu Cymru, a chomisiynu o Gymru, gwyddom fod gwariant BBC Cymru ar gyfer 2006-07 yn £24.6 miliwn, ond mae angen cynyddu'r ffigur hwn yn ddramatig. Yr ydym yn falch fod y BBC wedi cytuno ar dargedau mesuradwy ar gyfer cynyrciadau'r rhwydwaith o Gymru rhwng hyn a 2016, hyd at leiafswm o 5 y cant o gynyrciadau cymwys, sy'n werth o leiaf £50 miliwn. Mae'r addewid yn glodwiw, ond rhaid inni sicrhau digon o graffu a monitro gan y rheoleiddiwr Ofcom a chan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n annerbyniol hefyd fod ITV wedi methu gwario dim o'i gwota y tu allan i Lundain ar Gymru yn 2006-07.

3.40 p.m.

Yn ail, clywsom dystiolaeth gan amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau i hyrwyddo mwy o atebolrwydd i'r Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r ffaith fod ffigurau blaenllaw, megis cyfarwyddwr cyffredinol y BBC, Mark Thompson, cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC, Syr Michael Lyons, prif weithredwr Sianel 4, a chadeirydd gweithredol ITV, i gyd wedi dod i roi dystiolaeth yn bersonol i'r pwylgor yn dyst i'w parodrwydd i ddatblygu perthynas gadarn â'r Cynulliad ac â Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Fel y byddech yn ei ddychmygu, mae gennym nifer o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ychwanegol at ddatblygu cysylltiadau agosach â darllewyr a rheoleiddwyr, ceisiwn sicrhau cynrychiolaeth uniongyrchol yng ngrŵp cydgyfeirio Llywodraeth y DU, sydd ar hyn o bryd yn adolygu rheoleiddio darlledu yn y DU, ac yr ydym am weld comisiynu a chyhoeddi asesiad blynnyddol o'r modd y caiff Cymru ei darlunio gan ddarparwyr rhwydwaith. Credwn yn gryf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu strategaeth gyfathrebu i gwmpasu meysydd polisi darlledu, diwydiannau creadigol, iaith, diwylliant a band eang, yn cael eu dwyn ynghyd fel uned bolisi drawsbynciol ffurfiol. Daeth yn amlwg o'r dystiolaeth a gawsom fod y polisi cyfathrebu presennol yn ddigyswilt. Gwyddom o waith y grŵp trawsbleidiol ar fand eang fod bwlc'h

digital divide in Wales, which should not and cannot be allowed to continue. That is why developing a cross-cutting communications strategy is vital. We look forward to hearing the Welsh Assembly Government's response to that.

We strongly advocate, as has been said, the establishment of an Assembly standing committee on communications, which could meet when needed to scrutinise the work of Welsh Ministers. Such a committee would ensure that the report's recommendations and the valuable work that we undertook in highlighting Wales's current unsatisfactory position were not ignored. This report is not the end of the process; when all is said and done, we believe that this is the beginning of the process.

On funding, while there is currently no formal top-slicing of the BBC licence fee, there are instances of licence-fee money being ring-fenced for particular services, such as the Gaelic-language service and S4C, and to fund the public information campaign for the digital switchover. We believe that the £130 million of the licence fee currently spent on facilitating the digital switchover process should be used from 2012 to part-fund PSB provision across the UK. There will be a need to fund public service broadcasting beyond the BBC after 2014, and while the channel 3 franchise may still be a major provider of PSB programming in Wales, it may not be the only provider. PSB funding should be made available to other providers.

In closing, I will mention the announcement made by S4C yesterday that it is to provide English-language commentary, as Irene mentioned, on selected sporting fixtures, accessed by way of the red button. This is another step forward in enhancing the appeal and accessibility of S4C and an example of the changing nature of broadcasting in Wales.

I welcome the setting up of this committee and the report presented today. It is important that the Assembly has a voice in broadcasting, even though the majority of broadcasting issues are not devolved. We are pushing the boundaries because it affects the

digidol ar hyn o bryd yng Nghymru, ac ni ddylid ar unrhyw gyfrif ganiatáu i hynny barhau. Dyna pam y mae datblygu strategaeth gyfathrebu drawsbynciol yn hanfodol. Edrychwn ymlaen at glywed ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i hynny.

Fel y dywedweyd, yr ydym yn gryf o blaidd sefydlu pwylgor sefydlog yn y Cynulliad ar gyfathrebu, a allai gyfarfod yn ôl y galw i graffu ar waith Gweinidogion Cymru. Byddai pwylgor o'r fath yn sierhau na fyddai argymhellion yr adroddiad, a'r gwaith gwerthfawr a wnaethom wrth dynnu sylw at sefyllfa bresennol anfoddaol Cymru, yn cael eu hanwybyddu. Nid diwedd y broses yw'r adroddiad hwn; yn y pen draw credwn mai dechrau'r broses yw hyn.

O ran ariannu, er nad oes brigdorri ffurfiol ar ffi trwydded y BBC ar hyn o bryd, mae yna enghreifftiau o neilltuo arian ffi'r drwydded ar gyfer gwasanaethau penodol, megis y gwasanaeth Gaeleg ac S4C, ac i ariannu'r ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus ar gyfer y trosglwyddo i ddigidol. Credwn y dylai'r £130 miliwn o ffi'r drwydded sydd ar hyn o bryd yn cael ei wario ar hwyluso'r broses trosglwyddo i ddigidol gael ei ddefnyddio o 2012 i ariannu'n rhannol y ddarpariaeth DGC ar draws y DU. Bydd angen ariannu darlledu gwasanaeth cyhoeddus y tu hwnt i'r BBC ar ôl 2014, ac er y bydd etholfraint sianel 3 efallai yn parhau'n ddarparwr rhagleni DGC o bwys yng Nghymru, mae'n bosibl nad hi'n unig fydd yn darparu. Dylai ariannu DGC fod ar gael i ddarparwyr eraill.

Wrth gloi, crybwylaf y datganiad a wnaethwyd gan S4C ddoe y bydd yn darparu sylwebaeth Saesneg, fel y soniodd Irene, ar ddigwyddiadau chwaraeon penodol y gellir eu cael drwy ddefnyddio'r botwm coch. Mae hwn yn gam arall ymlaen wrth ehangu apêl a hygyrchedd S4C, ac yn enghraift o'r ffordd y mae darlledu'n newid yng Nghymru.

Yr wyf yn croesawu sefydlu'r pwylgor hwn a'r adroddiad a gyflwynir heddiw. Mae'n bwysig fod gan y Cynulliad lais mewn darlledu, er nad yw'r mwyafrif o faterion darlledu wedi'u datganoli. Yr ydym yn gwthio'r ffiniau, oherwydd mae hyn yn

lives of people in Wales, and there is an important role for the Assembly and the Assembly Government to play. The recommendations, if accepted, would increase Wales's voice. We look forward to seeing the responses to our recommendations.

**Eleanor Burnham:** First, I will mention briefly the issue of the reception of Welsh public service broadcasting in the eastern parts of Wales. The problems with reception are well documented, including in the report, specifically in and around Wrexham, in my region, where there have been technical glitches for many years. That is just one example. There are many historic reasons for this, which we do not have time to go into today, but I am told that they will be sorted out in the digital age. I hope so, because not only do the people of north-east Wales and other parts of east Wales want the benefits of having many channels, multiplexes and so on, they also want the basic benefit of seeing the Welsh programmes that are available in other parts of Wales.

Mae S4C yn rhan hanfodol o fywyd Cymru, ac mae'n darparu gwasanaeth materion cyfoes amrywiol o ansawdd uchel. Fodd bynnag, fy marn i yw na ddylai'r BBC fod yn gyfrifol am y ddarpariaeth newyddion; dylai rhywun arall fod yn gwneud hynny. Mae gan y BBC fonopoli llwyr ar newyddion ar y radio a'r teledu, yn Saesneg ac yn y Gymraeg.

That is my personal opinion, but I think that it is important.

It is important to retain plurality. S4C is doing well. *Sgorio* is a brilliant programme, although football is not always at the top of my list of interests.

Hoffwn gyfeirio hefyd at Radio Cymru. Mae ansawdd ei rhagleni materion cyfoes yn wych. Mae'n cyfathrebu'n dda iawn â'r cyhoedd ac yn sôn yn glir am yr hyn a wnawn yma yn y Cynulliad. Hefyd, yr ydym, fel Aelodau, yn cael y cyfle i siarad â'r cyhoedd, sy'n bwysig.

What we do in the Assembly is extremely important, and communication is the essence

effeithio ar fywydau pobl yng Nghymru, ac mae gan y Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad ran bwysig i'w chwarae. Petai'r argymhellion yn cael eu derbyn, byddent yn cynyddu llais Cymru. Edrychwn ymlaen at weld yr ymatebion i'n hargymhellion.

**Eleanor Burnham:** Yn gyntaf, crybwylaf yn fyr fater derbyniad darlledu gwasanaeth cyhoeddus Cymru yn rhannau dwyreiniol Cymru. Mae'r problemau derbyniad wedi'u cofnodi'n drylwyr, gan gynnwys yn yr adroddiad, yn enwedig yn Wrecsam a'r cylch, yn fy rhanbarth i, lle bu diffygion technegol dros flynyddoedd lawer. Un engraias yn unig yw hynny. Mae nifer o resymau hanesyddol dros hyn, nad oes gennym amser i'w gwyntyllu heddiw, ond dywedir wrthyf y bydd atebion iddynt yn yr oes ddigidol. Gobeithio hynny, oherwydd nid yn unig y mae pobl gogledd-ddwyrain Cymru a rhannau eraill o ddwyrain Cymru am gael manteision sianeli niferus, amlblethau ac yn y blaen, ond maent hefyd am gael y fantais sylfaenol o weld y rhagleni Cymreig sydd ar gael mewn rhannau eraill o Gymru.

S4C is an essential part of life in Wales, and it provides various current affairs services of a high quality. However, in my opinion the BBC should not be responsible for the news provision; someone else should be doing that. The BBC has a complete monopoly over news, both on radio and television, and in both English and Welsh.

Dyna yw fy marn bersonol i, ond credaf ei bod yn bwysig.

Mae cadw lloosogrwydd yn bwysig. Mae S4C yn gwneud yn dda. Mae *Sgorio* yn rhaglen wych, er nad pêl-droed yw fy mhrif ddiddordeb i bob amser.

I also wish to refer to Radio Cymru. The quality of its current affairs programmes is excellent. It communicates well with the public and is clear about what we do here at the Assembly. In addition, as Members, we have an opportunity to communicate with the public, which is important.

Mae'r hyn a wnawn yn y Cynulliad yn bwysig iawn, a chyfathrebu sydd wrth wraidd

of all of this. While Radio Cymru, which I listen to quite a lot, and Radio Wales are doing a good job, our recommendations in this wonderful report show that we need to pay more heed to what is happening in Wales. Other Members have mentioned, the BBC, in many respects, gives misinformation. Peter Black said that the BBC discusses what is happening in the health service, in programmes such as *Panorama*, but it confuses the general public because what is happening in Wales, which is very different, is never referred to properly or adequately. This is an extremely important aspect of democracy and devolution, because if we cannot communicate properly to our electorate what exactly is going on here in Cardiff, they will think that we are indifferent or irrelevant.

I commend this report. It is so exciting that I wish I could have been involved with the committee, although I know that its membership comprised only a small, select band of Members. The committee did extremely well and was, quite rightly, robust in its scrutiny. It is all very well to look at ITV, for instance, which has paid scant regard to Wales recently, and it is a scandal—if I am allowed to use that word, Dirprwy Lywydd—that it has been allowed to remove itself from Wales. Some wonderful programmes could have been made about Wales that could have been on the network, which is almost a magic word. Well done to the committee. I commend this report to you all.

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Rhodri Glyn Thomas):** Mae'n bleser cael ymateb i'r ddadl hon, sy'n amserol iawn o ystyried y drafodaeth frwd a fu dros yr wythnosau diwethaf am ddarlledu. Ategaf y diolchiadau i bawb a fu'n rhan o'r gwaith o baratoi'r adroddiad hwn, sy'n codi nifer o gwestiynau didorol. Dyma'r cyfle cyntaf i Lywodraeth Cynulliad Cymru ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion a wneir, a byddaf yn ymateb yn llawnach ar ran y Llywodraeth ymhen ychydig fisoedd.

Croesawaf y ffaith bod nifer o'r pwyntiau a godir yn yr adroddiad, ynghyd â nifer o'r argymhellion, yn ymwneud â'r meysydd yr

hyn oll. Er bod Radio Cymru, y gwrandoawaf arni'n eithaf aml, a Radio Wales yn gwneud gwaith da, dengys ein hargymhellion yn yr adroddiad gwyd hwn fod angen inni roi mwy o sylw i'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru. Mae Aelodau eraill wedi sôn bod y BBC, ar lawer ystyr, yn rhoi camwybodaeth. Dywedodd Peter Black fod y BBC yn trafod yr hyn sy'n digwydd yn y gwasanaeth iechyd, mewn rhagleni fel *Panorama*, ond ei fod yn drysu'r cyhoedd oherwydd na chyfeirir yn briodol nac yn ddigonol at yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru. Mae hyn yn agwedd bwysig iawn ar ddemocratiaeth a datganoli, oherwydd os na allwn gyfleo'n gywir i'n hetholwyr beth yn union sy'n digwydd yma yng Nghaerdydd, byddant yn credu ein bod hyn ddifater neu'n amherthnasol.

Cymeradwyaf yr adroddiad hwn. Mae mor gyffrous nes gwneud imi resynu nad oeddwn yn rhan o'r pwylgor, ond gwn mai nifer fach yn unig o Aelodau dethol a oedd yn rhan ohono. Gwnaeth y pwylgor waith da iawn ac yr oedd, yn gwbl briodol, yn gadarn o ran ei waith craffu. Mae'n ddigon hawdd edrych ar ITV, er enghraift, nad yw wedi rhoi fawr ddim sylw i Gymru'n ddiweddar, ac mae'n gywilyddus—os caf ddefnyddio'r gair hwnnw, Ddirprwy Lywydd—ei fod wedi ei ganiatau iadael Cymru. Byddai wedi bod yn bosibl gwneud rhagleni gwyd am Gymru a allai fod ar y rhwydwaith, sydd bron yn air hud. Llongyfarchiadau i'r pwylgor. Cymeradwyaf yr adroddiad ichi bob un.

**The Minister for Heritage (Rhodri Glyn Thomas):** It is a pleasure to reply to this debate, which is timely given the lively discussion there has been in recent weeks on broadcasting. I endorse the thanks of others to everyone who had a hand in preparing this report, which raises many interesting questions. This is the first opportunity the Welsh Assembly Government has had to respond to the report and to the recommendations made, and I will give a fuller response on behalf of the Government in a few months' time.

I welcome the fact that several of the points raised in the report, along with many of the recommendations, relate to those areas which

ydym, fel Llywodraeth, eisoes yn eu hystyried. Wrth ddarllen yr adroddiad, daw'n amlwg bod llawer o dir cyffredin rhwng holl bleidiau y Cynulliad. Mae hynny'n eithriadol o bwysig gan ein bod yn ymwneud â rhai materion sydd heb eu datganoli. Byddai'n fuddiol ac yn werthfawr pe gallem symud ymlaen gyda'n gilydd yn drawsbleidiol i ymwneud â'r materion hynny gan eu bod yn haeddu ein sylw. Mae angen inni gael strategaeth, a pholisiau sy'n ymwneud â'r materion hynny.

Cefais y cyfle i gyflwyno tystiolaeth i'r pwylgor ar 2 Mehefin ac i ail adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn 2008. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, cefais y cyfle i drafod y materion hyn gyda Michael Lyons, cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC, a chyda Mark Thompson, cyfarwyddwr cyffredinol y BBC. Bu'r trafodaethau hynny hefyd yn werthfawr ynghyd â'r drafodaeth a gefais gyda Michael Grade o ITV.

3.50 p.m.

O blith y materion a godir yn yr adroddiad mae sut y caiff Cymru ei phortreadu ar y rhwydwaith. Mae'n amlwg o'r cyfraniadau a wnaed i ddadl y prynhawn yma bod pryder cyffredinol o ran hynny. Mae cwestiynau yn codi, wrth reswm, yng nghyd-destun adroddiad yr Athro Anthony King. Cefais gyfle i gyflwyno tystiolaeth i'w arolwg ef hefyd. Mae cwestiwn arall yn codi, nid yn unig o ran sut y caiff Cymru ei phortreadu, ond hefyd i ba raddau y mae'n cael ei chynrychioli ar y rhwydwaith. O ran y BBC, mae poblogaeth Cymru yn cynrychioli rhyw 5 y cant o boblogaeth y Deyrnas Unedig ac yr ydym yn talu 5 y cant o'r cyfraniad tuag at y drwydded gyffredinol, ac felly y mae'n gwbl briodol i raglenni o Gymru gynrychioli 5 y cant o'r rhaglenni a ddarledir ar y rhwydwaith, gan gynnwys y BBC.

Cyfeiriwyd cryn dipyn at ITV Wales hefyd ac at yr angen i ddiogelu lluosogrwydd y gwasanaeth. Mae'n glir bod angen mwy nag un darlledwr ar Gymru, a byddai'n annigonol cael un darlledwr yn unig. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau'r ddarpariaeth sydd ar gael eisoes ar ITV Wales a'n bod hefyd yn ystyried y posibiliadau o ran ymestyn y ddarpariaeth honno.

we, as a Government, are already considering. In reading the report, it becomes clear that there is a good deal of common ground between all political parties in the Assembly. That is extremely important as we are dealing here with some non-devolved areas. It would be useful and valuable if we could move forward together, across the parties, to deal with these matters, since they deserve our attention. We need to have a strategy, and policies which deal with these matters.

I had the opportunity to present evidence to the committee on 2 June and to Ofcom's second review of public service broadcasting in 2008. In recent weeks, I have had the opportunity to discuss these matters with Michael Lyons, chair of the BBC Trust, and with Mark Thompson, director general of the BBC. Those discussions were extremely valuable, as was the conversation I had with Michael Grade of ITV.

One of the issues raised in the report is how Wales is portrayed on the network. It is clear from the contributions to this afternoon's debate that there is a general concern about that. Questions are also raised, naturally, in the context of Professor Anthony King's report. I was given the opportunity to submit evidence to his review also. Another question arises, which is not only to do with how Wales is portrayed but also the extent to which it is represented on the network. In relation to the BBC, the population of Wales represents some 5 per cent of the UK's population, and we pay 5 per cent of the contribution towards the general licence, and therefore it is entirely appropriate that programmes from Wales should make up 5 per cent of the programmes broadcast on the network, including the BBC.

There is also considerable reference to ITV Wales, as is the need to safeguard the plurality of the service. It is clear that Wales needs more than one broadcaster, and it would be insufficient to have only one. It is vital that we maintain the provision which is already available on ITV Wales and that we also consider the possibilities for extending that provision.

Cyfeiriwyd at S4C ac at bwysigrwydd y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig ar y sianel honno hefyd. Mae'r gwasanaeth newydd i blant yn hynod o gyffrous, ac mae mwy nag un Aelod wedi cyfeirio at y ffaith bod S4C bellach yn cynnig sylwebaeth Saesneg ar ei darllediadau chwaraeon. Mae hynny, unwaith eto, yn ymestyn y ddarpariaeth. Y peth pwysig yw ein bod yn ceisio diogelu'r ddarpariaeth a geir ar S4C pan ddaw'r newid i wasanaeth digidol.

**Peter Black:** You referred to S4C's new children's channel and to the English-language commentary option for sports programmes. Do you think that one issue, as highlighted in the report, is that we cannot scrutinise S4C or other broadcasters on those sorts of developments because there is no standing committee on broadcasting? Do you agree that that might be a step forward for the Assembly?

**Rhodri Glyn Thomas:** I am certainly prepared to give that some consideration, and I will come back on that point when I respond in full on behalf of the Government of Wales in September.

Ceir cyfeiriadau at radio yn yr adroddiad a gwnaed cyfeiriadau at y gwasanaeth radio y prynhawn yma, er nad oedd yn rhan o gylch gorchwyl y pwylgor, hyd y cofiaf. Er hynny, mae'n amlwg bod Llywodraeth y Cynulliad yn gosod cryn bwysigrwydd ar gefnogi radio cymunedol. Yn wir, yr ydym ar flaen y gad yn y maes hwn, o'n cymharu â'r Alban a Gogledd Iwerddon, oherwydd y gronfa radio cymunedol a sefydlwyd gennym.

O ran band eang, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ddatblygu'r seilwaith cyfathrebu, ac yr ydym yn edrych ar sut y gallwn sicrhau bod pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig sydd â phoblogaeth is yn cael yr un gwasanaeth â hwnnw sydd ar gael i bobl mewn ardaloedd mwy poblog, trefol a dinesig. Cynhelir ymarfer caffaer yn fuan i ddod o hyd i ddarparwr telathrebu neu gonsortiwm i fynd i'r afael â'r mannau gwan ledled Cymru. Mae system ar gael fel bod pobl sy'n byw mewn mannau gwan ac sy'n methu â derbyn band eang yn gallu cofrestru hynny. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru

Reference was made to S4C, and to the importance of the service offered on that channel also. Its new service for children is very exciting, and more than one Member has referred to the fact that S4C now offers English-language commentary on its sports broadcasts. That, once again, is an extension of the provision. The important thing is that we try to safeguard the provision currently on S4C when it comes to the digital switchover.

**Peter Black:** Cyfeiriech at sianel newydd S4C i blant ac at y dewisiadau i gael sylwebaeth yn Saesneg ar raglenni chwaraeon. A ydych o'r farn mai un broblem, fel y dywedir yn yr adroddiad, yw na allwn graffu ar S4C na darlledwyr eraill o ran y mathau hynny o ddatblygiadau gan nad oes pwylgor sefydlog ar ddarlledu? A gytunwch y gallai hynny fod yn gam ymlaen i'r Cynulliad?

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr wyf yn sicr yn barod i ystyried hynny, a dof yn ôl ar y pwynt hwnnw wrth ymateb yn llawn ar ran Llywodraeth Cymru ym mis Medi.

The report makes reference to radio, and many Members also referred to radio services this afternoon, although that was not within the committee's terms of reference, as I recall. However, it is clear that the Assembly Government places great store on supporting community radio. We are ahead of the game in this area, compared with Scotland and Northern Ireland, because of the community radio fund which we set up.

On broadband, the Government is committed to developing the communications infrastructure, and we are looking at how we can ensure that people living in rural areas with a smaller population get the same service as that available to people living in more densely populated areas, such as towns and cities. A procurement exercise will be undertaken soon to find a telecommunications provider or consortium to get to grips with the not spots across Wales. There is a system whereby those people who live in not spots and are unable to access broadband can register that fact. The

yn gweithio gyda BT i fwrw ymlaen â chynnig darpariaeth yn y mannau gwan hynny. Yr ydym hefyd yn parhau gyda'r prosiect FibreSpeed a fydd yn creu cysylltiad cyflym ar fand eang i leoliadau busnes sydd wedi'u targedu. Mae'n bwysig bod y ddarpariaeth honno ar gael i ddinasyddion Cymru, neu ni fyddant yn gallu manteisio'n llawn ar yr hyn sydd gan ddarllledwyr i'w gynnig yng Nghymru.

Mae'r argymhelliad sy'n ymwneud ag atebolrwydd yn ddiddorol, ac yr wyf yn awyddus i'w ystyried. Byddaf yn dychwelyd â sylwadau llawn am hynny ym mis Medi.

**Andrew R.T. Davies:** You talk about accountability and community radio in your address today. Sadly, we have lost Radio Cardiff because of a lack of funding from the Welsh Assembly Government and Cardiff council. Therefore, the core of community radio and accountability here has been lost through the delay of your Government. How do you reconcile that with your statement of support?

**Rhodri Glyn Thomas:** Several community radio ventures are under way throughout Wales currently, although some are facing difficulties. It is impossible for the Assembly Government to support each and every one, but I would be happy to discuss that matter with you. If you write to me on that, I will respond in full. The fact is that we are giving greater support to community radio in Wales compared with our counterpart Governments in Scotland and Northern Ireland.

Accountability is clearly important and I look forward to considering the report and to responding to it in detail in September.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** Order. Your time is up.

**Rhodri Glyn Thomas:** I thought that I would be entitled to a little more time, as I have allowed a few interventions.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** You permitted two interventions, and I have already allowed time for them.

**Rhodri Glyn Thomas:** That is very kind of

Welsh Assembly Government is working with BT to proceed with offering this provision in those not spots. We are also continuing the FibreSpeed project, which will create a fast broadband link to targeted business locations. It is important that such provision is available to the citizens of Wales, or they will be unable to take full advantage of what is on offer in Wales from broadcasters.

The recommendation relating to accountability is interesting, and I am keen to give it some consideration. I will return with my full comments on that in September.

**Andrew R.T. Davies:** Soniwrch am atebolrwydd a radio cymunedol yn eich arraith heddiw. Yn anffodus, yr ydym wedi colli Radio Caerdydd oherwydd diffyg cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chan gyngor Caerdydd. Felly, collwyd craidd radio cymunedol ac atebolrwydd yma oherwydd oedi gan eich Llywodraeth chi. Sut y gallwrch gysoni hynny â'ch datganiad o gefnogaeth?

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae nifer o fentrau radio cymunedol ar y gweill ledled Cymru ar hyn o bryd, ond mae rhai'n wynebu anawsterau. Mae'n amhosibl i Lywodraeth y Cynulliad gefnogi pob un, ond byddwn yn fodlon trafod y mater hwnnw gyda chi. Os ysgrifennwch ataf ynglŷn â hynny, cewch ymateb llawn. Y gwir yw ein bod yn rhoi mwy o gymorth i radio cymunedol yng Nghymru o'i gymharu â'n Llywodraethau cyfatebol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae atebolrwydd yn amlwg yn bwysig, ac edrychaf ymlaen at ystyried yr adroddiad ac ymateb yn fanwl iddo ym mis Medi.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Trefn. Mae eich amser ar ben.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr oeddwn wedi meddwl y cawn ychydig mwy o amser, gan fy mod wedi caniatâu ambell ymyriad.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Caniatawyd dau ymyriad gennych, ac yr wyf eisoes wedi caniatâu amser ar eu cyfer.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr ydych yn garedig

you. [Laughter.] In closing, therefore—

**The Temporary Deputy Presiding Officer:**  
As long as you are closing.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yes. In closing, I welcome this report very much. I congratulate the committee members who carried out their work in such a short period. I look forward to studying the report over the summer and to coming back to the Assembly in the autumn with a full response on behalf of the Welsh Assembly Government.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:**  
I call on the Chair of the Broadcasting Committee to reply to the debate in the two minutes that are left.

**Alun Davies:** I thank the Members who have taken part in the debate for their kind words and contributions. As I conclude this debate, I hope that we all see this not as the end of a process but as the beginning of one.

I particularly welcome the remarks made by Members across the Chamber on the issues of accountability. I note that most, if not all, party whips and business managers are present this afternoon, and the Leader of the House has been in the Chamber for the whole debate. I hope that a message of unity has been communicated to people, and that we will see action on these issues upon our return in September.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 3.57 p.m.  
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 3.57 p.m.*

I want to make two points in replying to the debate. There is a crisis in the portrayal of Wales by our UK broadcasters and in network commissioning in Wales, which has not happened by accident. We received some excellent evidence throughout this process. We listened to Mark Thompson lamenting the coverage of our elections in 2007 and the aftermath of them. We heard Michael Grade describing himself almost as a victim of some sort of cultural tyranny. Both of those people are in charge of their product. I have never come across a chief executive or a chair of any business or company anywhere who is not in control of the product. They must take

iawn. [Chwerthin.] I gloi, felly—

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Ar yr amod eich bod yn cloi.

**Rhodri Glyn Thomas:** Ydw. I gloi, croesawaf yr adroddiad hwn yn fawr. Llongyfarchaf aelodau'r pwylgor a gyflawnodd eu gwaith mewn cyfnod mor fyr. Edrychaf ymlaen at astudio'r adroddiad dros yr haf ac at ddychwelyd i'r Cynulliad yn yr hydref gydag ymateb llawn ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Darlledu i ymateb i'r ddadl yn y ddau funud sy'n weddill.

**Alun Davies:** Diolch i'r Aelodau sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl am eu geiriau caredig a'u cyfraniadau. Wrth imi gloi'r ddadl hon, gobeithio y byddwn i gyd yn gweld hyn fel dechrau proses yn hytrach na diwedd proses.

Croesawaf yn arbennig y sylwadau a wnaethwyd gan Aelodau ar draws y Siambwr ar atebolrwydd. Sylwaf fod y rhan fwyaf o chwipiadau a rheolwyr busnes y pleidiau, os nad pob un, yn bresennol y prynhawn yma, ac mae Arweinydd y Tŷ wedi bod yn y Siambwr drwy gydol y ddadl. Gobeithio bod neges o undod wedi ei chyfleu i bobl, ac y gwelwn gamau'n cael eu cymryd ar y materion hyn pan ddychwelwn ym mis Medi.

Hoffwn wneud dau bwynt wrth ymateb i'r ddadl. Mae'n argyfwng o ran y ffordd y caiff Cymru ei phortreadu gan ein darlleddyf yn y DU ac wrth gomisiynu ar gyfer y rhwydweithiau yng Nghymru, oherwydd nid ar ddamwain y mae wedi digwydd. Cawsom dystiolaeth ragorol drwy gydol y broses hon. Gwrandawsom ar Mark Thompson yn gresynu ynghylch y sylw a roddwyd i'n hetholiadau yn 2007 a'r hyn a'u dilynodd. Clywsom Michael Grade yn disgrifio'i hun bron fel rhywun yn dioddef rhyw fath o ormes diwylliannol. Mae'r ddau unigolyn hynny'n gyfrifol am eu cynnrych. Nid wyf erioed wedi cyfarfod â phrif weithredwr neu

responsibility for the lack of coverage of and the lack of place for Wales.

gadeirydd busnes neu gwmni nad yw'n rheoli'r cynnrych. Rhaid iddynt gymryd cyfrifoldeb dros y diffyg sylw a'r diffyg lle i Gymru.

**Alun Ffred Jones:** Yn ddiweddar, clywyd yr alwad am gael mwy o raglenni'r rhwydwaith i adlewyrchu bywyd yng Nghymru, ac, yn wir, gwelwyd mwy o straeon o Gymru yn ddiweddar. Fodd bynnag, a ydych yn meddwl bod y math o stori a fu ar y newyddion—yr oedd un am ddafad sy'n byw mewn tŷ yng Nghaerdydd—yn codi proffil Cymru ac yn gwella'i delwedd dramor?

**Alun Davies:** Thank you for that. [*Laughter.*] There is a serious point in there somewhere. All too often, the stories that we see from Wales on the UK network are quirky or 'And finally' stories. It is time that this country was taken seriously by UK broadcasters. I hope that this report will make a contribution to a further debate and will lead to change. Thank you for your time.

**Alun Ffred Jones:** There has recently been a call for more network programmes to reflect life in Wales, and, indeed, there have been more stories from Wales recently. However, do you believe the type of stories which have appeared in the news—there was one about a sheep living in a house in Cardiff—raises Wales's profile and improves its image outside Wales?

**Alun Davies:** Diolch ichi am hynny. [Chwerthin.] Mae yna bwynt difrifol yn hynny rywle. Yn rhy aml mae'r storïau a welwn o Gymru ar rwydwaith y DU yn rhai rhyfedd neu'n storïau ddigrif ar ddiwedd rhaglenni newyddion. Mae'n hen bryd i ddarllewyr y DU gymryd y wlad hon o ddifrif. Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn cyfrannu at ddadl arall ac yn arwain at newid. Diolch ichi am eich amser.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to note the Broadcasting Committee's report. Does any Member object? I see that there are no objections; therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig sydd gerbron yw ein bod yn nodi adroddiad y Pwyllgor Darlledu. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes; felly, derbynwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

*Derbynwyd y cynnig.  
Motion carried.*

4.00 p.m.

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

### Ffermio yng Nghymru Welsh Farming

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Kirsty Williams.

I call Brynle Williams. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Hear, hear.']}

**Brynle Williams:** Thank you, Deputy Presiding Officer and fans alike.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Kirsty Williams.

Galwaf ar Brynle Williams. [AELODAU CYNULLIAD: 'Clywch, clywch.']}

**Brynle Williams:** Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd a chefnogwyr fel eich gilydd.

I propose that

*the National Assembly for Wales:*

1. commends the excellent work of Welsh farmers in producing food to the highest standards of quality and welfare;
2. regrets that recent changes to Meat Hygiene Service charging will adversely affect smaller Welsh abattoirs and will undermine efforts to develop locally branded produce;
3. further regrets the Welsh Assembly Government's failure to protect Welsh sheep farmers from the introduction of electronic ID;
4. acknowledges that despite the growing international demand for food, the Welsh Assembly Government's policies, red tape and regulations are reducing farm productivity;
5. calls on the Welsh Assembly Government to achieve a genuinely sustainable balance between environmental improvement schemes and food production in its policies; and
6. deplores the lack of financial support for the Royal Welsh Show given the large tourist revenue it generates for Wales. (NDM3993)

The Welsh Conservatives will support the Liberal Democrats' amendment. I declare an interest as a practising farmer and as a member of the Royal Welsh Show's agricultural committee. [Interruption.] May I continue, Deputy Presiding Officer?

**The Deputy Presiding Officer:** Yes, you may. I ask Members to refrain from interrupting.

**Bryngle Williams:** With the Royal Welsh Show opening in less than a week, the Welsh Conservatives believe that it is right for the Assembly to pay tribute to the work of the farmers who produce food, improve habitat through agri-environmental schemes and keep the Welsh landscape in the condition that attracts millions of visitors to the

Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

1. yn canmol gwaith ardderchog ffermwyr Cymru yn cynhyrchu bwyd i'r safonau uchaf o ran ansawdd a lles;
2. yn gresynu at y ffaith y bydd newidiadau diweddar i ffioedd y Gwasanaeth Hylendid Cig yn effeithio'n andwyol ar ladd-dai llai Cymru ac yn tanseilio ymdrechion i ddatblygu cynyrrch â brand lleol;
3. yn gresynu ymhellach at fethiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i amddiffyn ffermwyr defaid Cymru rhag cyflwyno ID electronig;
4. yn cydnabod er gwaethaf y twf yn y galw rhyngwladol am fwyd, bod polisiau, biwrocratiaeth a rheoliadau Llywodraeth Cynulliad Cymru'n lleihau cynhyrchiant ffermydd;
5. yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni cydbwyssedd sy'n wirioneddol gynaliadwy rhwng gynlluniau i wella'r amgylchedd a chynhyrchu bwyd yn ei pholisiau; a
6. yn gofidd wrth y diffyg cymorth ariannol ar gyfer y Sioe Frenhinol ac ystyried y refeniw twristiaeth mawr y mae'n ei gynhyrchu i Gymru. (NDM3993)

Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi gwelliant y Democraidaid Rhyddfrydol. Datganaf fuddiant fel ffermwyr wrth fy ngwaith ac fel aelod o bwyllogor amaethyddol Sioe Frenhinol Cymru. [Torri ar draws.] A gaf fi barhau, Ddirprwy Lywydd?

**Y Dirprwy Lywydd:** Cewch. Gofynnaf i'r Aelodau ymatal rhag torri ar draws.

**Bryngle Williams:** Gyda Sioe Frenhinol Cymru yn agor ymhen llai nag wythnos, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu ei bod yn iawn i'r Cynulliad roi teyrnged i waith y ffermwyr sy'n cynhyrchu bwyd, yn gwella cynefinoedd drwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol ac yn cadw tirwedd Cymru yn y cyflwr sy'n denu miliynau o ymwelwyr i'r

principality each year.

This work is often for little financial reward and in the face of severe adversity, ranging from having to farm in extensive areas of marginal, less-favoured land to coping with disease outbreaks like bluetongue and foot and mouth disease, the never-ending flow of red tape and bureaucracy and, recently, cuts to Tir Mynydd. Many in the industry have counted the Labour-led Assembly Government among their hardships. However, despite all of that, Welsh farmers are able to produce food of the highest quality and with regard to the highest standard of animal welfare. However, that is rarely rewarded at the point of sale, where Welsh lamb and beef compete with produce from South America and New Zealand, as if there were no real difference between them, when that meat has been reared and processed in a way that would be illegal in Wales. Wales has around 35 small abattoirs, without which there would be no hope of producing the local, niche market food that consumers increasingly want, and the Minister's recent farming strategy rightly highlighted that fact.

It is worth welcoming the recent compromise position on cold inspections for small processors. That will be a big relief to many in the industry who are expecting their operating costs to multiply eightfold. It goes without saying that the No. 1 priority is consumer safety—that is unquestionable—but these changes indicate how unnecessary it was for smaller abattoirs to adopt full-time monitoring in the first place. In the last six years, the UK Government has spent some £35 million on subsidising full-time inspections, which it now admits were unnecessary. That is another example of the Labour Government creating a problem and then having to fix it, and it is another massive waste of taxpayers' money. These small abattoirs must have a secure future because without them, the local food sector would be totally undermined.

It is not only the processors who have

wlad bob blwyddyn.

Prin yw'r wobr ariannol yn aml am y gwaith hwn ac fe'i gwneir yn wyneb anawsterau difrifol, yn amrywio o orfod ffermio mewn ardaloedd helaeth o dir ymylol, llai ffafriol i ymdopi ag achosion o glefydau megis y tafod glas a chlwy'r traed a'r genau, y llif diddiwedd o dâp coch a biwrocratiaeth ac, yn ddiweddar, y toriadau i Tir Mynydd. Mae llawer yn y diwydiant wedi ystyried bod Llywodraeth y Cynulliad dan arweiniad Llafur ymysg y pethau sy'n achosi caledi iddynt. Fodd bynnag, er gwaethaf hynny, gall ffermwyr Cymru gynhyrchu bwyd o'r safon uchaf, gan roi sylw i'r safonau uchaf o ran lles anifeiliaid. Fodd bynnag, anaml y caiff hynny ei wobrwyd yn y man gwerthu, lle mae cig oen a chig eidion o Gymru yn cystadlu yn erbyn cynnrych o Dde America a Seland Newydd, fel pe na bai gwahaniaeth gwirioneddol rhyngddynt, er bod y cig hwnnw wedi ei fagu a'i brosesu mewn ffordd a fyddai'n anghyfreithlon yng Nghymru. Mae gan Gymru tua 35 o ladd-dai bach, a hebddynt ni fyddai gobaith o gwbl i gynhyrchu'r bwyd lleol, arbenigol y mae defnyddwyr yn gynyddol am ei gael, a thynnwyd sylw'n briodol ar hynny yn strategaeth ffermio'r Gweinidog yn ddiweddar.

Mae'n werth croesawu'r cyfaddawd yn ddiweddar ar archwiliadau oer i broseswyr bach. Bydd hynny'n rhyddhad i lawer yn y diwydiant a oedd yn disgwyl i'w costau gweithredu godi wyth gwaith. Afraid yw dweud mai diogelwch y defnyddiwr yw'r flaenoriaeth bennaf—mae hynny'n ddiamheul—ond mae'r newidiadau hyn yn dangos mor ddianghenraig ydoedd i ladd-dai bach fabwysiadu monitro amser llawn yn y lle cyntaf. Dros y chwe blynedd diwethaf, mae Llywodraeth y DU wedi gwario rhyw £35 miliwn ar gymorthdaliadau ar gyfer archwiliadau amser llawn, ac erbyn hyn mae'n cyfaddef eu bod yn ddianghenraig. Mae honno'n enghraifft arall o greu problem gan y Llywodraeth Lafur ac yna orfod ei datrys, ac mae'n wastraff enfawr arall o arian trethdalwyr. Rhaid i'r lladd-dai bach hyn gael dyfodol sicr, oherwydd hebddynt byddai'r sector bwyd lleol yn cael ei danseilio'n llwyr.

Nid y proseswyr yn unig sydd wedi dioddef

suffered because of the never-ending stream of legislation and regulations from Europe. This issue was highlighted in January in our debate on red tape, which prompted the Minister to announce a review. Welsh farmers have been suffocated by bureaucracy and form-filling. So much of Wales's law and policy is decided not in the Assembly or in Westminster, but in Brussels, and it is regrettable that the Labour Government, in a Labour-led Assembly, has done little other than to gold-plate the reams of regulations generated there.

Instead of being proactive and negotiating the best deal at the earliest stage of legislation, more often than not, Wales has had the regulations in full and farmers have been left to make the best that they can out of the Government's incompetence. That is why we have a ban on burying fallen stock; there has never been an incidence of water pollution anywhere in Wales. That is also why productivity is being undermined through the nitrates directive; the nitrate level in Wales is falling and is still well below what is outlined in European legislation. Worst of all, farmers of my age who have been transporting animals and have towed trailers all their lives now have to take a test to see whether they are competent enough to drive a Land Rover and trailer.

That is also why the proposal to implement electronic identification for sheep is going ahead, despite the fact that it will bring no practical benefit; there is already full traceability in the current system. The cost of setting it up, not to mention the annual maintenance, would wipe out 40 per cent of sheep farmers' income. After all the hardship of foot and mouth disease, this could be the last straw for many sheep farmers, and the national flock is already declining year on year.

If the best that this coalition Government can do with its Labour partners in London is to delay the start date by a couple of months, it a sad reflection of how little Labour cares for the countryside. It is a feeble effort. As we pointed out in our recent debate on food security, the more problems Labour causes for Welsh agriculture, the worse it reflects on our Plaid Minister.

oherwydd y llif diddiwedd o ddeddfwriaeth a rheoliadau o Ewrop. Tynnwyd sylw at y mater hwn ym mis Ionawr yn ein dadl ar dâp coch, a ysgogodd y Gweinidog i gyhoeddi adolygiad. Mae ffermwyr Cymru wedi eu mygu gan fiwrocratiaeth a llenwi ffurflenni. Mae cymaint o gyfraith a pholisi Cymru nad ydynt yn cael eu penderfynu yn y Cynulliad nac yn San Steffan, ond ym Mrwsel, ac mae'n drueni nad yw'r Llywodraeth Lafur, mewn Cynulliad dan arweiniad Llafur, wedi gwneud fawr ddim ond rhoi sêl bendith ar y toreh o reoliadau a gynhyrhir yno.

Yn lle bod yn rhagweithiol a thrafod y fargen orau ar ddechrau deddfwriaeth, yn amlach na pheidio mae Cymru wedi cael y rheoliadau'n llawn a ffermwyr wedi eu gadael i wneud y gorau a allant o aflerwch y Llywodraeth. Dyna pam mae gennym waharddiad ar gladdu stoc trig; ni fu achos o lygredd dŵr erioed yn unman yng Nghymru. Dyna hefyd pam mae cynhyrchiant yn cael ei danseilio drwy'r gyfarwyddeb nitradau; mae'r lefel nitradau yng Nghymru yn gostwng ac yn dal grym dipyn yn is nag a amlinellir yn neddfwriaeth Ewrop. Yn waeth na dim, mae ffermwyr o'r un oed â mi sydd wedi bod yn cludo anifeiliaid a thynnu ôl-gerbydau drwy eu hoes erbyn hyn yn gorfod sefyll prawf i weld a ydynt yn ddigon medrus i yrru Land Rover ac ôl-gerbyd.

Dyna pam hefyd y mae'r cynnig i gyflwyno ID electronig ar gyfer defaid yn mynd rhagddo, er na fydd iddo ddim budd ymarferol; mae'r system bresennol eisoes yn cynnwys gallu llawn i olrhain. Byddai'r gost o'i sefydlu, heb sôn am y gynhaliaeth flynyddol, yn dileu 40 y cant o incwm ffermwyr defaid. Ar ôl holl galedi clwy'r traed a'r genau, gallai fod yn ddiwedd ar lawer o ffermwyr defaid, ac mae'r ddiadell genedlaethol eisoes yn mynd yn llai o flwyddyn i flwyddyn.

Os y gorau y gall y Llywodraeth glymbiaid hon ei wneud gyda'i phartneriaid Llafur yn Llundain yw gohirio'r dyddiad cychwyn o rai misoedd, mae'nadlewyrchiad trist cyn lleied y mae Llafur yn poeni am gefn gwlad. Mae'n ymdrech wan. Fel y nodwyd yn ein dadl yn ddiweddar ar ddiogelwch bwyd, po fwyaf o broblemau y mae Llafur yn eu hachosi i amaethyddiaeth yng Nghymru, gwaethaf

yw'r adlewyrchu ar ein Gweinidog o'r Blaid.

The Assembly Government needs to have a frank and honest look at whether, in this new era of rising global demand for food, it has the right balance between the two public goods of food production and protecting the environment. No-one here would want to see any backtracking on the environmental schemes initiated over the last few years, but the Minister must recognise the rapidly changing global market as well as Wales' moral obligation to produce as much food as possible and minimise the amount of food taken away in imports from developing countries. The Minister has yet to reflect that fully in her policies.

**Alun Davies:** Brynle, I understand some of the points that you are making, but, at the end of the day, the name of the game is cash. Do you not welcome the fact that the Assembly Government has increased the agriculture budget by 9 per cent in the current year?

**Bryngle Williams:** I certainly welcome the increase; in a cash-strapped industry, any help is welcome.

The Minister's farming strategy hints at my earlier point, but I do not believe that it goes nearly far enough.

My final point relates to the lack of support that the Labour Assembly Governments have shown for the Royal Welsh Show over the last 10 years. The show is a defining event in the rural calendar and generates some £40 million for the economy of mid Wales, which is recycled within the local community. It also attracts some 5,000 overseas visitors every year and establishes trade links not just for Welsh agriculture, but for many other aspects of Wales's production.

I am aware that the Minister is currently in negotiations with the board, but when millions have been showered on the botanic gardens and the Wales Millennium Centre, it

Mae angen i Lywodraeth y Cynulliad edrych yn agored a gonest i weld a yw'r cydbwysedd iawn ganddi, yn yr oes newydd hon o alw cynyddol am fwyd ar draws y byd, rhwng y ddwy rinwedd gyhoeddus o gynhyrchu bwyd a diogelu'r amgylchedd. Ni fyddai neb yma am weld ailfeddwl am y cynlluniau amgylcheddol a sefydlwyd dros y blynnyddoedd diwethaf, ond rhaid i'r Gweinidog gydnabod y newid cyflym yn y farchnad fyd-eang yn ogystal â rhwymedigaeth foesol Cymru i gynhyrchu cymaint o fwyd â phosibl a lleihau faint o fwyd sy'n cael ei gymryd fel mewnforion oddi ar wledydd sy'n datblygu. Nid yw'r Gweinidog eto wedi adlewyrchu hyn yn llawn yn ei pholisiau.

**Alun Davies:** Brynle, yr wyf yn deall rhai o'r pwyntiau yr ydych yn eu gwneud, ond yn y pen draw arian sydd wrth wraidd hyn oll. Onid ydych yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth y Cynulliad wedi cynyddu'r gyllideb i amaethyddiaeth 9 y cant yn y flwyddyn gyfredol?

**Bryngle Williams:** Yr wyf yn sicr yn croesawu'r cynnydd; mewn diwydiant lle mae arian yn brin, mae unrhyw gymorth i'w groesawu.

Mae rhyw awgrym yn strategaeth ffermio'r Gweinidog sy'n adleisio fy mhwyt cynharach, ond ni chredaf ei bod yn mynd agos yn ddigon pell.

Mae a wnelo fy mhwyt olaf â diffyg cefnogaeth Llywodraethau Llafur y Cynulliad i Sioe Frenhinol Cymru dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae'r sioe yn ganolbwyt yn y calendr gwledig ac yn cynhyrchu rhyw £40 miliwn i economi canolbarth Cymru, sy'n cael ei ailgylchu yn y gymuned leol. Mae hefyd yn denu tua 5,000 o ymwelwyr tramor bob blwyddyn ac yn creu cysylltiadau masnach nid ag amaethyddiaeth Cymru'n unig, ond â llawer agwedd arall ar gynhyrchiant Cymru.

Yr wyf yn ymwybodol fod y Gweinidog yn cael trafodaethau gyda'r bwrdd ar hyn o bryd, ond gyda miliynau wedi eu taflu at yr ardd fotaneg a Chanolfan Mileniwm Cymru,

seems unusual to say the least that the Royal Welsh Show receives just some £20,000 in direct sponsorship. One way in which this Government could give practical help would be to announce a commencement date for the Builth Wells bypass. That would benefit the residents of Builth Wells, and it would also have major benefits for the show. I am well aware, Minister, that that is not within your brief.

I appreciate that the Royal Welsh Show may be a victim of its own success. The charity has never had to go cap in hand for assistance. However, after making a loss last year of over £300,000 due to bad weather, the show needs to know that its contribution to rural Wales is fully recognised and appreciated by the Welsh Assembly Government.

**Kirsty Williams:** I propose amendment 1 in my name. Add a new point at the end of the motion:

*calls on the Welsh Assembly Government to encourage more co-operation among Welsh farmers, to maximise returns from their produce and products and break the domination of major supermarkets over the food retail sector in Wales.*

I welcome the opportunity to focus once again on the contribution that agriculture makes to the economic and cultural life of Wales. We commend the high quality of food produced by our farmers, utilising the very latest techniques and conforming to the best husbandry and welfare standards. We believe that it is by harnessing that quality and skill, and those high-quality products, that we can secure a bright future for the industry; one in which young people will see an opportunity to make a living in the future—hence our amendment tabled today calling for the Welsh Assembly Government to take every possible opportunity to promote co-operation between farmers to help them gain strength as an important counter-weight to the power of the supermarkets. Local infrastructure is important in achieving that, and we therefore welcome the motion's point on the Meat Hygiene Service and the potential effect on the survival of small, local abattoirs. Having

mae'n ymddangos yn anarferol a dweud y lleiaf fod Sioe Frenhinol Cymru yn cael dim ond tuag £20,000 o nawdd uniongyrchol. Un ffordd y gallai'r Llywodraeth hon roi help ymarferol fyddai drwy gyhoeddi dyddiad cychwyn i ffordd osgoi Llanfair-ym-Muallt, a byddai hynny'n dod â manteision mawr i'r sioe hefyd. Yr wyf yn holol ymwybodol, Weinidog, nad yw hynny'n rhan o'ch briff chi.

Sylweddolaf fod Sioe Frenhinol Cymru efallai yn dioddef oherwydd ei llwyddiant ei hun. Nid yw'r elusen erioed wedi gorfol mynd â'i chap yn ei llaw i ofyn am gymorth. Fodd bynnag, ar ôl colled y llynedd o fwy na £300,000 oherwydd tywydd gwael, mae angen i'r sioe wybod bod ei chyfraniad i gefn gwlad Cymru yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi'n llawn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Kirsty Williams:** Cynigiaf welliant 1 yn fy enw i. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiweddu y cynnig.

*yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i annog rhagor o gydwethrediad ymysg ffermwyr Cymru, i gael cymaint o enillion â phosibl am eu cynhyrch a thorri tra-arglyddiaeth archfarchnadoedd mawr ar y sector adwerthu bwyd yng Nghymru.*

Croesawaf y cyfle i ganolbwytio unwaith yn rhagor ar gyfraniad amaethyddiaeth i fywyd economaidd a diwylliannol Cymru. Cymeradwywn safon uchel y bwyd a gynhyrchir gan ein ffermwyr, gan ddefnyddio'r technegau diweddaraf a chydymffurfio â'r safonau gorau o ran hwsmonaeth a lles. Credwn mai drwy harneisio'r safon a'r medrusrwydd hwnnw, a'r cynhyrchion safon uchel hynny, y gallwn sicrhau dyfodol disgrair i'r diwydiant; un lle bydd pobl ifanc yn gweld cyfle i ennill bywoliaeth yn y dyfodol—a dyna pam yr ydym wedi cyflwyno ein gwelliant heddiw yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i achub ar bob cyfle posibl i hyrwyddo cydwethredu rhwng ffermwyr i'w helpu i fagu nerth fel gwrthbwys pwysig i rym yr archfarchnadoedd. Mae seilwaith lleol yn bwysig i gyflawni hynny, ac yr ydym felly yn croesawu pwynt y cynnig ynglŷn â'r Gwasanaeth Hyllendid Cig a'r effaith posibl

the means to produce must be complemented by having outlets for that produce. I am concerned about the steps that the Welsh Assembly Government is taking to support producers who want to market and sell their products directly.

4.10 p.m.

I am aware that the Welsh Assembly Government supports a number of food fairs across Wales; indeed, it is supporting the food hall at next week's Royal Welsh Show. However, I have become aware of growing concerns about the access that some of our smallest producers have to those facilities. Last year, space could not be found for a number of Welsh producers at the Abergavenny food festival, and yet English producers had stalls there. It seems contradictory that the Welsh Assembly Government should spend its resources on outlets for English producers to sell their produce at the expense of Welsh producers. For example, Ralph's Cider and Perry, which produces organic cider in my constituency and has previously sold out at the Abergavenny food festival, found that there was no room for it last year.

I understand that there are some small producers who would have dearly liked to have been in the food hall at the Royal Welsh Show next week, but they will not be there, while larger companies, which could afford to have a trade stand elsewhere at the show, will have the support of the Assembly-sponsored food hall.

There are ongoing issues with red tape, the latest being the fiasco over the organic scheme. I acknowledge that the Minister is moving to sort this mess out, and to ensure that all farmers who thought that they would have an opportunity to move into the scheme will now be able to do so. However, this issue shows just how complicated some of these forms can be, and how easy it can be to fall through the net. Many people did not realise last autumn that they were required to tick a particular box on a form expressing interest, and that that would be the only opportunity to enter the scheme. Instead, many thought that ticking a box on their

ar barhad lladd-dai bach lleol. Law yn llaw â'r gallu i gynhyrchu, rhaid cael unedau ar gyfer y cynnrych hwnnw. Yr wyf yn pryderu am y camau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i gefnogi cynhyrchwyr sydd am farchnata a gwerthu eu cynnrych yn uniongyrchol.

Gwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi nifer o ffeiriau bwyd ar draws Cymru; yn wir, bydd yn cefnogi'r neuadd fwyd yn Sioe Frenhinol Cymru yr wythnos nesaf. Fodd bynnag, deuthum yn ymwybodol o bryderon cynyddol am y ffordd y mae rhai o'n cynhyrchwyr lleiaf yn gallu cael y cyfleusterau hynny. Y llynedd nid oedd lle i'w gael i nifer o gynhyrchwyr o Gymru yng ngŵyl fwyd y Fenni, ond yr oedd gan gynhyrchwyr o Loegr stondinau yno. Mae'n ymddangos yn anghyson fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwario'i hadnoddau ar gyfleusterau i gynhyrchwyr o Loegr i werthu eu cynnrych ar draul cynhyrchwyr o Gymru. Er enghraifft, gwelodd Ralph's Cider and Perry, sy'n cynhyrchu seidr organig yn fy etholaeth i ac sydd wedi gwerthu ei gynnrych yn llwyr yn y gorffennol yng ngŵyl fwyd y Fenni, nad oedd lle iddo y llynedd.

Deallaf fod yna rai cynhyrchwyr bach a fyddai wedi hoffi'n fawr iawn bod yn y neuadd fwyd yn Sioe Frenhinol Cymru yr wythnos nesaf. Ond ni fyddant yno, tra bydd cwmnïau mwy, a allai fforddio cael stondin masnachol rywle arall yn y sioe, yn cael cefnogaeth y neuadd fwyd a noddir gan y Cynulliad.

Mae problemau o hyd gyda thâp coch; y diweddaraf yw'r llanastr gyda'r cynllun organig. Cydnabyddaf fod y Gweinidog yn symud i ddatrys y llanastr hwn, ac i sicrhau bod pob ffermwyr a oedd yn tybio y cai gyfle i fynd ar y cynllun yn gallu gwneud hynny'n awr. Fodd bynnag, mae'r mater hwn yn dangos mor gymhleth y gall rhai o'r ffurflen hyn fod, ac mor hawdd y gall fod i ddisgyn drwy'r rhwyd. Yr oedd llawer o bobl heb sylweddoli'r hydref diwethaf fod gofyn iddynt dicio blwch neilltuol ar ffurflen i fynegi diddordeb, ac mai dyna fyddai'r unig gyfle i fod yn y cynllun. Yn hytrach, credai llawer mai ticio blwch ar eu ffurflen taliad

single farm payment form would give them access to the scheme.

The Royal Welsh Show is a magnificent spectacle and showcase for agriculture, and it has a huge impact on my constituents—not always positive, but mostly so. Many tourism operators in my constituency felt the full force of the blow when the show missed a year. I welcome the fact that the Minister is discussing ways of further supporting the Royal Welsh Show, but I hope that she will also take a broader look at what can be done to support agricultural shows throughout Wales.

In some ways, the Royal Welsh Show has the opportunity to raise funds in a way that the smaller county shows, or village shows, do not. Those smaller shows are a huge feature of life in my constituency of Brecon and Radnorshire—it is a challenge, on a Saturday, to try to get to Pant-y-dŵr, Llanwrtyd and Gwenddwr and all the others on the same day. Nevertheless, it is a welcome feature of agricultural life, and it is one of the few days of the year when those involved in agriculture can join with those who are not and celebrate life in their community.

Therefore, perhaps you could look beyond the Royal Welsh Show and take a holistic approach, supporting the other shows of its kind. There are many wonderful agricultural shows in Pembrokeshire, Anglesey, the three counties, and Monmouthshire, which provide equally wonderful spectacles for communities, and for agriculture in their county settings. Perhaps we can look at a way of ensuring that the winner does not take it all, and that those other shows also have an opportunity to enjoy support.

**Angela Burns:** I would like to thank my colleague, Brynle Williams, for bringing this important debate forward at a time when a significant number of us will, in the next few months, be out and about in our constituencies attending various agricultural shows, big and small. At those shows, we will not be able to hide from the 37,000 people whose livelihoods rest on the success or failure of the agricultural industry here in Wales. I would also like to thank the Liberal

sengl fyddai'n rhoi mynediad iddynt i'r cynllun.

Mae Sioe Frenhinol Cymru yn sioe i'r llygaid ac yn llwyfan arddangos i amaethyddiaeth, a chaiff effaith enfawr ar fy etholwyr—nid bob amser yn bositif, ond yn bositif gan mwyaf. Teimloedd llawer o weithredwyr twristiaeth yn fy etholaeth rym llawn yr ergyd pan gollodd y sioe flwyddyn. Croesawaf y ffaith fod y Gweinidog yn trafod ffyrdd i gefnogi Sioe Frenhinol Cymru ymhellach, ond gobeithio y bydd yn edrych yn ehangach ar yr hyn y gellir ei wneud i gefnogi sioeau amaethyddol ledled Cymru.

Mewn rhai ffyrdd, mae gan Sioe Frenhinol Cymru gyfle i godi arian mewn ffordd nad yw'n bosibl i'r sioeau sirol llai, neu sioeau pentref. Mae'r sioeau llai hynny'n nodwedd bwysig iawn o fywyd yn fy etholaeth i, Brycheiniog a Sir Faesyfed—mae'n her, ar ddydd Sadwrn, ceisio cyrraedd Pant-y-dŵr, Llanwrtyd a Gwenddwr a'r lleill i gyd yr un diwrnod. Serch hynny, mae'n nodwedd o fywyd amaethyddol sydd i'w chroesawu, ac mae'n un o'r ychydig ddiwrnodau yn y flwyddyn pan all y rhai sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth ymuno â phobl nad ydynt a dathlu bywyd yn eu cymuned.

Felly, hwyrach y gallech edrych y tu hwnt i Sioe Frenhinol Cymru a gweithredu mewn modd cyfannol, gan gefnogi'r sioeau eraill o'i bath. Mae nifer o sioeau amaethyddol gwych yn Sir Benfro, Ynys Môn, y tair sir, a Sir Fynwy sy'n darparu llawn cystal sioe i'r llygaid yn eu cymunedau, ac i i amaethyddiaeth yn eu lleoliadau sirol. Hwyrach y gallwn edrych ar ffordd i sicrhau nad yw'r buddugwr yn cael y cyfan, a bod y sioeau eraill hynny hefyd yn cael cyfre i fwynhau cefnogaeth.

**Angela Burns:** Hoffwn ddiolch i'm cyd-Aelod, Brynle Williams, am ddod â'r ddadl bwysig hon gerbron ar adeg pan fydd nifer sylwedol ohonom, dros y misoedd nesaf, ar grwydr hwnt ac yma yn ein hetholaethau yn mynd i wahanol sioeau amaethyddol, mawr a bach. Yn y sioeau hynny, ni fyddwn yn gallu cuddio rhag y 37,000 o bobl y mae eu bywoliaeth yn dibynnu ar lwyddiant neu fethiant y diwydiant amaethyddol yma yng Nghymru. Hoffwn hefyd ddiolch i'r

Democrats for their amendment, which highlights how important it is for Welsh farmers to have greater exposure for their produce, outside the supermarket sector.

I would like to concentrate on one area in my contribution to this debate, namely, red tape

In January, we brought forward a Welsh Conservatives debate voicing our concerns about the excessive burden of bureaucracy faced by farmers. To our delight, and in line with other magical moments in the health arena, the day before our debate, the Minister announced a review of red tape. The Minister stated that she was aware of the regulatory burden that farmers face, and that checks and inspections should be reviewed, and that the review would start without delay.

However, that is where the magic ends. At the end of March, the review group met for the first time. We are now in July, but are our farmers less tied up in red tape? The answer to that is ‘no’. We and they will have to implement a gold-plated nitrates directive, as Brynle mentioned. We will have more animal welfare regulation. I agree, Brynle; I do not believe that you should have to have another test on how to transport an animal, when you have been doing it for some considerable time. We also have proposals to do with food chain information.

However, above all, we have the unworkable nonsense that is the electronic tagging of sheep. On top of that, we still have all the other stuff, and many a farmer has to suffer several inspections, conducted by the same people, asking the same questions, and getting the same answers, but just not at the same time. We have beef inspections, dairy inspections, and farm insurance inspections, as well as TB tests, and pre-movement testing. We have trading standards inspections, meat hygiene inspections, food inspections, cross-compliance inspections, single farm payment inspections and agri-scheme inspections. No wonder the public sector in Wales is growing so fast.

That just deals with one element of today’s motion. In the light of this, and all the other points that have been raised, I ask Assembly

Democratiaid Rhyddfrydol am eu gwelliant, sy’n tanlinellu mor bwysig yw i ffermwyr Cymru gael mwy o sylw i’w cynnrych, y tu allan i sector yr archfarchnadoedd.

Hoffwn ganolbwyntio ar un maes yn fy nghyfraniad i’r ddadl hon, sef biwrocratiaeth.

Ym mis Ionawr, cyflwynwyd dadl gan y Ceidwadwyr Cymreig yn mynegi ein pryderon am y baich gormodol o fiwrocratiaeth sy’n wynebu ffermwyr. Er mawr lawenydd inni, ac fel eiliadau hudolus eraill ym maes iechyd, y diwrnod cyn ein dadl cyhoeddodd y Gweinidog adolygiad o dâp coch. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn ymwybodol o’r baich rheoleiddio sy’n wynebu ffermwyr, ac y dylid adolygu’r mesurau gwirio ac arolygu, ac y byddai’r adolygiad yn dechrau’n ddi-oed.

Fodd bynnag, daw’r hud i ben yno. Ddiwedd Mawrth cyfarfu’r grŵp adolygu am y tro cyntaf. Bellach mae’n fis Gorffennaf, ond a yw ein ffermwyr wedi’u rhwymo’n llai gan tâp coch? ‘Na’ yw’r ateb i hynny. Bydd yn rhaid i ni a hwythau weithredu cyfarwyddeb nitradau euraidd, fel y soniodd Brynle. Cawn ragor o reoliadau lles anifeiliaid. Cytunaf, Brynle; nid wyf yn credu y dylech orfod cael prawf arall ar y ffordd i gludo anifail, a chithau’n ei wneud ers talwm. Mae gennym gynigion hefyd yn ymwneud â gwybodaeth am y gadwyn fwyd.

Fodd bynnag, uwchlaw pob dim, mae’r lol anymarferol o dagio defaid yn electronig. At hynny, mae’r holl stwff arall yn dal gyda ni, ac mae nifer o ffermwyr yn gorfol dioddef llawer arolwg, gan yr un bobl yn gofyn yr un cwestiynau, ond ar adegau gwahanol. Cawn arolygon cig eidion, arolygon llaeth, ac arolygon yswiriant fferm, yn ogystal â phrofion TB, a phrofion cyn symud. Cawn arolygon safonau masnach, arolygon hylendid cig, arolygon bwyd, arolygon trawsygydymffurfio, arolygon taliad sengl ac arolygon amaeth-amgylcheddol. Does ryfedd fod y sector cyhoeddus yng Nghymru’n tyfu mor gyflym.

Mae hynny’n ddelio ag un elfen yn unig yng nghynnig heddiw. Yn wyneb hyn, a’r holl bwyntiau eraill sydd wedi’u codi, gofynnaf i

Members to support this motion, thereby giving unequivocal support to our farmers, and allowing us to take a positive message to them at all of the wonderful agricultural shows that we will be attending. Farmers need our support. After six months of talking, the agriculture industry is no further forward and is not an awful lot stronger—and I am not talking the industry down, in case anyone wishes to raise that point. We need to support farmers, and this is your chance to do it, Minister; please consider this motion carefully.

**Joyce Watson:** Thank you for the opportunity to contribute to this very wide-ranging debate. I can only assume that the string of proposals before us today is the result of an end-of-term brainstorming session at Tory HQ. I am confused by point 3, which, as far as I can make out, accuses the Assembly Government of failing to protect against the electronic tagging of Welsh sheep farmers. I would like some clarification on that.

I welcome the chance to speak today on behalf of my party. Members have already raised some of the issues around farm productivity. Clearly, farming has to be profitable in order to be sustainable, which is why last week's announcement on Farming Connect was welcomed by the industry. By offering practical support, such as business advice, and by reducing red tape where we can, we can encourage greater efficiency savings and healthier profits in the agricultural sector. Profits also depend on the workforce, and it is important to ensure that the sector creates and supports viable jobs. I am sure that we would therefore all welcome the outcome of the recent Agricultural Wages Board negotiations, which delivered a minimum £6 an hour wage for the majority of countryside workers in Wales. The union Unite, in particular, has campaigned hard on this issue, and securing this level of pay for farm workers and fruit pickers is a positive result.

I wish to ask the Minister about the progress of the long-awaited axis 2 review. I believe that point 5, on achieving a sustainable

Aelodau'r Cynulliad gefnogi'r cynnig hwn, gan roi cefnogaeth ddiamwys felly i'n ffermwyr, a chaniatáu inni roi neges gadarnhaol iddynt yn yr holl sioeau amaethyddol gwych y byddwn yn mynd iddynt. Mae angen ein cefnogaeth ar ffermwyr. Wedi chwe mis o siarad, nid yw'r diwydiant amaethyddiaeth ronyn yn nes ymlaen ac nid yw fawr cryfach—ac nid wyf yn lladd ar y diwydiant, rhag ofn bod neb yn dymuno codi'r sgwawnog honno. Mae angen inni gefnogi ffermwyr, a dyma'ch cyfle i wneud hynny, Weinidog; os gwelwch yn dda, ystyriwch y cynnig hwn yn ofalus.

**Joyce Watson:** Diolch am y cyfle i gyfrannu at y ddadl eang iawn hon. Ni allaf ond tybio bod y gyfres o gynigion sydd ger ein bron heddiw yn ganlyniad i sesiwn gwyntyllu syniadau diweddu tymor ym Mhencadlys y Torfaid. Yr wyf wedi fy nrys u gan bwynt 3 sydd, hyd y gallaf ddirnad, yn cyhuddo Llywodraeth y Cynulliad o fethu diogelu rhag tagio ffermwyr defaid Cymru'n electronig. Hoffwn ychydig eglurhad o hynny.

Yr wyf yn croesawu'r cyfle i siarad heddiw ar ran fy mhlaid. Mae aelodau eisoes wedi codi rhai o'r problemau ynghylch cynhyrchiant ffermydd. Yn amlwg, rhaid i ffermio fod yn broffidiol i fod yn gynaliadwy, a dyna pam y cafodd cyhoeddiad yr wythnos diwethaf am Cyswllt Ffermio ei groesawu gan y diwydiant. Drwy gynnig cefnogaeth ymarferol, fel cyngor busnes, a drwy leihau tâp coch lle gallwn, gallwn annog mwy o arbedion effeithlonrwydd a mwy o elw yn y sector amaethyddol. Mae elw'n dibynnu hefyd ar y gweithlu, ac mae'n bwysig sicrhau bod y sector yn creu ac yn cynnal swyddi ymarferol. Yr wyf yn siŵr, felly, y byddem i gyd yn croesawu canlyniad trafodaethau'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn ddiweddar, a oedd yn sicrhau isafswm cyflog o £6 yr awr i'r rhan fwyaf o weithwyr cefn gwlod yng Nghymru. Mae'r undeb Unite, yn enwedig, wedi ymgyrchu'n galed ar y mater hwn, ac mae sicrhau'r lefel hon o dâl i weithwyr fferm a phobl sy'n casglu ffrwythau yn ganlyniad cadarnhaol.

Hoffwn holi'r Gweinidog ynghylch hynt yr adolygiad echel 2 hirddisgwylledig. Credaf fod pwynt 5, ynglŷn â sicrhau cydbwysedd

balance between environmental improvement and food production, misses the point. Food production and good environmental practice are not competitive interests. Agri-environmental schemes are vital for the future of food production in Wales, and for reversing the decline in our biodiversity. Can the Minister give a commitment that the ongoing review will take account of the Wales Audit Office recommendations that the Tir Gofal scheme should receive a long-term financial commitment, and that it should be tailored to local conditions and targeted to meet our commitments on biodiversity?

4.20 p.m.

**Darren Millar:** I am pleased to contribute to today's debate on agriculture, which is a major industry in my constituency. Today, and on many other occasions, my colleague Brynle Williams has spoken at length and with great passion on the contribution of Welsh agriculture to our nation and the important role that it plays in rural communities. Rather than repeat the points that he and Angela Burns have made, I want to take the time in my contribution to look at agriculture from a slightly different angle, because, like many Assembly Members, I represent a very diverse constituency. Clwyd West is densely populated on the coastal strip, where tourism is the most significant industry and where English is the most widely spoken language, but just minutes from the coast, agriculture and the Welsh language begin to dominate.

At first glance, you would be forgiven for assuming that these are competing interests, but that is not the case. Tourism and agriculture go hand in hand, and not just because of the role that farmers play in helping to protect and manage the beautiful Welsh environment. There is no doubt that, without farming, the Vale of Clwyd and the Clwydian range would be very different places, which would be far less likely to draw the many thousands of visitors that they receive each year. We must remember that farming helps to bring in environmentally friendly tourism, because it prevents people from travelling overseas. Without it many people would shun north Wales to visit other parts of the country—or worse, other

cynaliadwy rhwng gwella'r amgylchedd a chynhyrchu bwyd, yn methu'r pwyt. Nid yw cynhyrchu bwyd ac arferion amgylcheddol da yn fuddiannau sy'n cystadlu. Mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn hanfodol i ddyfodol cynhyrchu bwyd yng Nghymru, ac i wrthdroi'r dirywiad yn ein bioamrywiaeth. A all y Gweinidog roi ymrwymiad y bydd yr adolygiad sydd ar droed yn rhoi ystyriaeth i argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru y dylai'r cynllun Tir Gofal gael ymrwymiad ariannol tymor-hir, ac y dylid ei deilwra yn ôl amodau lleol a'i dargedu i gyflawni ein hymrwymiadau ar fioamrywiaeth?

**Darren Millar:** Yr wyf yn falch cael cyfrannu at ddadl heddiw ar amaethyddiaeth, sy'n ddiwydiant mawr yn fy etholaeth i. Heddiw, ac ar lawer achlysur arall, mae fy nghyd-Aelod Brynle Williams wedi siarad yn hir a chydag angerdd mawr am gyfraniad amaethyddiaeth Cymru i'n cenedl a'i rôl mewn cymunedau gwledig. Yn hytrach nag ailadrodd y pwytiau a wnaeth ef ac Angela Burns, hoffwn gymryd yr amser yn fy nghyfraniad i edrych ar amaethyddiaeth o ongl ychydig yn wahanol, oherwydd fel llawer o Aelodau'r Cynulliad yr wyf yn cynrychioli etholaeth amrywiol iawn. Mae Gorllewin Clwyd yn boblog iawn ar hyd yr arfordir, lle mae twristiaeth yn ddiwydiant mwyaf sylwedol a Saesneg yn iaith y mwyaf, ond funudau'n unig o'r arfordir, mae amaethyddiaeth a'r iaith Gymraeg yn dechrau bod yn flaenaf.

Ar yr olwg gyntaf, gellid maddau ichi am ragdybio bod y buddiannau hyn yn cystadlu, ond nid yw hynny'n wir. Mae twristiaeth ac amaethyddiaeth yn mynd law yn llaw, nid yn unig oherwydd rôl ffermwyr wrth helpu gwarchod a rheoli amgylchedd hardd Cymru. Nid oes amheuaeth na fyddai Dyffryn Clwyd a bryniau Clwyd, heb ffermio, yn lleoedd gwahanol iawn, ac yn llawer llai tebygol o ddenu'r miloedd lawer o ymwelwyr a ddaw yno bob blwyddyn. Rhaid inni gofio bod ffermio'n helpu dod â thwristiaeth sy'n garedig i'r amgylchedd, oherwydd mae'n atal pobl rhag teithio dramor. Hebddo byddai llawer o bobl yn troi eu cefnau ar y gogledd i ymweld â rhannau eraill o'r wlad—neu'n waeth, â gwledydd eraill yn gyfan gwbl.

countries altogether.

**Ann Jones:** I am interested in what you just said about how the farmers keep the Vale of Clwyd for tourism. How can you justify saying that when so many farmers oppose the right to roam and stop people from walking in the beautiful Vale of Clwyd?

**Darren Millar:** That is nonsense, and you know it. The fact is that farmers keep the landscape looking as beautiful as it does, and that is why we receive so many visitors. You should be grateful for that, given how important an industry tourism is in your constituency. I am astonished at your comments. Just as important to tourism as landscape management are the many agricultural and country shows that take place across Wales every year.

**Ann Jones:** Will you give way?

**Darren Millar:** I will not. These shows draw thousands of visitors from around the UK and further afield. I am not just talking about the successful county shows, such as the Anglesey Agricultural Show or the Denbigh and Flint Agricultural Show, which attracts tens of thousands of visitors and can trace their history back for centuries. As Kirsty Williams and Angela Burns have already mentioned, there are much smaller shows—village and community shows—throughout the length and breadth of Wales. They are critical to the fabric of rural Wales and play an important role in protecting our heritage and culture. These shows are often the events that lure people back to Wales again and again, and provide a massive boost to local tourism.

In my constituency, for example, visitors flock from far afield to Derwen for its annual show, which includes an annual welly-wanging competition, where the name of the game is to throw the welly as far you possibly can, and the person who throws it the longest distance wins—the winner takes it all. I am proud to say that I managed to throw the welly much further than my Member of Parliament. The Clocaenog Show regularly includes an annual display and parade of

**Ann Jones:** Diddorol yw'r hyn a ddywedasoch yn awr am y modd y mae ffermwyr yn diogelu Dyffryn Clwyd ar gyfer twristiaeth. Sut y gallwch gyflawnhau dweud hynny, a chynifer o ffermwyr yn gwrtwylnebu'r hawl i grwydro ac yn rhwystro pobl rhag cerdded yn harddwch Dyffryn Clwyd?

**Darren Millar:** Mae hynny'n nonsens, a gwyddoch hynny. Y ffaith yw bod ffermwyr yn cadw'r dirwedd mor hardd ag ydyw, a dyna pam y cawn gynifer o ymwelwyr. Dylech fod yn ddiolchgar am hynny, o gofio bod twristiaeth yn ddiwydiant mor bwysig yn eich etholaeth. Yr wyf yn rhyfeddu at eich sylwadau. Lawn mor bwysig â rheoli'r dirwedd i dwristiaeth yw'r sioeau amaethyddol a gwledig niferus a gynhelir ar draws Cymru bob blwyddyn.

**Ann Jones:** A wnewch chi ildio?

**Darren Millar:** Na wnaf. Bydd y sioeau hyn yn denu miloedd o ymwelwyr o bob rhan o'r Deyrnas Unedig a thu hwnt. Nid sôn am y sioeau sir llwyddiannus yn unig yr wyf, fel Sioe Amaethyddol Môn neu Sioe Amaethyddol Dinbych a Fflint, sy'n denu degau o filoedd o ymwelwyr ac sy'n mynd yn ôl am ganrifoedd. Fel y mae Kirsty Williams ac Angela Burns eisoes wedi sôn, y mae sioeau llawer llai—sioeau pentref a chymuned—ar hyd a lled Cymru. Maent yn hanfodol i wead Cymru wledig ac yn bwysig i warchod ein treftadaeth a'n diwylliant. Y sioeau hyn yn aml yw'r digwyddiadau sy'n hudo pobl yn ôl i Gymru dro ar ôl tro, gan roi hwb aruthrol i dwristiaeth leol.

Yn fy etholaeth i, er enghraift, bydd ymwelwyr yn heidio o bell i Dderwen i'w sioe flynyddol, sy'n cynnwys cystadleuaeth flynyddol lluchio welis, lle mai'r gamp yw taflu'r weli cyn belled ag y gallwch, a'r enillydd yw'r sawl sy'n ei thaflu bellaf—yr enillydd sy'n ennill y cyfan. Yr wyf yn falch dweud imi lwyddo i daflu'r weli lawer ymhellach na'm Haelod Seneddol. Mae Sioe Clocaenog yn rheolaidd yn cynnwys arddangosfa a gorymdaith flynyddol gan hen

vintage tractors and other agricultural machinery—living, if not rickety, examples of equipment that help to tell the story of farming to those who attend.

Time does not permit me to talk at length about the other shows that take place in my constituency, in Cerrigydrudion and Ruthin and so on. However, these shows benefit the Welsh tourism industry, bringing people back to Wales year after year, and they are fine examples of the boomerang principle, as espoused by the Irish Senator, Fergal Quinn.

**Alun Davies:** I enjoyed listening to that rant, in the way that old friends do, but the reality is disillusionment when there is a Conservative Government, is it not? In opposition you send out an SOS for more cash time and again, but the reality is that when you are in Government, people are head over heels in debt.

**Darren Millar:** I am not sure where that fits into this particular debate.

These shows protect our heritage and help to foster a sense of community by bringing people together. Many hours of volunteering go into the careful planning and organisation of these shows. Without that commitment, the shows would simply not survive. All of these shows cost a lot of money to host. None of these individual county and country shows have a contribution from the Welsh Assembly Government. What contribution might you be able to make available from within your department, Minister, to these village and country shows that have such an important part to play in protecting our heritage and culture and in contributing to tourism?

**Alun Ffred Jones:** Dechreuodd Brynle Williams drwy dalu teyrnged i ffermwyr a'r gwaith y gwnânt. Ategaf hynny gan nodi cyfraniad y sioeau. Bûm yn Sioe Caernarfon yn ddiweddar lle'r oedd safon uchel yr anifeiliad yn dystio i ddiwydiant bywiog ac iach. Yr oeddwn yn falch o glywed gan Darren Millar bod traddodiadau Cymreig hynafol megis 'welly wanging' yn dal i fod yn fyw ac yn iach yn sir Ddinbych. Hir y parhao felly, wrth gwrs.

dractorau a pheiriannau amaethyddol eraill—enghreifftiau byw, os nad bregus, o offer sy'n helpu adrodd hanes ffermio i bawb sy'n bresennol.

Nid yw amser yn caniatáu imi siarad yn faith am y sioeau eraill sy'n digwydd yn fy etholaeth, yng Ngherrigydudion a Rhuthun, ac ati. Fodd bynnag, daw'r sioeau hyn â budd i ddiwydiant ymwelwyr Cymru, gan ddod â phobl yn ôl i Gymru flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac maent yn enghreifftiau gwych o'r egwyddor bwmerang, fel y'i harddelir gan y seneddwr o Wyddel, Fergal Quinn.

**Alun Davies:** Mwynheais wrando ar y truth hwnnw, fel y bydd hen ffrindiau, ond dadrithiad yw'r realiti pan fydd Llywodraeth Geidwadol, onid e? Fel gwrthblaid anfonwch SOS allan am fwy o arian dro ar ôl tro, ond y realiti yw, pan fyddwch yn llywodraethu, bydd pobl dros eu pen a'u clustiau mewn dyled.

**Darren Millar:** Nid wyf yn siŵr ble mae hynny'n ffitio i'r ddadl arbennig hon.

Mae'r sioeau hyn yn gwarchod ein treftadaeth ac yn helpu meithrin ymdeimlad o gymuned drwy ddod â phobl ynghyd. Treulir oriau lawer yn gwirfoddoli i gynllunio a threfnu'r sioeau hyn yn ofalus. Heb yr ymroddiad hwnnw, ni allai'r sioeau barhau. Mae'r holl sioeau hyn yn costio arian mawr i'w cynnal. Nid oes yr un o'r sioeau sir a gwledig unigol hyn yn cael cyfraniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Pa gyfraniad allech chi ei ddarparu o fewn eich adran, Weinidog, i'r sioeau pentref a gwledig hyn sydd mor bwysig yn gwarchod ein treftadaeth a'n diwylliant ac yn cyfrannu at dwristiaeth?

**Alun Ffred Jones:** Brynle Williams began by paying tribute to farmers and the work they do. I would endorse that and also note the contribution of shows. I was at Caernarfon Show recently where the high standard of livestock bore witness to a healthy and lively industry. I was pleased to hear from Darren Millar that ancient Welsh traditions such as welly wanging are still alive and kicking in Denbighshire, and long may that continue, of course.

Cyfeiriaf at un neu ddau o bwyntiau a wnaeth Brynle yn ei arraith. Soniodd am Ewrop a'r duedd i oreuro rhai o'r rheoliadau. Fodd bynnag, pan oedd y Torïaid mewn grym, nid oedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru byth yn mynd i gyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion i ddadlau achos Cymru. Yr unig ffordd a gewch llais yng Nghyngor y Gweinidogion, lle gwneir penderfyniadau, yw drwy gael gwladwriaeth annibynnol, megis Iwerddon sydd wedi elwa cymaint ar y dylanwad hwnnw dros y blynnyddoedd.

Soniodd Brynle yn hollol deg am brawf gyrru i bobl sy'n cludo anifeiliaid. Mae'n werth ei atgoffa: pan ddaeth y ddeddfwriaeth honno gerbron y Cynulliad, yr wyf bron yn sicr bod Mr Williams wedi pleidleisio o blaid y ddeddfwriaeth tra'r oedd y Gweinidog wedi pleidleisio yn erbyn. Hyhi, yn awr, sy'n gorfol gweithredu'r ddeddfwriaeth honno. [Torri ar draws.] Dylech fynd yn ôl i edrych ar y cofnod, Mr Williams.

Bydd y Gweinidog yn amddiffyn ei record. Mae'n record ardderchog, nid yn unig o safbwyt yr hyn y mae'r Gweinidog wedi ei wneud gyda TB a sefydlu grŵp i edrych ar fiwrocratiaeth a'r cynlluniau i helpu ffermwyr ifanc, ond, yn ddiweddar, cyflwynodd gynigion gwirioneddol chwyldroadol yn y maes cynllunio a fydd yn gymorth mawr yn uniongyrchol i deuluoedd sy'n ffermio. Mae'r Llywodraeth i'w llonygarch yn fawr am fentro i'r maes anodd a chymhleth hwn. Os mabwysiedir hynny, yr wyf yn siŵr y caiff groeso mawr yng nghefn gwlad Cymru.

O edrych ar y gwelliant, cytunaf yn llwyr: er mwyn i ffermwyr gael bywoliaeth iawn, mae'n rhaid cael tegwch yn y farchnad. Mae pawb yn derbyn bod y gyfundrefn adwerthu, gyda grym yr archfarchnadoedd, yn creu anawsterau mawr i'r diwydiant. Pan sonnir am y farchnad, mae'n rhaid i ni gofio mai busnesau preifat yw ffermydd. Pan ystyriwch y farchnad ryngwladol fe welwch nad ydyw gwledydd megis Seland Newydd, er bod yr amodau llawer yn well yno, yn cael unrhyw gymhorthdal. Mae cymorthdaliadau i ffermwyr Cymru yn hollbwysig i gynnal eu bywoliaeth, yn enwedig ar yr ucheldir.

I refer to a couple of points raised by Brynle in his speech. He talked about Europe and the tendency to over-gild some of the regulations. However, when the Tories were in power, the Secretary of State for Wales never attended the Council of Ministers meetings to argue the case for Wales. The only way you can have a voice in the Council of Ministers, where decisions are made, is by having an independent state, such as Ireland, which has benefited so much from that influence over the years.

Brynle quite fairly mentioned a driving test for people who transport livestock. It is worth reminding him that when that legislation came before the Assembly, I am almost certain that Mr Williams voted in favour of that legislation, whereas the Minister voted against. She is now the one who has to implement that legislation. [Interruption.] I suggest you return to take a look at the record, Mr Williams.

The Minister will defend her record. It is an excellent record, not only in terms of what the Minister has done with TB and establishing a group to look at bureaucracy and schemes to assist young farmers, but recently she introduced truly revolutionary proposals in the planning field which will be of great assistance, directly, to farming families. The Government is to be greatly congratulated for venturing into this difficult and complex field. I am certain, if that is adopted, it will be welcomed very warmly in rural Wales.

Looking at the amendment, I entirely agree: so that farmers can earn a proper living, there must be equity in the market. Everyone accepts that the retail system, with the power of supermarkets, is creating huge difficulties for the industry. When we talk about the market, we must bear in mind that farms are private businesses. When you consider the international market, you will see that countries such as New Zealand, although the conditions are better for them, do not receive any kind of subsidy. Grants for Welsh farmers are vital in order to sustain their livelihoods, particularly in the highlands.

Mae llawer o ffermwyr ledled Cymru wedi ymateb yn greadigol i'w sefyllfa. Cawsom drafodaeth debyg yn gymharol ddiweddar, a chyfeiriais at y ffermwyr ifanc o ddyffryn Clwyd sydd erbyn hyn yn y maes llaeth organig ac yn ceisio cael mynediad, gyda phartneriaid, i'r archfarchnadoedd, gan wybod mai dyna lle mae'r dyfodol. Dywedodd yn glir yn yr Eisteddfod—os ydych yn cofio, Brynle—y dylem ganolbwytio ar newid yr hyn sydd o fewn ein gallu, yn hytrach na chwyno byth a beunydd am bethau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth. Credaf fod perygl mawr i ni siarad y diwydiant i drwbl. Os gwnawn hynny, ni fyddwn yn denu'r bobl ifanc mentrus hynny mae arnom eu hangen, ac mae ar y diwydiant eu hangen, i sicrhau dyfodol ffyniannus i gefn gwlad Cymru.

4.30 p.m.

**Nick Ramsay:** It is a pleasure to be called to contribute to this important debate on the state of the farming industry in Wales. I think that it was Joyce Watson who said earlier, in what was probably the most gracious part of her speech, that this is a wide ranging debate. I must admit that I did not expect it to be quite as wide ranging as it has been—going from talking about the Royal Welsh Show to the ancient art of welly wanging, which Darren and I will obviously be engaging in during recess. I was going to focus on the Royal Welsh Show and the many smaller rural shows that add a lot to the life of rural Wales and make our country what it is, but I think that Kirsty Williams has well extolled the virtues of the Abergavenny Food Festival and the Monmouth Show and everything else in my constituency, so I am not left with much to talk about on that front; I will therefore tear that page up. [*Laughter.*]

I think that it is a testament to the skill and determination of our farmers, many of whom will be watching this debate today, that they work to such a high standard under such difficult obligations and constraints. We have heard a lot about the repressive regulations that regrettably led to the closure of approximately 75 per cent of all of the UK's abattoirs during the 1990s. The recently announced nitrates directive also threatens to have an immense impact on the farming

Many farmers throughout Wales have responded creatively to their situations. We had a similar discussion comparatively recently, and I referred to the young farmer from the vale of Clwyd who by now is in the organic dairy industry and is trying to break through, with other partners, into the supermarkets, knowing full well that that is where his future lies. He stated clearly at the Eisteddfod—if you remember, Brynle—that we should focus on changing what is within our ability, rather than complain about things that are beyond our control. I believe there is a great risk of us talking the industry into trouble. If we do that, we will not attract the enterprising young people we need, and whom the industry needs, to secure a prosperous future for rural Wales.

**Nick Ramsay:** Mae'n bleser cael fy ngalw i gyfrannu at y ddadl bwysig hon am gyflwr y diwydiant ffermio yng Nghymru. Credaf mai Joyce Watson a ddywedodd yn gynharach, yn ystod y rhan fwyaf graslon yn ei haraith, mae'n debyg, fod y ddadl hon yn un eang ei chwmpas. Rhaid imi gyfaddef nad oeddwn yn disgwyl iddi fod mor eang ag yr oedd—o sôn am Sioe Frenhinol Cymru i hen gelfyddyd lluchio welis, sy'n rhywbeth y bydd Darren a minnau wrth gwrs yn ei wneud yn ystod y toriad. Yr oeddwn wedi bwriadu canolbwytio ar Sioe Frenhinol Cymru ac ar y llu sioeau gwledig llai sy'n cyfrannu llawer at fywyd Cymru wledig ac yn gwneud ein gylch yr hyn ydyw. Ond credaf fod Kirsty Williams wedi clodfori rhinweddau Gŵyl Fwyd y Fenni a Sioe Mynwy a phopeth arall yn fy etholaeth, felly, nid oes llawer ar ôl imi sôn amdano yn y cyswllt hwnnw; Felly, yr wyf am rwygo'r ddalen honno. [*Chwerthin.*]

Credaf ei bod yn brawf o fedusrwydd a phenderfyniad ein ffermwyr, a bydd llawer ohonynt yn gwyllo'r ddadl hon heddiw, eu bod yn gwneud gwaith o gystal safon yn wyneb cynifer o rwymedigaethau a chyfyngiadau. Yr ydym wedi clywed llawer am y rheoliadau gormesol a arweiniodd yn anffodus at gau oddeutu 75 y cant o holl ladd-dai'r DU yn ystod 90au'r ganrif ddiwethaf. Mae'r gyfarwyddeb ar nitradau a gyhoeddwyd yn ddiweddar hefyd yn bygwth

community. Research from the National Farmers Union suggests that the directive could cost some farmers in the UK up to £11,000 per farm per year, which is a huge cost. We welcome the additional money that has been made available to farmers, which Brynle Williams mentioned in his response to an intervention earlier—all money is to be welcomed in that respect—but I think that, at the same time, unless you do something to cut red tape and take action to ensure that farmers are in a position to use that money as well as they can, we are not going to get as far as we would like to.

It is not just unnecessary regulations that are damaging the UK farming industry; closer to home, the UK Government and the Welsh Assembly Government have been doing their best to drown farmers in a sea of paperwork. In 2007, the Department for Environment, Food and Rural Affairs introduced 150 new regulations, taking the total number to more than 1,000 new rules—

**Alun Davies:** I do not know whether to laugh or cry when I hear Tories talking in this way. Which one of those regulations would you seek to repeal?

**Nick Ramsay:** I have mentioned the nitrates situation. That is one area where we could seek change. Rather than just engage in this verbal welly wanging, I would like to get on with what my side are trying to do here, on these benches, and that is to defend the farming industry and to put forward a motion that says that that is our intention. We will be supporting the Liberal Democrat amendment, as has been said, because it adds to the motion.

Farming has contributed a great deal to the constituencies of many AMs in this Chamber and has made the landscape of Wales what it is. The various shows that many of us will be attending over the summer are fantastic events, but they only work because of the environment within which they are based and which they serve. I think that it is very sad that we have had to hear some of the comments that have been made here today; if they are not seeking to undermine the

cael effaith anferth ar y gymuned ffermio. Mae gwaith ymchwil gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn awgrymu y gallai'r gyfarwyddeb gostio hyd at £11,000 y fferm y flwyddyn i rai ffermwyr yn y DU, sy'n gost aruthrol. Croesawn yr arian ychwanegol sydd wedi'i ddarparu ar gyfer ffermwyr fel y crybwylloedd Brynle Williams wrth ymateb i ymyriad gynnau—rhaid croesawu'r holl arian a ddaw yn y cyswllt hwnnw—ond credaf, ar yr un pryd, oni wnewch rywbed i ddileu'r fiwrocratiaeth a chymryd camau i sicrhau bod ffermwyr mewn sefyllfa i ddefnyddio'r arian hwnnw gystal ag y gallant, ni fyddwn yn mynd mor bell ag yr hoffem.

Nid rheoliadau diangen yn unig sy'n difrodi diwydiant ffermio'r DU; yn nes adref mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn gwneud eu gorau glas i foddi ffermwyr dan fôr o waith papur. Yn 2007, cyflwynodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig 150 o reoliadau newydd, gan godi'r cyfanswm i dros 1,000 o reolau newydd—

**Alun Davies:** Ni wn a ddylwn chwerthin ynteu wylo pan glywaf Dorïaid yn siarad fel hyn. Pa un o'r rheoliadau hynny y byddech yn ceisio'i diddymu?

**Nick Ramsay:** Yr wyl wedi sôn am sefyllfa nitradau. Dyna un maes lle y gallem geisio newid. Yn hytrach na lluchio welis geiriol at ein gilydd fel hyn, hoffwn fwrw ymlaen â'r hyn y mae fy ochr i'n ceisio'i wneud yma, ar y meinciau hyn, sef amddiffyn y diwydiant ffermio a chyflwyno cynnig sy'n dweud mai dyna yw ein bwriad. Byddwn yn cefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol, fel y dywedwyd, oherwydd mae'n ychwanegu at y cynnig.

Mae ffermio wedi cyfrannu'n sylweddol at etholaethau nifer o ACau yn y Siambra hon ac wedi gwneud tirwedd Cymru yr hyn ydyw. Mae'r sioeau amrywiol y bydd nifer ohonom yn mynd iddynt dros yr haf yn ddigwyddiadau rhagorol, ond yr unig reswm pam y maent yn gweithio yw oherwydd yr amgylchedd y maent wedi'i seilio arno a'r amgylchedd y maent yn ei wasanaethu. Credaf ei bod yn drist iawn ein bod wedi gorfod clywed rhai o'r sylwadau a wnaed

farming industry, they are certainly not giving it the support that it deserves. I think that I have spoken enough on that, have I not, Deputy Presiding Officer? I will hand over to the next speaker.

**The Deputy Presiding Officer:** That was a rhetorical question, was it? I call on the Minister for Rural Affairs to speak on behalf of the Government.

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Mae'n amlwg bod y Torïaid wedi mynd i ysbryd y darn wrth lunio'r cynnig hwn, oherwydd mae cynnwys o leiaf chweddl o fewn yr un cynnig hwn. Mae dywediad yn Saesneg, *less is more*, ac efallai y byddai'r Torïaid wedi elwa o ystyried hynny heddiw.

Mae cynhyrchu bwyd, rheoli ein tir yn gynaliadwy, a chynnal economi a chymdeithas cefn gwlad yn bwysig i'r Llywodraeth hon. Ambell waith, bydd rhywfaint o wrthdaro rhwng yr amcanion hyn, ac mae'r pumed pwnt yng nghynnig y Torïaid yn cydnabod y tyndra hwnnwr nad yn cynnig unrhyw atebion iddo. Mae gan y Llywodraeth atebion ac arweiniad i'w cynnig i'r diwydiant amaethu a chynhyrchu bwyd. Yr ydym yn ymgynghori ar hyn o bryd ar ein strategaeth cynhyrchu bwyd a ffermio. Ein dyhead yw gweld Cymru yn cynhyrchu ystod eang o fwydydd o safon, i'w prosesu a'u gwerthu a'u prynu'n lleol, a hefyd i'w gwerthu y tu hwnt i Gymru. Yr ydym eisiau gweld diwydiant ffermio sy'n gystadleuol ac yn ffyniannus, a bydd gwasanaethau newydd Cyswllt Ffermio, gwerth £30 miliwn, a lansiais yr wythnos diwethaf, yn arf pwysig i ffermwyr i'w ddefnyddio i gryfhau eu busnesau.

Mae pwyslais ar gefnogi ffermwyr ifanc o fewn Cyswllt Ffermio, ac mae'r ymgynghoriad ar bolisi cynllunio tai yng nghefn gwlad yn rhoi cyfleoedd newydd i ffermwyr ifanc, fel y soniodd Alun Ffred Jones. Cyn bo hir, hefyd, byddaf yn ymgynghori ar gynllun mynediad ffermwyr ifanc, gyda chyllideb o £2 filiwn yn 2010.

Mae lles ac iechyd ein hanifeiliaid o bwys mawr inni. Yr ydym wedi gwarantu cyllideb

yma heddiw; os nad ydynt yn ceisio tanseilio'r diwydiant ffermio, yn sicr nid ydynt yn rhoi iddo'r gefnogaeth y mae'n ei haeddu. Credaf fy mod wedi siarad digon am hynny, onid ydwyt, Ddirprwy Lywydd? Trosglwyddaf yr awenau i'r siaradwr nesaf.

**Y Dirprwy Lywydd:** Cwestiwn rhethregol oedd hwnnwr, aie? Galwaf ar y Gweinidog dros Faterion Gwledig i siarad ar ran y Llywodraeth.

**The Minister for Rural Affairs (Elin Jones):** It is obvious the Tories got carried away in formulating today's motion, since it includes at least six motions in one. There is a saying in English, less is more, and maybe it would have paid the Tories to consider that today.

Food production, sustainable land management, and supporting the rural economy and society are important to this Government. There will sometimes be conflict between these objectives, and the fifth point in the Tory motion recognises the tension, even though it offers no solutions. The Government has solutions and leadership to offer to the agriculture and food production industry. We are currently consulting on our food production and farming strategy. Our aim is to see Wales producing a wide range of quality foods, to be processed and bought and sold locally, and also to be sold outside Wales. We want to see a competitive and prosperous farming industry, and new Farming Connect services, worth £30 million, which I launched last week will be an important tool for farmers to use to strengthen their businesses.

There is emphasis in Farming Connect on supporting young farmers, and the consultation on planning policy in rural areas gives young farmers new opportunities, as Alun Ffred Jones mentioned. Before long, I will also be consulting on a new entrants scheme for young farmers, with a budget of £2 million in 2010.

The health and wellbeing of our animals is also very important to us. We have

ac wedi archebu 7.5 miliwn dos o frechiad clefyd y dafod las. Yr ydym hefyd yn y broses o weithredu ein rhaglen waredu TB, sy'n werth £27.7 miliwn.

Trof yn awr at y chwe phwynt yng nghynnig y Torïaid. Yr wyf yn cytuno gyda'r pwynt cyntaf; mae'n drueni na fydddech wedi gorffen gyda hwnnw.

Yr wyf yn deall ac yn cydnabod y pryder sydd y tu ôl i'r ail bwynt. Mae'r newidiadau yng nghyfundrefn daliadau'r Gwasanaeth Hylendid Cig yn deillio o doriadau ariannol gan DEFRA, a barodd i'r gwasanaeth godi lefel y taliadau i ladd-dai, gan nad oedd yn derbyn cymhorthdal gan Lywodraeth San Steffan. Byddai wedi bod yn ddefnyddiol i ladd-dai Cymru glywed a fyddai Llywodraeth Doriïedd bosibl yn San Steffan yn y dyfodol yn adfer y gyllideb i'r Gwasanaeth Hylendid Cig. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cwrdd yng Nghaerdydd yfory, a bydd yn trafod dyfodol y gyfundrefn daliadau i ladd-dai; byddaf yn siarad â'r asiantaeth heno. Yr wyf wedi cwrdd ddwywaith â Dr Ian Reynolds, pennaeth Gwasanaeth Hylendid Cig Prydain, gan gynnwys unwaith yr wythnos diwethaf, ac yr wyf wedi dweud wrtho fod dyfodol lladd-dai mawr a bach Cymru yn bwysig i ni fel Llywodraeth, a bod y rhai bach yn arbennig o bwysig i nifer o ymrwymiadau Llywodraeth Cymru'n Un.

Mae'r trydydd pwynt yn ymwneud â thagio electronig. Os mai penderfyniad i Lywodraeth y Cynulliad oedd hynny, ni fyddai tagio electronig yn cael ei gyflwyno yn 2010. Fodd bynnag, mae tagio electronig yn deillio o reoliadau Ewropeaidd a gyflwynwyd yn 2004, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob gwlad â mwy na 600,000 o ddefaid dagio pob dafad yn electronig—mae gennym ni 9 miliwn o ddefaid yng Nghymru, ac mae 33 miliwn ym Mhrydain gyfan. Ni allaf weld, ar hyn o bryd, sut y gellid osgoi'r gofyniad hwn. Yr wyf yn gwybod bod gan ffermwyr defaid bryderon ynglŷn ag egwyddor ac ymarferoldeb ei gyflwyno, ac yr wyf yn bwriadu cynnal cyfarfod sylweddol gyda'r diwydiant ar ôl yr haf i drafod tagio electronig.

Ar y pedwerydd pwynt, nid wyf yn cytuno

guaranteed a budget and have ordered 7.5 million doses of the bluetongue disease vaccine. We are also in the process of implementing our TB eradication programme, which is worth £27.7 million.

I now turn to the six points in the Tory motion. I agree with the first point; it is a pity you did not stop there.

I understand and recognise the concern behind the second point. The changes to the Meat Hygiene Service payments system stem from financial cuts imposed by DEFRA, which have led to the service increasing the level of charges to abattoirs, since it did not receive funding from the Westminster Government. It would have been useful to abattoirs in Wales to hear whether a possible incoming Tory Government in Westminster in the future would have reinstated the MHS budget. The Food Standards Agency is meeting in Cardiff tomorrow, and it will discuss the future of the abattoir payment system; I will be speaking with the agency this evening. I have twice met Dr Ian Reynolds, the head of the British MHS, including once last week, and I have told him that the future of small and large abattoirs in Wales is important to us as a Government, and that small abattoirs are especially important to many of the commitments of the One Wales Government.

The third point deals with electronic tagging. If that had been a decision for the Assembly Government, electronic tagging would not be introduced in 2010. However, electronic tagging stems from European regulations introduced in 2004, making it compulsory for all countries with more than 600,000 sheep to tag all sheep electronically—we have 2 million sheep in Wales, and there is a total of 33 million sheep in Britain. I cannot see, at present, how we can avoid this requirement. I know sheep farmers have concerns about the principle and practicality of introducing this system, and I intend to have a significant meeting with the industry after the summer to discuss electronic tagging.

On the fourth point, I do not agree that

bod polisiau Llywodraeth Cymru yn lleihau pa mor gynhyrchiol yw ffermydd Cymru. Nid wyf yn siŵr ar ba sail mae'r Toriaid yn gwneud yr honiad hwn. Yr ydym ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o dâp coch ar ffermydd; efallai y dylem gofio bod biwrocratiaeth ar ffermydd yn bodoli ers cyn 1997. Mae'r adolygiad tâp coch yn gweithio ar gyfuno ymweliadau profi TB ac archwiliadau gwartheg, ar weithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu un llyfr cydnabyddedig i adnabod a symud anifeiliaid ac ar edrych ar ffyrdd i wahanol asiantaethau rannu gwybodaeth. Bydd mwy i ddod.

Yr wyf eisoes wedi cyfeirio at y pumed pwynt, ac efallai mai'r prawf o'r tensiwn posibl rhwng cynhyrchu bwyd a chynaliadwyedd amgylcheddol fydd yr ymgynghoriad ar newidiadau posibl i echel 2, fel y soniodd Joyce Watson. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn brawf i weld a oes consensws ar gydbwysedd gwahanol ddefnydd o dir amaethyddol Cymru. Nid wyf yn meddwl bod angen i hwn fod yn fater o rwyg gwleidyddol, a byddaf yn barod i drafod ac i wrando ar farn y Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol, ac Aelodau eraill, ar gyfeiriad cynlluniau amaeth-amgylcheddol i'r dyfodol.

**Bryngle Williams:** Diolch am eich ymateb, Weinidog. Ar y pumed pwynt, yr un peth sy'n pryderu pob un ohonom, sef sut mae'r sefyllfa wedi newid cymaint mewn wythnosau. Mae pris gwrtraith wedi codi gymaint mae'n golygu y bydd llai o gynnrych yn cael ei gynhyrchu, nid yn unig yng Nghymru ond ym Mhrydain Fawr. Yr ydym yn prysuro i sefyllfa sy'n gyfan gwbl organig. Yr wyf yn meddwl bod angen mwy o fwyd yn y byd, ond bydd gostyngiad yn ein lefelau cynhyrchu o ganlyniad i gost olew a gwrtraith. Mae'n rhaid i bob un ohonom edrych ar hyn i sicrhau ein bod yn cael y cydbwysedd yn iawn. Mae yn fy nychryn i.

4.40 p.m.

**Elin Jones:** Deallaf y materion yr ydych yn eu rhoi gerbron—maent yn faterion micro lle mae ffermwyr unigol yn gorfol gwneud penderfyniadau ynglŷn â blaenoriaethau ar ddatblygu eu ffermydd yn sgîl yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad heddiw. Fodd

Government of Wales policies reduce the productivity of Welsh farms. I am not sure on what basis the Tories make this accusation. We are currently undertaking a review of red tape on farms; we should, perhaps, remember that there was bureaucracy on farms before 1997. The red tape review is working on combining TB testing visits and cattle inspections, on working with local authorities to provide one recognised book for animal identification and movement, and looking at ways in which different agencies can share information. There will be more to come.

I have already referred to the fifth point, and it is possible that the tension between food production and environmental sustainability will be tested in the consultation on potential changes to axis 2, as Joyce Watson mentioned. This consultation will test whether there is consensus on the balance between different uses for Wales's agricultural land. I do not believe this needs to lead to a political split, and I will be willing to debate and to listen to the views of the Tories and the Liberal Democrats, and other Members, on the future direction for agri-environmental schemes.

**Bryngle Williams:** Thank you for your response, Minister. On the fifth point, the same thing is worrying all of us: how the situation has changed so much in a matter of weeks. The price of fertiliser has increased so much that less produce will be produced, not only in Wales but in Great Britain. We are quickly getting to a situation that is wholly organic. I believe more food is needed in the world, but there will be a decline in our production rates as a result of the cost of oil and fertiliser. We all need to look at this in order to strike the right balance. This scares me.

**Elin Jones:** I understand the points you make—they are micro issues, where individual farmers have to make decisions on priorities for developing their farms as a result of what is happening today in the country. However, the Government must also

bynag, mae'r Llywodraeth yn gorfod edrych i'r hir dymor hefyd, ac wrth inni edrych ar adolygiad echel 2, mae'n gyfle i ystyried sut mae bodloni anghenion hir dymor defnydd tir amaethyddol Cymru.

Mae'r chweched pwynt—bu cryn drafod ar sioeau amaethyddol—yn ymwneud ag ariannu'r sioe frenhinol. Cefais drafodaeth gyda chynrychiolwyr y sioe frenhinol dros donfeddi'r BBC yn ddiweddar ynglŷn ag arian gan y Llywodraeth. Nid yw'r Llywodraeth wedi derbyn cais am arian, ond dywedais wrth gadeirydd y sioe fy mod yn awyddus i gwrdd â'r cynrychiolwyr yn ffurfiol i drafod unrhyw gynlluniau sydd ganddynt. Mae'r sioe frenhinol yn derbyn ychydig dros £130,000 eleni gan Lywodraeth Cymru ar ffurf nawdd, prydlesu ac un astudiaeth ddichonoldeb. Bydd gennyf feddwl agored yn mynd i'r cyfarfod gyda'r sioe frenhinol, ond mae'n rhaid i bawb gofio y byddai unrhyw ariannu pellach i'r sioe honno yn gorfod bod ar draul ariannu rhywbeth arall.

Ni fydd yn sioc ichi glywed na fydd y Llywodraeth yn cefnogi'r cynnig hwn heddiw. Nid wyf yn amau diddordeb y Torïaid yn y diwydiant amaeth, ond nid wyf yn siŵr mai drwy gyflwyno cynnig negyddol a di-ffocws mae hyrwyddo'r diddordeb hwnnw'n fwyaf llwyddiannus.

Fodd bynnag, i orffen ar nodyn mwy cadarnhaol, byddwn yn cefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol. Mae'r geiriad braidd yn galed, ond mae ysbryd y gwelliant yn gymeradwy. Nid yw'n fwriad gan Lywodraeth Cymru i dorri tra-arglwyddiaeth yr archfarchnadod mawr yng Nghymru, yn unol â geiriad y gwelliant—mae archfarchnadod yn bwysig i gwsmeriaid ac i gynhyrchwyr bwyd, sy'n gwerthu gymaint trwyddynt—ond mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi sefydlu ombwdsman archfarchnadod. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cefnogi creu mwy o gystadleuaeth a chyfleoedd i brynu a gwerthu bwyd yn lleol.

Yr wyf am orffen drwy obeithio am dywydd da a sioe dda i'r sioe frenhinol ac i sioeau amaethyddol eraill yr haf hwn. Dymunaf gynhaeaf da i'n ffermwyr a gwyliau bwyd a marchnadodedd ffermwyr llwyddiannus i'n

consider the long term, and as we look at axis 2 there will be an opportunity for us to consider how we deal with the long-term issues of using Wales's agricultural land.

The sixth point—significant mention has been made of agricultural shows—deals with funding for the Royal Welsh Show. I recently had a discussion over the BBC's airwaves with representatives of the royal show about Government funding. The Government has not received a request for funding, but I told the show's chairman that I was keen to meet representatives formally to discuss any plans they have. The royal Welsh receives a little over £130,000 this year from the Government of Wales in the form of sponsorship, leasing and one feasibility study. I will have an open mind going into the meeting with the show, but we must all remember that any further funding for the show would have to come from the funding allocated to something else.

It will not surprise you to learn that the Government will not be supporting this motion today. I do not doubt the Tories' interest in the agriculture industry, but I am not convinced that proposing a negative and unfocused motion is the most successful way to promote that.

However, to finish on a more positive note, we will support the Liberal Democrat amendment. The wording is rather harsh, but the sentiment is to be applauded. It is not the intention of the Government of Wales to break the dominance of the major supermarkets in Wales, as called for by the amendment—supermarkets are important to customers and to food producers, who sell so much through them—but the Government of Wales supports the creation of an ombudsman for supermarkets. The Government also supports the creation of more competition and opportunities to buy and sell food locally.

I conclude by hoping for good weather and a good show for the royal Welsh and for other agricultural shows this summer. I wish farmers a good harvest and successful food festivals and farmers' markets for out

cynhyrchwyr bwyd.

**Andrew R.T. Davies:** I thank everyone who has contributed to the debate this afternoon, and I thank Brynle Williams, our spokesperson on rural affairs, for talking with passion and clarity, as he always does on rural issues, and for highlighting the cause of farmers across the board. Sadly, the same is not true of all contributors this afternoon.

First, I will concentrate on the Minister's response. I agree with her opening remarks about some of the positive features that the One Wales Government has contributed to rural development, particularly on the planning front. I welcome the introduction of the consultation announced by her colleague Jane Davidson, because this has been a burning issue in the countryside.

However, our motion clearly emphasises key deficits, particularly the effect of the Meat Hygiene Service, which has been highlighted by many speakers. If we look at one recently highlighted example of an abattoir in Powys, Brian George, its owner, is suddenly facing an increase in his costs from £5,000 per year to £25,000 per year. If we are to be truly aspirational in terms of developing end value for our products, you must agree, Minister, that this is a crucial challenge facing rural communities, particularly farmers and added-value producers.

On the electronic identification of sheep, you highlighted the fact that we have around 2 million sheep in Wales. If I could correct you—*[Interruption.]*

If you check the Record of Proceedings, you will see that you said that we have 2 million sheep. According to your own statistics, we in fact have 9,352,000 sheep. I can see that you are startled, but you did say 2 million, Minister. We have 15,271 farmers with sheep on their holdings.

**Elin Jones:** Hoffwn roi ar y record fy mod

producers.

**Andrew R.T. Davies:** Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl y prynhawn yma, a diolch i Brynle Williams, ein llefarydd dros faterion gwledig, am siarad gydag angerdd ac eglurder, fel y bydd bob amser ynglŷn â materion gwledig, ac am dynnu sylw at achos ffermwyr drwy'r trwch. Yn anffodus, nid yw'r un peth yn wir am bob cyfrannwr y prynhawn yma.

Yn gyntaf, byddaf yn canolbwyntio ar ymateb y Gweinidog. Cytunaf â'i sylwadau agoriadol am rai o'r nodweddion cadarnhaol y mae Llywodraeth Cymru'n Un wedi'u cyfrannu at ddatblygu gwledig, yn enwedig ym maes cynllunio. Croesawaf gyflwyno'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd gan ei chyd-Weinidog, Jane Davidson, oherwydd mae hwn wedi bod yn bwnc llosg yng nghefn gwlad.

Fodd bynnag, mae ein cynnig yn pwysleisio'r diffygion yn glir, yn enwedig effaith y Gwasanaeth Hylendid Cig, y tynnwyd sylw ato gan lawer o siaradwyr. Os edrychwn ar un enghraifft a ddaeth i'r golwg yn ddiweddar, sef lladd-dy ym Mhowys, yn sydyn mae Brian George, ei berchen nog, yn wynebu cynnydd yn ei gostau o £5,000 y flwyddyn i £25,000 y flwyddyn. Os ydym am fod yn wirioneddol uchelgeisiol o ran datblygu gwerth terfynol ein cynyrrch, rhaid ichi gytuno, Weinidog, fod hyn yn her hollbwysig i gymunedau cefn gwlad, yn enwedig i ffermwyr ac i gynhyrchwyr gwerth ychwanegol.

O ran defnyddio tagiau electronig ar gyfer ddefaid, yr oeddech yn tynnu sylw at yffaith fod gennym oddeutu 2 filiwn o ddefaid yng Nghymru. Hoffwn eich cywiro—*[Torri ar draws.]*

Os edrychchwch ar Gofnod y Trafodion, gwelwch ichi ddweud bod gennym 2 filiwn o ddefaid. Yn ôl eich ystadegau chi'ch hun, mae gennym mewn gwirionedd 9,352,000 o ddefaid. Gwelaf olwg syfrdan arnoch, ond 2 filiwn a ddywedasoch, Weinidog. Mae gennym 15,272 o ffermwyr sydd â defaid ar eu tir.

**Elin Jones:** I wish to put on record that I

yn gwybod fod dros 9 miliwn o ddefaid yng Nghymru. Dyna beth yr oeddwn yn bwriadu ei ddweud, ac mae'n ddrwg gennyl os na ddywedais hynny. Fodd bynnag, os ydych yn gwirio'r Cofnod yn yr iaith wreiddiol, gwelwch fy mod wedi dweud 9 miliwn.

**Andrew R.T. Davies:** I appreciate that it is a simple mistake to make, but the worrying thing—[*Interruption.*] Check the Record, Rhodri Glyn. It is worrying that the Labour spokesperson on rural affairs professed not to understand electronic identification. As I said, 15,000 farmers depend on sheep for their livelihood, and this could obliterate a large number of them if there is no sensible derogation from this European regulation. It is extremely worrying when the spokesman of the major party in the coalition cannot understand that.

Kirsty Williams, when proposing the amendment, highlighted the importance of co-operation. I think that everyone in the Chamber would agree with the point on co-operation and with the importance of farmers being able to stand on their own two feet in the marketplace. Standing together and co-operating would give them a far more powerful voice. This was graphically emphasised by my colleague, Paul Davies, who hosted an event the other day on behalf of First Milk. I know that the Minister and other Members have visited the site in Haverfordwest, and it shows the real benefits of farmers working in co-operation.

We talk of the red tape and the excessive bureaucracy that farmers face, and only this week, during the business statement, we heard of the mess the organic conversion scheme is in due to the additional forms introduced by your Government, which add yet another layer of bureaucracy to the system. Farmers acting on the advice of the consultants employed by WAG have been caught out. There is also duplication in the statutory and farm assurance inspections under the farm assurance schemes introduced after 1997. You must agree, Minister, that an element of synergy could offer savings to all concerned, whether the Government or the farmer. The Government currently spends £2.75 million per year on farm inspections, and yet we are always looking to ensure that

know there are over 9 million sheep in Wales. That is what I had intended to say, and I am sorry if I said something else. However, if you check the Record in the original language, you will see that I said 9 million.

**Andrew R.T. Davies:** Yr wyf yn sylweddoli mai camgymeriad syml yw hwn, ond y peth sy'n peri pryer—[*Torri ar draws.*] Darllenwch y Cofnod, Rhodri Glyn. Mae'n peri pryer bod llefarydd Llafur ar faterion gwledig wedi dweud nad oedd yn deall adnabod electronig. Fel y dywedais, mae 15,000 o ffermwyr yn dibynnu ar ddefaid am eu bywoliaeth, a gallai hyn gael gwared â nifer helaeth ohonynt oni fydd rhanddirymu synhwyrol o'r rheoliad Ewropeaidd hwn. Mae'n peri cryn bryder pan na all llefarydd y brif blaid yn y glymbiaid ddeall hynny.

Wrth gynnig y gwelliant, tynnodd Kirsty Williams sylw at bwysigrwydd cydweithredu. Credaf y byddai pawb yn y Siambr yn cytuno â'r pwynt am gydweithredu, a phwysigrwydd gallu ffermwyr i sefyll ar eu traed eu hunain yn y farchnad. Byddai sefyll gyda'n gilydd a chydweithredu yn rhoi llais cryfach o lawer iddynt. Pwysleisiwyd hyn yn gryf gan fy nghyd-Aelod Paul Davies, a drefnodd ddigwyddiad y dydd o'r blaen ar ran First Milk. Gwn fod y Gweinidog ac Aelodau eraill wedi ymweld â'r safle yn Hwlffordd, a'i fod yn dangos gwir fanteision ffermwyr yn cydweithio â'i gilydd.

Yr ydym yn sôn am y rheolau a'r fiwrocratiaeth eithafol sy'n wynebu ffermwyr, a'r wythnos hon yn unig, yn ystod y datganiad busnes, clywsom am y llanastr yn y cynllun troi'n organig oherwydd y ffurflenni ychwanegol a gyflwynwyd gan eich Llywodraeth, sy'n dod â haen arall eto fyth o fiwrocratiaeth i'r system. Cafodd ffermwyr a oedd yn gweithredu ar gyngor ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru eu rhoi mewn picil. Mae dyblygu hefyd gyda'r archwiliadau statudol a gwarant fferm dan y cynlluniau gwarant fferm a gyflwynwyd ar ôl 1997. Rhaid i chi gytuno, Weinidog, y gall elfen o synergedd gynnig arbedion i bawb dan sylw, boed yn Llywodraeth ynteu'n ffermwyr. Mae'r Llywodraeth ar hyn o bryd yn gwario tua

we get value for the Welsh pound.

We agree when we talk about the conflict of interest between food production and environmental protection, and we commend the Welsh Assembly Government on the Tir Gofal initiative that was launched by the former Government. However, food production is now coming full circle, and we are moving away from the McSherry and the Fischler reforms of the 1990s and early 2000s. There is a real challenge for the One Wales Government to engage in dialogue with the industry to develop a strategy so that cereal, livestock, and even vegetable production in Wales—although it is unsubsidised—can meet those challenges head on. We have seen the level of home production shrinking and imported food taking over a large section of the home market. Surely there is a constructive dialogue to be had, Minister. It is not a criticism; it is pointing out the obvious, is it not?

We are now moving to the show season, and we all support the Royal Welsh Show. We all believe that it is a catalyst for the success of the summer shows that spread right across Wales. Many of my colleagues have talked about their own local shows today. The Royal Welsh Show has a considerable impact on mid Wales: it injects between £40 million and £50 million into the economy. The four-day show alone provides an injection of £25 million. We believe that it is worthy of support by this institution and particularly by the Government. I welcome your contribution and your engagement with that. However, given that the Royal Welsh Show went into deficit last year and that the show in 2001 was cancelled, that dialogue is needed as a matter of urgency so that something constructive can be done in the immediate future.

I want to draw to the attention of the Minister and the One Wales Government the way in which the Royal Welsh Show embraces all sections of Wales through its host county initiative. Each year, by virtue of the 11-year cycle of host counties, every county in Wales is featured. That is a salutary lesson for you

£2.75 miliwn y flwyddyn ar archwiliadau fferm, ac eto yr ydym o hyd yn ceisio sicrhau ein bod yn cael gwerth am y bunt Gymreig.

Yr ydym yn cytuno pan soniwn am y gwrthdaro mewn buddiannau rhwng cynhyrchu bwyd a gwarchod yr amgylchedd, ac yr ydym yn llongyfarch Llywodraeth Cynulliad Cymru ar fenter Tir Gofal a lansiwyd gan y Llywodraeth flaenorol. Fodd bynnag, mae'r cylch cynhyrchu bwyd bellach yn gyflawn, ac yr ydym yn symud i ffwrdd oddi wrth ddiwygiadau McSherry a Fischler a ddigwyddodd yn y 1990au a dechrau'r 2000au. Mae'n her wirioneddol i Lywodraeth Cymru'n Un gael deialog gyda'r diwydiant i lunio strategaeth fel y gall cynhyrchu grawn, da byw a hyd yn oed llysiau yng Nghymru—er nad yw'n cael cymhorthdal—ateb yr her honno'n llawn. Gwelsom lefel y cynhyrchu cartref yn crebachu a bwyd wedi ei fewnforio yn meddiannu cyfran helaeth o'r farchnad gartref. Does bosibl nad oes lle i ddeialog adeiladol, Weinidog. Nid beirniadaeth yw hyn; mae'n fater o ddangos yr hyn sy'n amlwg, onid yw?

Yr ydym bellach yn nhymor y sioeau, ac yr ydym i gyd yn cefnogi Sioe Frenhinol Cymru. Credwn i gyd ei bod yn gatalydd i lwyddiant y sioeau haf sy'n digwydd ledled Cymru. Soniodd llawer o'm cyd-Aelodau am eu sioeau lleol eu hunain heddiw. Mae Sioe Frenhinol Cymru yn cael effaith sylweddol ar y Canolbarth: mae'n dod â rhwng £40 miliwn a £50 miliwn i mewn i'r economi. Mae'r sioe bedwar diwrnod ynddi'i hun yn cyfrannu £25 miliwn. Credwn ei bod yn haeddu cefnogaeth y sefydliad hwn ac yn enwedig gan y Llywodraeth. Croesawaf eich cyfraniad a'ch ymwneud â hynny. Fodd bynnag, o gofio bod Sioe Frenhinol Cymru wedi gwneud colled y llynedd a bod sioe 2001 wedi ei chanslo, mae angen y ddeialog honno fel mater o frws fel y bydd modd gwneud rhywbeth adeiladol yn y dyfodol agos.

Yr wyf am dynnu sylw'r Gweinidog a Llywodraeth Cymru'n Un at y ffordd y mae Sioe Frenhinol Cymru yn cofleidio pob rhan o Gymru trwy fenter y sir groesawu. Bob blwyddyn, drwy'r cylch 11-mlynedd o siroedd croesawu, rhoddir amlygrwydd i bob sir yng Nghymru. Dyna wers lesol i chi ei

to learn when promoting the Wales Millennium Centre. You could make its presence felt in all corners of Wales so that the whole country feels as though it benefits from the support given to it, perhaps by hosting initiatives there.

Our motion highlights the challenges that we face in agriculture and the rural scene in Wales. It is regrettable that you have chosen not to take constructive criticisms on board, and it is not surprising that you have failed to accept the motion or come forward with meaningful proposals to address these issues. It shows the democratic deficit of the One Wales Government when it comes to its policies on the countryside, and the nationalists' retraction of their support for rural communities.

4.50 p.m.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is that the amendment be agreed. Does any Member object? I see that there are no objections, and therefore the amendment is carried in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd y gwelliant.  
Amendment carried.*

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is that the motion be agreed. Does any Member object? I see that there are objections, and I will therefore defer voting until immediately after this item. The item is already at an end, and therefore we may proceed to a vote now. [Laughter.] Does anyone want the bell to be rung? I see that no-one does.

dysgu wrth hybu Canolfan Mileniwm Cymru. Gallech wneud ei phresenoldeb yn real ym mhob cwr o Gymru fel y bydd y wlad i gyd yn teimlo'i bod yn elwa o'r gefnogaeth a gaiff, efallai drwy drefnu mentrau yno.

Mae ein cynnig yn tynnu sylw at y sialensiaw sy'n ein hwynebu mewn amaethyddiaeth a'r sefyllfa wledig yng Nghymru. Trueni eich bod wedi dewis gwrrthod beirniadaeth adeiladol, ac nid yw'n syndod eich bod wedi methu derbyn y cynnig neu ddod â chynigion ystyrlon gerbron i ymdrin â'r materion hyn. Mae'n dangos diffyg democrataidd Llywodraeth Cymru'n Un pan ddaw'n fater o bolisiau cefn gwlad, a'r ffaith fod y cenedlaetholwyr wedi tynnu'n ôl eu cefnogaeth i gymunedau gwledig.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw cytuno'r gwelliant. A oes unrhyw Aelod yn gwrrthwynebu? Gwelaf nad oes dim gwrrthwynebiadau, ac felly caiff y gwelliant ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrrthwynebu? Gwelaf fod gwrrthwynebiadau, ac felly gohiriaf y bleidlais tan yn union wedi'r eitem hon. Mae'r eitem eisoes wedi gorffen, felly, gallwn fwrw ymlaen i bleidlais yn awr. [Chwerthin.] A oes unrhyw un am i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes neb yn dymuno hynny.

### Cyfnod Pleidleisio Voting Time

Motion NDM3993 as amended: that

*the National Assembly for Wales:*

1. commends the excellent work of Welsh farmers in producing food to the highest standards of quality and welfare;

Cynnig NDM3993 fel y'i diwygiwyd: bod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

1. yn canmol gwaith ardderchog ffermwyr Cymru yn cynhyrchu bwyd i'r safonau uchaf o ran ansawdd a lles;

2. regrets that recent changes to Meat Hygiene Service charging will adversely affect smaller Welsh abattoirs and will undermine efforts to develop locally branded produce;
3. further regrets the Welsh Assembly Government's failure to protect Welsh sheep farmers from the introduction of electronic ID;
4. acknowledges that despite the growing international demand for food, the Welsh Assembly Government's policies, red tape and regulations are reducing farm productivity;
5. calls on the Welsh Assembly Government to achieve a genuinely sustainable balance between environmental improvement schemes and food production in its policies; and
6. deplores the lack of financial support for the Royal Welsh Show given the large tourist revenue it generates for Wales;
7. calls on the Welsh Assembly Government to encourage more co-operation among Welsh farmers, to maximise returns from their produce and products and break the domination of major supermarkets over the food retail sector in Wales.
2. yn gresynu y bydd newidiadau diweddar i ffioedd y Gwasanaeth Hylendid Cig yn effeithio'n andwyol ar ladd-dai llai Cymru ac yn tanseilio ymdrechion i ddatblygu cynyrrch â brand lleol;
3. yn gresynu ymhellach wrth fethiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i amddiffyn ffermwyr defaid Cymru rhag cyflwyno ID electronig;
4. yn cydnabod er gwaethaf y twf yn y galw rhyngwladol am fwyd, bod polisiau, biwrocratiaeth a rheoliadau Llywodraeth Cynulliad Cymru'n lleihau cynhyrchiant ffermydd;
5. yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni cydbwysedd sy'n wirioneddol gynaliadwy rhwng cynlluniau i wella'r amgylchedd a chynhyrchu bwyd yn ei pholisiau; a
6. yn gofio wrth y diffyg cymorth ariannol ar gyfer y Sioe Frenhinol ac ystyried y refeniw twristiaeth mawr y mae'n ei gynhyrchu i Gymru;
7. yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i annog rhagor o gydweithrediad ymysg ffermwyr Cymru, i gael cymaint o enillion â phosibl am eu cynyrrch a thorri tra-arglyddiaeth archfarchnadoedd mawr ar y sector adwerthu bwyd yng Nghymru.

*Cynnig NDM3993 fel y'i diwygiwyd: O blaid 16, Ymatal 0, Yn erbyn 33.  
Motion NDM3993 as amended: For 16, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Burns, Angela  
Cairns, Alun  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
German, Michael  
Graham, William  
Melding, David  
Millar, Darren  
Morgan, Jonathan  
Ramsay, Nick  
Randerson, Jenny  
Williams, Brynle  
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Asghar, Mohammad  
Barrett, Lorraine  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
Evans, Nerys  
Franks, Chris  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina

Hutt, Jane  
 James, Irene  
 Jenkins, Bethan  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Elin  
 Jones, Gareth  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Lloyd, David  
 Morgan, Rhodri  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Watson, Joyce  
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig NDM3993 fel y'i diwygiwyd.  
 Motion NDM3993 as amended defeated.*

### **Dadl Fer Short Debate**

#### **Sialens Gwasanaethau Iechyd Trawsffiniol The Challenge of Cross-border Health Services**

**Jonathan Morgan:** I am delighted to be leading this final debate of the summer term on the challenges of cross-border health services. I have agreed to allow my colleagues, Angela Burns and Kirsty Williams, to contribute to the debate.

Devolution in the United Kingdom has triggered a significant number of challenges for us to deal with in this institution, but also for Westminster to deal with at a UK level. The challenge in healthcare seems to be fairly straightforward: for both institutions simultaneously to provide high-quality healthcare without deliberately or accidentally creating inequalities that could lead to imbalances between two such close neighbours. In accepting the responsibility of running the health service in 1999, this institution also took on the great responsibility of maintaining the standards of healthcare provision, and working to improve it for a sizeable chunk of the British public, and not just those resident in Wales. England would also host Welsh patients in the post-devolution era, just as it had done prior to 1999.

At this point, I pay tribute to the Minister for Health and Social Services and to the

**Jonathan Morgan:** Mae'n blesar gennys arwain y ddadl olaf hon yn nhymor yr haf ar sialens gwasanaethau iechyd trawsffiniol. Cytunais i ganiatáu i'm cyd-Aelodau, Angela Burns a Kirsty Williams, gyfrannu at y ddadl.

Mae datganoli yn y Deyrnas Unedig wedi rhoi inni nifer o sialensiau i ddelio â hwy yn y sefydliad hwn, ond hefyd i San Steffan ddelio â hwy ar lefel y DU. Ymddengys yr her mewn gofal iechyd yn weddol syml: i'r ddau sefydliad ar yr un pryd ddarparu gofal iechyd o safon uchel heb yn fwriadol nac yn ddamweiniol greu anghydraddoldeb a allai arwain at anghydwysedd rhwng cymdogion mor agos. Wrth dderbyn cyfrifoldeb rhedeg y gwasanaeth iechyd yn 1999, ymgymeroedd y sefydliad hwn hefyd â'r cyfrifoldeb mawr o gynnal safonau darparu gofal iechyd, a gweithio i'w wella i gyfran helaeth o'r cyhoedd ym Mhrydain, nid yn unig i'r rheini sy'n byw yng Nghymru. Byddai Lloegr hefyd yn cymryd cleifion o Gymru yn y cyfnod ar ôl datganoli, yn union fel y gwnâi cyn 1999.

Yn y fan hon, rhof deyrnged i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac i

Assembly Government for making yet another vintage u-turn. Just this morning, she announced that, after all the pressure brought to bear by this side of the Chamber and the threatened rebellion by Labour Assembly Members, she has decided not to send neurosurgery patients from north to south Wales for treatment. It gives me a rather strange sense of *déjà vu*. Every time a Conservative motion on health is tabled for debate in this Chamber, the Minister announces a policy u-turn just before the debate is due to start. No doubt she will claim that the announcement had always been planned, and instigates another investigation to find her imaginary mole in the Department for Health and Social Services. It is one way of running the health service, I suppose, but I am not entirely sure that Mr James Steers will be happy with the Government's pre-empting the final outcome of his review, which it commissioned in the first place. When we return in the autumn, I am thinking about tabling a motion for a debate on private sector assistance in the national health service. I thought that I would give you some warning, Minister, before your next knee-jerk announcement.

On countless occasions over the past nine years, we have argued in this Chamber about whether the NHS is in a better state today than it was in 1999. Doubtless those debates will continue, and I encourage them. However, I want this debate to focus principally on the quandary that is faced here by the Assembly Government and in Westminster by the Department of Health: synchronising the level of quality care for patients on both sides of the border between England and Wales. From the outset, we must acknowledge that, from the patient's viewpoint, there is no physical barrier between England and Wales when it comes to healthcare. For many, it comes down to simple geography. It may be that the closest hospital for a Welsh patient is in Hereford, or that the nearest dentist for an English patient is in Wrexham. Critical population masses mean that it would be wildly unrealistic to expect that every form of care and treatment could be located in every part of Wales. Wales has a proud tradition of being part of the United Kingdom, from an historical perspective, but also looking into the future,

Lywodraeth y Cynulliad am wneud tro pedol mawreddog eto fyfth. Y bore yma yn unig, wedi'r holl bwysau a ddygwyd gan yr ochr hon i'r Siambr a'r bygythiad o wrthryfel gan Aelodau Llafur y Cynulliad, cyhoeddodd ei bod wedi penderfynu peidio ag anfon cleifion niwrolawdriniaeth o'r gogledd i'r de am driniaeth. Mae'n rhoi imi ymdeimlad rhyfedd o *déjà vu*. Bob tro pan gyflwynir cynnig Ceidwadol ar iechyd i'w drafod yn y Siambr hon, bydd y Gweinidog yn cyhoeddi tro pedol mewn polisi yn union cyn cychwyn y ddadl. Mae'n siŵr y bydd yn honni i'r cyhoeddiad fod ar y gweill, ac yn rhoi ymchwiliad arall ar droed i ddod o hyd i'w hysbïwr dychmygol yn yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n un ffordd o redeg y gwasanaeth iechyd, am wn i, ond nid wyf yn hollol siŵr y bydd Mr James Steers yn hapus fod y Llywodraeth yn achub y blaen ar ganlyniad terfynol ei adolygiad, a gomisiynwyd ganddi i ddechrau. Pan ddychwelwn yn yr hydref, yr wyf yn ystyried cyflwyno cynnig ar ddadl am gymorth y sector preifat yn y gwasanaeth iechyd. Credwn y dylwn roi ychydig rybudd i chi, Weinidog, cyn eich cyhoeddiad difeddwli nesaf.

Dro ar ôl tro dros y naw mlynedd a aeth heibio, buom yn dadlau yn y Siambr hon a yw'r GIG mewn gwell cyflwr heddiw nag ydoedd yn 1999. Diau y bydd y dadleuon hynny'n parhau, ac anogaf hynny. Fodd bynnag, yr wyf am i'r ddadl hon ganolbwytio'n bennaf ar y cyfyng gyngor a wynebir yma gan Lywodraeth y Cynulliad ac yn San Steffan gan yr Adran Iechyd: cysoni lefel y gofal o safon i gleifion ar y naill ochr a'r llall i Glawdd Offa. O'r cychwyn, rhaid inni gydnabod, o safbwyt y claf, nad oes gwahanfur ffisegol rhwng Cymru a Lloegr pan ddaw'n fater o ofal iechyd. I lawer, mae'n fater o ddaearyddiaeth. Efallai fod yr ysbyty agosaf i glaf o Gymro yn Henffordd, neu fod y deintydd agosaf i glaf o Sais yn Wrecsam. Mae mäs critigol poblogaeth yn golygu y byddai'n wallgof o afrealistig i ddisgwyl y gellid cael pob math o ofal a thriniaeth ym mhob rhan o Gymru. Mae gan Gymru draddodiad balch o fod yn rhan o'r Deyrnas Unedig, o safbwyt hanesyddol, ond hefyd o edrych i'r dyfodol, a rhaid inni dderbyn ei bod yn annhebygol y byddwn yn gallu darparu pob un ganolfan ragoriaeth ar

and we must accept that it is unlikely that we will be able to provide every single centre of excellence for every form of care and treatments that patients need.

Therefore, accessing centres in England, whether specialist or secondary care, is essential. So, too, is developing, where we can, specialist centres in Wales that are accessed by English patients. We have only to look at the regional burns unit in Morriston to see an excellent example of this. Morriston should not be the only specialist centre in Wales, and it is not, but, in the future, it should not just be Welsh patients who access services in England; we should be doing what we can to attract English patients to Wales to access the services that we provide.

More so than England, Wales has huge variations in where the population is concentrated. As the First Minister rightly pointed out in his evidence to the Welsh Affairs Select Committee during its examination of cross-border health services, south Wales has roughly the same population as the Bristol area, but north Wales has only a thirteenth of the population of north-west England. I had rather hoped that the First Minister would be present in the Chamber, given that his presence at the Select Committee hearing, instead of that of the Minister for Health and Social Services, demonstrated that he, too, has a grasp of these issues.

A tradition of UK-wide service provision, together with a concentration of specialist medical services in certain localities, will further increase the likelihood of patients having to travel across the border. As modern treatment becomes more advanced, and as the NHS develops new capabilities, we should and will welcome the chance for people to access the best care possible. The ability of English and Welsh patients to access services on either side of the border is to be welcomed, and it clearly complements the availability of quality NHS care.

As the report of the House of Commons Welsh Affairs Select Committee points out, a key indicator of the success of health policy

gyfer pob math o ofal a thriniaeth y mae ar gleifion eu hangen.

Felly, mae gallu defnyddio canolfannau yn Lloegr, boed yn ofal arbenigol ynteu eilaidd, yn hanfodol. Felly hefyd ddatblygu canolfannau arbenigol yng Nghymru, lle gallwn, y gellir eu defnyddio gan gleifion o Loegr. Nid oes ond rhaid inni edrych ar yr uned losgiadau ranbarthol yn Nhreforys i weld esiampl wych o hyn. Ni ddylai Treforys fod yr unig ganolfan arbenigol yng Nghymru, ac nid ydyw, ond yn y dyfodol nid cleifion o Gymru'n unig ddylai allu cael gwasanaethau yn Lloegr; dylem fod yn gwneud yr hyn a allwn i ddenu cleifion o Loegr i Gymru i allu cael y gwasanaethau a ddarparwn ni.

Yn fwy felly nag yn Lloegr, mae gan Gymru amrywiadau enfawr o ran ble mae'r boblogaeth ddwysaf. Fel y dywedodd y Prif Weinidog, a iawn hynny, yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig pan oedd yn archwilio gwasanaethau iechyd trawsffiniol, mae gan dde Cymru yn fras yr un boblogaeth ag ardal Bryste, ond nid oes yng ngogledd Cymru ond un rhan o dri ar ddeg o boblogaeth gogledd-orllewin Lloegr. Yr oeddwn wedi rhyw obeithio y byddai'r Prif Weinidog yn bresennol yn y Siambra, o gofio bod ei bresenoldeb yng ngwrandawiad y pwylgor Dethol, yn lle'r Gweinidog dros iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn dangos ei fod ef hefyd yn deall y materion hyn.

Bydd traddodiad o ddarparu gwasanaethau ledled y DU, ynghyd â chanoli gwasanaethau meddygol arbenigol mewn rhai mannau, yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd cleifion yn gorfod teithio ar draws y ffin. Wrth i driniaethau modern ddatblygu, ac wrth i'r GIG ddatblygu galluoedd newydd, dylem groesawu'r cyfle i bobl allu cael y gofal gorau posibl a byddwn yn gwneud hynny. Dylid croesawu gallu cleifion o Gymru a Lloegr i gael gwasanaethau bob ochr i'r ffin, ac y mae'n amlwg yn ategu'r gofal safonol sydd ar gael ar y GIG.

Fel y dywed adroddiad Pwyllgor Dethol Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin, un o ddangosyddion allweddol llwyddiant polisi

from the Department of Health and the Assembly Government is that it does nothing to inhibit a cross-border flow of patients. I think that it is the first time in the history of Government that a House of Commons Select Committee has said that ‘doing nothing’ to inhibit the flow of patients is best for a Government department—so doing nothing gives the best outcome. Upon reading the report, however, a clear trend emerged almost immediately. While the general direction of travel for cross-border patients seeking secondary and specialist care was from Wales to England, that trend was sharply reversed in the case of primary care.

According to the committee, the most recent figures available in 2006 suggest that, while nearly 14,000 Welsh patients are registered with a GP in England, more than 19,000 English patients have registered with a GP in Wales. I am sure that it would be inaccurate to suggest that the Assembly Government’s free prescriptions policy is the sole reason for this discrepancy; after all, the policy was only fully rolled out after last year’s Assembly elections. However, the phased nature of the policy of reducing prescription charges might be a factor, although geographical location is the principal factor.

This is a problem that we need to identify and may have to respond to it, particularly if it increases the number of people living in England but registered in Wales. There is a financial liability that we have to deal with. It has to be budgeted for, and it could increase over time. However, more worrying is the Select Committee’s finding that tensions already exist between the Department of Health in Westminster and the Department of Health here over funding arrangements. The First Minister himself claims that certain Department of Health policies have led to English patients receiving more funding for their treatment than their Welsh counterparts receive.

The report is critical, and slams the record of both administrations, after pointing out that some Welsh patients are left to feel like second-class citizens when seeking healthcare in England. I am under no illusion about that. I firmly believe that that is partly

iechyd gan yr Adran Iechyd a Llywodraeth y Cynulliad yw nad yw’n gwneud dim i atal llif trawsffiniol cleifion. Credaf mai dyma’r tro cyntaf yn hanes Llywodraeth i un o Bwyllgorau Dethol Tŷ'r Cyffredin ddweud mai ‘gwneud dim’ i atal llif cleifion sydd orau i un o adrannau'r Llywodraeth—felly, gwneud dim sy'n rhoi'r canlyniad gorau. O ddarllen yr adroddiad, fodd bynnag, daeth tuedd glir yn amlwg bron yn syth. Er mai cyfeiriad cyffredinol teithio i gleifion trawsffiniol a oedd am gael gofal eilaidd ac arbenigol oedd o Gymru i Loegr, newidiwyd y duedd honno'n sylweddol yn achos gofal sylfaenol.

Yn ôl y pwylgor, awgryma'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael yn 2006, er bod bron i 14,000 o gleifion o Gymru wedi cofrestru gyda meddyg teulu yn Lloegr, mae dros 19,000 o gleifion o Loegr wedi cofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru. Yr wyf yn siŵr na fyddai'n gywir awgrymu mai polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o bresgripsiynau am ddim yw'r unig reswm am yr anghysondeb hwn; wedi'r cyfan, dim ond wedi etholiadau'r Cynulliad y llynedd y cyflwynwyd y polisi'n llawn. Fodd bynnag, gall natur gyfnodol y polisi o ostwng taliadau presgripsiwn fod yn ffactor, er mai lleoliad daearyddol yw'r prif ffactor.

Mae hon yn broblem y mae angen inni ei nodi a hwyrach fod yn rhaid inni ymateb iddi, yn enwedig os bydd yn cynyddu nifer y bobl sy'n byw yn Lloegr ond sydd wedi cofrestru yng Nghymru. Mae yna atebolrwydd ariannol y mae'n rhaid inni fynd i'r afael ag ef. Rhaid cyllidebu ar ei gyfer, a gallai gynyddu ymhen amser. Fodd bynnag, yr hyn sy'n peri mwy o bryder yw bod y Pwyllgor dethol wedi gweld bod tensiynau eisoes yn bod rhwng yr Adran Iechyd yn San Steffan a'r Adran Iechyd yma ynghylch trefniadau cyllido. Hawlia'r Prif Weinidog ei hun fod rhai o bolisiau'r Adran Iechyd wedi golygu bod cleifion o Loegr yn cael mwy o gyllid ar gyfer eu triniaeth nag a gaiff eu cymheiriad yng Nghymru.

Mae'r adroddiad yn feirniadol, ac mae'n collfarnu record y ddwy weinyddiaeth, ar ôl nodi bod rhai cleifion o Gymru yn teimlo fel dinasyddion eilradd pan fyddant yn ceisio cael gofal iechyd yn Lloegr. Nid oes gennyl unrhyw gamargraff am hynny. Yr wyf yn

because of the 18-week waiting time target in England, while the same target in Wales stands at some 26 weeks. There is confusion over the application of that target, Minister. Although the First Minister has been in contact with the Chair of the Welsh Affairs Select Committee about its reference to the 26-week waiting time target for Wales, the report states that, by the end of this Assembly 'term', that target should be reached, when I know that the directions given to the NHS state that it should be reached by the end of December 2009. However, I understand why there is confusion: it is because 'One Wales', signed by the First Minister and the Deputy First Minister, makes no reference to December 2009; it merely states by the end of the Assembly 'term'.

5.00 p.m.

The eight-week gap between the 18-week waiting time target in England and the 26-week waiting time target in Wales has an impact on how Welsh patients are treated in England. The message is that, if you are Welsh, your complaint, your need for treatment, and your case will be given less priority than if you are English. The committee has called on the Ministers for health here and in Westminster to tackle this problem immediately. I would be interested to learn whether our Minister has spoken to the Department of Health in London since the publication of the committee's report, whether she wishes to move towards an 18-week waiting time target in Wales, or whether she thinks that that eight-week discrepancy is feasible in the long term. As the Minister was not available to answer the select committee's questions, I ask her today what her department will do to help patients to get equitable access to treatment in England. What is the level of negotiation, and what protocols now exist between the Assembly's department for health and the Department of Health at Westminster? What is the Wales Office doing to ensure that Welsh patients get decent access to services, even if those services are in England?

The issue with cross-border service provision was entirely foreseeable, both prior to

grediniol ei fod yn rhannol oherwydd y targed amser aros o 18 wythnos yn Lloegr, tra mae'r un targed yng Nghymru oddeutu 26 wythnos. Mae yna ddryswch ynghylch cymhwysôr targed hwnnw, Weinidog. Er i'r Prif Weinidog fod mewn cysylltiad â Chadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig oherwydd ei gyfeiriad at y targed amser aros 26 wythnos i Gymru, dywed yr adroddiad, erbyn diwedd 'tymor' y Cynulliad hwn, y dylid cyrraedd y targed hwnnw, a minnau'n gwybod bod y cyfarwyddiadau a roddwyd i'r GIG yn dweud y dylid ei gyrraedd erbyn diwedd Rhagfyr 2009. Fodd bynnag, yr wyf yn deall pam y mae dryswch: mae hynny am nad oes cyfeiriad yn 'Cymru'n Un', a lofnodwyd gan y Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog, at Ragfyr 2009; mae'n dweud yn unig erbyn diwedd 'tymor' y Cynulliad.

Mae'r bwlc o wyth wythnos rhwng y targed o 18 wythnos ar gyfer amser aros yn Lloegr a'r targed o 26 wythnos ar gyfer amser aros yng Nghymru yn effeithio ar y modd y mae cleifion o Gymru'n cael eu trin yn Lloegr. Y neges yw, os ydych o Gymru bydd eich cwyn, eich angen am driniaeth, a'ch achos yn cael llai o flaenoriaeth na phe byddech yn dod o Loegr. Mae'r pwyllgor wedi galw ar y Gweinidogion iechyd yma ac yn San Steffan i ddelio â'r broblem hon ar unwaith. Hoffwn glywed a yw ein Gweinidog wedi siarad â'r Adran Iechyd yn Llundain ers cyhoeddi adroddiad y pwyllgor, a yw'n dymuno symud tuag at darged o 18 wythnos ar gyfer amser aros yng Nghymru, neu a yw'n credu bod y gwahaniaeth hwnnw o wyth wythnos yn ymarferol yn y tymor hir. Gan nad oedd y Gweinidog ar gael i ateb cwestiynau'r pwyllgor dethol, gofynnaf iddi heddiw beth y bydd ei hadran yn ei wneud i helpu cleifion i allu cael triniaeth yn deg yn Lloegr. Beth yw lefel y trafod, a pha protocolau sy'n bod yn awr rhwng adran iechyd y Cynulliad a'r Adran Iechyd yn San Steffan? Beth y mae Swyddfa Cymru yn ei wneud i sicrhau bod cleifion o Gymru'n gallu cael gwasanaethau'n briodol, hyd yn oed os yw'r gwasanaethau hynny yn Lloegr?

Yr oedd mater darparu gwasanaethau trawsffiniol yn gwbl ragweladwy, cyn

devolution and daily, when any major health policy announcement is made by either administration. It was foreseeable years ago and it will get worse as the health services develop unless we have protocols in place. I urge the Assembly Minister to do what she can to ensure that people in Wales who need access to healthcare in England get it and get it as quickly as they can. It is inexcusable that there is no proper provision to cater for patients who fall between Offa's gap. I accept that the numbers and sums of money involved might be relatively small compared with the rest of the health budget, but we cannot ignore the fact that this matters to patients living near the border between Wales and England. If we are to continue to strive towards ensuring a universal health service for everyone in Great Britain, where there is equity of access to decent services, it is high time the Assembly Minister had a conversation with her counterpart Ministers at Westminster.

**Angela Burns:** I thank Jon Morgan for giving me a minute of his time. I wanted to pick up on one aspect of Jon's debate, namely that there is no physical barrier between Wales and England when it comes to healthcare, from the patient's viewpoint. I do not think that it matters if you are a Welsh patient needing healthcare in Hereford or if you are a patient from deepest Pembrokeshire needing healthcare in Bristol; you want the best. When cases are referred from England to Wales, funding is sought from English trusts after the case has been taken, which ensures that there is no delay in treatment. However, if you are a Welsh patient needing treatment in England, you cannot have that treatment until the English hospital has it in writing that it will be paid for by Wales. That is an absurd situation with the gatekeepers of the NHS keeping the gates too firmly shut. That is one thing if you are a Welsh patient waiting for a hip replacement operation, but if you need surgery to remove a brain tumour, like one of my constituents, it is entirely different. Had we not been involved in his case—and I probably have three or four cases like his, though not all with the same ailment—and kept pushing for the recalcitrant gatekeeper to give us admission, that patient might still be waiting for their

datganoli a bob dydd, pan wneir unrhyw gyhoeddiad pwysig am bolisi iechyd gan y naill weinyddiaeth neu'r llall. Gellid ei ragweld flynyddoedd yn ôl, a bydd yn gwaethgu wrth i'r gwasanaethau iechyd ddatblygu oni fydd gennym brotocolau ar waith. Anogaf Weinidog y Cynulliad i wneud popeth yn ei gallu i sicrhau bod pobl yng Nghymru sydd ag angen i allu cael gofal iechyd yn Lloegr yn ei gael cyn gynted ag y bo modd. Mae'n anfaddeuol nad oes darpariaeth briodol ar gyfer cleifion sy'n disgyn rhwng bwlch Offa. Yr wyf yn derbyn y gallai'r niferoedd a'r symiau arian dan sylw fod yn fach o'u cymharu â gweddill y gyllideb iechyd, ond ni allwn anwybyddu'r ffaith fod hyn yn bwysig i gleifion sy'n byw ger y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Os ydym i ddal i ymdrechu i sicrhau gwasanaeth iechyd sydd ar gael i bawb ym Mhrydain Fawr, lle y mae mynediad cyfartal i wasanaethau gweddus, mae'n hen bryd i Weinidog y Cynulliad gael sgwrs â'u Gweinidogion cyfatebol yn San Steffan.

**Angela Burns:** Diolch i Jon Morgan am roi munud o'i amser i mi. Yr oeddwn am drafod un agwedd ar ddadl Jon, sef nad oes rhwystr ffisegol rhwng Cymru a Lloegr o ran gofal iechyd, o safbwyt y claf. Nid wyf yn credu ei bod o bwys a ydych yn glaf o Gymru ac arnoch angen gofal iechyd yn Henffordd ynteu'n glaf o bellafion sir Benfro ac arnoch angen gofal iechyd ym Mryste; yr ydych am gael y gorau. Pan gyfeirir achosion i Gymru o Loegr, ceisir cyllid gan ymddiriedolaethau yn Lloegr ar ôl cymryd yr achos, ac mae hynny'n sicrhau na fydd cyn rhoi triniaeth. Fodd bynnag, os ydych yn glaf o Gymru ac arnoch angen triniaeth yn Lloegr, ni allwch gael y driniaeth honno nes bydd yr ysbyty yn Lloegr wedi cael gwybod ar ddu a gwyn y bydd Cymru'n talu amdani. Mae honno'n sefyllfa hurt lle y mae ceidwaid pyrth y GIG yn cadw'r drysau ar gau'n rhy dynn. Mae hynny'n un peth os ydych yn glaf o Gymru sy'n aros am lawdriniaeth i osod clun newydd, ond mae'n beth cwbl wahanol os oes arnoch angen llawdriniaeth i dynnu tiwmor o'r ymennydd, fel un o'm hetholwyr i. Pe na baem wedi ymwneud â'i achos—ac mae'n debyg fod gennyl dri neu bedwar achos fel ei achos ef, er nad ydynt i gyd yn ymwneud â'r un salwch—ac wedi dal i bwysio am gael mynediad gan geidwad

treatment. England should adopt exactly the same methodology as Wales, and I am sure that there can be a better level of trust between England and Wales so that, when we send patients there for treatment, they know that we will honour the debt.

**Kirsty Williams:** I thank Jonathan Morgan for letting me contribute to this debate. The select committee's report stated what many of my constituents have known for a considerable time: the differential waiting times between England and Wales discriminate against Welsh patients when they visit hospitals in England, such as Hereford. Consultants are quick to tell patients in their out-patient appointments, 'Sorry, you will have to wait longer because you are Welsh'.

If the Minister sets differential waiting times for those patients, the difficulty is that that then discriminates against other patients who are waiting for operations in Welsh hospitals. Therefore, the only way that this can be resolved is for the Minister to set the same target as the Minister for health has done in England.

I appreciate the fact that the Minister wants to get as much resource for the Welsh national health service as she possibly can, but breaking relationships between patients and doctors that have existed for many years in English hospitals, just because we now want those patients to be treated in Wales, is not always appropriate. If a patient is willing to come back to Wales to receive treatment, that is fine, but if a patient has been receiving treatment in a hospital in England for many years, it is not right for politicians to break that relationship between doctor and patient.

We have to keep one eye on the ball with regard to the planning of services in England, because that has an impact on Welsh citizens. Radiotherapy services across the border are a perfect example. We need to see this Government lobbying for those services to be placed in Hereford so that Welsh patients can have the access to those services that other

ystyfnig y porth, gallai'r claf hwnnw fod yn aros am ei driniaeth o hyd. Dylai Lloegr fabwysiadu'r un fethodoleg yn union â Chymru, ac yr wyf yn siŵr y gellir cael gwell ymddiriedaeth rhwng Cymru a Lloegr er mwyn iddynt wybod, pan anfonwn gleifion yno i gael triniaeth, y byddwn yn talu'r ddyled.

**Kirsty Williams:** Diolch i Jonathan Morgan am adael imi gyfrannu i'r ddadl hon. Dywedai adroddiad y pwylgor dethol yr hyn y mae llawer o'm hetholwyr wedi'i wybod ers cryn amser: mae'r amseroedd aros gwahanredol yng Nghymru a Lloegr yn gwahaniaethu yn erbyn cleifion o Gymru pan ânt i ysbytai yn Lloegr, fel yr un yn Henffordd. Mae meddygon ymgynghorol yn dweud yn syth wrth rai sy'n eu gweld fel cleifion allanol, 'Mae'n ddrwg gennyf, bydd yn rhaid ichi aros yn hirach gan eich bod o Gymru'.

Os yw'r Gweinidog yn pennu amseroedd aros gwahanredol ar gyfer y cleifion hynny, y drafferth yw bod hynny wedyn yn gwahaniaethu yn erbyn cleifion eraill sy'n aros am lawdriniaethau mewn ysbytai yng Nghymru. Felly, yr unig ffordd i ddatrys hyn yw i'r Gweinidog osod yr un targed ag a wnaeth y Gweinidog dros iechyd yn Lloegr.

Yr wyf yn sylweddoli bod y Gweinidog am gael cynifer o adnoddau â phosibl i wasanaeth iechyd gwladol Cymru, ond nid yw'n briodol bob amser torri cysylltiadau rhwng cleifion a meddygon sy'n bodoli ers blynnyddoedd lawer mewn ysbytai yn Lloegr, dim ond am ein bod bellach am i'r cleifion hynny gael eu trin yng Nghymru. Os yw claf yn barod i ddod yn ôl i Gymru i gael triniaeth, gorau oll. Ond os yw claf wedi bod yn cael triniaeth mewn ysbyty yn Lloegr am flynyddoedd lawer, nid yw'n iawn i wleidyddion dorri'r cysylltiad hwnnw rhwng meddyg a chlaf.

Rhaid inni gadw llygad barcud ar y modd y mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio yn Lloegr, gan fod hynny'n effeithio ar ddinas yng Nghymru. Mae gwasanaethau radiotherapi ar draws y ffin yn enghraifft berffaith. Mae angen inni weld y Llywodraeth hon yn lobio o blaid lleoli'r gwasanaethau hynny yn Henffordd fel y gall

Welsh patients receiving treatment in Wales have.

**The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart):** This is a subject that has a tendency to generate more heat than light; yet a more dispassionate analysis soon reveals that it is far more a matter of practicality, as Jonathan started to outline, than high politics in certain areas.

The border is a simple fact of life. For a long time before the Assembly was established, administrative devolution meant that there were different arrangements on either side of the border. However, I concur with Angela Burns that for the vast majority of patients, the border is, and should be, invisible. In general practice, there are well-worked-out sets of arrangements that mean that individuals who live on either side of the border can access services on the other side without difficulty or disruption. We have seen that many English patients are enjoying the services of Welsh general practitioners. I do not think that that is anything to do with prescriptions; it is probably about where they live and the accessibility of the GP services.

At hospital level, changes in the English national health service have put some strains on the managerial arrangements that underpin established patterns of patient referral. I think that it is fair to underline the basic fact that these are not changes that have emanated from the Assembly Government; the English system has, for example, moved to a tariff-based, payment-by-results system of administration in secondary care. I understand, of course, that these changes have implications for Welsh commissioners. I am pleased to be able to report that good progress has been made in detailed work between officials to update the protocol that has governed these relationships to date. Therefore, I think that we can see that genuine progress has been made in that area.

This is a point made by the Welsh Affairs Committee's interim report on cross-border services. It makes the constructive point that managers need to agree fair and sustainable

cleifion o Gymru gael y gwasanaethau hynny y mae cleifion eraill sy'n cael triniaeth yng Nghymru yn eu cael.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Mae hwn yn destun sy'n dueddol i greu mwy o wres nag o oleuni; ac eto mae dadansoddi mwy diduedd yn dangos yn fuan ei fod yn fater o ymarferoldeb, fel y dechreuodd Jonathan ddangos, yn hytrach na gwleidyddiaeth uchelfrydig mewn rhai ardaloedd.

Mae'r ffin yn un o ffeithiau bywyd. Am gyfnod hir cyn sefydlu'r Cynulliad, yr oedd datganoli gweinyddol yn golygu bod trefniadau gwahanol o bobtu'r ffin. Fodd bynnag, yr wyf yn cyd-fynd ag Angela Burns fod y ffin yn anweladwy i'r mwyafrif llethol o gleifion, ac mai felly y dylai fod. Mewn ymarfer cyffredinol, mae setiau o drefniadau da sy'n golygu bod unigolion o bobtu'r ffin yn gallu cael gwasanaethau ar yr ochr arall heb anhawster na tharfu. Yr ydym wedi gweld bod nifer o gleifion o Loegr yn cael gwasanaethau ymarferwyr cyffredinol yng Nghymru. Ni chredaf fod a wneolo hynny ddim oll â phresgripsiynau; mae'n debyg ei fod yn ymwneud â'u man preswyl a hwylustod y gwasanaethau meddygol teulu.

Ar lefel ysbty, mae newidiadau yn y gwasanaeth iechyd gwladol yn Lloegr wedi rhoi rhywfaint o bwysau ar y trefniadau rheoli sy'n sail i batrymau sefydledig ar gyfer cyfeirio cleifion. Credaf ei bod yn deg tynnu sylw at y ffaith syml nad newidiadau sydd wedi deillio o Lywodraeth y Cynulliad yw'r rhain: er enghraifft, mae'r system yn Lloegr wedi troi'n system weinyddu sy'n seiliedig ar dariffau ac yn talu yn ôl canlyniadau ym maes gofal eilaidd. Yr wyf yn deall, wrth gwrs, fod goblygiadau yn y newidiadau hyn i gomisiynwyr yng Nghymru. Yr wyf yn falch gallu dweud bod cynnydd da wedi ei wneud mewn gwaith manwl rhwng swyddogion i ddiweddarwr protocol sydd wedi rheoli'r cysylltiadau hyn hyd yma. Felly, credaf y gallwn weld bod cynnydd gwirioneddol wedi digwydd yn y maes hwnnw.

Mae hwn yn bwynt a wnaethpwyd yn yr adroddiad dros dro gan y Pwyllgor Materion Cymreig ar wasanaethau trawsffiniol. Mae'n gwneud pwynt adeiladol i'r perwyl fod angen

arrangements. I will bear in mind some of the commissioning points that you have raised with me, Angela, when I look at future arrangements in the service. We must also have arrangements that are not only fair and sustainable, but that actually work for individuals and can be seen to be working.

The report also contains a number of factual errors, as Jonathan illustrated, in relation to waiting times, which is unfortunate given its focus on this issue. Our date for achieving a 26-week wait is December 2009, rather than May 2010 as the interim report suggests. I do not believe that there is any confusion in any of this; that target is well known, and we are talking here about a select committee on Welsh affairs.

**Jonathan Morgan:** I understand the confusion because the report cites the sentence used in the ‘One Wales’ agreement. It may be that the way in which you have drafted the ‘One Wales’ agreement is not specific enough to say that this target will be met by December 2009, but it gives the distinct impression that it is a target that should be met by the end of this Assembly term.

**Edwina Hart:** I do not accept that there is any confusion. This target is well known across the piece.

Our system will not relate to GP referrals only, as in England. That has a bearing on the discussion about times. The report under-represents the scale of our ambition in Wales, because we allow for referrals from elsewhere. I have been told that if the English system was the same as mine, there would probably be a 30 per cent increase in some of the waiting times and lists there. Therefore, there are also issues around that.

I am sure that the committee will want to correct this impression in its final report. The basic thrust of the committee’s approach is that the needs and interests of patients should

i reolwyr gytuno ar drefniadau teg a chynaliadwy. Byddaf yn cadw mewn cof rai o'r pwyntiau yr ydych wedi'u codi gyda mi ar gomisiynu, Angela, wrth ystyried trefniadau'r gwasanaethau yn y dyfodol. Rhaid inni hefyd gael trefniadau sydd nid yn unig yn deg ac yn gynaliadwy, ond sy'n gweithio mewn gwirionedd dros unigolion ac i'w gweld yn gweithio.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys nifer o wallau ffeithiol, fel y dangosodd Jonathan, mewn cysylltiad ag amseroedd aros, ac mae hynny'n anffodus o gofio'r sylw y mae'n ei roi i'r mater hwn. Ein dyddiad ar gyfer sicrhau arhosiad o 26 wythnos yw Rhagfyr 2009, yn hytrach na Mai 2010 fel y mae'r adroddiad dros dro yn ei awgrymu. Ni chredaf fod dryswch o gwbl ynghylch hyn; mae'r targed hwnnw'n adnabyddus, ac yr ydym yn sôn yma am bwyllgor dethol ar faterion Cymreig.

**Jonathan Morgan:** Gallaf ddeall y dryswch am fod yr adroddiad yn cyfeirio at y frawddeg a ddefnyddiwyd yng nghytundeb ‘Cymru’n Un’. Efallai nad yw'r modd yr ydych wedi drafftio cytundeb ‘Cymru’n Un’ yn ddigon manwl i ddweud y cyrhaeddir y targed hwn erbyn Rhagfyr 2009, ond mae'n rhoi'r argraff bendant ei fod yn darged y dylid ei gyrraedd erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn.

**Edwina Hart:** Nid wyf yn derbyn bod dryswch o gwbl. Mae'r targed hwn yn gyfarwydd i bawb.

Ni fydd ein system yn ymwneud â chyfeirio gan feddygon teulu'n unig, fel y mae yn Lloegr. Mae hynny'n berthnasol i'r drafodaeth am amseroedd. Mae'r adroddiad yn tangynrychioli maint ein huchelgais yng Nghymru, gan ein bod yn darparu ar gyfer cyfeirio o fannau eraill. Cefais ar ddeall ei bod yn debygol, pe byddai'r system yn Lloegr yr un fath â'm system i, y byddai rhai o'i rhestrau a'i hamseroedd aros 30 y cant yn hirach. Felly, mae angen ystyried hynny hefyd.

Yr wyf yn siŵr y bydd y pwylgor am gywi'r argraff hon yn ei adroddiad terfynol. Y pwyslais pennaf yn ymagwedd y pwylgor yw mai anghenion a buddiannau cleifion a

drive decision making, and I do not think that anybody in this Chamber would dissent from that point of view.

5.10 p.m.

At a tertiary level, it has always been the case that certain specialities require a certain population base, which means that services have to be provided outside Wales. You only have to look at the size of Wales to see that. We are smaller than some English regions in terms of what we can deliver. The report of James Steers's review of neuroscience services in north Wales, which has been released today, makes it clear that complex neurosurgery procedures will be carried out at the Walton Centre.

**Carl Sargeant:** For the sake of clarity, my colleagues have made strange accusations about your pre-empting the James Steers's report, so could you tell us exactly when James Steers issued this report to you?

Interestingly, the Liberal Democrats and the Conservatives argued on 4 July 2007—I refer specifically to what Alun Cairns said—that it was a pragmatic solution to encourage people to travel from north Wales to Swansea and Cardiff. That assertion was supported by Jenny Randerson. Who is talking about u-turns here? They have totally changed their policy. It is unbelievable.

**Edwina Hart:** On James Steers's report, I believe that he wrote to me on 10 July, enclosing his report. I thought that it was only polite that I should issue the report to the Assembly, as I had indicated that I hoped that his full report would be completed before we went into recess. I commissioned the James Steers report; I wanted him to look at services across Wales. He recommends the enhancement of services in north Wales, and I hope that that will be the case when he looks at other services across Wales with regard to what we can do on neurosciences. It is not a u-turn. I commissioned the report and I have now accepted it. I do not think that we need to be churlish during the last debate

ddylai ysgogi penderfyniadau, ac ni chredaf fod neb yn y Siambwr hon na fyddai'n derbyn y safbwyt hwnnw.

Ar lefel drydyddol, mae wedi bod yn wir erioed fod rhai arbenigaethau'n galw am sail boblogaeth benodol, sy'n golygu ei bod yn rhaid darparu gwasanaethau y tu allan i Gymru. Nid oes rhaid ichi ond edrych ar faint Cymru i weld hynny. Yr ydym yn llai na rhai o ranbarthau Lloegr o ran yr hyn y gallwn ei ddarparu. Mae'r adroddiad ar adolygiad James Steers o wasanaethau niwrowyddoniaeth yng ngogledd Cymru, sydd wedi'i gyhoeddi heddiw, yn egluro y bydd triniaethau niwrolawfeddygol cymhleth yn cael eu cyflawni yng Nghanolfan Walton.

**Carl Sargeant:** Er mwyn eglurder, mae fy nghyd-Aelodau wedi gwneud honiadau rhyfedd gan ddweud eich bod yn achub y blaen ar adroddiad James Steers, felly, a allech ddweud wrthym pryd yn union y rhoddodd James Steers yr adroddiad hwn i chi?

Mae'n ddiddorol fod y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr wedi dadlau ar 4 Gorffennaf 2007—cyfeiriaf yn benodol at yr hyn a ddywedodd Alun Cairns—ei fod yn ateb ymarferol i annog pobl i deithio o'r gogledd i Abertawe a Chaerdydd. Cefnogwyd yr haeriad hwnnw gan Jenny Randerson. Pwy sy'n sôn am droeon pedol yn y fan hon? Maent wedi newid eu polisi'n llwyr. Mae'n anghredadwy.

**Edwina Hart:** Ynghylch adroddiad James Steers, credaf iddo ysgrifennu ataf ar 10 Gorffennaf, gan amgáu ei adroddiad. Tybiais mai mater o gwreisi oedd imi roi'r adroddiad i'r Cynulliad, gan imi ddweud fy mod wedi gobeithio y byddai ei adroddiad llawn yn barod cyn y toriad. Myfi a gomisiynodd adroddiad James Steers; yr oeddwn am iddo edrych ar wasanaethau ledled Cymru. Mae'n argymhell y dylid gwella gwasanaethau yn y gogledd, a gobeithio y bydd hynny'n digwydd pan fydd yn edrych ar wasanaethau eraill ledled Cymru gyda golwg ar yr hyn y gallwn ei wneud ynghylch niwrowyddorau. Nid tro pedol ydyw. Comisiynais yr adroddiad ac yr wyf wedi'i dderbyn yn awr.

before we go into recess, because there is a lot of consensus among us on the importance of people being able to access appropriate services in the health service. There should not be any barriers because it is the national health service.

James Steers's report also makes it clear that developments in medical care mean that pre-operative and post-operative services can, in future, be provided closer to home. That is also an important principle, and seems to me to identify the key principle that needs to be applied to this whole cross-border debate. Our aim, as an Assembly Government, is to ensure that we deliver as many services as close to home as possible—provided, always, that those services are safe and of the best quality. That means that, in future, more services will be provided on the Welsh side of the border, where those services meet the test that I have outlined, just as some services will continue to be provided in England. When you talk about services being provided elsewhere, you think particularly about children's services. Historically, people have gone to certain children's hospitals and children's centres, and that has been supported, as any parent would go anywhere in the UK for service provision in this area, and we have to recognise that.

In all of this, medical advance and secure administration come together to ensure that, as far as the Assembly Government is concerned, it is the best interests of patients, rather than lines on a map, that are at the forefront of our policy making. On that note of consensus, I will finish.

**The Deputy Presiding Officer:** Thank you very much. That brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.13 p.m.  
The meeting ended at 5.13 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau  
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
Asghar, Mohammad (Plaid Cymru – The Party of Wales)

Ni chredaf fod angen inni fod yn anfoesgar yn ystod y ddadl olaf cyn y toriad, gan fod llawer o gonsensws yn ein mysg am bwysigrwydd gallu pobl i gael gwasanaethau priodol yn y gwasanaeth iechyd. Ni ddylid cael dim rhwystrau oherwydd y gwasanaeth iechyd gwladol yw hwn.

Mae adroddiad James Steers yn egluro hefyd fod datblygiadau mewn gofal meddygol yn golygu y gellir darparu gwasanaethau cyn ac ar ôl llawdriniaethau yn nes i'r cartref yn y dyfodol. Mae honno'n egwyddor bwysig hefyd, ac yn fy marn i mae'n dangos yr egwyddor allweddol y mae angen ei defnyddio yn y ddadl hon am faterion trawsffiniol. Ein nod, fel Llywodraeth Cynulliad, yw sicrhau ein bod yn darparu cynifer ag y bo modd o wasanaethau'n agos i'r cartref—ar yr amod, wrth gwrs, fod y gwasanaethau hynny'n ddiogel ac o'r ansawdd gorau. Mae hynny'n golygu, yn y dyfodol, y darperir mwy o wasanaethau ar ochr Cymru i'r ffin, os yw'r gwasanaethau hynny'n bodloni'r maen prawf a ddisgrifiaisiau, yn union fel y bydd rhai gwasanaethau'n dal i gael eu darparu yn Lloegr. Pan fydd rhywun yn sôn am ddarparu gwasanaethau mewn mannau eraill, bydd yn meddwl yn neilltuol am wasanaethau plant. Mae pobl wedi arfer mynd i ysbytai plant a chanolfannau plant penodol, a chefnogwyd hynny, oherwydd byddai unrhyw riant yn mynd i unrhyw fan yn y DU i gael darpariaeth gwasanaeth yn y maes hwn, a rhaid inni gydnabod hynny.

Ym mhob agwedd ar hyn, mae datblygiadau meddygol a gweinyddu diogel yn mynd law yn llaw i sicrhau, o ran Llywodraeth y Cynulliad, mai'r hyn sydd o les i gleifion, yn hytrach na llinellau ar fap, sy'n cael y sylw pennaf wrth inni lunio polisi. Gorffennaf ar y nodyn cytûn hwnnw.

**Y Dirprwy Lywydd:** Diolch yn fawr iawn i chi. Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)  
 Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)  
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)  
 Davies, Alun (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
 Griffiths, John (Llafur – Labour)  
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)  
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)  
 Hart, Edwin (Llafur – Labour)  
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 James, Irene (Llafur – Labour)  
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ann (Llafur – Labour)  
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)  
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)  
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)  
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)  
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Sergeant, Carl (Llafur – Labour)  
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)  
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)  
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)